# Bundle Health Board - Welsh 26 September 2024

0 MATERION RHAGARWEINIOL

1 24/181 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb

2 24/182 Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda - y Cadeirydd

3 24/183 Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2024 i'w cymeradwyo

24.183 Cofnodion Y Bwrdd Iechyd 25.7.24 v0.3 drafft

4 24/184 Materion yn codi a chofnod o gamau gweithredu - y Cadeirydd

24.184 Cofnod Camau Gweithredu

5 24/185 Adroddiad Profiad Dinasyddion - y Cadeirydd / Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu

24.185 Adroddiad Profiad Dinasyddion v1.0

6 24/186 Adroddiad y Cadeirydd - y Cadeirydd
*I ddilyn*

7 24/187 Adroddiad y Prif Weithredwr - y Prif Weithredwr
*I ddilyn*

8 24/188 Adroddiad yr Is-gadeirydd

24.188 Adroddiad Is_Gadeirydd Medi 2024

9 BLAENORIAETHAU STRATEGOL

10 24/189 Siarter y Plant - Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd Cyhoeddus
*I ddilyn*

11 24/190 Gofal Brys ac Argyfwng - Prif Weithredwr / Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
*I ddilyn*

12 24/191 Adroddiad Gogledd Cymru Iach - Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd Cyhoeddus

24.191a Gogledd Cymru Iach 260924

24.191b Gogledd Cymru Iach Medi 2024

13 24/192 Polisi ac Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch - y Prif Weithredwr
*I ddilyn*

14 24/193 Pwyllgor Pobl a Diwylliant 8.8.24

24.193 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Pobl a Diwylliant 08.08.24 V2

15 GWELLA ANSAWDD

17 24/194 Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu - y Prif Weithredwr
*I ddilyn*

18 24/195 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 15.8.24 a 6.6.24 - Aelod Annibynnol Caroline Turner

24.195 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau 15.8.24 v1.0

24.195b Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Ansawdd Diogelwch a Phrofiadau 6.6.24

19 24/196 Adroddiad Ansawdd Blynyddol - Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
*I ddilyn*

20 EITEMAU I'W TRAFOD

21 24/197 Adroddiad Gwella Ansawdd - Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth

24.197 Adroddiad Gwella Ansawdd_Medi 2024

22 24/198 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth 27.8.24 - yr Is-gadeirydd

24.198 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth 27.8.24 v1.0

23 24/199 Adroddiad Perfformiad Integredig - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro

24 24/200 Adroddiad Cyllid - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro

25 24/201 Datblygu Canolfan Iechyd a Lles Integredig Caergybi - Achos Amlinellol Strategol - Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio
*I ddilyn*

26 24/202 Diweddariad ar Gyfraddau Ffioedd Blynyddol Gofal Iechyd Parhaus y GIG 2024/2025 - Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro

24.202 Diweddariad ynghylch Cyfraddau Ffioedd Blynyddol Gofal Iechyd Parhaus y GIG 2024_25

27 LLYWODRAETHU A SICRWYDD

28 24/203 Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2023/24 - Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd

24.203a Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2023-2024

24.203b App2 Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2023-2024

24.203c App2 Adroddiad Blynyddol Mwy na geiriau 2023-2024

29 24/204 Adroddiad blynyddol Lefel Staff Nyrsio - Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth

24.204a Adroddiad Sicrwydd Tair Blynedd Gydymffurfio Deddf Lefelau Staff Nyrsio Medi 2024

24.204b Adroddiad Sicrwydd Tair Blynedd Gydymffurfio Deddf Lefelau Staff Nyrsio Medi 2024

30 24/205 Adroddiad ar yr Ymchwiliad Covid - Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

24.205 Diweddariad Ymchwiliad Covid 19 v1.00

31 24/206 Parodrwydd am Argyfwng, Gwytnwch ac Ymateb (EPRR) - Adroddiad Blynyddol 2023/24 a Diweddariad Strategol - Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Cyhoeddus
*I ddilyn*

32 24/207 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol - Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol

24.207a Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol Medi 2024 v1.0

33 ER GWYBODAETH

34 24/208 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori
*24/208.1 Pwyllgor Archwilio 12.9.24 & 18.7.24*
*24/208.2 Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau 20.8.24*
*24/208.3 Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 1.8.24*
*24/208.4 Pwyllgor Tâl Awst - Medi 2024*
*24/208.5 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 13.9.24*
*24/208.6 Fforwm Partneriaeth Lleol 10.9.24*

24.208.1 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio 10.8.24 v1.0

24.208.2 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethaut 20.08.24 V1.00

24.208.3 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl 01.08.24 V1.0

24.208.4 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Tal Awst_Medi 24 v2.0

24.208.5 Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 13.9.24 v1.0

24.208.6 Adoddiad Cadeirydd FFPLl 10.09.24 V0.1

35 MATERION I GLOI

36 24/209 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod - y Cadeirydd (ar lafar)

37 24/210 Dyddiad y cyfarfod nesaf 28 Tachwedd 2024

38 Penderfyniad i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd
*"Penderfynwyd bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu gwahardd o weddill y cyfarfod hwn gan ystyried natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, a byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."*

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 25 Gorffennaf 2024 yng Nghanolfan Optic, Llanelwy, a'i ffrydio'n fyw dros Zoom**

| Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards | Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| Urtha Felda | Aelod Annibynnol |
| Chris Field | Aelod Annibynnol |
| Dr Jane Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar gyfer Iechyd y Cyhoedd |
| Fôn Roberts | Aelod Cyswllt – yn cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Carol Shillabeer | Prif Weithredwr |
| Dr Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio |
| Dr Caroline Turner | Aelod Annibynnol |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Jane Wild | Aelod Cyswllt – Cadeirydd, Fforwm y Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol |
| Gareth Williams | Is-gadeirydd |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **Yn Bresennol** | |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Teresa Owen | Arweinydd Gweithredol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) a'r Gymraeg (rhan o'r cyfarfod) |
| Philippa Peake Jones | Pennaeth Materion Corfforaethol |
| Dr Anita Pierce | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol MHLD (rhan o'r cyfarfod) |
| Dr James Risley | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Pam Wenger | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| Iain Wilkie | Cyfarwyddwr Dros Dro MHLD |
| Diane Davies | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol – ar gyfer y cofnodion |
| Geoff Ryall-Harvey | Prif Swyddog Llais Gogledd Cymru |
| Carol Williams | Dirprwy Brif Swyddog Llais Gogledd Cymru |
| David Graves | Aelod o'r cyhoedd drwy wahoddiad |
| Sylwedyddion | |
| Carwyn Wycherley | Uwch Ysgrifennydd Preifat i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Iaith Gymraeg |

| Eitem ar yr Agenda | Cam Gweithredu |
|---|---|
| **24/139 Gair o groeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Aelodau Annibynnol Dyfed Jones, yr Athro Mike Larvin, Dr Nick Lyons, y dirprwyodd Dr James Risley ar ei ran, a Mike Parry, Aelod Cyswllt. | |
| **24/140 Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda**<br><br>Ni wnaed unrhyw ddatganiadau | |
| **24/141 Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 10.7.24 (Eithriadol), 30.06.24 ac 11.04.24 (Eithriadol)**<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Cytuno** bod y cofnodion yn gofnod cywir a gwir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2024, 30 Mehefin 2024 ac 11 Ebrill 2024. | |
| **24/142 Materion yn Codi a Chofnod Cryno o'r Camau Gweithredu**<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Cytuno** ar y log wedi'i ddiweddaru;<br>• **Nodi** bod gwaith gwella'n cael ei wneud i sicrhau cysondeb ar draws dogfennau llywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgor. | |
| **24/143 Stori'r Staff – Stori'r Cydlynydd Gweithgareddau Cefnogi Dementia**<br><br>**24/143.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y fideo a oedd yn rhoi cipolwg ar rôl Cydlynydd Gweithgareddau Cymorth Dementia a sut maent yn cefnogi cleifion BIPBC sydd â dementia. Rôl bwysig y gobeithir y bydd ei niferoedd yn cynyddu o'r 35 cyfredol ar draws BIPBC.<br><br>**24/143.2** Cafwyd trafodaeth ar sut roedd y trydydd sector yn cymryd rhan mewn datblygiadau, yn ogystal â chynlluniau i ddatblygu gweithwyr nyrsio a chymorth ymhellach yn y maes hwn gyda hyfforddiant priodol ar draws y Cymunedau Gofal Iechyd Integredig. Mewn ymateb i'r Aelod Annibynnol, Urtha Felda, rhoddwyd sicrwydd bod cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cartref, lle'r oedd cefnogaeth briodol, i helpu gyda'r cof a darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff.<br><br>**24/143.3** Darparwyd llawer o enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol Aelodau'r Bwrdd mewn ysbytai cymunedol o rolau a chynlluniau tebyg, fel ymuno ag ysgolion lleol ynghyd â datblygiadau posibl gyda sefydliadau partner a thrydydd sector eraill.<br><br>**24/143.4** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ei bod yn falch iawn o'r unigolion brwdfrydig a'u rôl newydd. Croesawodd y Bwrdd y cyflwyniad, gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr, ac edrychwyd ymlaen at ddatblygiadau pellach yn y gwasanaeth.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • **Nodi'r** adroddiad. | |
| **24/144 Adroddiad y Cadeirydd**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y cyfleoedd a gafodd i weld nifer o ddatblygiadau traws-gymunedol cadarnhaol a oedd yn cefnogi Iechyd a Lles pobl yn y gymuned ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd, fel y cynllun Bwyd Da ar Ynys Môn. Rhannodd enghraifft o'r fraint o fod yn sefydliad partner gyda Project Search, sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc lleol sydd ag anableddau corfforol neu ddysgu i hyfforddi, i gael amrywiaeth o brofiadau gwaith ac, o bosib, dod o hyd i gyflogaeth. Fel y cyflogwr mwyaf yng Ngogledd Cymru, croesawodd y cyfle i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gefnogi'r grwpiau hyn o bobl ifanc a datblygu rhagor o gyfleoedd, ar y cyd â sefydliadau partner eraill, ledled Gogledd Cymru.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'r** adroddiad. | |
| **24/145 Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>**24/145.1** Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at ddathliadau, yn enwedig Diabetes a gwaith a gydnabyddir yn genedlaethol gyda phlant, a heriau hefyd. Dywedodd y byddai'r Bwrdd yn cael gweld adroddiadau cynnydd yn rheolaidd o ran yr ymholiad Covid. O ran cryfhau penodiadau lefel uwch parhaol ar lefel y Bwrdd, a'r rheini sy'n ei gefnogi, dywedodd fod gwaith recriwtio'n mynd rhagddo i sicrhau cyflenwad llawn o aelodau gweithredol y bwrdd, ac roedd hi'n falch o adrodd y byddai Steven Powell yn ymuno â BIPBC fel Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu ym mis Medi, tra byddai Gareth Evans yn ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Canolfan y Gymuned Iechyd Integredig cyn bo hir. Diolchodd y Cadeirydd i Gareth Evans am ei gyfarfod Bwrdd diwethaf a'r ymrwymiad a wnaeth fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd.<br><br>**24/145.2** Cytunodd y Prif Weithredwr fod datblygu'r cwrs MPharm ym Mhrifysgol Bangor yn cael ei groesawu'n fawr wrth symud tuag at ragnodi gan fferyllwyr a fyddai'n bwysig iawn i'r strategaeth glinigol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'r** adroddiad. | |
| **24/146 Adroddiad yr Is-gadeirydd**<br><br>Roedd yr Is-gadeirydd yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i weld gwaith ar y rheng flaen a diolchodd i gydweithwyr am eu hamser o ran darparu ar gyfer yr ymweliadau niferus a gynhaliwyd mewn gwahanol rannau o'r Bwrdd Iechyd. Diolchodd y Cadeirydd iddo hefyd am ei ymrwymiad i ddysgu'r Gymraeg drwy gwrs Cymraeg dwys yn ddiweddar.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'r** adroddiad. | |
| **STRATEGOL** | |
| **24/147 Ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion** | |

24/147.1 Darparodd Prif Swyddog Llais gyd-destun, gan ddatgan bod y teuluoedd yn teimlo'n fwy gobeithiol. Fodd bynnag, er bod y dull gweithredu'n teimlo'n wahanol, roedd rhywfaint o amheuaeth yn parhau. Roeddent yn gofyn i'r Bwrdd newydd gyflawni newid yn gyflym. Byddai sefydlu'r Panel Cynghori Arbenigol newydd yn cael ei groesawu er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu cyflawni.

**24/147.2** Byddai Llais yn parhau i weithio gyda'r Is-gadeirydd a'r Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) Dros Dro ac yn croesawu diweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd Bwrdd BIPBC i sicrhau gwelededd, a bod modd edrych yn adeiladol ar yr holl argymhellion i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol, a nodi camau gweithredu newydd os oes angen wrth symud ymlaen. Byddai'n bwysig gweld gwasanaethau MHLD yn eu cyfanrwydd a chael gwybod am fynychter diweddar y bobl sy'n meddwl am ladd eu hunain, sydd angen sylw.

**24/147.3** Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd yr adroddiad ac ymrwymiad y Bwrdd i ddangos eu bod yn symud ymlaen yn hyderus mewn ymateb i'r amheuaeth a fynegwyd. Roedd y Bwrdd wedi gofyn am gyngor ac arferion da o bell ac agos.

**24/147.4** Siaradodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, yn hytrach na maes MHLD yn unig, i sicrhau nad oedd y materion yn cael eu hailadrodd mewn mannau eraill. Byddai'r system rheoli ansawdd sy'n cael ei chyflwyno yn cryfhau hyn. Pwysleisiodd bwysigrwydd dysgu a gwrando ar bobl â phrofiadau go iawn, a chydnabu, gyda diolch, y cyfarfodydd diweddar yr oedd hi, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi eu mynychu â theuluoedd.

**24/147.5** Nododd yr Arweinydd MHLD Gweithredol bwysigrwydd sicrhau nad oedd y profiadau blaenorol byth yn cael eu hanghofio, ac y byddai darparu gwasanaethau cryfach a mwy diogel wrth symud ymlaen yn gofalu am gleifion BIPBC. Tynnodd sylw at feysydd yn y cynllun ymateb a fyddai'n derbyn sylw penodol, e.e. cryfhau seicoleg a therapyddion. Byddai cofnodion iechyd electronig yn rhan bwysig o'r datrysiad, gan wella prosesau llywodraethu a rhoi mwy o hyder i deuluoedd a'r cyhoedd. Pwysleisiodd yr angen i gydweithio gyda Llais a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt i sicrhau bod y newidiadau yn symud ymlaen mewn ffordd integredig gyda hyder ac ymddiriedaeth.

**24/147.6** Diolchodd yr Is-gadeirydd, fel yr Aelod Annibynnol Iechyd Meddwl arweiniol, i bawb am eu cyfraniad a'r agwedd gytbwys ac ystyriol sy'n cael ei mabwysiadu. Croesawodd oruchwyliaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, ac awgrymodd y byddai'n bwysig sicrhau bod profiad presennol y claf hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith monitro wrth symud ymlaen. Roedd gwella'r broses o reoli cwynion yn bwysig iawn er mwyn symud ymlaen. Roedd pwysigrwydd cyfathrebu (wedi'i adlewyrchu yng ngham gweithredu 1) yn gofyn am arweinyddiaeth go iawn i fynd i'r afael â hyn ar draws y Bwrdd Iechyd, nid dim ond MHLD. Roedd darparu ystafelloedd iechyd corfforol i'w groesawu wrth gydnabod pwysau ar ystadau mewn safleoedd acíwt. Roedd cefnogi staff yn

| | |
|---|---|
| hanfodol i'w galluogi i gyflawni eu rolau heriol, a rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol parhaol. Roedd symud oddi wrth benodiadau dros dro yn angenrheidiol. Roedd angen canolbwyntio ar therapïau seicolegol a therapïau siarad. Roedd angen cael tystiolaeth o welliannau a byddai gwrando'n hollbwysig er mwyn herio amheuon.<br><br>**24/147.7** Mewn ymateb i sylw gan yr aelod annibynnol, Urtha Felda, cytunodd y Prif Weithredwr fod cyfleoedd buddsoddi mewn ymchwil i'w harchwilio. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Byddai chwe adroddiad cynnydd MHLD misol yn cael eu darparu i'r Bwrdd fel y cytunwyd yn flaenorol. Croesawodd sefydlu Panel Cynghori Arbenigol newydd a oedd yn adrodd drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau. Ategodd y Prif Weithredwr yr ymrwymiad i fwrw ymlaen â gwelliannau gyda gonestrwydd a didwylledd.<br><br>**24/147.8** Croesawodd Prif Swyddog Llais yr ymrwymiad a hysbyswyd a gofynnodd am sicrwydd y byddai swydd wag cadeirydd y Panel Cynghori Arbenigol yn 'annibynnol'.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Cymeradwyo** ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o'r enw '*Moving Forward Together*';<br>• **Cymeradwyo'r** dull gweithredu sy'n cael ei amlinellu a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig. | |
| **24/148 Achos Busnes Amlinellol Datrysiad Digidol Iechyd Meddwl Pob Oed**<br><br>**24/148.1** Cyflwynodd y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth yr achos busnes amlinellol. Dywedodd mai'r dystiolaeth wrth symud ymlaen oedd gweithio'n wahanol a sicrhau bod y dystiolaeth o gadw cofnodion cleifion yn hawdd, yn effeithiol ac yn gywir, wrth ddarparu gofal gwych bob tro. Gallai hyn gael ei gefnogi gan gofnodion gofal iechyd electronig (EHR) yn BIPBC.<br><br>**24/148.2** Ymunodd y Cyfarwyddwr Meddygol MHLD â'r cyfarfod i egluro ei rôl fel Uwch Swyddog Cyfrifol ac i bwysleisio'r cyfle y byddai'r EHR yn ei gynnig o ran trawsnewid clinigol a darparu gwasanaethau MHLD llawer gwell i bobl Gogledd Cymru. Dywedodd fod staff yn barod i groesawu datrysiad EHR a fyddai hefyd yn diwallu anghenion Rheoliad 28. Pwysleisiodd y gwelliannau a'r manteision y byddai gwybodaeth gyfoes, ac osgoi amrywiadau clinigol, yn eu cynnig wrth ddefnyddio'r datrysiad.<br><br>**24/148.3** Dywedodd y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth fod costau £10m dros 4 blynedd hefyd yn cynnwys costau gweithredu, a phwysleisiodd y byddai gweithredu'n cymryd 3 blynedd i'w gwblhau ar draws pob oedran o fewn gwasanaethau MHLD. Roedd y Panel Buddsoddi Digidol yn ystyried y buddsoddiad y diwrnod hwnnw, a nodwyd bod Cyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru wedi nodi, drwy lythyr, y byddai'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddarparu i Ysgrifennydd y Cabinet, yn amodol ar benderfyniad y Panel Buddsoddi Digidol, maes o law. | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **24/148.4** Cododd Aelodau'r Bwrdd nifer o gwestiynau. Mewn perthynas ag arbedion posibl, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro, ac eraill, fod llawer o botensial oherwydd ffeilio, trosglwyddiadau clinig a rhyddhau gofod storio cofnodion papur, llai o ddyblygu wrth gofnodi data, a oedd yn rhyddhau amser ar gyfer gofal cleifion, ac yn lleihau amseroedd aros. Byddai gwireddu manteision mesuradwy yn cael ei fesur yn y cam achos busnes terfynol. Dywedodd hefyd y byddai angen i hyn, ac achosion busnes eraill, fynegi arbedion, effeithlonrwydd ac aliniad ag amcanion strategol mewn adroddiadau, er bod y trafodaethau hyn yn anodd.<br><br>**24/18.5** Roedd yr aelodau hefyd yn cwestiynu integreiddio â systemau digidol mewnol neu bartneriaeth yn y dyfodol.<br><br>**24/148.6** Byddai'r datrysiad yn rhan bwysig o'r newidiadau yr oedd angen i BIPBC eu gwneud gyda'i gynlluniau. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i gefnogi'r angen am gofnod iechyd electronig effeithiol i gleifion, a chroesawodd frwdfrydedd y staff a fynegwyd gan y rhai oedd yn bresennol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Cymeradwyo'r** Achos Busnes Amlinellol Datrysiad Digidol Iechyd Meddwl Pob Oed.<br><br>*Gadawodd yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer Iechyd Meddwl y cyfarfod* | |
| **24/149 Rhwydwaith Fasgwlaidd Gogledd Cymru – adroddiad diweddaru**<br><br>**24/149.1** Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem, a oedd yn faes allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau ac yn rhan o fesurau arbennig. Byddai'r system rheoli ansawdd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, yn parhau i gael ei defnyddio yn y ffocws ar wasanaethau fasgwlaidd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio y bu ail-lunio gwasanaethau yn dilyn pryderon a godwyd 10 mlynedd yn ôl ac, er nad oedd y daith wedi bod yn syml, cafwyd llawer o welliannau, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y tîm wedi gallu addasu a mabwysiadu er mwyn gwella'n barhaus a chyfrannu at ddata'r rhwydwaith a oedd yn dangos aeddfedrwydd yn y gwasanaeth. Er bod llawer o feysydd yn gweithredu'n dda, roedd rhai yn dal i gael eu monitro'n agos drwy gynllun gwella integredig. Myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio ar y gwelliannau o ran arferion ymgysylltu staff meddygol yn ystod y cyfnod, gan gynnwys darparu rhai llawdriniaethau fasgwlaidd na fyddai wedi bod yn bosibl heb yr hwb unigol a'r gwasanaeth teilwredig a ddarparwyd.<br><br>**24/149.2** Cyfeiriodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sylw'r Bwrdd at y gwelliannau a amlinellir yn yr adroddiad, yn enwedig o ran newidiadau diwylliannol, ymgysylltu clinigol adeiladol a phrosesau llywodraethu cryfach.<br><br>**24/149.3** Rhannodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch arsylwadau craffu diweddar o adroddiadau fasgwlaidd i'r Pwyllgor, a oedd wedi rhoi sicrwydd ar welliant, yn fewnol a drwy ddata allanol. Roedd yn bwysig cynnal y monitro | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| hwn yn y Pwyllgor a chydnabod yr angen i barhau i weithredu'r gwelliannau a nodwyd.<br><br>**24/149.4** Mewn ymateb i'r Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio gefndir i'r rhesymau dros y newidiadau a'r gwelliannau ymarferol a diwylliannol a wnaed. Dywedodd fod dysgu defnyddiol wedi bod o ran gweithio gyda gwasanaethau cyfagos, a fyddai'n cael ei gadw mewn cof mewn gwaith gwella yn y dyfodol. Yn ogystal, rhannodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol y drafodaeth genedlaethol ehangach gadarnhaol a oedd yn cael ei chynnal. Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi bod gwelliannau wedi cael eu gwneud drwy gydweithio, gan mai uchelgais Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Gogledd Cymru. Mynegodd ei ddiolchgarwch am y gwaith a wnaed.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi** Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Fasgwlaidd, yn benodol lefel y cynnydd a wnaed a statws presennol y gwasanaeth yn dilyn asesiad allanol;<br>• **Cymeradwyo**'r cynnig ar gyfer adolygiad pellach gan gymheiriaid ymhen 12 mis i sicrhau gwelliant parhaus, gan adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau. | |
| **24/150 Contract Cynyddu Digidol**<br><br>**24/1500.1** Cyflwynodd y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth yr eitem gan egluro'r angen i gyflwyno arbenigedd digidol allanol i BIPBC, nid yn unig i ddatblygu cymwysiadau meddalwedd ond hefyd i sicrhau bod gweithwyr BIPBC yn cael eu huwchsgilio i gynyddu gallu sefydliadol er mwyn bodloni cymorth digidol yn effeithiol i amcanion strategol y sefydliad, e.e. Cofnod Iechyd Electronig MHLD. Nododd y trefniadau cyllido a gofynnodd am gael dirprwyo i'r Tîm Gweithredol i gymeradwyo contractau cynyddu o fewn y paramedrau a amlinellir, h.y. hyd at uchafswm o £2m o gyfanswm gwariant a oedd wedi'i gynnwys o fewn cyllidebau presennol.<br><br>**24/150.2** Cwestiynodd yr aelod annibynnol, Rhian Watcyn Jones, y risg o fuddsoddi mewn adnodd trydydd parti a allai, o ganlyniad, gyflogi gweithwyr BIPBC hyfforddedig. Roedd y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth yn cydnabod y pwynt. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd ffactorau marchnad ehangach i'w hystyried ac roedd potensial o hyd i ddatblygu a chadw doniau lleol.<br><br>**24/150.3** Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd datblygu pobl ifanc lleol, ac anogwyd y Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth i ddarparu cyfleoedd i gefnogi datblygiad pobl leol, lle bo hynny'n bosibl, yn y gwasanaethau cynyddu dan sylw.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi** casgliadau'r adroddiad a chydnabod yr angen ar unwaith i gryfhau a thyfu ei ddatblygiad cyfyngedig ar gyfer rhaglenni meddalwedd mewnol, a'i allu i newid busnes a'i gapasiti gyda chymorth partneriaid trydydd parti arbenigol; | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • **Cytuno** â dyfarnu contractau cynyddu hyd at y gwerth uchaf o £2m, yn amodol ar achosion busnes cymeradwy, gan gydnabod y bydd terfyn gwario gwerth y contract yn £1,160,000 yn seiliedig ar y cyllidebau a'r cymeradwyaethau sydd ar gael hyd yma;<br>• **Cytuno** i ddirprwyo cymeradwyaethau yn y dyfodol, uwchlaw'r terfyn £1,160,000, i'r Tîm Gweithredol;<br>• **Cytuno** y byddai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau yn cael diweddariadau rheolaidd ar y contractau, er mwyn sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol. | PW |
| **24/151 Polisi Pryderon Integredig**<br><br>**24/151.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr eitem, gan egluro cefndir a datblygiad y polisi, gan bwysleisio'r elfen integredig a'r swyddogaeth ar draws yr holl sefydliad a oedd wedi cael ymgynghoriad priodol a oedd hefyd yn cynnwys adborth gan Llais, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru. Tynnodd sylw at y ffaith y byddai cwynion, digwyddiadau a marwolaethau yn cael eu trin drwy ganolfan pryderon integredig. Roedd cynllun gweithredu ar waith i sicrhau y byddai'r polisi'n weithredol erbyn mis Medi 2024 ac yn cael ei gefnogi'n briodol gan staff drwy ddarparu pecyn cymorth safonol ar gyfer cysondeb.<br><br>**24/151.2** Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio swmp y gwaith a wnaed, a thynnodd sylw at y ddarpariaeth bwysig o wybodaeth fusnes y gallai'r allbynnau a ddarperir hefyd fwydo i mewn i gynllunio sefydliadol.<br><br>**24/151.3** Gofynnodd yr aelod annibynnol, Rhian Watcyn Jones, a oedd prif uchelgais Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wreiddio gwasanaethau cadarn ac amserol wedi'i fynegi'n ddigonol yn y polisi – gan mai pur anaml y cafodd gwasanaethau llwyddiannus gwynion i adrodd arnynt ac roedd yn fesur o welliant. Roedd yr Is-gadeirydd hefyd yn ceisio sicrhau bod y camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a datgelu digwyddiadau niweidiol posibl yn gynnar gyda chleifion yn cael eu cyfeirio'n benodol yn y dogfennau. Roedd hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygu prosesau'n ystyried y mannau cyfyng o awdurdodi, e.e. caniatâd corfforaethol a allai arafu cynnydd cleifion a theuluoedd sy'n aros am atebion yn sylweddol.<br><br>**24/151.4** Holodd y Cadeirydd sut y gellid gwneud newid diwylliannol, o'r ymateb awtomatig o gychwyn y broses gwyno, i fynd i'r afael â'r materion drwy ddysgu a gwella ansawdd o fewn gwasanaethau. Mewn ymateb i'r aelod annibynnol, Clare Budden, ymrwymodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i archwilio'r Polisi ymhellach i ystyried ei sylwadau ynghylch cynnwys gweithdrefnol, a hefyd i dderbyn yr adborth cyffredinol a fyddai'n cael ei archwilio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.<br><br>**24/151.5** Pwysleisiodd y Prif Weithredwr fod angen i'r sefydliad wella'r modd yr ymdriniwyd â phryderon a bod y polisi'n rhoi cyfle i fynd i'r afael â hyn, ynghyd â gwella ansawdd ymchwiliadau a safonau. Roedd cofnodi materion thematig a sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd yn allweddol i'r dull gwella cyflym sydd ei angen, gan nodi y byddai monitro mesurau perfformiad effeithiol, yn enwedig | AW/PW |

| | |
|---|---|
| amseroedd ymateb rhesymol, yn dangos bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr *yn* poeni'n fawr am y materion hyn.<br><br>**24/151.6** Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ar y gwelliannau a gyflwynwyd, gan gynnwys prosesau awdurdodi mwy effeithiol ond priodol i sicrhau prydlondeb, goruchwyliaeth weithredol gryfach a darparu fforymau i staff gyfrannu'n weithredol at ddysgu a chymryd rhan ynddo. Awgrymodd hefyd ddulliau diogel y gellid eu cyflwyno er mwyn i staff fod yn fwy hyderus wrth uwchgyfeirio materion a godwyd yn briodol, er enghraifft wrth erchwyn y gwely. Er ei bod yn bwysig gweithio tuag at dderbyn nifer fach o gwynion, roedd yr un mor bwysig sicrhau bod proses effeithiol ar waith ar gyfer adrodd ar gwynion a bod cleifion a theuluoedd yn ei deall yn glir. Mewn ymateb i'r aelod annibynnol, Karen Balmer, cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i groeswirio yn erbyn Polisi Llywodraethu Gwybodaeth BIPBC ar amserlenni storio a'u hymgorffori yn y dogfennau.<br><br>**24/151.7** Dywedodd y Cadeirydd fod yr angen am newid diwylliannol yn thema gyffredin a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod trafodaethau'r dydd.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Cymeradwyo**'r polisi ar yr amod bod y diwygiadau a gyflwynwyd yn cael eu cynnwys. | AW |
| **24/152 Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 - Chwarter 1**<br><br>**24/152.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio yr adroddiad, gan amlinellu'r cyraeddiadau a gyflawnwyd ddiwedd chwarter un. Mae'n werth nodi bod 66% wedi cael eu cyflawni, 7 i fod i gael eu cwblhau erbyn 31 Gorffennaf, ac roedd 6 yn hwyr ac nad oedd ganddynt gynlluniau lliniaru a fyddai'n golygu eu bod yn ôl ar y trywydd iawn o fewn cyfnod byr. Tynnwyd sylw hefyd at y crynodeb rheoli newid yn y ddogfen.<br><br>**24/152.2** Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn hanfodol bod gan y sefydliad eglurder ynghylch y 5 amcan strategol a'r cerrig milltir sy'n angenrheidiol i gyflawni yn eu herbyn, a bod hyn yn cael ei ddeall yn well o lawer na 2 flynedd yn ôl. Byddai'n anodd ac yn heriol sicrhau cyflawni yn erbyn y targedau perfformiad a osodwyd yn Gofal wedi'i Gynllunio, ond roedd ganddo ffocws sefydliadol clir.<br><br>**24/152.3** Dywedodd y Cadeirydd fod y sefydliad wedi dangos gwelliannau ariannol a llywodraethu a'i bod bellach yn angenrheidiol iawn i sicrhau gwelliannau o ran cyflawni perfformiad.<br><br>**24/152.4** Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio fod cydbwysedd o uchelgais wedi'i osod ar draws y chwarteri adrodd, lle'r oedd llinell sylfaen fwy realistig yn chwarter 2 a oedd yn symud ymlaen yn dda. O ran cwestiwn yr Is-gadeirydd am y cynllun Trin yn ei Dro, dywedodd fod newid sylweddol enfawr wedi digwydd. Fodd bynnag, nid oedd yn ddigonol eto i alinio â'r targed a osodwyd.<br><br>**Penderfynwyd bod** y Bwrdd wedi | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| • **Derbyn sicrwydd** ar y cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 1, ynghyd â'r heriau a amlygwyd;<br>• **Cymeradwyo**'r rheolaethau newid a amlinellwyd yn y papur. | |
| **24/2023 Adroddiad Terfynu'r Cynllun Blynyddol 2023/24**<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio sicrwydd bod y camau na chawsant eu cwblhau yng nghynlluniau Cyflawni Blynyddol a Mesurau Arbennig y flwyddyn flaenorol wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 a oedd yn disodli'r angen am 2 gynllun ar wahân.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'**r adroddiad a chymeradwyo'r rheolaethau newid a amlinellir yn y papur. | |
| **24/154 Adroddiad Perfformiad Integredig**<br><br>**24/154.1** Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro y swyddogion gweithredol unigol sy'n gyfrifol am adrannau o'r adroddiad i ddarparu diweddariadau yn y meysydd hyn, gan nodi y byddai cyllid yn cael sylw yn eitem 24/156.<br><br>**24/154.2** Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sylw at y mesurau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a adroddwyd, gan gynnwys 2 ddigwyddiad 'byth' newydd, 22 digwyddiad adroddadwy newydd, a bod 6 codydd clinigol dan hyfforddiant wedi'u penodi. O ran y gweithlu, bu gostyngiad sylweddol yn nifer y swyddi nyrsio gwag drwy gadw staff a recriwtio sylweddol, a oedd hefyd yn ddangosydd ansawdd da sylweddol.<br><br>**24/154.3** Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl fod sylw penodol gan dimau'r gweithlu yn sicrhau mai dim ond staff nyrsio asiantaeth priodol oedd yn cael eu defnyddio lle bo angen. Tynnodd sylw'r Bwrdd at fesurau newydd sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i ddarparu gwelededd i bobl a'r bwriad cyn bo hir i gyflwyno dangosfwrdd diwylliant i fesur Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel sefydliad tosturiol. Roedd absenoldeb salwch yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Trosiant staff nyrsio oedd y trydydd gorau yng Nghymru erbyn hyn. Tynnodd sylw at y ffaith bod deall y rhesymau pam fod staff yn gadael hefyd yn cael sylw, a fyddai'n rhoi mwy o eglurder i'r sefydliad.<br><br>**24/154.4** Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Dros Dro sylw at y perfformiad heriol o ran amseroedd aros cleifion mewn Adrannau Achosion Brys ac mewn ambiwlansys, a oedd angen dangos gwelliant i gleifion a staff drwy'r amrywiol weithgareddau a oedd yn cael buddsoddiad yn y meysydd hyn. Tynnodd sylw at y rhain, e.e. datblygiadau llwybrau, cyfarfodydd gyda gwasanaethau Ambiwlans, y llif gorau posibl, mynediad cyflym cymunedol a rheoli pobl tra yn yr Adran Achosion Brys, a oedd i gyd yn rhan o raglen newid mawr PBC ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ymhelaethodd ar hyn mewn ymateb i ymholiad gan yr aelod annibynnol, Urtha Felda. | |

| | |
|---|---|
| **24/154.5** Tynnodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro sylw at gynnydd mewn perthynas â'r £44m o Gyllid Gofal wedi'i Gynllunio sydd wedi'i neilltuo, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud gwelliannau yn y meysydd hyn. Roedd yn flaenoriaeth fawr i newid amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau Cleifion Allanol, o gynydd (oddeutu 24,000) i ostyngiad sylweddol. Byddai ystyriaeth o fentrau amrywiol i fynd i'r afael â hyn yn cael ei phenderfynu yn y sesiwn breifat i ddilyn, gan gynnwys canolbwyntio ar gleifion sy'n aros am amser maith. Roedd systemau archebu, argaeledd diagnostig, perfformiad canser a dermatoleg i gyd yn canolbwyntio'n benodol ar welliannau. Er bod gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) yn perfformio'n dda ar y cyfan, roedd perfformiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn cael ei herio'n sylweddol. Roedd y Cymunedau Gofal Iechyd Integredig yn canolbwyntio ar ffyrdd o fwcio cleifion sy'n aros yn hir ar draws y Bwrdd Iechyd.<br><br>**24/154.6** Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi gwelliannau i fformat yr adroddiad. Fodd bynnag, gofynnodd i'r Prif Weithredwr alluogi darparu gwybodaeth ychwanegol ar draws yr adroddiad a oedd yn nodi'n glir y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion perfformiad a darparu gwasanaethau i'r cleifion y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn eu gwasanaethu.<br><br>**24/154.7** Mewn ymateb i'r aelod annibynnol, Chris Field, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod y taflwybrau ar gyfer gwella pryderon ar y trywydd iawn o ystyried y prosesau a'r ffocws gwell yr oedd ei thimau'n symud ymlaen, er y gallai fod oedi wrth aros am wybodaeth gan bartneriaid allanol. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai cyflwyno mesur lleol fod yn arwydd gwell o berfformiad.<br><br>**24/154.8** Tynnodd yr aelod annibynnol, Caroline Turner, sylw at bryderon ynghylch cyfraddau brechu a gofynnodd am welliannau. Yn ogystal, holodd pam nad oedd modd symud cleifion a oedd yn aros hiraf ar unwaith i 'res flaen y ciw'.<br><br>**24/154.9** Mynegodd yr aelod annibynnol, Clare Budden, bryder ynghylch y diffyg data perfformiad cyfoes, a gofynnodd bod hyn yn cael sylw, gan fod adroddiadau ariannol ar gael i'r Bwrdd yn brydlon. Holodd hefyd pam fod amrywiadau cryf rhwng y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol, ac a oedd cynnydd llwyddiannus mewn un ardal yn cael ei rannu'n ddigonol at ddiben dysgu gwersi mewn mannau eraill.<br><br>**24/154.10** Nododd y Cadeirydd fod thema gyffredin yn codi o ran sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu fel un, yn hytrach nag ar wahân.<br><br>**24/154.11** Galwodd yr Is-gadeirydd yn angerddol i symud ymlaen a darparu adnoddau digonol ar gyfer y gwasanaeth trefnu apwyntiadau er mwyn gwella amseroedd aros hir i gleifion gyda chlinigwyr PBC. Pwysleisiodd ef a'r Cadeirydd yr angen i fynd i'r afael â'r mater. Amlinellodd y Prif Weithredwr y dull cymhelliant, cefnogaeth a chanlyniadau difrifol a ddarparwyd gan y fframwaith perfformiad i wella'r sefyllfa. Cydnabu'r pwysau amser difrifol ar y Bwrdd Iechyd a'r dull gorchymyn a rheoli sy'n cael ei ddefnyddio i wella tyniant, a oedd yn cael ei fonitro'n gyson. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro fod cyfarfodydd wythnosol yr uwch dîm arwain yn cael eu cynnal i dargedu darparu'r | RC |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| gwasanaethau angenrheidiol i gleifion sy'n aros yn hir fel blaenoriaeth. Roedd ymgysylltu clinigol cadarnhaol yn digwydd ac roedd disgwyl y byddai'r cleifion hynny a oedd wedi aros hiraf yn cael eu cofrestru erbyn diwedd mis Awst 2024.<br><br>**24/154.12** Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn canolbwyntio ac yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r maes hwn er mwyn i gleifion o fewn y Bwrdd Iechyd gael eu gweld yn briodol ac o fewn amser rhesymol.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Adolygu a nodi** cynnwys yr adroddiad | |
| **24/155 Adroddiad Ansawdd**<br><br>**24/155.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad. Tynnodd sylw at y ffaith bod arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd wedi darparu adborth cadarnhaol cychwynnol ar y gwelliannau a welwyd, ac roedd potensial i ddad-ddwysáu ddigwydd. Roedd IRMER hefyd wedi cael ei gynnal. Nodwyd bod adroddiadau'r Ombwdsmon ac adroddiadau'r Ymchwiliad wedi'u cyhoeddi. Tynnodd sylw hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud i roi sylw i Gwympiadau a Briwiau Gwasgedd a Gafwyd yn yr Ysbyty (HAPU).<br><br>**24/155.2** Holodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau a ellid darparu rhagor o ddyfnder mewn adroddiadau yn y dyfodol i adlewyrchu'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion a'r canlyniadau. Roedd hi'n arbennig o bryderus ynghylch sut yr adroddwyd am friwiau pwyso, a sut roedd modd gwahaniaethu rhwng y rhai a gafwyd yn yr ysbyty ac mewn mannau eraill. Roedd cyflwyno dangosfyrddau ansawdd i'w croesawu, nid yn unig at ddibenion mewnol ond hefyd ar gyfer cleifion a theuluoedd. Mewn ymateb i'r aelod annibynnol, Clare Budden, amlinellwyd llwybr llywodraethu monitro camau gweithredu adroddiad AGIC gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, a oedd yn cynnwys ei hadroddiad sicrwydd cadeirydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio.<br><br>**24/155.3** Cafwyd trafodaeth hefyd ar faterion arweinyddiaeth a diwylliannol a oedd wedi dod yn thema reolaidd o bryderon. Gofynnodd yr aelod annibynnol, Urtha Felda, i adroddiadau yn y dyfodol ddarparu manylion am archwiliadau a gwblhawyd.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'r** adroddiad | AW<br><br><br><br><br><br><br><br><br>AW |
| **24/156 Adroddiad Cyllid Chwarter 1**<br><br>**24/156.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro ei adroddiad i'r Bwrdd gan adlewyrchu'r sefyllfa ariannol heriol barhaus. Nododd yr aelodau y diffyg o £12.8m hyd yma eleni, a oedd yn cynrychioli amrywiad o £7.9m ar gyfer y chwarter cyntaf yn erbyn diffyg arfaethedig o £4.9m, a'r gwaith a fyddai'n mynd rhagddo i adfer y sefyllfa. Roedd y diffyg hyd yma wedi'i sbarduno'n bennaf gan y diffyg o £5.9m mewn arbedion heb eu cyflawni yn erbyn proffil a phwysau mewn Gwasanaethau wedi'u Comisiynu, Gofal Iechyd Parhaus (CHC), ac yn | |

enwedig lleoliadau iechyd meddwl. Roedd capasiti ychwanegol ar gael i drin cleifion, a nodi trefniadau rhyddhau o wasanaeth gofal brys BIPBC.

**24/156.2** O ran y targed arbedion o £48m, nodwyd arbedion gwerth £26.5m, y byddai £4.3m ohonynt yn anghylchol, a £22.2m yn gylchol gydag effaith blwyddyn lawn o £32.1m. Roedd hyn yn welliant sylweddol o ddechrau'r flwyddyn ariannol. O'r arbedion gwerth £26m, byddai'r rhain yn cael effaith blwyddyn gyfan a fyddai'n symud i flynyddoedd i ddod.

**24/156.3** Nododd yr aelodau yr £82m sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru fel cyllid untro ar gyfer eleni. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ble byddai'r adnodd hwn yn cael ei dargedu y flwyddyn nesaf a byddai cyflawni ein cynllun yn gysylltiedig â'n hachos dros gadw'r cyllid. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella ar ei gynllun ar gyfer 2023/24, roedd wedi cael £74.6m gan Lywodraeth Cymru i'r cyllid sylfaenol ar gyfer pob blwyddyn yn y dyfodol. Yr her o hyd oedd i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r targed o £20m i ddatblygu achos cryf dros gadw'r £82m ychwanegol yn y cyllid sylfaenol ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd i ddod.

**24/156.4** O ran rhaglen cyllid cyfalaf gwerth £44m, nodwyd bod gwariant o £1.7m ar hyn o bryd yn erbyn hyn. Roedd gwaith arfaethedig yn y system a fyddai'n digwydd yn nes ymlaen yn 2024/25, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm ystadau i sicrhau y byddai'r arian yn cael ei ddyrannu a'i wario yn ystod y flwyddyn.

**24/156.5** Mewn ymateb i gwestiwn gan yr aelod annibynnol, Urtha Felda, ynghylch gwaith trawsnewidiol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro fod dull model gwerth a chynaliadwyedd wedi cael ei fabwysiadu a fyddai'n cael ei wreiddio ledled Llywodraeth Cymru a Chymru. Roedd gwaith y Fforwm Cenedlaethol Dim Tâl, y mae'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yn aelod ohono, yn bwysig ac yn gyfle i rannu arferion da. Un o elfennau niferus y gwaith hwn oedd ymarfer clinigol a byddai hyn yn rhyddhau adnoddau a oedd yn cael eu hymrwymo ar hyn o bryd ar sail gwaith premiwm, ac roedd rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn.

**24/156.6** Roedd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu dull rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd a fyddai'n gweithredu fel galluogwyr trawsnewid i gyflawni rhai o'r arbedion yn erbyn y cais gwerth £48m. Nodwyd y byddai'r gwaith gwerth a chynaliadwyedd yn sicrhau arbedion, ynghyd â gwelliannau ac ymgysylltu ehangach. Byddai hyn yn arwain at fanteision ac arbedion i gleifion o fewn pum maes craidd: Gweithlu, Amrywiad Clinigol, Dim Tâl, Gofal Iechyd Parhaus (CHC), a Rheoli Meddyginiaethau. Roedd perfformiad pob un o'r meysydd yn cael ei reoli gan y Grŵp Cyflawni Perfformiad Integredig Gweithredol.

**24/156.7** Croesawodd yr Is-gadeirydd y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y targed arbedion heriol.

**24/156.8** O ran staffio, roedd gwaith yn cael ei wneud ar fodelu'r gweithlu, a seilwaith gweithredol y sefydliad, a sut roedd yn gweithredu ar hyn o bryd. Rhoddodd hyn gyfle i'r Bwrdd Iechyd gyflawni rhywfaint o newid trawsnewidiol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, er ei bod yn dal

DRAFT

| | |
|---|---|
| yn her recriwtio i ardal y Gorllewin, mai Prifysgol Bangor oedd â'r allbwn mwyaf o fyfyrwyr a bod symleiddio i swyddi yn ardal y Gorllewin yn uwch nag ardaloedd eraill. Nodwyd hefyd bod cynnydd mawr o ran recriwtio rhyngwladol, gyda chymorth yn cael ei ddarparu i integreiddio a chefnogi staff i'w ffrydiau gwaith. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i drosi staff asiantaeth a oedd yn byw'n lleol i gontractau staff parhaol.<br><br>**24/156.9** Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith rhagorol ar y cyfrifon blynyddol a gymeradwywyd gan Archwilio Cymru.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **Derbyn** yr adroddiad | |
| **24/157 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol**<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol fod gwaith yn mynd rhagddo i wella Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a chylchoedd busnes a fyddai'n cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf Grŵp Cynghori'r Pwyllgor. Roedd rhaglen Datblygu'r Bwrdd a'r cyfarfodydd yn mynd rhagddynt.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd wedi<br>• **Nodi** cynnwys yr adroddiad;<br>• **Nodi** bod y sêl gyffredin wedi'i gosod;<br>• **Nodi'r** materion a ystyriwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Preifat ar 30 Mawrth 2024;<br>• **Cymeradwyo** Cylch Busnes arfaethedig y Bwrdd ar gyfer 2024/25, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Blynyddol;<br>• **Cymeradwyo'r** Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Taliadau;<br>• **Cadarnhau** Llythyrau Gweithredu blaenorol y Cadeirydd sy'n cynnwys argymhellion i roi cymeradwyaeth neu ail-gymeradwyaeth ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru. | |
| **24/158 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol Chwarter 1**<br><br>**24/158.1** Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, fel rhan o gyfrifoldeb y Bwrdd i adolygu'r fframwaith risg a'r archwaeth risg yn flynyddol, bod trafodaeth wedi'i chynnal yng nghyfarfod Datblygu'r Bwrdd ym mis Mehefin 2024, a chanlyniad hynny oedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod papur wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch yr adroddiad sicrwydd cyfyngedig a dderbyniwyd o ran rheoli risg, er y cydnabuwyd bod gwaith sylweddol wedi'i wneud dros y flwyddyn flaenorol.<br><br>**24/158.2** Dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol fod Grŵp Craffu Risg wedi'i sefydlu a fyddai'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac yn cael ei gefnogi gan gydweithwyr gweithredol eraill i sicrhau craffu pellach o ran rhywfaint o'r risg. Nododd yr aelodau fod y Pwyllgor Archwilio yn cefnogi'r newidiadau i'r Fframwaith Rheoli Risg. Byddai newidiadau pellach a drafodwyd yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn cael eu cynnwys yn fersiwn nesaf yr adroddiad i'r Bwrdd ynghylch dileu'r lefelau sicrwydd a fyddai'n bwydo i mewn i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **24/158.3** Byddai gwaith yn parhau ar nifer o'r prif risgiau o ran Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a byddai'n canolbwyntio ar reoli risg o fewn y goddefiant a osodwyd gan y Bwrdd, gyda Phwyllgorau'n canolbwyntio ar y risgiau y tu allan i oddefiant i sicrhau bod cynlluniau'n dal yn briodol. Byddai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>**24/158.4** Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi'r** adroddiad;<br>• **Cymeradwyo'r** newidiadau i'r Fframwaith Rheoli Risg;<br>• **Cymeradwyo**'r archwaeth risg ar gyfer 2024/25;<br>• **Derbyn** y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel ag yr oedd ar ddiwedd mis Mehefin 2024, gan nodi bod angen rhagor o waith ar fireinio risgiau a chamau gweithredu. | |
| **24/159 Adroddiadau'r Pwyllgor a Chadeirydd y Grŵp Cynghori**<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn<br>• **Nodi** Adroddiadau Sicrwydd y Cadeirydd:<br>1. Y Pwyllgor Archwilio 9.7.24<br>2. Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu Gwybodaeth 25.6.24<br>3. Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau 18.6.24<br>4. Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant 13.6.24<br>5. Y Pwyllgor Taliadau Mehefin / Gorffennaf 2024<br>6. Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 14.5.24<br>7. Y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 3.6.24<br>8. Y Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol 7.6.24<br>• **Cadarnhau** Strategaeth Elusennau 2024-27, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 15/04/24, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Iechyd. | |
| **MATERION I GLOI** | |
| **24/160 Adolygu effeithiolrwydd y cyfarfod**<br><br>Roedd rhai aelodau'n cwestiynu addasrwydd yr ystafell ar gyfer cyfarfodydd hybrid gan eu bod yn ei chael yn anodd clywed yn effeithiol. | |
| **24/161 Unrhyw fater arall**<br>Ni dderbyniwyd dim | |
| **24/162 Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br>26 Medi 2024 Bwrdd Iechyd, Venue Cymru<br><br>25 Medi 2024 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Lleoliad – nodyn ar ôl y cyfarfod: Venue Cymru | |

## Cofnod Camau Gweithredu'r Bwrdd Iechyd
### yn deillio o gyfarfodydd cyhoeddus - diweddarwyd 19.9.24

| Camau Gweithredu sy'n Parhau ar Agor | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhif Gweithred** | **Cyfeirnod Cofnod** | **Dyddiad Cyfarfod** | **Camau y cytunwyd arnynt** | **Arweinydd** | **Amserlen** | **Statws** |
| 1 | 24/104.3 | 30.5.24 | Trefnu arddangosiad o'r System Rheoli Ansawdd sy'n cael ei datblygu ar gyfer aelodau'r Bwrdd | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 31.12.24 | Oherwydd absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol nid yw hyn wedi'i gwblhau. Trafodaethau i'w cynnal gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (EDON) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.<br><br>**19.9.24** EDON yn awgrymu sesiwn mewn sesiwn datblygu bwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar ôl i'r peilot gynhyrchu pecynnau cymorth a dadansoddiad bylchau i lywio'r broses gyflwyno. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 24/115 | 30.5.24 | Ymchwilio i wella eglurder sain yn yr ystafelloedd ble cynhelir cyfarfodydd hybrid | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 31.12.24 | **19.09.24** Trafodaeth barhaus yn cael ei chynnal i ddod o hyd i ddatrysiad ar gyfer y sain mewn cyfarfodydd hybrid a gynhelir wyneb yn wyneb gyda ffrydio byw a darpariaeth cyfieithu ar y pryd. Opsiynau pellach i'w harchwilio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol i'w trafod yng Ngrŵp Cynghori'r Cadeiryddion erbyn diwedd Rhagfyr 2024. |
| 3 | 24/154.9 | 25.7.24 | Gwaith dilynol ar y diffyg data perfformiad cyfoes yn yr Adroddiad Perfformiad o ystyried bod adroddiadau Ariannol ar gael i'r Bwrdd mewn modd amserol. Archwilio'r amrywiad mawr rhwng y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol a thrafod a gafodd cynnydd llwyddiannus o fewn un maes ei rannu'n ddigonol i ddysgu gwersi mewn mannau eraill. | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid | 18.9.24 | Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu yn dechrau yn ei swydd ym mis Hydref, a bydd adeiladu ar wella adroddiadau perfformiad yn rhan o'i gylch gwaith.<br><br>Awgrymu bod y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn goruchwylio hyn ar ran y Bwrdd. |

| Camau Gweithredu Arfaethedig i'w Cau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 24/96.3 | 30.5.24 | Trefnu i Bennaeth Profiad Cleifion wella cyhoeddusrwydd ar yr hyn a ddysgwn o bob gwers | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>(Pennaeth Profiad Cleifion) | 12.9.24 | Mae Pennaeth Profiad Cleifion yn gweithio gyda'r Timau Cyfathrebu i nodi'r ffordd orau o rannu'r hyn a ddysgwn.<br><br>Medi 2024 yw'r dyddiad targed.<br><br>**18.9.24**<br><br>Mae cynllun Cyfathrebu yn cael ei ddrafftio. Mae'r Tîm Profiad Cleifion yn gweithio gyda'r Adran Cyfathrebu i sicrhau bod dealltwriaeth o PALs a'r gwahaniaeth rhwng pryder a chwyn.<br><br>Mae gwaith yn parhau i nodi effaith straeon cleifion a rhannu'r gwersi a ddysgwyd ar lefel leol a ledled PBC.<br><br>Mae'r Dangosfwrdd Ansawdd yn gweithredu'n llawn ac mae data'n cael ei ddiweddaru'n ddyddiol gan ganiatáu i gydweithwyr fynd y tu hwnt i themâu a |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | chael mynediad at y manylion. Mae timau'n cael eu hannog i rannu a nodi arferion da. |
| 5 | 24/102.4 | 30.5.24 | Ystyried sut y gellid rhannu'r cynllun gweithredu Rheolaeth Ariannol a fonitrwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn fwy eang. | Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 18.7.24 | **1.8.24** Dosbarthu i aelodau drwy e-bost drwy swyddfa'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| 6 | 24/112.5 | 30.5.24 | Darparu adroddiad ar Ofal mewn Argyfwng yn y cyfarfod nesaf | Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 18.7.24<br><br>18.9.24 | I'w ystyried yn y Bwrdd ym mis Medi fel y cytunwyd gyda'r Cadeirydd.<br><br>Eitem agenda Bwrdd mis Medi. |
| 7 | **24/150.4** | 25.7.24 | Trefnu i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau dderbyn diweddariadau rheolaidd ar y contractau digidol, i sicrhau llywodraethu a throsolwg priodol | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 18.9.24 | Wedi'i gynnwys yn y blaengynllun gwaith i'w gynnwys fel rhan o'r adroddiadau diweddaru Digidol |
| 8 | **24/151.4** | 25.7.24 | Archwilio'r Polisi Pryderon Integredig ymhellach i ystyried sylwadau IM ynghylch cynnwys gweithdrefnol ac adborth cyffredinol | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol /<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 18.9.24 | **18.9.24**<br><br>Mae'r Polisi wedi cynnwys adborth a bydd yn cael ei adolygu ar ôl ei weithredu. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **24/154.6** | 25.7.24 | Croeswirio yn erbyn Polisi Llywodraethu Gwybodaeth BIPBC ar amserlenni storio ac ymgorffori o fewn Polisi Pryderon Integredig | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 18.9.24 | **18.9.24**<br><br>Mae'r holl wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Polisi Llywodraethu ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio fel y nodwyd. Cedwir at amserlenni storio ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu yn ystod gweithrediad y polisi. |
| 10 | **24/155.2/3** | 25.7.24 | Mewn adroddiadau ansawdd yn y dyfodol, angen adlewyrchu'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau a chanlyniadau yn fanylach (gan gynnwys sut y rhoddwyd gwybod am friwiau pwyso a gwahaniaethu rhwng y rhai a gafwyd yn yr ysbyty ai peidio)<br>Cynnwys gwybodaeth am archwiliadau a gwblhawyd | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | 18.9.24 | 18.9.24<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r manylion sydd eu hangen a bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau wrth symud ymlaen. |
| 11 | 24/104.2 | 30.5.24 | Ystyried sut y gallai eitemau a drafodwyd yn flaenorol mewn Pwyllgor ddatgan hyn yn glir yn y templed adrodd i'r Bwrdd a hwyluso'r cyfle i Gadeirydd Pwyllgor priodol wneud sylwadau yng nghyfarfod y Bwrdd. | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 18.10.24 | Mae set ddiwygiedig o dempledi yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys y llwybr llywodraethu. Rhagwelir y bydd y rhain yn eu lle yn y chwarter nesaf yn dilyn ystyriaeth gan y Cadeirydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 19.9.24 Mae agenda cyfarfod y Bwrdd wedi'i aildrefnu i ganolbwyntio ar adroddiadau pwyllgor cyn yr eitem sy'n darparu cyswllt rhwng y Pwyllgor a'r Bwrdd. Bydd y prosesau hyn yn parhau i gael eu mireinio. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad Profiad Dinasyddion |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 26 Medi 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Hwn yw'r trydydd adroddiad i'r Bwrdd yn crynhoi themâu ein gwaith gyda dinasyddion. Mae'n trafod y tri mis diwethaf gan ystod o ffynonellau.<br><br>Mae'n sôn am ein cyswllt dydd i ddydd gyda chleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd, ein sgyrsiau gyda'r cyhoedd a phartneriaid yn eu cymunedau ac mewn digwyddiadau, gohebiaeth gan Aelodau o Seneddau Cymru a Lloegr, a gweithgareddau ac ymgysylltu â dinasyddion gan Llais.<br><br>Mae'n adrodd ar y prif themâu o'r cyswllt a'r sgyrsiau hynny. Nid yw'n mynd i fanylder am sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r problemau ond yn cyfeirio at bapurau yn y cyfarfodydd Bwrdd sy'n pasio i fynd i'r afael â nhw.<br><br>Bydd yr holl gwestiynau i'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd yn parhau i gael eu hateb a gall pobl ddisgwyl atebion uniongyrchol i'w cwestiynau. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn. |
| ***Report presented by:*** | Dyfed Edwards, Cadeirydd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Helen Stevens Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I'w benderfynu<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |
|---|---|---|---|

| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch y camau i gyflawni'r sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae cynnwys a deall profiad ein dinasyddion yn rhedeg drwy holl amcanion a chynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd. |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol heblaw nodi bod gan yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae hyn wedi'i gryfhau drwy ystod o bolisïau a deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru, fel Deddf GIG (Cymru) 2006 |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Amherthnasol ar gyfer yr adroddiad hwn. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau gweithlu penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:** | Amherthnasol. |

| | |
|---|---|
| (neu gysylltiadau â’r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol. |
| **Camau Nesaf:**<br>**Gweithredu argymhellion**<br><br>***Next Steps:***<br>***Implementation of recommendations*** | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>Dim<br><br>***List of Appendices:***<br>*None* | |

**CYFARFOD CYHOEDDUS O'R BWRDD IECHYD**
**20 MEDI 2024**
**ADRODDIAD PROFIAD DINASYDDION**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi themâu ein gwaith gyda dinasyddion dros y deufis diwethaf. Mae'n sôn am ein cyswllt dydd i ddydd gyda chleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd, ein sgyrsiau gyda'r cyhoedd a phartneriaid yn eu cymunedau ac mewn digwyddiadau, gohebiaeth gan Aelodau o Seneddau Cymru a Lloegr, a gweithgareddau ac ymgysylltu â dinasyddion gan Llais.

1.2 Mae gwrando ar, a deall profiadau dinasyddion Gogledd Cymru'n hanfodol i wella sut y dyluniwn a darparwn ofal a gwasanaethau. Drwy gasglu'r wybodaeth yma, gallwn ddeall y materion sy'n bwysig i'n poblogaeth. Rydym yn benderfynol o wella'n barhaus ac mae ein staff a dinasyddion Gogledd Cymru'n dod at ei gilydd yn gynyddol i geisio datrys y problemau sy'n parhau.

## 2. Themâu gan gleifion, gofalwyr a theuluoedd drwy ein timau mewnol

2.1 Mae ein Gwasanaeth Cleifion, Cyngor a Chyswllt (PALS) yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddatrys problemau a phryderon am ein gwasanaethau. Pob wythnos maen nhw'n siarad â channoedd o gleifion, gofalwyr ac aelodau o deuluoedd.

2.2 Rhwng 1 Mai 2024 a 31 Gorffennaf 2024, roedd PALS wedi cofnodi 2125 o achosion. Roedd 1682 yn ymholiadau, 344 yn ganmoliaeth a 99 yn awgrymiadau. Yng Ngorffennaf 2024, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 198 o gwynion gan gleifion / perthnasau'n rhannu profiadau da o ddefnyddio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd; dyma'r nifer fwyaf o gyfarchion canmol a dderbyniodd y Bwrdd Iechyd mewn un mis. Mae'r prif themâu'n codi o'r ymholiadau i PALS dros y cyfnod adrodd hwn, sy'n gyson â'r tri maes pryder mwyaf , yn cynnwys:

- Oedi cyn cael apwyntiad / amseroedd aros
- Oedi / diffyg triniaeth glinigol neu asesiad
- Cyfathrebu gyda'r claf / teulu

Aeth system ffôn newydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn fyw ar ddydd Llun 22 Gorffennaf 2024. Mae'r system ffôn newydd yn rhoi profiad galw gwell i gwsmeriaid gan roi opsiynau sy'n cynnwys: Canolfannau Archebu Cleifion (traws-BCUHB), y Tîm Aros yn Dda, y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion, a'r Tîm Pryderon. Mae'r llinell ffôn hefyd yn cyfeirio cwsmeriaid at wefan BCUHB am fwy o wybodaeth. Lansiwyd y system ffôn newydd i staff ar SharePoint gyda'r gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo'n barhaus i gwsmeriaid ar y cyfryngau cymdeithasol drwy dudalen Facebook BCUHB.

2.3 Rhwng 1 Mai 2024 a 31 Gorffennaf 2024, derbyniwyd 14,044 ymateb i arolwg Adborth Amser Real Cymru Gyfan.

Mae prif ganfyddiadau adborth yr arolwg amser real yn cynnwys:

- Roedd 81.54% ar y cyfan yn fodlon â'u profiad

- Roedd 81.58% wedi derbyn pob gwybodaeth angenrheidiol bob tro
- Roedd 85.17% yn teimlo bod pobl wedi gwrando arnynt bob tro
- Teimlai 81.68% fod staff bob amser yn cymryd amser i ddeall beth oedd yn bwysig iddyn nhw fel person ac yn ystyried hyn wrth gynllunio a darparu eu gofal
- Roedd 82.20% bob amser yn rhan o wneud penderfyniadau am eu gofal.

*Beth a ddywedodd pobl:*

*'Dim ond gair i ddiolch o galon i chi am bopeth a wnaethoch i nain dros y mis neu ddau diwethaf. Nid dim ond y gofal meddygol ac iechyd ond eich ymdrechion i geisio ei thawelu a sgwrsio gyda hi, hyd yn oed a chithau fel tîm mor brysur a dan straen. Fedra i ddim diolch digon i chi' (Ward Morfa).*

*'Hoffwn ddiolch yn ofnadwy i'r staff ar Ward Acton a fu'n gofalu am fy nhad-yng-nghyfraith am gyfnod byr iawn ond hynod bwysig yn ei fywyd. Roedden nhw'n gymorth mawr iddo gael marw'n urddasol a heddychlon gyda'r bobl bwysicaf o'i gwmpas. Diolch i chi am wneud y profiad hwn ychydig yn haws' (Ward Acton).*

*'Roedd parcio yn yr Uned Mân Anafiadau'n hawdd a chefais fy ngweld yn brydlon. Roedd gan bawb wên barod ac yn garedig a pharod iawn i helpu' (Uned Mân Anafiadau Penrhos Stanley).*

2.4 Rhwng 1 Mai 2024 a 31 Gorffennaf 2024, derbyniwyd 316 o ymatebion arolwg Adborth Amser Real Cymru Gyfan yn yr Adran Achosion Brys oedd yn gynnydd o 210 o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf. Mae'r cyfraddau ymateb yn isel ar hyn o bryd a'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gyda phenaethiaid y Timau Nyrsio ac Achosion Brys i wella'r gyfradd ymateb adborth, er mwyn gallu adnabod unrhyw batrymau a thueddiadau a gwersi i'w dysgu, a rhoi cynlluniau gwella yn eu lle.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith a wneir i wella ymatebion adborth yr Adran Achosion Brys (A&E):

1. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda Phenaethiaid Nyrsio'r Adran A&E i gytuno ar lwybr gwelliannau er mwyn cynyddu'r ymateb adborth i CIVICA. Y ffocws cychwynnol yw casglu profiad 3% o gleifion sy'n mynychu'r Adran A&E.
2. Mae pob Adran A&E yn profi gwahanol ffyrdd o newid sut i gasglu adborth er mwyn gwneud gwelliannau.
3. Bwriedir monitro data adborth A&E yn fisol mewn cyfarfodydd Iechyd Cymunedol Integredig Profiad Cleifion a Gofalwyr lleol.
4. Bwriedir adrodd yn fisol ar ddata perfformiad A&E i'r Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr.
5. Mae PALS yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i hyrwyddo adborth am A&E drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.

2.5 Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn boddhad cleifion yn ôl adroddiadau arolwg Adborth Amser Real Adrannau Brys Cymru Gyfan:

- Teimlai 41.85%, o'r pwynt pan oedd angen y gwasanaeth arnynt, eu bod wedi aros yn rhy hir (gwelliant o 49.68% mewn amser aros)
- Teimlai 58.31% eu bod bob amser yn cael gofal da (cynnydd o 12.08%)

- Teimlai 59.29% fod pobl bob amser yn gwrando arnynt (cynnydd o 37.39%)
- Roedd 48.05% bob amser yn derbyn cymorth pan fo'i angen (cynnydd o 32.96%)
- Teimlai 61.41% fod pobl bob amser yn egluro pethau iddynt mewn ffordd ddealladwy (cynnydd o 40.66%).

Beth a ddywedodd pobl:

*'Roedd pob aelod o staff yn groesawgar, yn gwenu a pharod i helpu. Roedd te gan staff y Groes Goch a'r Wi-Fi wedi gwneud aros yn llawer haws. Profiad gofalgar a derbyniol iawn'.*

*'Cawsom wybod yn fras faint o amser y byddai angen aros yn A&E, sy'n wybodaeth dda'.*

*'Roedd y staff yn gwrtais a chyfeillgar iawn gan egluro fy ngofal i mi a fy meddyg yn trafod gyda chydweithwyr o adrannau eraill i gytuno ar y driniaeth iawn i mi. Roedd ôl-apwyntiad adran cleifion allanol hefyd wedi'i wneud ar gyfer yr wythnos wedyn'.*

2.6 Isod rhoddir enghreifftiau o welliannau ar sail adborth cleifion / perthnasau:

- Peiriant bwyd pecyn wedi'i osod yn A&E Ysbyty Gwynedd ar ôl derbyn adborth am y diffyg cyfleusterau bwyd y tu allan i oriau.
- Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi cyflwyno system ffrydio ar ddrws ffrynt yr A&E, i helpu i ffrydio cleifion i'r lle iawn er mwyn helpu i leihau amseroedd aros.
- Mae Ysbyty Glan Clwyd wedi gwella eu gwybodaeth / cyfeirio cleifion yn yr ardal aros.

2.7 Mae'r Cynllun Ymchwil Busnesau Bach peilot, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i wella cyfathrebu rhwng staff a pherthnasoedd pan fydd anwyliaid yn gleifion mewnol, rŵan wedi dod i ben. Anfonwyd 1121 o negeseuon at berthnasau drwy borth digidol dros y cyfnod hwn. Mae manteision y prosiect wrthi'n cael eu dadansoddi, gan gynnwys gwerthusiad staff annibynnol. Mae'r prosiect wedi'i roi ar restr fer derfynol ar gyfer seremoni Profiad Cleifion gwobrau'r *National Network UK Awards* ar 3 Hydref 2024 ym Mhrifysgol Birmingham o dan gategori'r wobr am 'Cyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion a theuluoedd'.

Beth a ddywedodd perthnasau:

*'Roedd yn syniad gwych, yn enwedig pan fydd yn anodd mynd trwodd i ward. Roedd yn rhoi sicrwydd imi fod popeth yn iawn'.*

*'Ni allem drafod fy mherthynas pob dydd ond cawsom ein diweddaru i'n helpu i ddeall anghenion fy mherthynas'.*

2.8 Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi hwyluso sesiwn mewn partneriaeth â'r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain (COS) a'r gymuned fyddar a defnyddwyr BSL yng Ngogledd Cymru i ddeall sut orau all y Bwrdd Iechyd gwrdd ag anghenion y gymuned fyddar a defnyddwyr BSL. Roedd hyn mewn ymateb uniongyrchol i adborth yn un o ddigwyddiadau ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd.

Beth a ddywedodd pobl:

*‘Cawsom lythyr yn gofyn i ni ffonio’r ysbyty i drefnu apwyntiad. Nid yw hyn yn beth da i bobl fyddar sy’n methu cyfathrebu dros y ffôn’.*

*‘Aeth person byddar i’r Adran Achosion Brys gyda’r nos ac ni allai staff ddod o hyd i gyfieithydd BSL’.*

*‘Dw i’n cael trafferth gwneud cwyn ffurfiol na rhoi adborth’.*

Isod rhoddir enghreifftiau o waith sy’n cael ei wneud i gwrdd ag anghenion y gymuned fyddar a defnyddwyr BSL:

- Cyflwyno *Sign Live* – mynediad 24/7 at wasanaeth cyfieithu fideo BSL a gallu ffonio’r Bwrdd Iechyd drwy wasanaeth cyfnewid fideo.
- Adroddiadau adborth chwarterol gan y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain i’r cyfarfodydd Profiad Cleifion a Gofalwyr.
- Mewn partneriaeth â’r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain, gweithio gyda’r gymuned fyddar a defnyddwyr BSL i gasglu cyfres o hanesion cleifion i godi ymwybyddiaeth a dysgu o brofiadau.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o bobl fyddar a Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg i staff.

2.9 Mae Swyddogion PALS wedi ymweld â wardiau / meysydd gwasanaeth i gasglu adborth amser real gan gleifion drwy gyfweliadau Care2share. Isod rhoddir canfyddiadau’r cyfweliadau gyda dysgu ‘dywedoch chi, gwnaethom ni’ gan y gwasanaeth.

**Ward Erddig, Ysbyty Maelor Wrecsam**

**Dywedoch chi:** *‘Dydy’r bwyd ddim yn dda iawn, mae ei dymheredd, y dewis a’i ansawdd yn wael.’*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn sicrhau bod anghenion maeth ein cleifion yn cael eu monitro ac yn pasio eich adborth ymlaen i’r adran arlwyo.

**Dywedoch chi:** *‘Mae’r meddygon i gyd yn wahanol iawn, mae’r cyfathrebu’n gymysglyd.’*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn atgoffa’r holl staff meddygol i drin pob claf gyda pharch ac urddas a sicrhau eu bod yn cyfathrebu’n glir a chryno.

**Dywedoch chi:** *‘Mae’r staff nyrsio’n hyfryd a bob amser yn cyflwyno eu hunain.’*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein HOLL gleifion yn derbyn yr un gofal safon uchel....ac yn rhannu hyn gyda’n tîm.

**Dywedoch chi:** *‘Mae’r ward yn lân a’r glanhawyr yn glên iawn!’*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn rhannu eich sylwadau gyda’r tîm.

**Adran Achosion Brys, Ysbyty Gwynedd**

**Dywedoch chi:** *‘Cefais frechdan neithiwr oherwydd doeddwn heb fwyta, nid oedd yn ddewis da. Cefais un Weetabix bore heddiw hefyd. Efallai y byddai’n beth da gallu dewis cael un Weetabix arall neu rywbeth arall oherwydd, i mi, nid yw’n ddigon.’*

**Gwnaethom ni:** Mae'r adborth hwn wedi'i rannu â'r Matron a'r Adran Arlwyo i weld a fyddai'n bosib darparu bocs "tu allan i oriau" yn yr adran i gynyddu'r dewis o fwyd a maint y prydau bwyd.

**Dywedoch chi:** *'Iaith gyntaf dad yw Cymraeg felly gofynnodd y meddyg i mi gyfieithu ar gyfer dad fel y gallai siarad ei iaith gyntaf.'*
**Gwnaethom ni:** Mae sicrhau y gall cleifion gyfathrebu yn eu hiaith gyntaf yn bwysig iawn i ni. Mae gennym ni hefyd "gyfieithwyr ar olwynion" yn yr Adran Achosion Brys i hwyluso cyfathrebu rhwng cleifion, gofalwyr, perthnasau a staff yn iaith eu dewis. Mae gennym ni hefyd Gynllun Dewis Iaith sy'n sicrhau ein bod yn rhoi cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg i gleifion drwy adnabod iaith eu dewis.

**Ward Enfys, Ysbyty Glan Clwyd**

**Dywedoch chi:** *'Mae'r staff wedi bod yn garedig a pharod iawn i roi sylw, yn glod i'r ysbyty.'*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn rhannu'r adborth gyda'r staff.

**Dywedoch chi:** *'Mae'r staff yn fy nhrin gyda pharch ac urddas.'*
**Gwnaethom ni:** Byddwn yn gweithio i gynnal ein safonau.

## 3. Sgyrsiau gyda'r gymuned

### 3.1 Digwyddiadau Gwrando'r Bwrdd

Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Bwrdd wedi cynnal digwyddiad gwrando arall yng Nghyffordd Llandudno ym mis Gorffennaf. Roedd hyn yn gyfle i breswylwyr glywed am ddatblygiadau lleol a gwasanaethau iechyd ehangach fel rhan o'r Gymuned Iechyd Integredig (IHC). Mae hefyd yn gyfle i gael sgwrs dwy ffordd rhwng y cyhoedd a'r Bwrdd Iechyd i drafod beth sy'n gweithio'n dda a beth a allai fod yn well.

Cododd nifer o themâu o'r digwyddiad ymgysylltu yng Nghyffordd Llandudno. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Diffyg deintyddion GIG yn yr ardal. Mae llawer o bobl yn brin o arian ac yn methu â fforddio gofal deintyddol preifat gan achosi llawer iawn o bryder ac effeithiau ar iechyd.**
- Roedd teimlad bod angen i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio ar fesurau ataliol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phlant ac ysgolion. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys bwyta'n iach a gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pethau fel rhandiroedd cymunedol.
- Tynnwyd sylw at gyfathrebu fel maes oedd angen ei wella. Roedd enghreifftiau'n cynnwys esbonio canlyniadau diagnostig yn wael "*doeddwn i ddim yn siŵr beth oedd y canlyniadau pelydr-x yn ei ddweud"*. Ar thema gyfathrebu fwy cyffredinol, awgrymwyd bod angen hyrwyddo gwasanaethau iechyd lleol yn ehangach ac egluro sut y gallai gwahanol wasanaethau helpu, e.e. fferyllfeydd, Unedau Mân Anafiadau (MIU) ayyb.
- Roedd thema gyffredin o fynediad at wasanaethau iechyd hefyd yn codi. Roedd hyn yn cynnwys creu 'siopau un stop' neu ganolfannau 'galw heibio' i gynnig ystod ehangach o wasanaethau mwy holistig. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys

ymestyn amseroedd argaeledd gwasanaethau i 7 diwrnod yr wythnos ac amseroedd apwyntiad hwyrach.
- Roedd nifer o sylwadau cadarnhaol am wasanaethau yn yr ardal, gan gynnwys Uned Llygaid Stanley yn Abergele ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Llandudno. Roedd sylwadau mwy cyffredinol, fodd bynnag, yn troi o gwmpas yr ymgysylltu a'r cydweithredu cynyddol rhwng y Bwrdd Iechyd a'r gymuned. Roedd hyn yn cynnwys cyfrannu mwy at gynllunio datblygiadau a chynlluniau strategol yn yr ardal fel y Cynllun Datblygu Lleol.

## 3.2 Sioeau Sir

Yn ystod mis Awst, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod i nifer o ddigwyddiadau poblogaidd gan gynnwys Sioe Môn a Sioe Dinbych a Fflint. Mae'r sioeau hyn yn gyfle gwych nid yn unig i hyrwyddo gwasanaethau a chynnig cyngor a chymorth ond hefyd i wrando a derbyn adborth.

Roedd themâu cyffredinol o Sioe Môn yn cynnwys diffyg deintyddion ar yr ynys a llawer o bobl ddim yn gwybod ble i fynd am gyngor diet ac ymarfer corff.

Roedd y tîm atal strôc yn bresennol drwy gydol y ddau ddiwrnod gan gyfeirio nifer o gleifion at eu meddygfeydd ar ôl mesur eu pwysedd gwaed.

Yn Sioe Dinbych a Fflint roedd 'pentref lles' wedi'i greu'n cynnwys 30 o wasanaethau iechyd a chyrff trydydd sector a chymunedol. O'r herwydd casglwyd ystod eang o adborth gan gynnwys pryderon am amseroedd aros yn dilyn cyfeiriadau at y gwasanaethau Niwroddatblygol a derbyn cymorth dros y cyfnod aros. Roedd amseroedd aros hefyd wedi codi'n aml wrth sôn am wasanaethau meddygfa a phrofion diagnostig.

Yr adborth cyffredinol gan y cyhoedd oedd eu bod yn falch o weld gymaint o wasanaethau o'r Bwrdd Iechyd a'r trydydd sector mewn un lle. Roedd hyn yn ei gwneud yn haws helpu i gyfeirio pobl at wasanaethau neu fudiadau perthnasol i gael y wybodaeth neu'r cyngor iawn.

## 3.3 Orthopedeg

Rydym wedi cynnal sgyrsiau pwrpasol gyda phobl sy'n ddiweddar wedi cael neu'n aros am lawdriniaeth orthopedeg ddewisol, yn benodol clun neu ben-glin newydd. Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar faterion aros, teithio / mynediad a gwella gofal wedi'i gynllunio.

3.31 Un Glun Newydd. Cymhlethdodau Ychwanegol

Roedd claf wedi cael clun dde newydd ym mis Mehefin 2023 ar ôl aros am tua thair blynedd. Oherwydd cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth fawr flaenorol, bu'n rhaid perfformio'r llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn lle'r ysbyty orthopedig lleol yn Abergele.

*"Roedd y boen yn ofnadwy a dwi wedi cael problemau symud byth ers cael llawdriniaeth am diwmor ar yr ymennydd, ond effeithiodd hyn yn ddrwg ar fy symudedd gyda'r holl boen...*

Roeddent yn disgrifio bod y llawdriniaeth yn llwyddiannus gan ganmol y staff meddygol yn ysbytai Glan Clwyd ac Abergele am eu gofal. Yr unig beth negyddol oedd y broses boenus a'r straen o drosglwyddo o Glan Clwyd i Abergele.

Roedd yr amser aros, yn enwedig y chwe mis olaf cyn y llawdriniaeth, yn hynod boenus gan effeithio'n sylweddol ar eu symudedd ac ansawdd eu bywyd.

*"Roedd y chwe mis diwethaf yn uffern ar y ddaear, a bod yn onest."*

3.32 Pen-glin Newydd ac ar y Rhestr Aros

Dechreuodd y claf chwilio am driniaeth orthopedig yn 2014. I ddechrau, roedd wedi holi'n breifat am *'ben-glin newydd'* oherwydd yr holl aros, ond ni allai fforddio'r llawdriniaeth. Cafodd ei roi ar restr aros y GIG am ben-glin newydd ond aeth *'ar goll'* yn y system rhestr aros. Yn ystod cyfnod clo 2019-2020, cynigiwyd pen-glin newydd i'r claf ond gwrthododd oherwydd pryderon Covid-19. Yn y diwedd cafodd ben-glin newydd ddwy flynedd yn ôl.

Bu'n rhaid iddynt aros am 8 mlynedd i gyd, wedi'i waethygu gan eu pryderon am lawdriniaeth yn ystod y cyfnod clo.

*"...bydd yn 4 blynedd ond heb ystyried y drafferth a gefais yn cyrraedd y pwynt o gael gweld rhywun yn y lle cyntaf."*

Yn gyffredinol, o blith y rhai a oedd yn aros a'r rhai a gafodd lawdriniaeth, roedd y llwybrau a arweiniodd at gymryd rhan yn y trafodaethau i fod angen naill ai clun neu ben-glin newydd yn amrywio o osteoarthritis, codymau, a chyflyrau cysylltiedig.

Yn bennaf dywedodd bobl eu bod wedi darganfod bod angen llawdriniaeth arnynt drwy ddamwain:

*"Roeddwn wedi synnu ac mewn sioc oherwydd y diagnosis, roedd yn annisgwyl er fy hanes o boen* (spondylosis serfigol digysylltiad)."

Thema gyffredin ar draws yr holl gyfranogwyr oedd y siom gyda'r wybodaeth a gawsant:

*"Roeddwn yn siomedig iawn gyda'r diffyg gwybodaeth a chymorth ar ôl y diagnosis. Roeddwn yn disgwyl arweiniad, pamffledi neu grŵp cymorth ac yn siomedig i dderbyn dim byd."*

Roeddent yn pwysleisio bod angen system gymorth ffurfiol, gan gynnwys cyfarfodydd â dietegwyr a nyrsys i helpu i reoli newidiadau ffordd o fyw a pharatoi am lawdriniaeth. Roedd sylwadau hefyd am y diffyg cyngor ar golli pwysau er cael gwybod bod angen iddynt golli pwysau.

Roedd materion eraill yn cynnwys pwysigrwydd mesurau ataliol gan bwysleisio bod angen diagnosis prydlon i wella canlyniadau cleifion.

*"Wel, fel y dywedais, mae gen i'r cam nesaf i chi, cyfarfod â dietegydd, nyrs, felly chi'n ei dywys drwy beth sy'n debygol o ddigwydd. A hyd yn oed os yw ond yn apwyntiad arferol,*

*mae dipyn o waith dal i fyny i'w wneud. Cadw llygad ar eich pwysau a phethau felly, eich annog i golli pwysau a chadw'r pwysau i ffwrdd. Nid yw'n rhy anodd o gwbl."*

Ym marn y cyfranogwyr, byddai rhoi syniad o'u lle yn y ciw, ar ôl ystyried yr holl ffactorau amodi eraill o ran achosion brys a galwadau eraill ar amser staff, yn tawelu meddyliau'r rhai a oedd yn aros.

Roedd peth o'r adborth cadarnhaol o'r trafodaethau hyn yn cynnwys cyfranogwyr oedd eisoes wedi derbyn llawdriniaeth yn canmol y gofal a gawsant yn Abergele, i rai ag anghenion rheolaidd, a Glan Clwyd i rai ag anghenion cymhleth. Y brif ffactor oedd y gofal a'r cymorth a gawsant gan staff cyn ac ar ôl y llawdriniaeth.

### 3.4 Adborth Cyffredinol

Mae themâu cyffredinol ein holl sgyrsiau parhaus yn aros mwy neu lai'r un fath, e.e. amseroedd aros, mynediad at wasanaethau, a chyfathrebu. Mae llawer o'r problemau hyn eisoes wedi eu trafod yn y diweddariad.

Roedd un enghraifft o gyfathrebu'n ymwneud â defnyddio Ap y GIG. Ni allai un gŵr oedrannus gofrestru oherwydd ei fod dros 90 oed a heb ID cyfredol. Ni allai ei wraig gael ei phresgripsiynau ar-lein.

Roedd problemau cyfathrebu eraill yn cynnwys bod angen ystyried pobl sydd wedi eu heithrio'n ddigidol, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Gall y dibynnu cynyddol ar apwyntiadau rhithiol ar y we neu dros y ffôn fod yn anodd i rai pobl.

Un thema a gododd o'r sgyrsiau anffurfiol yw'r gorbryderu gan rai pobl am gymryd camau ymyrryd yn gynnar neu am ymyriadau hybu iechyd fel profion pwysedd gwaed, archwiliadau sgrinio neu archwiliadau iechyd cyffredinol. Mae rhai pobl yn poeni am eu canlyniadau – *"gwell gen i beidio â gwybod"* neu am y driniaeth neu'r archwiliad. Efallai y bydd angen mwy o ymgysylltu i adnabod y rhwystrau i gyfranogi mewn archwiliadau ac apwyntiadau iechyd arferol?

Thema barhaus arall yw mynediad at wasanaethau i bobl heb fod yn siaradwyr Cymraeg neu Saesneg. Un enghraifft ddiweddar y tynnwyd sylw ati oedd y gwasanaeth deintyddion brys a thrafferth cael cyfieithydd.

## 4. Sgyrsiau digidol

4.1 Dros y deufis diwethaf roedd y tîm cyfathrebu digidol wedi ymateb i 318 o negeseuon uniongyrchol. Lle bo'n bosib, ceisiwn ddatrys y problemau a godir mewn negeseuon yn ymwneud â gwybodaeth gyswllt ar gyfer rhai gwasanaethau, neu gymorth i ddod o hyd i wybodaeth ar ein gwefan. Lle nad yw hyn yn bosib ac mae'n ymwneud â phrofiad

negyddol, byddwn yn eu cyfeirio ymlaen at y tîm Cyngor a Chyswllt Cleifion. Dyma oedd rhai o brif themâu'r negeseuon:

- Cwestiynau recriwtio neu wybodaeth am swyddi
- Profiad o ymweld ag ysbytai a chyfeirio ymlaen at PALS am gymorth a chyngor
- Negeseuon cymdeithasol yn canmol wardiau ar draws pob safle.

4.2 Mewn partneriaeth â'r Tîm Profiad Cleifion, rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth ar bob un o sianeli ar-lein y Bwrdd Iechyd, yn annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn arolwg gan roi cyfle iddynt rannu eu profiad o ymweld ag Adran Achosion Brys yng Ngogledd Cymru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad y Bwrdd Iechyd am sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd mewn ymateb i is-ddyrchafu'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd.

Dyma giplun o'r hyn a ddywedodd pobl:

*"Mae'n iawn canmol gwelliannau ond beth ydych chi wedi'i wneud am y prif reswm y mae llawer o bobl yn mynd i A&E. Oherwydd ei bod bron yn amhosib gweld meddyg. Mae angen eu deffro a bydd pethau'n gwella."*

*"Nid y staff ar y ddaear yw'r broblem ond yr holl 'reolwyr' sy'n eistedd mewn swyddfeydd yn gwneud penderfyniadau hurt. Pe byddech yn cael gwared ar hanner y bobl hyn, byddai'n llawer gwell arnom"*

*"Nid yw pobl oedrannus yn eistedd am oriau ar gadair galed i aros i gael eu derbyn yn ofal da o gwbl"*

*"Mae hyn yn welliant anferth, mae'r staff yn gweithio'n ddiflino mewn adran brysur iawn....da iawn i chi gyd"*

*"Mae'r staff yn wych ond yn anffodus mae'r gwasanaeth yn wael. Treuliais 8 awr gyda fy nghymydog oedrannus a dderbyniwyd gydag amheuon o waedlif. Eisteddai ar gadair galed yr holl amser, sy'n annerbyniol...."*

*"Da iawn bawb..."*

*"O brofiad personol mae llawer, os nad pob un, o'r staff meddygol yn wych! Ond mae'n bechod am yr holl drafferth gyda'r staff gweinyddol a rheolwyr..."*

*"Newyddion rhagorol, da iawn i'r tîm i gyd...."*

*"Rhagorol, mae hyn i gyd oherwydd gwaith caled a phenderfynol y staff yn sicrhau bod ein cleifion yn derbyn y gofal gorau posib. Da iawn i dîm A&E YGC, dylech fod yn falch"*

4.3 Ganol mis Awst fe wnaethom gyhoeddi'r Cynllun Tair Blynedd Integredig ar wefan y Bwrdd Iechyd a'i hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd. Roedd lefel yr ymgysylltu ar-lein a'r diddordeb yn ein cynlluniau at y dyfodol yn uchel ac rydym wedi casglu ac ymateb i'r sylwadau, ymholiadau ac awgrymiadau canlynol gan y cyhoedd:

*“Dylen ni fod yn gwario biliynau’n llai ar staff asiantaeth, nid oes ots gan rai gan roi’r arian mewn staff parhaol?”*

*“Dwi’n meddwl bod meddygfeydd wedi mynd yn ôl at sut yr oedd pethau cyn Covid gan weld cleifion wyneb yn wyneb yn lle cael peiriant ateb yn dweud ewch i A&E, neu hyd yn oed alwad ffôn i weld beth yw’r broblem...”*

*“Mae angen i chi ddechrau o’r gwaelod a chael mwy o ofalwyr yn y gymuned”*

*“Cael cynllun yw’r darn hawdd! Yr her yw gweld y cynllun trwodd i’w weithredu’n llawn, gan gynnwys yr holl asiantaethau cysylltiedig sy’n cael effaith. Dwi wedi gweld hyn sawl gwaith o’r blaen”*

*“Mae angen symud cleifion ymlaen unwaith y maen nhw’n ddigon da, a rhyddhau’r gwelyau i rai sydd angen gofal meddygol”*

*“Parcio yn Wrecsam”*

*“Mae wir angen i chi edrych ar gyflwr Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon”*

## 5. Gohebiaeth gan Aelodau o Seneddau Cymru a Lloegr

5.1 Mae newid sylweddol wedi bod yn yr hinsawdd wleidyddol yn y Gogledd ar ôl yr Etholiad Cyffredinol, gyda Llafur a Phlaid Cymru’n disodli’r holl Aelodau Seneddol Ceidwadol. Mae chwech allan o’r wyth AS yn ardal y Bwrdd Iechyd yn newydd. O ganlyniad rydym wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd i roi gwybodaeth a chanllawiau iddynt ar y prosesau sydd angen eu dilyn i godi problemau iechyd gyda ni. Mae’r cyfarfodydd hyn wedi bod yn adeiladol iawn ac rydym yn dechrau gweld rhai o’r AS newydd yn codi materion gyda ni am y tro cyntaf.

Adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, derbyniwyd 653 o ymholiadau gan Aelodau o Seneddau Cymru a Lloegr rhwng 31 Ionawr a 31 Awst 2024. Mae hyn yn cymharu â 569 dros yr un cyfnod yn 2023. Mae’r prif faterion a godir gan wleidyddion yr un fath ag yn yr adroddiad diwethaf. Y rhain yw:

- Amseroedd aros, yn enwedig ar gyfer orthopedeg, offthalmoleg, llawdriniaeth gyffredinol ac asesiadau niwro-amrywiaeth.
- Mynediad at gymorth iechyd meddwl.
- Mynediad at ddeintydd GIG.
- Profiad gwael yn yr Adrannau Achosion Brys.

Mae amrywiaeth o faterion eraill, o gael gweld cofnodion iechyd i drefniadau rhyddhau a gofal parhaus, ond mae’r rhain yn ffigurau sengl isel. Mae amseroedd aros am wroleg yn newydd ar y rhestr, gyda 9 achos yn y chwarter diwethaf. Dim ond 9 achos oedd wedi bod drwy gydol y 9 mis blaenorol.

Mae’r datganiadau canlynol wedi eu casglu o blith rhai o’r materion difrifol a godwyd gan wleidyddion ar ran eu hetholwyr. Maen nhw’n rhoi ciplun ar y problemau a brofwyd gan gleifion ar draws ein gwasanaethau a naill ai’n rhai yng ngeiriau’r cleifion eu hunain neu’n ohebiaeth gan wleidyddion.

*Beth a ddywedodd pobl:*

**Amser aros - Wroleg**

Gan wleidydd: *"Dwi'n deall bod gan Mr J lefel PSA o 48 ac ar ôl ei archwilio ym Meddygfa Deulu Alyn yn Yr Orsedd ar 12 Ebrill 2024, penderfynodd ei feddyg teulu wneud cyfeiriad brys i Ysbyty Maelor Wrecsam.*

*"Oherwydd eu pryderon am lefel PSA uchel Mr J a symptomau eraill oedd efallai'n golygu bod ei ganser prostad wedi lledu, penderfynodd Meddygfa Deulu Alyn wneud cyfeiriad brys pellach wythnos diwethaf. Yn anffodus, mae Mr J yn dal i aros am apwyntiad.*

*"Roedd chwaer Mr J wedi cysylltu ag adran Apwyntiadau Ysbyty Maelor ar ei ran bythefnos yn ôl a chael gwybod bod y rhestr aros "garlam" ar gyfer canser y prostad yn 19 wythnos."Credaf fod gan dad Mr J, sydd hefyd yn byw yn Yr Orsedd, ffurf waethygol ffyrnig o ganser y prostad. Fodd bynnag, mae'n glaf gyda'r Village Surgeries Group yn Farndon a chafodd ei apwyntiad cyntaf gyda meddyg ymgynghorol yn Ysbyty Countess of Chester, lle y mae'r rhestr aros "garlam" yn bythefnos, 5 diwrnod ar ôl ei gyfeirio."*

Claf: *"Clywais heddiw na all Ysbyty Glan Clwyd roi dyddiad ar gyfer fy llawdriniaeth prostad. Dywedodd yr ysgrifenyddes eu bod wedi ail-drefnu a'i bod wedi gofyn am benderfyniad rheolwyr. Cefais apwyntiad cyn-lawdriniaeth yn yr ysbyty yn Ebrill 2024 ond cafodd apwyntiadau llawdriniaeth 2 a'r 9 Mai 2024 eu canslo. Cefais ail apwyntiad cyn-lawdriniaeth ganol Gorffennaf 2024 a dyddiad llafar o 1 Awst ond ni fydd hyn rŵan yn digwydd. Cefais fiopsi prostad di-ganser rai blynyddoedd yn ôl ac roeddwn i fod i gael fy monitro ond yng Ngorffennaf 2023 ac mewn gofid, mi es i'r A&E dair gwaith; cefais sesiwn ymgynghori yn Nhachwedd 2023 a nododd fy mod yn achos brys.*

**Mynediad at wasanaethau Iechyd Meddwl**

*"Mae'n ymddangos bod ei meddyg teulu wedi ei chyfeirio at Nant-y-Glyn tua 12 mis yn ôl ond nad yw wedi cael ei gweld wyneb yn wyneb gan aelod o'r tîm eto, ac ond wedi cael ychydig o asesiadau byr dros y ffôn cyn cael cynnig cwrs gorbryderu. Mae yna'n honni bod y gwasanaeth wedi ei rhyddhau'n amhriodol. Mae fy etholwr yn dweud ei bod yn dioddef o feddyliau hunanladdiad a bod ei meddyg teulu wedi ei chyfeirio eto at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ond mae'n ymddangos bod y cyfathrebu gyda'r tîm wedi methu gyda llythyrau a galwadau ffôn ddim yn cael eu hateb."*

*"Mae ei holl fywyd yn dioddef o ddiffyg ymyrraeth. Mae ei berthynas dan straen ac mae'n credu y bydd ei wraig yn ei adael os na all wella ei iechyd meddwl. Mae ei ddau blentyn yn dibynnu arno ond mae anghydfod yn y gwaith oherwydd ei broblemau ac mae'n poeni na fydd yn ddigon da i weithio os bydd y sefyllfa'n parhau. A allwch gadarnhau pam na all weld seiciatrydd, neu hyd yn oed seicolegydd? A allwch egluro pam nad yw wedi cael ei gyfeirio at unrhyw therapi mewn saith mlynedd? Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech egluro beth yr ydych yn ei wneud i leihau'r rhestr aros am asesiad ADHD oherwydd mae'n hysbys iawn y gall ADHD heb ei drin achosi gorbryderu ac iselder."*

*"Ar hyn o bryd mae fy etholwr yn rhentu lle i fyw ac yn cael ei chefnogi gan ei landlordiaid a ddaeth gyda hi heddiw i Ysbyty Gwynedd fel mater o frys. Roedd yr ysbyty wedi ei throi i ffwrdd yn gynharach heddiw er ei phroblem methu dal dŵr / carthion a'i chwydu*

*rheolaidd. Mae'n glaf bregus sydd angen cymorth iechyd meddwl brys. Dwi'n deall bod ganddi symptomau tynnu'n ôl o gam-drin sylweddau a sgîl-effeithiau drwg iawn. Mae'n cymryd meddyginiaeth presgripsiwn a 19 o dabledi'n ddyddiol."*

**Aros am offthalmoleg**

*"Mae fy etholwr yn rhannol fyddar ac yn dibynnu ar ddarllen gwefusau er mwyn deall a chyfathrebu â phobl o'i chwmpas. Yn anffodus mae wedi datblygu cataracts sydd wedi effeithio'n ddifrifol ar ei golwg a'i gallu i gyfathrebu oherwydd nad yw'n gallu darllen gwefusau fel o'r blaen."*

*"Mae ganddo ddiabetes math 1 yn dilyn diagnosis 51 o flynyddoedd yn ôl a diagnosis o retinopathi yn 1990. Mae'n dweud bod ei apwyntiad diwethaf yn Ionawr 2022 ac mae ganddo ôl-apwyntiad mewn chwe mis. Ond nid yw wedi derbyn apwyntiad sydd, o ystyried cyflwr ei lygaid a'r effeithiau posib, yn destun cryn bryder."*

*"Mae etholwr wedi cysylltu'n ymwneud â llawdriniaeth cataract. Cafodd wybod y gallai fod angen aros am hyd at 18 mis am lawdriniaeth. Ni all ddarllen na gyrru mwyach ac mae'n dweud bod ansawdd ei fywyd wedi dirywio'n ofnadwy."*

**Mynediad at ddeintydd GIG**

*"Dwi bron yn 70 oed ac wedi cael diagnosis o Polymyalgia'n ddiweddar. Cefais wybod bod yn rhaid i mi gadw llygad ar fy nannedd yn rheolaidd a dwi'n gwneud, ond wrth geisio gwneud apwyntiad gyda fy neintydd, cefais wybod ei fod bellach yn breifat. Dwi'n wynebu'r broblem bosib o golli fy nannedd a dim ffordd o gael gwybod a oes gennyf broblem fel canser y geg. Neu dalu ymhell dros £300 y flwyddyn am gynllun yswiriant i gael archwiliad sylfaenol bob 6 mis, pelydrau-x a glanhau fy nannedd. Ac os byddaf angen llenwi dant, gorfod talu o leiaf £145 sy'n cynnwys disgownt o 10%. Dwi ar bensiwn ac yn gwneud fy ngorau i fyw bywyd annibynnol yn fy nghartref fy hun, heb ddim budd-daliadau oherwydd mae popeth yn mynd ar fyw'n annibynnol. Dwi'n byd fy hun ac yn gofyn i mi fy hun, ac i chi, ai fel hyn ddylai pethau fod?"*

*"Cysylltodd mam â fy swyddfa i leisio pryder am na allai ddod o hyd i ddeintydd GIG ar gyfer ei dwy ferch, un yn 13 oed ac angen gwaith brys sylweddol ar ei dannedd; roedd 10 o'i dannedd wedi cael eu tynnu pan oedd yn 9 oed ac mae ganddi bydredd drwg mewn sawl un o'i dannedd sydd ar ôl. Mae mewn cryn boen ac mae hefyd yn destun pryder sylweddol i'w mam a'i chwaer."*

**Aros am lawdriniaeth gyffredinol a gastro-goluddol**

*"Mae fy etholwr wedi lleisio pryderon ar ran ei wraig fydd yn 81 mewn wythnos ac sydd wedi bod ar restr aros am bedair blynedd i gael tynnu ei choden fustl. Dywedodd ei bod mewn cymaint o boen yn Rhagfyr 2023 fel y bu'n rhaid iddynt fynd ddwywaith i'r A&E a bod y boen mor ddrwg fel bod angen iddi gael morffin drwy'r geg."*

*"Mae ganddo hernia sy'n achosi llawer iawn o boen iddo, mae'n gwneud ei orau i gael apwyntiad yn Ysbyty Gwynedd ond yn methu â gwneud, a'r sefyllfa wedi parhau ers 2 flynedd."*

**Aros am asesiadau niwroddatblygol**

*"Dywed ei bod wedi cael trafferth gydag ymddygiad ac emosiynau ei mab ers ei fod yn ifanc ac wedi ei hunangyfeirio am ddiagnosis ar 20 Rhagfyr 2018, 11 Tachwedd 2019 a*

*30 Tachwedd 2021. Erbyn hyn mae'n poeni'n arw na fydd yn cael ei asesu cyn ei arholiadau TGAU ac felly na fydd yr addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar ei gyfer gan yr ysgol, yn ystod ei wersi na'i arholiadau."*

*"Mae wedi bod ar y rhestr aros am asesiad gyda'r tîm Niwroddatblygol ers dwy flynedd ac wedi cael gwybod yn ddiweddar y gallai fod angen aros am 24-36 mis arall. Mae hyn yn golygu gorfod aros am 5 mlynedd neu fwy am ddiagnosis hollbwysig."*

*"Ers blynyddoedd bellach, pan ffoniwn Dîm Niwroddatblygol Ysbyty Maelor, rydym yn cael gwybod na ellir rhoi dyddiad i ni ond ein bod yn uchel ar y rhestr. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers blynyddoedd; oni ellir gwneud mwy i gefnogi ein merch, cyfeiriad preifat i gael asesiad, neu gyfeiriad am asesiad gan fwrdd GIG gyda chapasiti? Mae'n wynebu nifer o heriau'n ddyddiol, yn addysgol, corfforol ac emosiynol. Mae'n dioddef o orbryderu, gorlwytho synhwyraidd, yn cau i lawr, trafferthion cydsymud, ac er bod ei theulu, ffrindiau a'i hathrawon yn gwneud eu gorau i'w chefnogi, sut allwn ni wybod ein bod yn gwneud y peth iawn neu'n darparu a defnyddio'r cymorth iawn, heb asesiad niwroddatblygol?"*

**5. Gweithgareddau ac ymgysylltu gyda dinasyddion gan Llais**

5.1 Mae Llais yn gorff statudol annibynnol wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru mewn cynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.2 Drwy eu cyswllt dydd i ddydd gyda dinasyddion, drwy ddigwyddiadau ymgysylltu a'r cyfryngau cymdeithasol, mae Llais Gogledd Cymru wedi nodi'r themâu canlynol mewn gofal eilaidd:

- Ymarfer clinigol (diagnosis, triniaeth)
- Oedi cyn derbyn triniaeth / amseroedd aros
- Aros yn hir a thriniaeth wael mewn Adrannau Achosion Brys
- Cyfathrebu (ymddygiad ac agwedd, caniatâd, gwybodaeth, ansensitif)
- Mynediad

Cafodd y meysydd canlynol eu nodi fel pryderon am ofal sylfaenol:

- Ymarfer clinigol (cam-ddiagnosis)
- Oedi cyn cael diagnosis
- Cyfathrebu (ymddygiad ac agwedd, caniatâd, gwybodaeth, ansensitif)

Cafodd y meysydd canlynol eu nodi fel pryderon am ofal cymunedol:

- Mynediad

*Beth a ddywedodd pobl:*

*"Ffoniais ddeintydd GIG 111 ddydd Sul 26 Mai am driniaeth ddeintyddol frys a chael gwybod na allent wneud dim, ei fod allan o'u dwylo, a chafodd fy ngalwad ei rhoi trwodd i'r bwrdd iechyd. Penderfynais fod yn rhaid i mi fynd y tu allan i'r DU gan hedfan i Dwrci, cael fy ngweld gan ddeintydd yn syth a chael diagnosis o gyflwr gên cronig difrifol iawn. Tynnwyd 2 o'm dannedd, cefais 2 goron a chwrs 10 diwrnod cryf o dabledi gwrthfiotig."*

*Mae angen dwy glun a phen-glin newydd ar y claf ac mae ar restr aros. Wedi cysylltu â'r meddyg teulu, ysgrifenyddes yr ysbyty, gwasanaethau cymorth rhestr aros ond heb ddarganfod dim.*

*Mae'r claf wedi marw o ganser. Ni chafodd ofal lliniarol na diwedd bywyd. Mae'r cleient eisiau cwyno am y feddygfa gan deimlo y gallent fod wedi gwneud mwy i gefnogi'r claf.*

*Dim darpariaeth ar gyfer claf difrifol anabl ac awtistig mewn adran A&E brysur iawn a gorfod aros oriau am belydr-x.*

*Ni chafodd y ferch wybod am ddiagnosis wrosepsis ei thad cyn iddo farw, a phenderfynodd felly ofyn am eglurhad llawn a chael gweld ei nodiadau meddygol. Lleisiodd y ferch bryderon am y diffyg staff ar y ward a'r diffyg gwybodaeth a roddwyd iddi ar ôl i'w thad farw.*

*Roedd y claf wedi cael uwchsain yn dangos nad oedd y bledren yn gwagu'n iawn. Ni dderbyniodd driniaeth amserol, dim ond apwyntiad OPD Wroleg ar gyfer y mis canlynol. Yn y cyfamser, roedd ei arennau wedi methu. Mae wedi derbyn llythyr Dyletswydd Gonestrwydd.*

## 6. Gweithredu ar beth a glywsom

6.1 Yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd y mis hwn, byddwn yn trafod yn fanwl ein cynlluniau i wella diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu'r sefydliad gyda rhaglen ar werthoedd ac ymddygiad. Mae'r gwaith yn cynnwys mewnbwn staff a phartneriaid i greu diwylliant ar gyfer y sefydliad yr ydym eisiau bod, gan ategu pwysigrwydd arwain yn dosturiol. Bydd y Bwrdd hefyd yn trafod ffocws penodol ar ofal brys ac argyfwng er mwyn gwella profiad cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â'n staff ein hunain.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br>***Report title:*** | Adroddiad yr Is-Gadeirydd |
| **Adrodd i:**<br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>***Date of Meeting:*** | 26 Medi 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y prif feysydd ymgysylltu a gynhaliwyd ers cael ei benodi'n Is-gadeirydd. |
| **Argymhellion:**<br>***Recommendations:*** | Y Bwrdd i drafod a nodi cynnwys yr adroddiad |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br>***Executive Lead:*** | Gareth Williams, Is-gadeirydd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>***Report Author:*** | Gareth Williams, Is-gadeirydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Ar gyfer sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br>*No confidence / evidence in Delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu well, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No assurance' has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol. |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Yn unol ag WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?** | Amherthnasol ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| ***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | |
| **Yn unol ag WP68, a oedd Asesiad o’r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amherthnasol ar hyn o bryd. |
| **Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae’r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau i’r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Mae’r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)*** | Amherthnasol. |
| ***Y Camau Nesaf:***<br>***Gweithredu’r argymhellion***<br>Amherthnasol i’r adroddiad hwn. | |

**Adroddiad yr Is-gadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 26 Medi 2024**

Er fy mod bellach yn y swydd ers bron i flwyddyn, rwy'n dal i orfod dysgu llawer yn sydyn iawn. Rwy'n crynhoi isod y prif ymgysylltiadau rydw i wedi'u cael a'm prif bryderon.

**Iechyd Meddwl**

O ran **Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD)**, sefydlais berthynas yn gyflym â Jayne Bryant AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar a benodwyd gan Vaughan Gething, sef y Prif Weinidog ar y pryd. Fodd bynnag, cafodd ei dyrchafu, gyda Sarah Murphy AS yn ymgymryd â'r rôl (sydd bellach wedi'i phenodi'n Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant). Ymwelodd y Gweinidog â gogledd Cymru ar 12 Medi a chafodd raglen diwrnod llawn o ymweliadau, gan gynnwys cyfarfod gyda mi ac uwch staff. Dangosodd y Gweinidog ddiddordeb gwirioneddol a gwerthfawrogiad o'r cynnydd rydym yn ei wneud.

Rydw i'n falch o ddweud bod y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl bellach wedi setlo i rythm rheolaidd. Yn y cyfarfod diwethaf, cawsom fewnbwn gwerthfawr gan gynrychiolwyr y Rheolwyr Ysbyty Cyswllt a fydd bellach yn bresennol yn rheolaidd yn y cyfarfod (er gwaethaf y teitl, mae'r rhain yn unigolion annibynnol a benodir gan y Bwrdd Iechyd i wrando ar apeliadau mewn perthynas ag unigolion sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl). Mae'n bwysig pwysleisio bod y Pwyllgor yn canolbwyntio'n llwyr ar gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â deddfwriaeth iechyd meddwl, ac rwy'n ddiolchgar i gydweithwyr sy'n cadeirio'r Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Partneriaethau, Cynllunio ac Iechyd y Boblogaeth a Phobl a Diwylliant am sicrhau bod iechyd meddwl yn cael sylw dyledus yn eu gwaith.

Yn gyffredinol, er gwaethaf y problemau sy'n cael eu creu gan ddiffyg cofnodion electronig, rwy'n credu ein bod yn gwneud yn dda o ran sicrhau cydymffurfiaeth a diogelu hawliau'r rheini sy'n cael eu cadw'n gaeth. Fodd bynnag, yn y Pwyllgor diwethaf, cawsom drafodaeth ddifyr am y problemau sy'n rhan annatod o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol sy'n gofyn am asesiad newydd bob tro y bydd unigolyn yn symud lleoliad (e.e. yn cael ei dderbyn i ward acíwt o gartref gofal; yn symud o ward acíwt i ysbyty cymunedol neu'n symud o ysbyty cymunedol yn ôl i gartref gofal). Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddiwygiad i'r system hon yn y tymor canolig. Fodd bynnag, yn Araith y Brenin, mae Llywodraeth newydd San Steffan wedi cyhoeddi'r bwriad (o'r diwedd) i ddiweddaru'r Ddeddf Iechyd Meddwl: mae hyn yn debygol o godi'r safon o ran y gofynion ar gyfer 'cadw' unigolion.

Rwy'n parhau i fod yn bryderus am y berthynas rhwng ein Timau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) a chydweithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Erbyn hyn, mae gennym yr ymatebion o'r arolwg ansoddol a gomisiynwyd gan y Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (yr wyf yn ei gadeirio), sy'n tynnu sylw at amrywiaeth o bryderon a phroblemau ar y ddwy ochr. Bydd y Bartneriaeth yn ystyried y camau nesaf yn ei chyfarfod ar 4 Hydref.

Rwyf bellach wedi ymweld â'r rhan fwyaf o'r Timau Iechyd Meddwl oedolion, ond nid pob un ohonynt, a chefais ymweliad diddorol a defnyddiol iawn â'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn Nyffryn Clwyd (Dinbych) ym mis Awst. Tynnodd hyn sylw unwaith eto at y gwaith rhagorol a wnaed gan staff rheng flaen er gwaethaf problemau o ansawdd gwael yn ein hystâd.

Cefais gyfarfod defnyddiol gyda'r Prif Arolygydd Luke Hughes o Heddlu Gogledd Cymru hefyd ynghylch cyflwyno'r dull 'Gofal Cywir, Person Cywir', sy'n galluogi'r heddlu i leihau'r amrywiaeth o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd y byddant yn eu gweld, ac ynghylch defnyddio ein hystafelloedd Adran 135 ac 136 (lle mae'r heddlu'n dod ag unigolion sydd angen 'lle diogel', yn eu barn nhw, i gael asesiad iechyd meddwl). Er bod Luke wedi pwysleisio'r berthynas gadarnhaol ar y

cyfan â'r Bwrdd Iechyd, cododd sawl mater y byddaf yn eu trafod gyda chydweithwyr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.

Yn fewnol, fe wnes i barhau â'm cyfarfodydd rheolaidd gyda Teresa Owen, Ros Alstead, sef ein cynghorydd allanol, a Jane Moore. Cefais drafod materion deddfwriaeth Iechyd Meddwl gyda Matt Joyes hefyd.

O ran **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**, rwyf bellach yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Louise Bell, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn CAMHS.

Ymwelais â thîm CAMHS Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain a chael trafodaeth wych gyda Terry Whinnett a chydweithwyr eraill o'r tîm a'r uwch adran Gwasanaethau Plant ehangach. Roedd hyn wedi tynnu fy sylw at yr anawsterau recriwtio sydd wedi codi oherwydd y gofynion proffesiynol cymharol gul ar gyfer cydlynwyr gofal a nodir yn y Mesur Iechyd Meddwl, a'r ddeinameg amhosibl sy'n cael ei chreu gan y cynnydd yn y galw am Niwroamrywiaeth. Rydw i wedi codi'r broblem gyntaf yn y cyfarfod o Is-gadeiryddion Byrddau Iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru – sydd wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu diwygio'r canllawiau statudol pan fydd amser yn caniatáu – ac wedi trafod yr ail broblem gyda'r Prif Weithredwr sy'n cyflwyno'r ddadl dros ddull gweithredu gwahanol.

Fe wnes i fynd i gynhadledd diwrnod cyfan ddiddorol hefyd, a drefnwyd gan Barnardos fel rhan o'u prosiect Loteri 'Meddwl Ymlaen', gyda chefnogaeth y Bwrdd Iechyd.

**Gofal Sylfaenol a Chymunedol**

O ran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, rydw i wedi parhau i ddatblygu fy ngwybodaeth am yr amrywiaeth eang o wasanaethau rydym yn eu darparu. Yn benodol:

- Ymwelais â dwy fferyllfa ym Mhrestatyn gydag Ellen Lanham: Pritchards Pharmacy, fferyllfa annibynnol sydd wedi ymrwymo'n gryf i ddarparu gwasanaethau ychwanegol ac sydd wedi mabwysiadu'r defnydd o robot fferyllfa yn gynnar; a changen Boots lle siaradais â'r tîm rheoli rhanbarthol.
- Cefais gyfarfod gyda Sara Bodey, Cadeirydd y Pwyllgor Meddygol Lleol, ac yna fe es i gyfarfod o'r Pwyllgor. Roeddwn i'n gallu mynd ar drywydd un o'r pryderon a fynegwyd ganddynt am ein dull o ddarparu brechiadau yn y gymuned gyda Dr Jane Moore.
- Cefais gyfarfod â Paul Casey, Pennaeth Gofal Sylfaenol yn Llywodraeth Cymru (yr wyf yn ei adnabod o swyddi blaenorol) i drafod dangosyddion perfformiad ar gyfer gofal sylfaenol.
- Ymwelais ag ysbyty cymunedol Ysbyty Eryri, a gwelais y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan yr Uned Strôc.

Rwyf bellach yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Ffion Johnstone hefyd, sy'n ymgymryd â rôl gydlynu ar ofal sylfaenol.

**Rhwydwaith Cymheiriaid yr Is-gadeiryddion**

Rwy'n parhau i fynychu'r cyfarfodydd misol hyn, a chawsom gyfarfod wyneb yn wyneb yn gynnar ym mis Medi yn swyddfeydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yng Nghwmbrân. Cynhaliwyd sesiwn ddefnyddiol ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, ac awgrymodd fod diddordeb newydd yn Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG o ran cael trafodaeth fwy penodol ar fodelau gofal sylfaenol, a fyddai'n arbennig o ddefnyddiol yma yng ngogledd Cymru o ystyried presenoldeb cymharol sylweddol practisau a reolir.

Cafodd y cyfarfod ei gyfuno â briff ar symudiad strategol WAST tuag at ddarparu cymorth iechyd yn y fan a'r lle (wyneb yn wyneb ac o bell) yn hytrach na mynd â chleifion i Adrannau Achosion Brys, a chawsom ymweliad difyr â chanolfan reoli WAST. Tynnwyd hyn sylw at yr adnoddau cymharol gyfyngedig oedd ar gael (tua 150 o ambiwlansys ar gael ledled Cymru yn ystod y diwrnod y buom yn ymweld â'r ganolfan reoli), ac i ba raddau y mae gogledd Cymru yn allgraig o ran yr oedi hir i drosglwyddo cleifion mewn Adrannau Achosion Brys. Tynnwyd sylw yn y cyfarfod hefyd at broblem fawr mewn sawl Bwrdd Iechyd (gan gynnwys Betsi), sef y diffyg opsiynau o ran yr Adrannau Achosion Brys sydd ar gael i griwiau ambiwlans eu defnyddio. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddefnyddio'r Unedau Mân Anafiadau a Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod sydd ar gael.

Yn olaf, yn ogystal â busnes sy'n gysylltiedig â fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, rwy'n siŵr fy mod i – ac ar y cyd â chydweithwyr eraill – wedi bod yn ymwneud yn eithaf helaeth â'r prosesau recriwtio ar gyfer amrywiol swyddi Gweithredol, ar ôl ymuno â'r panel cyfweld ar gyfer y rôl Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro ac ar ôl cadeirio Paneli Rhanddeiliaid ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, y Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro (Cymuned Iechyd Integredig y Canol), a swydd barhaol y Prif Swyddog Gweithredu.

*Gareth S. Williams* *Medi 2024*
*Is-gadeirydd*

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | **Gogledd Cymru Iach:** diweddariad cynnydd a chynllunio ar ddull partneriaethau rhanbarthol o gwmpasu a chyflawni rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' |
| **Adroddiad at sylw:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 26 Medi 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>**Executive Summary:** | Gan barhau â'r trafodaethau yn sesiwn datblygu'r Bwrdd Iechyd ar 27.06.24, mae tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid mewnol yn BIPBC a phartneriaid yn y rhanbarth i lywio Cam Darganfod y rhaglen waith ranbarthol hon.<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r achos i gyfiawnhau newid i systemau cyfan yn lle modelau gofal iechyd traddodiadol sy'n seiliedig yn llwyr ar egwyddorion meddygol, a mynd ati i fabwysiadu fframweithiau ymddygiad bio-seicolegol mwy cyfannol ledled seilweithiau'r system ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i wella gwaith partneriaethau yn y rhanbarth ar y cyd â chymunedau, y trydydd sector a'n gwasanaethau cyhoeddus statudol lleol i leihau anghyfartaleddau iechyd y gellid eu hosgoi a gwell deilliannau iechyd a lles tymor hwy'r boblogaeth.<br><br>Fel rhan o Gynllun 3 blynedd BIPBC 2024-2027, nod Rhaglen Gogledd Cymru Iach yw cyfrannu at gyflawni blaenoriaeth 4b (Atal) a lleihau nifer yr achosion o salwch y gellir ei osgoi. Cynhelir adolygiad cwmpasu ac ymarfer cynllunio strategol ar hyn o bryd, ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol trwy gyfrwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bwriad y gwaith hwnnw yw pennu gweledigaeth, cwmpas a chynllun cyflawni tymor hwy ar gyfer y rhaglen waith hon gan gydweithredu â rhanddeiliaid yn y rhanbarth. Mae hyn yn seiliedig ar newid sy'n ymwneud â systemau cyfan sy'n rhoi pwyslais ar fodelau ataliol, a defnyddio dulliau rhanbarthol a lleol o ddatblygu partneriaethau sy'n seiliedig ar lesiant a gwella penderfynyddion ehangach iechyd a lles.<br><br>Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn datgan y dylai hwyluso trawsnewid o ran ein dull o gynnal iechyd pobl fod yn genhadaeth i ni, gan ganolbwyntio mwy ar waith atal a'r hirdymor. Yn sgil hynny, mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio i fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd afiechyd ac anghyfartaleddau iechyd.<br><br>Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn digwydd trwy ein rhaglen 'Gogledd Cymru Iach'. Ni fwriedir iddi fod yn rhaglen waith ynddi'i hun, ond yn hytrach, yn ddull o ddarparu portffolio trosfwaol ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer yr holl raglenni gwaith amrywiol sy’n cael eu darparu'n rhanbarthol trwy gyfrwng dull partneriaeth, ac sy'n cyfateb a diben a gweledigaeth a rennir, sef mwyafu iechyd a llesiant da. Rydym yn cydweithio â'n partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod cynlluniau'n cyfateb er mwyn cyfrannu at ddeilliannau Gogledd Cymru Iach wrth i sefydliadau fynd ati i sefydlu cylchoedd cynllunio partneriaethau rhanbarthol integredig.<br><br>Mae trafodaethau a damcaniaethu eang wedi digwydd ynglŷn â dulliau systemau cyfan o fynd i'r afael â heriau’r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion ehangach iechyd, ond nid ydynt erioed wedi mynd i'r afael â hwy uniongyrchol nac wedi eu cyflawni'n effeithiol mewn un man. Mae'n allweddol i ni felly fabwysiadu dull 'dysgu gweithredol' yng Ngogledd Cymru, gan fynd ati'n rheolaidd i wella datblygu, a dylid ceisio sicrhau bod ymchwil a chyfleoedd dysgu ar y cyd yn cael eu hymgorffori yn hanfodion y rhaglen hon o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Fel rhan o'r Cam Darganfod hwn, rydym yn adeiladu ar sylfeini gwersi a ddysgwyd a phrofiadau sy'n deillio o'n dulliau gweithredu presennol sy'n seiliedig ar leoedd a gwaith sy'n seiliedig ar system gyfan sy'n cael ei gyflawni ar y cyd â'r partneriaid lleol trwy law ein tîm Iechyd Cyhoeddus, ac rydym hefyd yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil i helpu i lywio a llunio rhaglen waith sy'n cwmpasu sawl sector yn y rhanbarth sy'n ofynnol i sicrhau bod systemau cyfan yn symud tuag at economi lesiant yng Ngogledd Cymru.<br><br>Dyma ddibenion cwmpas yr adroddiad hwn:<br><br>• Cynnig trosolwg ar lefel uchel o'r cynnydd hyd yn hyn<br>• Cynnig cipolwg ar y wybodaeth a'r ddirnadaeth sy'n llywio'r achos dros newid<br>• Darparu sail ar gyfer rhaglen waith ranbarthol a fyddai'n galluogi gweithredu'r trawsnewid at waith system gyfan yn effeithiol ledled Gogledd Cymru ac sy'n ategu cyfeiriad a chynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn yn galluogi partneriaid i gydweithio'n fwy effeithiol, gan sicrhau y manteisir yn llawn ar arian cyhoeddus a fuddsoddir trwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy ar sail system gyfan ledled rhanbarth Gogledd Cymru.<br><br>Yn ychwanegol, trwy fabwysiadu'r argymhellion a chydweithio trwy ddull partneriaeth strategol ledled y system gyfan, bydd cyfleoedd dilys i ni yng Ngogledd Cymru arloesi trwy barhau i gynyddu a datblygu ymchwil, tystiolaeth a gwerthusiadau ynghylch effeithiau sefydlu dull systemau cyfan ar atal, a datblygu partneriaethau sy'n seiliedig ar lesiant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd Gogledd Cymru Iach yn gyfrwng i gynyddu momentwm ac ysgogi dulliau systemau cyfan o wella iechyd a llesiant y boblogaeth ar draws ffiniau sefydliadau. Ni fwriedir iddi fod yn un o raglenni'r Bwrdd Iechyd. Caiff ei chyflawni trwy gydweithio â chymunedau a'n partneriaid yn y rhanbarth i ddiffinio a chymeradwyo dull amlasiantaethol tymor hwy sy'n darparu conglfeini llesiant yn hytrach thrin salwch. | | |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Trwy lunio'r adroddiad manwl hwn, mae tîm Rhaglen Gogledd Cymru Iach yn gwneud yr argymhellion canlynol:<br><br>1. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r cynnydd hyd yma o ran Rhaglen Gofal Cymru Iach, ac i gydnabod rôl a phwysigrwydd y gwaith hwn o ran llunio a datblygu'r newid yn y tymor hwy o ran atal ym maes gwasanaethau iechyd a gofal, a newid diwylliannol ehangach yn ymwneud â model economi lles.<br><br>2. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo Fframwaith Strategol y Celfyddydau, Iechyd a Lles, ac i gydnabod rôl a phwysigrwydd y gwaith hwn wrth lunio a datblygu'r newid yn y tymor hwy o ran atal ym maes gwasanaethau iechyd a gofal, a newid diwylliannol ehangach yn ymwneud â model economi lles.<br><br>3. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo'r ymagwedd bartneriaeth ranbarthol yr ymgymerir â hi i gwmpasu a mabwysiadu model systemau cyfan ar gyfer mynd i'r afael â gwraidd achosion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd a lles. Gan nodi y bydd angen Achos Busnes ar gyfer adnoddau yn y tymor hwy i arwain ar gyflwyno'r rhaglen 3-5 mlynedd (a thu hwnt).<br><br>4. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gefnogi newid i ddull sy'n canolbwyntio ar atal yn y Bwrdd Iechyd ac o ran sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y system gyfan. | | |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Dr Jane Moore | | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Brian Laing – Rheolwr Datblygu Partneriaethau Strategol<br>Teri Howson-Griffiths – Arweinydd Strategol y Celfyddydau mewn Iechyd | | |
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am Sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |

| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
|---|---|---|---|---|

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Fel rhan o Gynllun 3 blynedd BIPBC 2024-2027, nod Rhaglen Gogledd Cymru Iach yw cyfrannu at gyflawni blaenoriaeth 4b (Atal) a lleihau nifer yr achosion o salwch y gellir ei osgoi.<br><br>Fe wnaeth Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2021) alw am '"chwyldro o'r tu mewn" i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i'n system iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn medru diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru'.<br>Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i hyn yn cyd-fynd â chynorthwyo i gyflawni polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Deddf y GIG (Cymru) 2006<br>• Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010<br>• Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023)<br><br>Yn ogystal â'r dyletswyddau a nodir uchod, mae'r rhaglen waith hon yn alinio â strategaethau a chynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol amrywiol eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: Rhaglen |

| | |
|---|---|
| | Strategol Gofal Sylfaenol, Creu Cymru Iachach, Llywio Lleoedd ar gyfer Cymru Iachach<br><br>Mae fframwaith y Celfyddydau mewn Iechyd yn ategu amcanion strategol yn y Bwrdd Iechyd sy'n gysylltiedig â gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae'n cynorthwyo i dargedu adnoddau trwy ganolbwyntio ar bobl, lleoedd ac anghenion.<br><br>Mae'r fframwaith yn annog cydweithredu a phartneriaethau yn ein dulliau o weithio, yn ogystal â gwella ansawdd gwasanaethau trwy gyflawni blaengareddau celfyddydau mewn iechyd. Mae'n cynorthwyo i sicrhau gofal yn agos at y cartref a thrawsnewid iechyd trwy gynnig dulliau arloesol a thrawsnewidiol o ymdrin ag iechyd â lles, sydd wedi'u cadarnhau gan dystiolaeth. Mae'r ffocws yn ategu'r strategaeth iechyd meddwl ac ymgynghoriadau presennol Llywodraeth Cymru ynghylch Iechyd Meddwl a hunanladdiad. |
| **Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid oes unrhyw oblygiadau rheoleiddio hysbys yn achos y gwaith hwn. Rydym yn cydweithio ag amrywiaeth o wasanaethau a thimau i sicrhau llywodraethu ariannol priodol ac y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd. Byddwn yn asesu risgiau pobl prosiect yn unigol ac yn cadw at ofynion canllawiau a pholisïau cyrff ariannu, ac yn mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau yn y sector. |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Na.<br><br>Bwriedir i'r fframwaith strategol ymdrin â'r grwpiau bregus penodol a nodwyd. Byddwn yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd pan fo hynny'n briodol mewn perthynas â phrosiectau fel rhan o waith cynllunio a gwerthuso i bennu beth fydd effeithiau prosiectau ar y boblogaeth ac ar unigolion. Bydd hyn yn ofyniad statudol maes o law os bydd yn berthnasol yn achos prosiectau sydd wedi'u hariannu, ond bydd yn llywio arferion gorau hefyd. |

| | |
|---|---|
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Na.<br><br>Fel yr uchod.<br>Cydnabyddir y bydd angen i BIPBC a'i bartneriaid ymgymryd â SEIA wrth i gwmpas a chynlluniau cyflawni rhaglen ehangach Gogledd Cymru Iach gael ei datblygu. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | **BAF SP1** – Iechyd y Cyhoedd<br>Ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â rhoi cymorth digonol i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd.<br>Lliniaru: Bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn sicrhau cysondeb o ran y dull strategol a blaenoriaethu yn y rhanbarth.<br><br>Risg wreiddiol **20** risg darged **12**<br><br>**CRR2408** - Cyflawni dull iechyd y boblogaeth o ymdrin ag iechyd a lles<br><br>Camau ychwanegol gofynnol: Nid oes unrhyw gyllid hirdymor pendant i ariannu gweithredu'r dull system gyfan a thwf y dull ledled Gogledd Cymru ar raddfa eang.<br><br>Risg wreiddiol **20** risg darged **12**<br><br>Nodir bod iechyd poblogaeth Gogledd Cymru yn gwaethygu ac mae hynny'n effeithio'n sylweddol ar y galw am wasanaethau, a gallai hynny effeithio ar y gymuned ehangach yn sgil colli aelodau o'r gweithlu, ac yn sgil effeithiau economaidd dilynol ar ein cymunedau trwy golli cyfranogiad. Mae deilliannau iechyd yn gwaethygu a chynnydd o ran salwch ac anghyfartaleddau yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni gwasanaethau gofal iechyd rhagorol, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ddiben y Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio'n benodol ar well iechyd a lles y boblogaeth. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol presennol yn gysylltiedig â'r argymelliadau i ymrwymo i ddull partneriaeth ranbarthol o gwmpasu a chynllunio rhaglenni Gogledd Cymru Iach, dylid nodi y ceir pwysau ar hyn o bryd ar gyllidebau craidd a'r cyllid grantiau blynyddol sydd ar gael. Bydd angen ystyried pa adnoddau fydd eu hangen yn y tymor hwy i lywio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen 3-5 mlynedd (a thu hwnt) yn gynaliadwy. Dylid datblygu achos busnes cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Bydd y fframwaith Celfyddydau mewn iechyd yn cefnogi rhagor o geisiadau am gyllid prosiectau trwy amlygu ffocws a chyfeiriad eglur ar gyfer y tîm. Mae cyrff ariannu yn gofyn yn gynyddol am i weithgareddau'r celfyddydau mewn iechyd gael eu llywio a'u harwain o safbwynt strategol ac am ddefnyddio dull strategol o weithio yn y cyd-destun hwn.<br><br>Mae wedi'i lunio er mwyn creu ystod o amcanion sy'n sicrhau na fydd y tîm yn agored i ymrwymiadau ariannol, trwy ystod o weithgareddau nad ydynt yn dibynnu ar sicrhau cyllid. Ar yr un pryd, mae parhau â'r ymrwymiad i ymgeisio am a sicrhau cyllid allanol trwy law sefydliadau elusennol megis Cyngor Celfyddydau Cymru, ond hefyd i weithio trwy bartneriaethau i ysgogi gweithrediadau'r tîm trwy gydweithredu ag awdurdodau lleol, partneriaid ym meysydd addysg bellach ac addysg uwch, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol, y sector elusennau, a gwasanaethau a thimau'r Bwrdd Iechyd. |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae'r adnoddau sydd wedi'u hymrwymo ar gyfer Gogledd Cymru Iach yn gyfyngedig ar hyn o bryd, a cheir contractau tymor byr yn achos llawer o swyddi strategol.<br><br>Fel y nodir uchod, bydd angen ystyried pa adnoddau fydd eu hangen yn y tymor hwy i lywio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen 3-5 mlynedd (a thu hwnt) yn gynaliadwy. Dylid |

| | |
|---|---|
| | datblygu achos busnes cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau strwythur a chyfeiriad pendant ar gyfer gweithgareddau'r tîm ac yn cynorthwyo i sicrhau gweithio effeithiol ar gyfer y tîm. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Cyflwynwyd y papur hwn i'r Tîm Gweithredol ar 11.09.24 ac yn yr adroddiad llawn sydd wedi'i atodi, cynigir diweddariadau argymelledig i adlewyrchu cynnydd a chyfeiriad y rhaglen waith ranbarthol hon.<br><br>Mae'r gwaith o gwmpasu a datblygu rhaglenni tymor hwy Gogledd Cymru Iach yn digwydd trwy law'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan ymgynghori a chydweithio â rhanddeiliaid yn y rhanbarth ym mhob un o'r 6 Awdurdod Lleol ac ym mhob un o'r 6 Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae'r trafodaethau cychwynnol ynghylch cwmpasu a'r dull wedi'u cynnal â Grŵp Arweinyddiaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 26/07 (gweler yr atodiad sydd wedi'i atodi) a oedd yn cefnogi'r cynnig. Yn sgil gweithdy ynghylch Cam Darganfod a gynhaliwyd gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen sy'n cynnwys carfan ehangach o randdeiliaid er mwyn datblygu cydberchnogaeth a chyd-atebolrwydd.<br><br>Mae fframwaith strategol y Celfyddydau mewn Iechyd wedi'i ddatblygu drwy ymchwil yn y sector gan gynnwys cysylltu â pholisïau a strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol, a defnyddio'r sylfaen o dystiolaeth yn y sector. Mae hefyd wedi cynnwys ymgysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd, a chymorth gan gydweithwyr allweddol megis Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Lles Cymru, a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys cydlynwyr y Celfyddydau ac Iechyd ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Fe'i datblygwyd hefyd â chyfraniadau gan bartneriaid rhanbarthol sy'n aelod o Grŵp Llywio Partneriaid y Celfyddydau, Iechyd a |

| | |
|---|---|
| | Lles gan gynnwys sefydliadau addysg uwch, awdurdodau lleol, sefydliadau celfyddydol a grwpiau celfyddydau cymunedol llawr gwlad, yn ogystal â chydweithwyr a thimau ym maes Iechyd y Cyhoedd ac yn y GIG.<br><br>Mae wedi'i gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau er mwyn cael adborth, gan gynnwys GAD Iechyd y Boblogaeth, cyfarfod Rhwydwaith Engage Cymru, Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn ogystal ag Eisteddfod Genedlaethol 2023, a gyda sefydliadau lleol a rhanbarthol (e.e., grŵp Partneriaeth Creu Conwy, Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn), yn ogystal â digwyddiad rhannu gwybodaeth ar-lein ledled y GIG ac â sectorau sy'n bartneriaid i ni (er enghraifft). |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF SP1 / CRR2408 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol. |

**Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Camau Nesaf/Next Steps:***
***Rhoi'r argymhellion ar waith***

Sicrhau y derbynnir y dull partneriaeth ranbarthol er mwyn cwmpasu a mabwysiadu model systemau cyfan at ddibenion mynd i'r afael â gwraidd achosion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd a lles.

Datblygu Achos Busnes ar gyfer adnoddau yn y tymor hwy i lywio'r gwaith o gyflawni 3-5 mlynedd (a thu hwnt) yn gynaliadwy.

**Rhestr o Atodiadau:**

***List of Appendices:***

Building a Healthier Wales Together - Saesneg

Dogfen Fframwaith Strategol y Celfyddydau, Iechyd a Lles – Cymraeg

| |
|---|
| Arts, Health and Wellbeing Strategic framework document – Saesneg<br><br><br>Atodiadau Dogfen Fframwaith Strategol y Celfyddydau, Iechyd a Lles – Cymraeg<br>Arts, Health and Wellbeing Strategic framework appendices – Saesneg |



# GOGLEDD CYMRU IACH

## Gweithio gyda'n gilydd i greu gogledd cymru iachach


### Crynodeb

Yn dilyn trafodaethau o sesiwn datblygu'r Bwrdd Iechyd ar 27.06.24, mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol BIPBC a phartneriaid rhanbarthol i lunio Cam Darganfod y rhaglen waith ranbarthol hon.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r achos dros newid ar gyfer newidiadau systemau cyfan o fodelau gofal iechyd meddygol traddodiadol, tuag at fabwysiadu fframweithiau ymddygiad bio-seicogymdeithasol mwy cyfannol ar draws y seilweithiau system ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i wella gwaith mewn partneriaethau rhanbarthol gyda chymunedau, y trydydd sector a'n gwasanaethau cyhoeddus statudol lleol i leihau anghydraddoldebau iechyd y gellid eu hosgoi a gwella iechyd y boblogaeth a chanlyniadau llesiant yn y tymor hwy.



Brian Laing (Iechyd Cyhoeddus - BIPBC)

# Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o Gynllun 3 blynedd BIPBC 2024-2027, mae Rhaglen Gogledd Cymru Iach yn gwneud cyfraniad o ran cyflawni blaenoriaeth 'Atal 4b' a lleihau salwch y gellid ei osgoi. Cynhelir adolygiad cwmpasu ac ymarfer cynllunio strategol ar hyn o bryd ynghyd â rhanddeiliaid rhanbarthol trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ffurfio gweledigaeth, cwmpas a chynllun cyflawni tymor hwy ar gyfer y rhaglen waith hon gan weithio mewn dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid rhanbarthol. Mae hyn yn seiliedig ar newid systemau cyfan tuag at fodelau ataliol, a chan ddefnyddio dulliau rhanbarthol a lleol i feithrin partneriaethau ar sail lles a gwella penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant.

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi y dylem sicrhau ei bod yn genhadaeth i ni hwyluso trawsnewid o ran y ffordd yr ydym yn sicrhau bod pobl yn aros yn iach yn barhaus, gan ganolbwyntio fwyfwy ar ddulliau atal a'r tymor hir. O ganlyniad, mae cyrff cyhoeddus yn cydweithio i fynd i'r afael â gwraidd achosion salwch a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

***"Mae iechyd yn hollbwysig i'n llesiant ac mae'r GIG yn un o'r sefydliadau mwyaf gwerthfawr yn ein gwlad. Caiff dros hanner cyllideb Llywodraeth Cymru ei gwario ar iechyd, ond er hynny, erys lefelau salwch y gellid ei osgoi ac anghydraddoldebau iechyd yn uchel. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn dal i weld disgwyliad oes is ar gyfartaledd, a byddwn yn clywed droeon am y rhwystredigaethau y mae pobl yn eu profi oherwydd rhestrau aros a'r angen am wasanaethau cydgysylltiedig"***

***- Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru (2024)***

Yng ngogledd Cymru, gwneir hyn trwy ein rhaglen 'Gogledd Cymru Iach', ac ni fwriedir iddi fod yn rhaglen waith ynddi'i hun, ond yn hytrach i ddarparu portffolio trosfwaol ar gyfer yr holl raglenni gwaith amrywiol sy'n cael eu darparu gan y bartneriaeth ranbarthol, ac sydd wedi eu halinio â'r pwrpas a'r weledigaeth cyffredin sydd ynghlwm wrth wella iechyd da a llesiant. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i alinio cynlluniau er mwyn cyfrannu at ganlyniadau Gogledd Cymru Iach wrth i sefydliadau symud at gylchoedd cynllunio integredig ar gyfer partneriaethau rhanbarthol.

Gan fod trafodaethau a damcaniaethu eang wedi digwydd ynglŷn â dulliau systemau cyfan o fynd i'r afael â heriau'r ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion ehangach iechyd ond, nid ydynt erioed wedi mynd i'r afael â nhw'n uniongyrchol nac wedi eu cyflwyno'n effeithiol mewn un man; mae'n allweddol bod Gogledd Cymru Iach yn mabwysiadu dull rhaglen ddysgu, a dylid ceisio sicrhau bod ymchwil a chyfleoedd dysgu ar y cyd yn cael eu hymgorffori yn DNA y rhaglen hon o'r cychwyn cyntaf.

Fel rhan o'r Cam Darganfod hwn, rydym yn gwella dysgu a phrofiad o'n dulliau parhaus ar sail lleoedd a gwaith systemau cyfan sy'n cael eu cyflwyno gyda phartneriaid lleol trwy ein tîm Iechyd Cyhoeddus, ac rydym hefyd yn dechrau

prosiectau ymchwil er mwyn helpu i lywio a llunio'r rhaglen waith aml-sector ranbarthol sydd ei hangen i newid systemau cyfan fel bod modd creu economi lles yng ngogledd Cymru.

Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi gymaint â phosibl trwy wasanaethau iechyd a gofal system gyfan cynaliadwy sy'n cael eu cyflwyno ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

Yn ogystal, trwy fabwysiadu'r argymhellion a gweithio gyda'n gilydd trwy ddull partneriaeth strategol ar draws y system gyfan, mae cyfleoedd gwirioneddol i ogledd Cymru arwain y ffordd trwy adeiladu a datblygu'r ymchwil ymhellach, tystiolaeth a gwerthusiadau o effeithiau'r newid system gyfan tuag at atal, a meithrin partneriaethau sydd wedi'u creu i fynd i'r afael â llesiant.

Bydd Gogledd Cymru Iach yn gyfrwng i adeiladu momentwm a gyrru dulliau systemau cyfan at wella iechyd a llesiant y boblogaeth ar draws ffiniau sefydliadol. Ni fwriedir iddi fod yn rhaglen gan y Bwrdd Iechyd; caiff ei chyflwyno trwy gydweithio â chymunedau a'n partneriaid rhanbarthol i ddiffinio a chytuno ar ymagwedd aml-asiantaethol yn y tymor hwy i newid o drin salwch i gynnig conglfeini lles.

# Cynnwys

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ... 1

**1. Cyflwyniad** ... 4

1.1 Cefndir a Chyd-destun ... 4

1.3 Cwmpas a Nodau ... 5

**2 Yr Achos Cymhellol dros Newid** ... 7

2.1 Data ynghylch y Boblogaeth ... 7

2.2 Cyd-destun Strategol ... 9

2.3 Ymagweddau'r Bwrdd Iechyd o ran newid i ddulliau atal ... 11

2.4 Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymagweddau Lleol ... 12

**3 Cynnydd a Blaengynllunio** ... 14

3.1 Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Iechyd 2024/25 ... 14

3.2 Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ... 14

3.3 Rhagnodi Cymdeithasol ac Ymyriadau Cymdeithasol ... 15

3.4 Lleihau Amrywiadau ... 16

3.5 Celfyddydau mewn Iechyd ... 17

3.6 Rhaglen Ddiabetes – Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd ... 18

3.7 Cwmpasu newid systemau cyfan ar gyfer gogledd Cymru ... 18

**4 Ystyriaethau Pellach** ... 20

4.1 Cyllido Cymunedau Cynaliadwy a Gwydn ... 20

4.2 Perchnogaeth ac Atebolrwydd ar y Cyd ... 21

**5 Casgliadau ac argymhellion** ... 23

**Cyfeiriadau a Darllen Pellach** ... 24

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir a Chyd-destun

Sefydlwyd Rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' gyntaf yn 2018 ac mae partneriaid y Bwrdd Iechyd wedi bod yn ei gweithredu ers pum mlynedd. Cysyniad gwreiddiol rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' oedd cynghrair o bartneriaid yn cydlynu camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i ddarparu fforwm i bartneriaid gydweithio ar raglenni gwaith cysylltiedig yng ngogledd Cymru.

Ni chafodd prosesau llywodraethu ac atebolrwydd y gynghrair hon erioed eu ffurfioli, ond roedd y rhaglen yn adrodd i Grŵp Cynghori Gogledd Cymru a thrwy'r tîm Iechyd Cyhoeddus lleol.

Ers mis Hydref 2022, Byrddau Iechyd sy'n cyflogi Timau Iechyd Cyhoeddus lleol, yn hytrach nag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC yn parhau i ddatblygu system iechyd fwy cadarn a mwy integredig i amddiffyn a thrawsnewid iechyd a llesiant pobl gogledd Cymru.

Bydd ymgorffori adnoddau a sgiliau Iechyd Cyhoeddus arbenigol ar lefel leol, yn galluogi BIPBC a'n partneriaid lleol i gynyddu'r ffocws ar wella iechyd a llesiant y boblogaeth leol ymhellach. Mae gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus gyfrifoldeb cyffredinol dros iechyd cyhoeddus a'r boblogaeth yng ngogledd Cymru, ac mae'n llywio mentrau i fynd i'r afael â heriau yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a gwella iechyd cyffredinol y boblogaeth.


Nod elfennau darparu'r rhaglen yw gwella dulliau partneriaethau rhanbarthol gan newid o fodelau gofal iechyd meddygol traddodiadol i fabwysiadu fframweithiau ymddygiad bio-seicogymdeithasol mwy cyfannol ar draws seilweithiau'r system ehangach - mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau, y trydydd sector a'n partneriaid gwasanaethau cyhoeddus statudol lleol i leihau anghydraddoldebau iechyd y gellid eu hosgoi a gwella canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth yn y tymor hwy trwy'r amcanion canlynol:

- Mynd i'r afael â'r 'Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal' mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Gwella'r broses o gyd-gynllunio, contractio a chyd-gomisiynu rhagnodi cymdeithasol ac ymyriadau cymdeithasol
- Sicrhau bod ein grwpiau a'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu imiwneiddiadau a sgrinio
- Ystyried a darparu cyfleoedd ar draws y rhanbarth i wella iechyd a lles trwy'r celfyddydau ym maes iechyd.

Cynhelir adolygiad cwmpasu ac ymarfer cynllunio strategol yn ystod 2024/25 gyda'r bwriad o ffurfio gweledigaeth, cwmpas a chynllun cyflawni tymor hwy ar gyfer y rhaglen waith hon gan weithio mewn dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid rhanbarthol. Bydd yr adolygiad cwmpasu hwn yn ceisio sefydlu'r fframwaith

llywodraethu sydd ei angen i sefydlu mecanweithiau ar gyfer cyflawni dull system gyfan i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth, a'u goruchwylio'n strategol. Y rhain yw'r prif hwyluswyr er mwyn symud at fodelau ataliol o ran iechyd a llesiant.

**EIN GWELEDIGAETH: Gwella iechyd a llesiant ar gyfer Gogledd Cymru sy'n ffynnu - fel bod *pawb* yn mwynhau iechyd da**




*Ffigur 1 Datganiad Gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus BIPBC*

Bydd Gogledd Cymru Iach a'r tîm Iechyd Cyhoeddus lleol ehangach yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol a phartneriaid rhanbarthol y Bwrdd Iechyd fel rhan o'r cylchoedd cynllunio busnes ac ariannol i wella gwytnwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Gofal Cymdeithasol. Trwy greu fframweithiau effeithiol sy'n caniatáu i amgylchedd gydweithio fwyfwy â'r trydydd sector a grwpiau cymunedol, bydd Gogledd Cymru Iach yn ystyried ac yn gweithredu cyfleoedd i gyd-gynllunio, cydgynhyrchu a chydwerthuso gwasanaethau. Ei nod fydd creu cynigion cynaliadwy wedi'u cyflwyno trwy bartneriaethau gyda'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, i arwain yn rhagweithiol ar fentrau a fydd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn gwella canlyniadau iechyd a llesiant.

## 1.3 Cwmpas a Nodau

Gan gydnabod bod iechyd a llesiant yn cael eu pennu gan fwyaf gan ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol; nod Gogledd Cymru Iach yw mynd i'r afael ag anghenion pobl mewn ffordd fwy cyfannol. Ei nod hefyd yw rhoi cymorth i unigolion o ran cymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r achos dros newid ar gyfer newidiadau systemau cyfan o fodelau gofal iechyd meddygol traddodiadol, tuag at fabwysiadu

fframweithiau ymddygiad bio-seicogymdeithasol mwy cyfannol ar draws y seilweithiau system ehangach. Canfod cyfleoedd i wella gwaith partneriaethau rhanbarthol gyda chymunedau, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus statudol lleol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd y gellid eu hosgoi a gwella canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth yn y tymor hwy.

Cwmpas yr adroddiad yw:

- Darparu trosolwg lefel uchel o gynnydd hyd yma
- Darparu cipolwg ar y deallusrwydd a'r ddirnadaeth sy'n sail i'r achos dros newid
- Darparu'r sail i raglen waith ranbarthol a fyddai'n caniatáu rhoi trawsnewidiadau system gyfan ar waith yn effeithiol ar draws gogledd Cymru ac sy'n ategu cyfeiriad strategol a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn galluogi partneriaid i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi gymaint â phosibl trwy wasanaethau iechyd a gofal system gyfan cynaliadwy sy'n cael eu cyflwyno ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

Yn ogystal, trwy fabwysiadu'r argymhellion a gweithio gyda'n gilydd trwy ddull partneriaeth strategol ar draws y system gyfan, mae cyfleoedd gwirioneddol i ogledd Cymru arwain y ffordd trwy adeiladu a datblygu'r ymchwil ymhellach, tystiolaeth a gwerthusiadau o effeithiau'r newid system gyfan tuag at atal, a meithrin partneriaethau sydd wedi'u creu i fynd i'r afael â lles.


# 2 Yr Achos Cymhellol dros Newid

## 2.1 Data ynghylch y Boblogaeth

Mae gan BIPBC boblogaeth o ryw 688,000 a disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol gynyddu o 1.5% yn unig erbyn 2040.

Mae gan Gymuned Iechyd Integredig (IHC) y Dwyrain boblogaeth iau o gymharu â gweddill BIPBC, ond mae hyn yn debyg i lefel Cymru gyfan, ar gyfartaledd.

Mae gan IHC y Canol ac IHC y Gorllewin gyfran uwch o bobl hŷn na'r gyfran gyfartalog i Gymru.




*Ffigur 2 Newidiadau i ddemograffeg oedran y boblogaeth BIPBC 2025-2040*

Mae anghydraddoldebau iechyd yn annheg ac mae gwahaniaethau y gellid eu hosgoi o ran canlyniadau iechyd ar draws y boblogaeth a rhwng grwpiau demograffaidd gwahanol yn y gymdeithas.

Mae anghydraddoldebau iechyd sydd wedi bodoli ers amser maith yn y DU wedi dod i'r arolwg yn ystod pandemig COVID-19 ac yn sgil, lle bo'r effeithiau anghymesur ar y grwpiau sydd â'r amddifadedd economaidd mwyaf, lleiafrifoedd ethnig a menywod wedi parhau i waethygu. Mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru i'w cael yng ngogledd Cymru.

Y bwlch rhwng disgwyliad oes ar adeg geni rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng ngogledd Cymru yw saith mlynedd i wrywod a 6.1 mlynedd i fenywod, ar gyfartaledd.

Gall gwrywod sy'n byw yn ein wardiau mwyaf difreintiedig ddisgwyl byw ryw 12 mlynedd yn llai ag iechyd da o gymharu â'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, ac i fenywod, 11 mlynedd yn llai yw'r ffigwr.

Mae 27% o blant rhwng 0-15 oed yng ngogledd Cymru yn byw gyda theuluoedd incwm isel, ac mae lefelau tlodi plant yn cynyddu.

Mae 58.9% o oedolion yng ngogledd Cymru dros eu pwysau neu'n ordew (2022) a disgwylir i hyn gynyddu dros y blynyddoedd sydd i ddod gan fod 25.9% o blant rhwng 4-5 oed eisoes dros eu pwysau neu'n ordew (ICC 2022)

Dim ond 21.8% o oedolion sy'n bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau bob dydd, sy'n is na'r cyfartaledd i Gymru gyfan o 28.5%, ac mae hyn yn is o lawer yn Ynys Môn lle bo'r ffigwr hwn mor isel â 9.2% (ICC, 2022)

Er mwyn dilyn arweiniad y Llywodraeth ar fwyta'n iach, byddai angen i 10% o'r aelwydydd sydd â'r incwm isaf wario 74% o'u hincwm gwario ar fwyd (y Sefydliad Bwyd 2020) - roedd hyn cyn bod incwm gwario aelwydydd wedi gostwng ymhellach oherwydd pwysau costau byw megis costau cynyddol o ran tanwydd a rhent, ond mae'n rhaid i'r incwm hwnnw fynd hyd yn oed ymhellach oherwydd costau cynyddol bwyd.

**Patients registered by GP as having a chronic condition, 2022**

| | North Wales | |
|---|---|---|
| Hypertension (high blood pressure) | 120,950 | 17.0% |
| Obesity (patients aged 16+) | 67,800 | 11.5% |
| Asthma | 52,450 | 7.4% |
| Diabetes mellitus (patients aged 17+) | 45,850 | 7.9% |
| Coronary heart disease | 25,950 | 3.6% |
| Cancer | 28,250 | 4.0% |
| Chronic obstructive pulmonary disease* | 18,000 | 2.5% |
| Stroke | 15,550 | 2.2% |
| Heart failure | 8,250 | 1.2% |
| Mental health | 7,300 | 1.0% |
| Dementia | 5,500 | 0.8% |
| Epilepsy (patients aged 18+) | 5,400 | 0.9% |

*Ffigur 3 Amlder salwch cyfyngus hirdymor BIPBC 2022/23*

Mae mwy nag un ym mhob pump o bobl yng ngogledd Cymru yn sôn bod arnynt salwch hirdymor cyfyngus ac mae cyfraddau salwch cronig ac afiacheddau ar gynnydd.

Disgwylir i nifer y bobl sydd wedi cofrestru â diabetes yng ngogledd Cymru gynyddu 31.6% o 46,994 yn 2023 i 61,861 yn 2035

Yn 2022, mae adroddiad a gomisiynwyd gan Ymchwil Canser y DU yn awgrymu bod 30,000 o achosion ychwanegol o ganser yn cael eu hachosi bob blwyddyn yn y DU oherwydd amddifadedd economaidd-gymdeithasol a bod cyfraddau goroesi'n uwch o lawer ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig.

Mae British Heart Foundation Cymru hefyd yn adrodd bod cyfraddau marwolaeth gynamserol ar gyfer pobl sydd â chlefydau sy'n effeithio ar y galon a chylchrediad y gwaed wedi dyblu bron mewn ardaloedd lle bo amddifadedd lluosog (116.4 am bob 100,000 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â 58.2 yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig)

***Negeseuon Allweddol:***

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch y GIG yn canolbwyntio ar gyflyrau hirdymor

Mae'r boblogaeth yn heneiddio - ac yn fwy tebygol o fod â chyflyrau hirdymor, ac yn aml, cyflyrau lluosog

Mae pobl yn byw'n hirach ac mewn iechyd gwaelach am yn hirach

Pobl yn yr ardaloedd tlotaf a gaiff eu heffeithio fwyaf gan salwch a marwoldeb

Mae cyfraddau geni'n gostwng, ond yn groes i hyn, mae mwyfwy o blant yn byw mewn tlodi

## 2.2 Cyd-destun Strategol

Galwodd Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2021) am "chwyldro o'r tu mewn" i roi'r newidiadau y mae angen i ni eu gweld yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol ar waith, fel ei bod yn gallu diwallu anghenion cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i hyn yn alinio â darpariaeth atodol o ran polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru er mwyn bodloni'r nodau llesiant cenedlaethol.
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) (2020) sy'n sicrhau ystyriaethau o ran gwella ansawdd gwasanaethau iechyd, ac sy'n ystyried sut mae newid yn effeithio ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydweithredu ag Awdurdodau Lleol i ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion iechyd y boblogaeth, gan gynnwys camau gweithredu ataliol.
- Deddf y GIG (Cymru) 2006 y mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol oddi tani i ymgynghori â dinasyddion ac i'w cynghori wrth gynllunio darparu gwasanaethau, datblygu cynigion dros newid yn ymwneud â sut caiff gwasanaethau eu darparu a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar sut y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu.

- Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynnwys pobl y mae'n ystyried i gynrychioli'r rheiny â nodweddion gwahanol a'r rhai sydd â diddordeb o ran sut mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2023)

Yn ogystal â'r dyletswyddau a nodir uchod, mae'r rhaglen waith hon yn alinio â strategaethau a chynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol amrywiol eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: Raglen Strategol Gofal Sylfaenol, Adeiladu Cymru Iachach, Llywio Lleoedd ar gyfer Cymru Iachach.

Canfu adroddiad Darzi (2024) a gyhoeddwyd yn ddiweddar fod y GIG yn Lloegr mewn 'cyflwr critigol' ymysg rhestrau aros cynyddol a dirywiad o ran iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'n tynnu sylw at bedwar sbardun rhyng-gysylltiedig o ran perfformiad presennol: caledi a chyllid cyfyngedig; effaith y pandemig; diffyg llais gan gleifion ac ymgysylltu â staff; a rheoli strwythurau a systemau.

Mae adroddiad Darzi yn rhoi darlun ar berfformiad y GIG (yn Lloegr) o fewn yr amgylchedd allanol cyfnewidiol a heriol y mae wedi gweithredu ynddo dros yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae'n cydnabod bod llawer o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at heriau presennol y GIG y tu hwnt i'w reolaeth uniongyrchol. Er ei fod yn canolbwyntio ar gyflwr a dirywiad y GIG yn Lloegr, mae llawer o'r adroddiad yn adleisio heriau tebyg y bydd arweinwyr iechyd ar draws y DU gyfan yn gyfarwydd â nhw, ac mae'n tynnu sylw at faterion lle mae Cydffederasiwn y GIG wedi dadlau dros eu newid ers cryn amser.

Gellid awgrymu y gallai Byrddau Iechyd yng Nghymru fod mewn sefyllfa well i weithredu'n gyflym ac yn benderfynol ar y newid cyfeiriad hwn yn ddiweddar gan Lywodraeth San Steffan y DU, o ystyried bod gan Gymru eisoes fframwaith o bolisïau a deddfwriaeth a nodir uchod sy'n alinio ag amcan gweledigaeth gyffredin o symud tuag at greu economi llesiant.

## 2.3 Ymagweddau’r Bwrdd Iechyd o ran newid i ddulliau atal

O fewn blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau gyda'r gwaith o gyfrannu at nodau strategol deng mlynedd yn y tymor hwy sydd wedi'u halinio â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i weithio gyda phartneriaethau rhanbarthol ac i symud at fodelau perchnogaeth ac atebolrwydd ar y cyd o ran llesiant.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2: Developing strategy and long-lasting change** | | | | | | |
| 2A: 10 year strategy | | | | | | |
| 2A.1 | Collaboratively refresh Health Board well-being objectives in line with the requirements of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and Social Partnership and Public Procurement (Wales) Act 2023 | EDoT&SP | | | Q3 | |
| 2A.2 | Establish a systematic approach, commencing with identified health needs, collation of evidence, design principles, and clinical and citizen reference groups | EDoT&SP | | | Q3 | |
| 2A.3 | Collaboratively agree Health Board strategic 'Design Principles' | EDoT&SP | Q1 | | | |
| 2A.4 | Agree a schedule of 'what matters' conversations focused upon what has been identified above, and an understanding of successful service developments undertaken elsewhere that have helped to address similar issues | EDoT&SP | Q1 | | | |
| 2A.5 | Undertake conversations as scheduled, continually evolving the conversations based upon what has been heard in earlier events | EDoT&SP | | Q2 | | |
| 2A.6 | Collation of a high level summary of findings, and commence identifying the key strategic opportunities to test with stakeholders | EDoT&SP | | Q2 | | |
| 2B: Clinical Services Plan | | | | | | |
| 2B.1 | During 2024/25 the Health Board will develop a draft CSP that adequately incorporates the *known* clinical requirements of the next 3 years | EMD | | | Q3 | |
| 2C: Commissioning | | | | | | |
| 2C.1 | Appoint a Director of Performance and Commissioning, with specific experience of whole system NHS commissioning | CEO | | Q2 | | |
| 2C.2 | Design and commence implementation of a new organisational framework approach to commissioning and contract management, built upon learning from best practice across the UK | DoP&C | | | Q3 | |

*Ffigur 4 Rhan o Gynllun Cyflawni Blynyddol BIPBC 2024/25 Atodiad B*

Fel yr amlinellir yng [Nghynllun Tair Blynedd 2024-27 BIPBC](), mae cydnabyddiaeth o'r angen i symud tuag at ddulliau atal ac awydd i atgyfnerthu penderfyniadau ar sail tystiolaeth, perchnogaeth a chamau gweithredu ystyrlon.

Mae ein cynllun cyflawni'n rhoi dulliau â ffocws trwy adolygu Strategaeth Deng Mlynedd y Bwrdd Iechyd, adolygiad ar y cyd o'r Amcanion Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023, a hefyd drafftio ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol a fydd yn creu ffocws ar y newid tuag at atal dros y tair blynedd nesaf, gan ei gymhwyso'n arbennig ar draws lleoliadau Sylfaenol a Chymunedol.





*Ffigur 5 Ymagwedd BIPBC tuag at symud at fodelau iechyd ataliol*

## 2.4 Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymagweddau Lleol

Gwnaeth y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth (2021) argymell rhaglen waith i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Tai, Addysg, y trydydd sector, darparwyr a dinasyddion. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, caiff hyn ei gyflwyno trwy fecanweithiau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn unol â'r angen a nodwyd i gryfhau gweithio mewn partneriaeth, mae gofyn i'r holl randdeiliaid ddod at ei gilydd i drafod yr heriau hyn gan nad yw'r penderfynyddion allweddol a llawer o'r canlyniadau'n ymwneud ag iechyd neu ofal yn unig.




*Ffigur 6 Dulliau Partneriaethau Rhanbarthol Gogledd Cymru i newid i fodelau ataliol*

Bwriad Ailgydbwyso Gofal oedd adlunio arferion comisiynu fel nad oeddent yn orgymhleth a'u symleiddio, heb fod yn ymarfer ar sail tasgau i fod yn ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a heb fod yn gomisiynu adweithiol fel bod modd rheoli'r farchnad er mwyn cydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl. Bwriad arall ynghlwm wrth Ailgydbwyso Gofal oedd ailffocysu hanfodion y farchnad iechyd a gofal heb fod yn canolbwyntio ar bris, a symud tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol, ac i gydgynhyrchu canlyniadau gwell gyda phobl. Yn ymarferol, mae lleihau costau a gwella canlyniadau wedi bod yn anos o lawer na'r disgwyl oherwydd newid radicalaidd ac anrhagweladwy o ran y cyllid sydd ar gael a galw am wasanaethau yn y cyfnod rhwng datblygu polisi a sicrhau canlyniadau.

## *Negeseuon Allweddol:*

Rydym oll yn cydnabod yr angen i symud at ddulliau atal - mae'n bryd rhoi hyn ar waith mewn partneriaeth ar draws yr holl benderfynyddion ehangach

Os byddwn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd modelau triniaeth, ni fyddwn yn llwyddo i gydnabod yr angen i ddylanwadu ar y galw sy'n sail i'r model system

Mae iechyd yn prysur ddod yn un o'r rhwystrau mwyaf i dwf yn y DU sy'n arwain at golli pobl o'r gweithlu

Mae iechyd a lles cymunedau'n allweddol i wella canlyniadau iechyd a hybu'r economi

Nid yw pobl yn rhoi gwerth ar iechyd fel cysyniad haniaethol, mae pobl yn disgrifio iechyd fel rhywbeth sy'n eu galluogi i fyw bywydau gwerth chweil neu fel rhwystr wrth wneud hynny

# 3 Cynnydd a Blaengynllunio

## 3.1 Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Iechyd 2024/25

Mae Cynllun Cyflawni ein Bwrdd Iechyd yn darparu cyfres o gamau gweithredu arwyddocaol a fydd yn cyfrannu at yr agenda atal. Dangosir y rhain ar draws pob un o'r pum amcan blaenoriaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd trwy Fesurau Arbennig, ac yn benodol Amcan 4 *Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad.*

Nod ein cynllun ar gyfer 2025/26 - 2027/28 fydd ymgorffori dulliau atal i 'DNA' ein sefydliad gan adlewyrchu'r angen iddo fod yn rhan o agenda pob uwch adran a gwasanaeth. Byddwn yn datblygu ein Cynllun Gwasanaethau Clinigol trwy geisio cael gwell dealltwriaeth trwy:


- Gwblhau map o'r holl gamau atal sydd ar waith ar hyn o bryd ar draws cynlluniau gwasanaeth IHC / Uwch Adrannau a gwasanaethau corfforaethol
- Cwblhau dadansoddiad o effaith y gwasanaethau ataliol yr ydym yn eu cynnig ar hyn o bryd
- Datblygu ymagweddau system gyfan i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd trwy integreiddio cynlluniau cyflawni IHCs ac Uwch Adrannau ymhellach

## 3.2 Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal

Cysyniad a ddatblygwyd gan Dr Julian Tudor Hart ym 1971 i esbonio anghydraddoldebau iechyd yw'r ddeddf gofal gwrthgyfartal, sy'n dangos mai’r rhai sydd â'r angen mwyaf am ofal iechyd yw'r rhai sydd leiaf tebygol o'i dderbyn.

Gan gydnabod bod penderfynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd, ond eu bod y tu hwnt i gwmpas y GIG i fynd i'r afael â nhw, mae BIPBC wedi arwain rhaglen waith arloesol i fynd i'r afael â'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal i roi ymagwedd systemau cyfan ar waith ar garlam i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd lleol trwy wella galluoedd systemau.

Roedd rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ar waith ar draws tri 'chlwstwr arloesi' yn Ynys Môn, Canol a De Sir Ddinbych, a Gogledd-orllewin Sir y Fflint. Mae'r dull partneriaeth trawsnewid wedi ategu camau gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy gwmpasu a chyflwyno 31 o arloesiadau prosiect lleol.




*Ffigur 7 Meysydd craidd llwyddiant cynnar, Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal BIPBC (2024)*

Fel rhan o Gyfnod Darganfod Gogledd Cymru Iach, rydym yn parhau i adeiladu ar frwdfrydedd o ran ein rhaglen Deddf Gofal Gwrthgyfartal, gan geisio ymgorffori dysgu o'n prosiectau peilot clystyrau arloesol i Ofal Sylfaenol ac ar draws ein systemau iechyd a gofal ehangach.

## 3.3 Rhagnodi Cymdeithasol ac Ymyriadau Cymdeithasol

Mae Rhagnodi Cymdeithasol yn ymagwedd strwythuredig ar gyfer sicrhau bod unigolion yn gallu cael cyswllt ag adnoddau cymunedol priodol. Gan gydnabod bod iechyd a llesiant yn cael eu pennu gan fwyaf gan ystod o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol; nod Rhagnodi Cymdeithasol yw mynd i'r afael ag anghenion pobl mewn ffordd sy'n fwy cyfannol. Ei nod hefyd yw rhoi cymorth i unigolion o ran cymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall Rhagnodi Cymdeithasol leddfu pwysau ar y GIG trwy leihau'r angen am apwyntiadau meddygon teulu ac am bresgripsiynau meddygol. Gan fod y boblogaeth yn heneiddio ac oherwydd cyfraddau cynyddol o unigrwydd, tlodi ac ansefydlogrwydd o ran tai a chyflogaeth, daw yn fwyfwy amlwg bod angen i ni fynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd pobl

Yn dilyn lansio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol yng Nghymru, gwnaeth tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC gynnal ymchwil cynhwysfawr i ddarpariaeth leol, cyllid a chynllunio o ran gwasanaethau Rhagnodi Cymdeithasol ar draws gogledd Cymru a gwnaeth argymhellion yn amlinellu sut y gall partneriaid rhanbarthol ddiwallu'r heriau a nodwyd a rhoi'r Fframwaith Cenedlaethol ar waith yn llwyddiannus.

Trwy fabwysiadu'r argymhellion, gall partneriaid weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi gymaint â phosibl, a bod atebolrwydd ar y cyd o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau o ran iechyd a llesiant y boblogaeth yn y tymor hwy ar draws y rhanbarth.

Mae'r tîm Iechyd Cyhoeddus yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol o ran gwella gwytnwch a chynaliadwyedd cymunedau a seilweithiau cymdeithasol sy'n tanategu economi lles, ac maent yn darparu cymorth angenrheidiol ar gyfer ein systemau iechyd a gofal.

Mae'r gwaith hwn, sy'n mynd rhagddo ers amser maith ac sy'n cael ei gefnogi gan ein partneriaid rhanbarthol yn adleisio sylwadau a wnaed yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Darzi (2024) yn ddiweddar

*"Fel y mae'r adroddiad yn ei awgrymu, mae angen brys i flaenoriaethu dulliau atal, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a helpu pobl i aros yn iach am yn hirach. Byddwn ond yn gallu gwneud hyn os byddwn yn cydgysylltu'r system iechyd â phrosiectau arloesol mewn cymunedau yn fwy effeithiol o lawer, ac yn rhoi cymorth ymarferol ar gyfer pobl y mae eu hiechyd wedi'i effeithio gan ddyled, problemau tai a ffactorau cymdeithasol cymhleth. Mae gan ragnodi cymdeithasol rôl hollbwysig i'w chyflawni yn hyn o beth. Mae'n rhaid iddo fod yn flaenoriaeth dros y blynyddoedd sydd i ddod."* - Yr Academi Genedlaethol dros Ragnodi Cymdeithasol, Medi 2024

## 3.4 Lleihau Amrywiadau

Cydnabyddir bod imiwneiddio a sgrinio yn achub bywydau ac yn atal salwch, ond nid yw pawb yn dewis manteisio ar y gwasanaethau hyn neu nid yw pawb yn gallu gwneud hynny. Y ffocws i'r Tîm Iechyd Cyhoeddus fu canfod y grwpiau yn ein cymunedau nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau, deall y rhwystrau a'r rhesymau pam nad ydynt yn gallu gwneud hynny, a gwaith i leihau amrywiadau o ran mynediad.

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus yn datblygu gwaith i leihau amrywiadau o ran mynediad ymysg grwpiau allweddol sy'n agored i niwed gan gynnwys pobl sydd ag anableddau dysgu, Sipsi Roma a Theithwyr a phobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd. Trwy waith mewn partneriaeth a chydweithio â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, bydd BIPBC yn gweithio yn y cymunedau hyn i ddatblygu'r gwaith hwn gan sicrhau bod ein grwpiau a'n cymunedau sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu imiwneiddiadau a sgrinio fel modd o atal salwch a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys dylanwadu ar yr Is-Adran Sgrinio genedlaethol i flaenoriaethu Anableddau Dysgu fel grŵp blaenoriaeth ac roedd yn cynnwys cael ymrwymiad ganddynt i ymgymryd ag adolygiad tystiolaeth ar y rhwystrau a hwyluswyr i wella lefelau'r rhai sy'n manteisio ar sgrinio ar gyfer pobl sydd ag Anabledd Dysgu. Bydd tystiolaeth bellach yn sail i gynllunio a blaenoriaethu gwaith lleol lle byddwn yn gweithio gyda Hyrwyddwyr Gwirio Iechyd i gynnal gwaith dirnad lleol gyda phobl sydd ag Anabledd Dysgu er mwyn deall rhwystrau at wiriadau iechyd blynyddol.

## 3.5 Celfyddydau mewn Iechyd

Mae tystiolaeth gref y gall y celfyddydau a chreadigrwydd gynorthwyo ystod o feysydd gan gynnwys llesiant o blith oedolion, lleihau dirywiad corfforol ymysg pobl hŷn, a thystiolaeth addawol yn ymwneud â chynorthwyo llesiant plant a phobl ifanc, datblygiad cymdeithasol babanod a phlant, yn ogystal â chynorthwyo gwybyddiaeth ymysg pobl hŷn, ac effeithiolrwydd llesiant a chydlyniant cymdeithasol trwy'r celfyddydau a rhagnodi cymdeithasol, ac mae tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg yn barhaus. Gall y celfyddydau hefyd gynorthwyo o ran atal salwch a hybu iechyd da, ac mae argymhellion yn annog ymgysylltu â'r celfyddydau ar draws y cwrs bywyd.

Mae rhaglen Ffynnon Greadigol (y celfyddydau mewn gweithgareddau iechyd yn BIPBC), yn cyflwyno ystod o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau, y nodau a'r amcanion a amlinellir yn Fframwaith Strategol y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant 2024-2026. Mae'r prosiectau presennol a'r enghreifftiau diweddar yn cynnwys:

- Iechyd Meddwl a Llesiant
    - **Y Celfyddydau a Meddyliau** - preswylfeydd yn y celfyddydau ar gyfer dynion yn y system cyfiawnder troseddol sy'n preswylio mewn unedau diogelwch canolig i gynorthwyo llesiant, gwella hyder, sgiliau newydd a chydlyniant cymdeithasol
    - **Singing for the Soul** - dosbarthiadau canu ac anadlu ar gyfer cleifion sydd â hwyliau isel a gorbryder -- cyfeirio at CMHLDT, ymagwedd â chymorth, partneriaeth: gwasanaeth cerddoriaeth a lleoliad celfyddydau/ diwylliant lleol
- Iechyd Corfforol
    - **Lles gyda WNO** – Rhaglen Covid Hir BIPBC/ partneriaeth ag Opera Cenedlaethol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus / Gwasanaethau Cymdeithasol
    - **Arts Togther** - cau'r bwlch/ cyfeiriadau ac ati ar gyfer teuluoedd sydd â risg o wahanu (ACE) Partneriaeth Gwasanaeth Celfyddydau Sir Ddinbych
- Diogelwch Cleifion
    - **Ward Dementia Bryn Hesketh** - gweithgareddau gyda chleifion wedi'u cynnig a finyl masgio wedi'i ddylunio a'i osod mewn wardiau mewn ymateb i faterion yn ymwneud â'r allanfa i gleifion. Cynnal cyfeiriadu, ymdeimlad o le a gofod.
- Amgylchedd
    - **Ailddatblygu Adran Achosion Brys YGC / Uned Ablett/Uned Heulwen** - Cefnogi adeiladau newydd ac ailddatblygu - ymdeimlad o le a gofod, cyfeiriadu, difyrru, amgylcheddau tawel a chysurlon. (Mae partneriaid yn cynnwys: Pontio, Bangor, Creu Conwy a Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych)
- Y Pum Ffordd at Les
    - **Ailffocysu'r Lens** - gweithdai sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer aelodau'r gymuned sy'n cael anawsterau gydag iechyd meddwl a llesiant gwael. Wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych.

Mae tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC wedi datblygu'r Fframwaith Strategol tair blynedd ar gyfer y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant. Gan gefnogi gweledigaeth Gogledd Cymru Iach, mae'r fframwaith yn darparu dull gwirioneddol gydweithredol trwy nodau, ffocws ac amcanion strategol ar gyfer 2024-26 sydd wedi'u cynhyrchu ar y cyd. Mae'n sefydlu targedau ac ymrwymiadau, er mwyn rhoi cyfeiriad clir a momentwm o ran hybu gweithio ar draws sectorau, perchnogaeth a chydweithio â phartneriaid. Bydd y Fframwaith yn cynorthwyo gyda'r galw cynyddol am y celfyddydau, iechyd a llesiant trwy ystod o gamau gweithredu sydd â'r bwriad o hysbysu, dylanwadu, hyrwyddo a chreu gwytnwch a chynaliadwyedd ar gyfer iechyd a llesiant trwy greadigrwydd yng ngogledd Cymru.

## 3.6 Rhaglen Ddiabetes - Iechyd Cyhoeddus Gofal Iechyd

Mae tystiolaeth glir a gwybodaeth sylfaenol yn cynnig tri phrif faes lle y gallai BIPBC wella canlyniadau iechyd i bobl sydd â diabetes a darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chynaliadwy. Y rhain yw: atal pobl rhag datblygu diabetes, datblygu modelau gofal sylfaenol a chymunedol effeithiol ar gyfer diabetes a gwella'r wybodaeth i gynllunio a rheoli gofal diabetes. Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC yn parhau i arwain a chefnogi cydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd i greu llwybr gofal Diabetes yng ngogledd Cymru sy'n canolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl yn aros yn iach am yn hirach. Ymagwedd amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol tuag at iechyd y boblogaeth yw hon a bydd hyn yn helpu i fod yn sail i fodelau gofal yn y dyfodol.

## 3.7 Cwmpasu newid systemau cyfan ar gyfer gogledd Cymru

Fel rhan o'r Cam Darganfod, byddwn yn gweithio ar y prosiectau ymchwil canlynol trwy gydol 2024/25:

- Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda chais Enghraifft Bevan ar gyfer 2025 a byddwn yn gweithio gyda Chomisiwn Bevan i ystyried "Sut i roi cymunedau wrth wraidd trawsnewid canlyniadau?" trwy brofi ymagweddau arloesol o ran mynd i'r afael â gwraidd achosion economaidd-gymdeithasol er mwyn gwella iechyd a llesiant y boblogaeth yn y tymor hwy.

- Rydym hefyd yn gweithio gyda Gwelliant Cymru sy'n darparu partner ymchwil a datblygiad â chyllid llawn er mwyn helpu i gwmpasu a chynllunio ein hymagwedd ar sail lleoedd i symud at fodelau ataliol ar gyfer gwella penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant ar draws systemau cyfan.

Y bwriad yw i'r prosiectau ymchwil hyn goladu dirnadaethau a gwersi o addasu i ffyrdd tra gwahanol o weithio mewn system gymhleth a gaiff ei rhannu a'i defnyddio gan bartneriaid rhanbarthol i lunio a llywio prosesau cynllunio rhaglenni yn fwy

effeithiol ac yn y tymor hwy ar draws systemau a ffiniau sefydliadol. Bydd yr allbynnau yn helpu i gwmpasu a llunio'r rhaglen waith sydd ei hangen yn y tymor hwy, gan barhau i gefnogi'r achos cymhellol dros newid.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i lywio a llunio ymagwedd ranbarthol tuag at newid systemau cyfan fel bod modd gwella penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant.

Yn ddiweddar, mae ein gweithdy Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ***"Adeiladu gogledd Cymru iachach gyda'i gilydd"*** wedi arwain at ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol a fydd bellach yn ceisio cwmpasu'r canlyniadau cyfnodol a diffiniedig sydd ynghlwm wrth ddatblygu ymagwedd ranbarthol gydgysylltiedig o ran cyflwyno Rhaglen Gogledd Cymru Iach.




*Ffigur 8 - Enghraifft o Ddatganiadau Cenhadaeth o Weithdy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 13.09.24*

# 4 Ystyriaethau Pellach

## 4.1 Cyllido Cymunedau Cynaliadwy a Gwydn

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) yn gronfa bum mlynedd sydd eisoes wedi gorymrwymo i gyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2027. Mae'r cyllid hwn yn golygu bod £32,486,680 ar gael i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y rhaglen, ac mae £3,696,00 o'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ar gyfer ymrwymiadau cenedlaethol (y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, Dementia, Gwasanaethau Asesu'r Cof a Rhyddhau o'r Ysbyty), ac mae'r gweddill wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau sydd wedi cyflwyno cynigion am gyllid er mwyn darparu mentrau iechyd a gofal integredig.

Nod y cyllid yw darparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Cymru sydd â "ffocws cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar" a darparu "adnoddau cynaliadwy yn y tymor hir er mwyn ymgorffori a phrif ffrydio modelau gofal newydd" trwy drefniadau cronfeydd cyfun yn y tymor hir a disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi lleiafswm o 20% o'u dyraniad RIF i sefydliadau yn y sector gwerth cymdeithasol.

Un o brif egwyddorion cyllid RIF yw i'r holl bartneriaid ymrwymo i gynyddu ei arian cyfatebol newydd i 50%, a'r nod yw cyfradd ymyrraeth 50/50 gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn diwedd y gronfa pum mlynedd, ac felly, caiff elfen raddedig ei chymhwyso gan brosiectau a gynhelir gan Fyrddau Iechyd neu Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn arbennig o heriol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni lle bo pwysau chwyddiannol yn achosi cynnydd sy'n uwch na'r disgwyl i gyflogau ac ar yr un pryd, bu angen toriadau cyllideb i gronfeydd craidd a pherfformiad oherwydd y cyfyngiadau difrifol o ran cyllideb ar lefel genedlaethol ac yn y DU.

Mae partneriaid yn cael eu hannog i edrych ar ddatrysiadau amgen a lle y gall y trydydd sector arwain prosiectau, awgrymir y dylai "partneriaid statudol gydweithio â'r darparwyr hynny er mwyn datblygu cynlluniau cynaliadwyedd a phrif ffrydio yn y tymor hwy".

Mae cyllid hefyd yn her enfawr i'r sector elusennol ar draws y DU lle bo incwm elusennol fesul y pen wedi'i ogwyddo'n drawiadol o blaid Llundain lle bo elusennau'n derbyn £2,567,71 fesul y pen (NCVO Almanac 2022) sy'n uwch o lawer na'r holl ranbarthau eraill yn y DU sy'n derbyn llai na £1,000 fesul y pen. Yng Nghymru, mae rhoddion elusennol yn cyfrif am £409.90 fesul y pen yn unig.

Yn ogystal â'r her hon yn ymwneud â chyllid o roddion elusennol, mae cyllid grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y trydydd sector wedi gostwng hefyd o £350m (2011) i £337m (2019).

Amcangyfrifodd y Sefydliad Iechyd y bydd pwysau ar ofal cymdeithasol yn codi o ryw 4.1 y cant y flwyddyn mewn termau go iawn rhwng 2015 a 2030, oherwydd demograffeg, cyflyrau iechyd cronig a chostau cynyddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn

ofynnol i'r gyllideb ddyblu bron erbyn 2030-31 er mwyn ateb y galw (Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal 2021). Fodd bynnag, mae costau comisiynu a chwyddiant cyflogau'n arwain at heriau ariannol cynyddol i'r holl wasanaethau sector cyhoeddus a thrydydd sector ar adeg pan fo cyllidebau'n cael eu lleihau ymhellach a phan fo galw am wasanaethau'n cynyddu hyd yn oed yn gynt na'r disgwyl mewn cymdeithas wedi'r pandemig sy'n dioddef yr effeithiau uniongyrchol a hirdymor yn sgil argyfwng costau byw cynyddol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd yn hanfodol i'r holl randdeiliaid ddod ei gilydd ac i rannu'r adnoddau sydd ar gael, o ffynonellau cyllid cyhoeddus traddodiadol ac o gyllid grantiau elusennol a'r sector masnachol.

Mae'r trefniadau cyllid presennol yn arwain sefydliadau amrywiol at weithredu yn yr ecosystem leol gan gystadlu dros yr adnoddau cyllid cyfyngedig iawn, a hynny'n aml gan fanteisio ar ffynonellau cyllid eraill fel modd i sefydliad oroesi yn hytrach nac ystyried anghenion cymunedol penodol, neu flaenoriaethu strategol.

Dylid cydnabod y bydd llawer o'r buddion yn dod i'r amlwg mewn rhannau o'r system na fyddant o reidrwydd yn arwain at 'elw ar fuddsoddiad' yn yr un meysydd lle cyfrannwyd cyllid ac adnoddau. Felly mae'n hanfodol i bartneriaid wneud y penderfyniadau hyn am fuddsoddiadau gan fabwysiadu ymagwedd system gyfan tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

## 4.2 Perchnogaeth ac Atebolrwydd ar y Cyd

Mae cyfleoedd clir i sefydlu dulliau llywodraethu gwell ynghylch y penderfyniadau buddsoddi amrywiol a chomisiynu cynlluniau ar draws seilwaith y system gyfan ehangach sy'n gysylltiedig â phenderfynyddion ehangach iechyd. Gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac sy'n gyd-gysylltiedig ynghylch buddsoddi yn y conglfeini sydd ynghlwm wrth wella canlyniadau iechyd a lles y boblogaeth yn y tymor hir.

Gall gwella dulliau llywodraethu helpu yn ei dro i fynd i'r afael â'r heriau a ganfuwyd o ran cyllid a gwerthuso. Bydd dulliau llywodraethu'n cynorthwyo partneriaid i wella effeithiolrwydd buddsoddi mewn modelau ataliol, ac yn rhoi ystyriaeth ofalus o ran blaenoriaethu'r penderfyniadau hyn ynghylch buddsoddiadau.

Bydd angen i'r trefniadau llywodraethu gael eu diffinio'n glir ar lefelau rhanbarthol, is-ranbarthol a lleol er mwyn sicrhau bod cynrychiolaeth briodol a chyfranogiad gweithgar, prosesau craffu ac atebolrwydd cadarn yn y broses benderfynu.

Er y cydnabyddir bod amrywiadau mawr ar draws y system gyfan, dylid cydnabod hefyd mai ymagwedd leol tuag at ddarparu fydd yn gweithio orau. Mae partneriaid lleol, a chymunedau eu hunain yn deall y cyd-destun lleol, byddant wedi sefydlu rhwydweithiau a threfniadau, a byddant yn gallu addasu i alwadau ac anghenion cyfnewidiol y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Dylai ymagweddau partneriaethau rhanbarthol gynnwys cymunedau wrth gyd-gynllunio, cydgynhyrchu a chydwerthuso ein newid i ddulliau atal er mwyn sicrhau bod modd i'r holl randdeiliaid

gyflawni ansawdd o ran perchnogaeth ac atebolrwydd ar y cyd ar gyfer penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau.

# 5 Casgliadau ac argymhellion

Cwmpas yr adroddiad yw:

- Darparu trosolwg lefel uchel o gynnydd hyd yma
- Darparu cipolwg ar y deallusrwydd a'r ddirnadaeth sy'n sail i'r achos dros newid
- Darparu'r sail i raglen waith ranbarthol a fyddai'n caniatáu rhoi trawsnewidiadau system gyfan ar waith yn effeithiol ar draws gogledd Cymru ac sy'n ategu cyfeiriad strategol a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

Trwy lunio'r adroddiad manwl hwn, mae tîm Rhaglen Gogledd Cymru Iach yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r cynnydd hyd yma o ran Rhaglen Gofal Cymru Iach, ac i gydnabod rôl a phwysigrwydd y gwaith hwn o ran llunio a datblygu'r newid yn y tymor hwy o ran atal ym maes gwasanaethau iechyd a gofal, a newid diwylliannol ehangach yn ymwneud â model economi lles.

2. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo Fframwaith Strategol y Celfyddydau, Iechyd a Llesiant, ac i gydnabod rôl a phwysigrwydd y gwaith hwn wrth lunio a datblygu'r newid yn y tymor hwy o ran atal ym maes gwasanaethau iechyd a gofal, a newid diwylliannol ehangach yn ymwneud â model economi lles.

3. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo'r ymagwedd bartneriaeth ranbarthol yr ymgymerir â hi i gwmpasu a mabwysiadu model systemau cyfan ar gyfer mynd i'r afael â gwraidd achosion economaidd-gymdeithasol sy'n effeithio ar benderfynyddion ehangach iechyd a llesiant. Gan nodi y bydd angen Achos Busnes ar gyfer adnoddau yn y tymor hwy i arwain ar gyflwyno'r rhaglen 3-5 mlynedd (a thu hwnt).

4. Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd gefnogi newid i ddull sy'n canolbwyntio ar atal yn y Bwrdd Iechyd ac o ran sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y system gyfan.

Bydd yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid rhanbarthol a rhanddeiliaid ehangach, gan sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi gymaint â phosibl trwy sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal system gyfan cynaliadwy'n cael eu cyflwyno ar draws rhanbarth gogledd Cymru.

Yn ogystal, trwy fabwysiadu'r argymhellion a gweithio gyda'n gilydd trwy ddull partneriaeth strategol ar draws y system gyfan, mae cyfleoedd gwirioneddol i ogledd Cymru arwain y ffordd trwy adeiladu a datblygu'r ymchwil ymhellach, tystiolaeth a gwerthusiadau o effeithiau'r newid system gyfan tuag at atal, a meithrin partneriaethau sydd wedi'u creu i fynd i'r afael â lles.

# Cyfeiriadau a Darllen Pellach


Darzi, A. (2024) 'Independent Investigation of the National Health Service in England', Hawlfraint y Goron 2024 Independent Investigation of the National Health Service in England (publishing.service.gov.uk)

Fancourt, D. & Finn, S (2019) 'What is the evidence on the role of the arts in improving health and wellbeing? A scoping review'. Adroddiad synthesis 67 Health Evidence Network, Sefydliad Iechyd y Byd. 9789289054553-eng.pdf (who.int)

Fancourt, D. Warran, K. & Aughterson, H (2020) 'Evidence Summary for Policy: the role of arts in improving health and wellbeing', Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. DCMS_report_April_2020_finalx__1_.pdf (publishing.service.gov.uk)

Health Foundation (2022) 'How to Talk About the Building Blocks of Health', Frameworks UK How to talk about the building blocks of health - The Health Foundation

Jenkins, H. (2022) 'Health Inequalities: We Have a Moral Duty to Reduce Them', Cancer Research UK Health inequalities: "We have a moral duty to reduce them" - Cancer Research UK - Cancer News

Marmot, M. et al (2020) 'Health Equity in England: the Marmot Review 10 Years On', Institute of Health Equity

Trotter, L. et al (2014) 'Measuring the Social Impact of Community Investment: a Guide to Using the Wellbeing Valuation Approach', Housing Associations' Charitable Trust

Llywodraeth Cymru (2018) 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' Cymru Iachach (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru (2020) 'Cysylltu Cymunedau: Strategaeth ar gyfer Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol a Chreu Cysylltiadau Cymdeithasol Cryfach' 38912 Connected Communities: Loneliness Strategy English (gov.wales)

Llywodraeth Cymru (2021) 'Papur Gwyn: Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' consutation-document.pdf (llyw.cymru) WG41756

Llywodraeth Cymru (2021) 'Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 - Diweddariad' Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad

Llywodraeth Cymru (2023) 'Fframwaith Cenedlaethol Rhagnodi Cymdeithasol' Fframwaith Cenedlaethol Rhagnodi Cymdeithasol: Rhagfyr 2023 (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Pobl a Diwylliant** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Dyfed Jones, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 8 Awst 2024 |
| Paratowyd y papur gan: | Laura Jones, Rheolwr Cymorth Prosiectau (Llywodraethiant Corfforaethol) |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2024 yn Ystafell y Bwrdd, Llys Carlton.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal Sesiwn Ddatblygu er mwyn cael trafodaeth ar amcanion strategol y Pwyllgor. Awgrymwyd yr eitemau canlynol fel meysydd a allai ffurfio sesiwn / trafodaeth ddofn yn y Sesiwn Ddatblygu:

- Canlyniadau o'r Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol
- Rhoi sylw i'r materion sylfaenol sy'n ymwneud â throsiant staff (pam bod staff yn gadael cyn pen dwy flynedd o wasanaeth)
- Canfyddiadau o'r gwaith ar gydnabod staff
- Adolygu cynlluniau cyflogaeth a phrentisiaethau PBC

**Adroddiad Gweithrediadau Pobl**

Cyflwynwyd adroddiad amlinellol a nodwyd bod hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i alluogi'r sefydliad i gael gwybodaeth am fetrigau ansawdd, y gweithlu a pherfformiad. O safbwynt ymgysylltu â gweithwyr, tynnwyd sylw at faterion yn ymwneud â'r adnodd electronig a gomisiynwyd i archwilio'r data a gasglwyd o'r arolwg staff a oedd yn golygu nad oedd y tîm yn gallu adrodd ar adborth amser real. Dywedwyd bod hyn wedi bod yn broblem i holl sefydliadau'r GIG. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i adolygu canlyniadau'r data ynghyd ag awgrym y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar feysydd penodol gan gynnwys canlyniad yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol a'r problemau yn ymwneud â throsiant staff. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r Cymunedau Iechyd Integredig / yr Arweinydd Cadw Staff i ymuno â chyfarfodydd yn y dyfodol i adrodd ar dueddiadau a meysydd lle ceir problemau mynych.

**Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwaith o Wella Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd adroddiad a nodwyd bod y papur yn cysylltu'n uniongyrchol â'r pum prif faes a gynhwyswyd yn yr arolwg staff. Adolygwyd y Portffolio Pobl a chafodd cydweithwyr eu had-drefnu i gefnogi'r rhaglen newid diwylliant. Cynhaliwyd gweithdy dylunio diwylliant ac arweinyddiaeth i gysylltu ag amrywiaeth o bobl ar draws y sefydliad gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol i ddylunio diwylliant ac arweinyddiaeth y sefydliad. Mae drafft cyntaf y fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad wedi cael ei lunio ac mae'n cael ei rannu'n eang er mwyn cael adborth. Cafwyd trafodaeth ynghylch pwysigrwydd darparu neges gadarnhaol a chyflwyno disgwyliadau'r Bwrdd Iechyd yn glir. Nododd y Pwyllgor lefel yr ymgysylltu sy'n ofynnol cyn rhannu'r wybodaeth â'r Bwrdd er mwyn galluogi'r Bwrdd i ddatgan gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad.

**Prosiect Gwella'r Amser i gyrraedd Rhestr Fer**

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar leihau'r amser i gyrraedd rhestr fer gan dynnu sylw at nod, canlyniadau a chamau nesaf y prosiect. Cafwyd trafodaeth ynghylch problemau ychwanegol ac atebion posibl.

**Cydnabod Staff**
Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr angen i gydnabod cyfraniad staff yn fwy eang gan drafod beth sy'n gweithio'n dda mewn sefydliadau eraill a sut gall y Bwrdd Iechyd gydnabod staff ar draws yr holl grwpiau proffesiynol sy'n cynnwys y cyhoedd a phartneriaid, a chysylltu hyn gyda'r gwaith ar werthoedd ac ymddygiad.

**Adduned Arweinyddiaeth Dosturiol**
Derbyniodd y Pwyllgor yr adduned arweinyddiaeth dosturiol a chadarnhawyd bod hwn yn ddull gorfodol gan AaGIC. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn gallu disgrifio'r math o sefydliad rydym am fod felly mae angen i ni fod yn feiddgar gyda'n hiaith a sicrhau bod y geiriau'n ystyrlon. Cytunwyd y byddai'r adduned yn cael ei ddiwygio ar ôl ei drafod cyn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol i'w adolygu.

**Adroddiad ar fod yn Gyflogwr Cyflog Byw / Cynllun Prentisiaeth PBC**
Cyflwynwyd adroddiad ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â phrentisiaethau a chafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i'r Bwrdd Iechyd gefnogi pobl i gael gwaith a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ganlyniadau iechyd y boblogaeth leol. Cytunodd y Pwyllgor fod angen adolygu ein holl gynlluniau presennol a llunio strategaeth ar gyfer yr hyn rydym am ei gyflawni yn y maes hwn oherwydd bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc.

**Hynt Adroddiad Archwilio Cymru - Adolygu'r Trefniadau Cynllunio'r Gweithlu**
Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, mae'r gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r gwaith i ddarganfod y model gweithredu a bu ffocws cadarn ar y gweithlu ar draws pob arbenigedd.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

- Ni chodwyd unrhyw eitemau

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 10 Hydref 2024

V1.00

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Caroline Turner, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 15.8.24 |
| Paratowyd y papur gan: | Fiona Lewis, Swyddog Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion a ganlyn wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Awst 2024 yn Llys Carlton:

- **Stori Claf**
  Cyflwynwyd stori i'r Pwyllgor gan glaf a ddisgrifiodd ei phrofiadau wrth fynd drwy wasanaethau Prifysgol Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Rhywedd Cenedlaethol Cymru, gan nodi rhai o'r heriau ynghyd â'r canlyniadau cadarnhaol a brofwyd wrth ddefnyddio'r Gwasanaeth Llais Pobl Draws a Rhywedd-amrywiol.

- **Cyflwyniad Gwasanaeth gan Wasanaethau Merched**
  Roedd y cyflwyniad yn gytbwys ac yn llawn gwybodaeth ac yn disgrifio gweithrediad llwyddiannus cynlluniau gwella. Nodwyd mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru a oedd wedi gweithredu'n llawn y cynllun Achub Bywydau Babanod a sefydlwyd yn Lloegr nifer o flynyddoedd yn ôl, a oedd yn cynnwys mesurau cadarn ar sail tystiolaeth i alluogi dangos gwelliannau mewn gofal cyn ac ar ôl geni. Mabwysiadwyd y fenter gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dilyn cynnydd mewn marw-enedigaethau yn 2019, ac yn dilyn y gostyngiad dramatig mewn marw-enedigaethau yng ngogledd Cymru, mae MatNeo bellach yn argymell ei rhoi ar waith ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae Gwasanaethau Merched yn gweithio tuag at weld a oes modd i'r broses o roi Gofal Cyn-cenhedlu sydd ar waith yn lleol, fel rhan o'r cynllun 10 mlynedd, gael ei mabwysiadu'n genedlaethol.

  Yn seiliedig ar wybodaeth am y polisïau cenedlaethol sy'n dylanwadu ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau i fenywod, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Merched am ei chymorth i lunio strategaethau'r sefydliad yn ei gynlluniau 3/5/10 mlynedd.

- **Adroddiad Ansawdd Integredig**
  Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn fwy cytbwys, gan ei fod bellach yn cynnwys mwy o wybodaeth am effeithiolrwydd clinigol ynghyd â mwy o lwyddiannau a gwelliannau, fel y gofynnodd y Pwyllgor.

  Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i'r canlynol:

  - datblygiadau o ran defnyddio ocsigen a hyfforddiant gorfodol yn dilyn y gwaith a wnaed gyda Chwmni Ocsigen Prydain (BOC); Nodwyd adborth cadarnhaol y Crwner hefyd.
  - roedd y gwaith a oedd wedi dechrau'n ddiweddar ar yr adolygiad chwarterol dan arweiniad y Weithrediaeth ar Wlserau Pwysedd a Gafwyd yn yr Ysbyty (HAPU), fel yr un a wnaed o ran lleihau Codymau; roedd llawer iawn o egni'n cael ei roi i hyn gan gyfarwyddwyr ac is-adrannau Gofal Iechyd Integredig, i ddatblygu a gwella systemau i leihau Wlserau Pwysedd a Gafwyd yn yr Ysbyty
  - Dangoswyd y dangosfwrdd newydd i'r aelodau, a ddatblygwyd gan dîm y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a TG, y bydd staff yn gallu ei ddefnyddio. Bydd y dangosfwrdd yn darparu data amser real o'r system Datix, am

ddigwyddiadau, ble maent wedi digwydd a pha mor ddifrifol ydynt. Dylai'r holl wybodaeth hon fod ar gael nid yn unig i gynorthwyo staff, ond hefyd i gynghori'r Bwrdd a'r tîm cenedlaethol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r Sefydliad yn cysylltu â Byrddau Iechyd eraill ledled Cymru, gan ddangos manteision amlwg y system.

- Cafwyd cadarnhad, drwy gyllid a ddarparwyd gan Awyr Las, bod Chris Turner, Meddyg Meddygol Brys a oedd yn sylfaenydd darn o waith uchel ei barch ar hyfforddiant Sifiliaeth, yn rhannu ei brofiadau. Yn dilyn hyn, roedd modd hyfforddi 50 o hyrwyddwyr Sifiliaeth ar draws y Sefydliad – mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o'r holl grwpiau proffesiynol – meddygon, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, nyrsys, staff y fferyllfa a rhai staff cymorth – gyda'r nod bod hyn yn dod yn rhwydwaith hunangynhaliol, ar ôl iddynt gael adnoddau addas.
- Nodwyd, oherwydd adborth gan y Pwyllgor a'r Bwrdd, y byddai hyn ac adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys mwy o dystiolaeth o ddysgu a heriau mewn meysydd penodol, a lle mae canfyddiadau'r Archwiliad wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn gofal cleifion.
- Disgwylid adroddiad tua diwedd y flwyddyn, yn dilyn yr arolygiad diweddar i reoli cydymffurfiad â rheoliadau ymbelydredd ïoneiddio, ond roedd yr adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac ni chodwyd unrhyw fater o bwys.
- Er mwyn rhannu newyddion da, fel y straeon Dysgu o Ragoriaeth – storïau Great-ix – gyda'r cyhoedd, nodwyd mai dim ond ychydig llai na 2,000 o gyflwyniadau a gafwyd yn ystod y 12 mis ers i'r system fynd yn fyw, ac y bydd dangosfwrdd Ansawdd sydd newydd ei ddatblygu yn rhoi mynediad i staff ar draws y Sefydliad. Nodwyd hefyd bod y tîm Cyfathrebu bob mis yn casglu samplau ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus, ynghyd â'u cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd a'r fewnrwyd. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod pob cyfrannwr yn cael ei gydnabod a'i fod wedi derbyn tystysgrif bersonol gan y Prif Weithredwr, sy'n bwysig iawn i forâl y staff.

- **Adroddiad ar Berfformiad Integredig**

  Nodwyd bod Iechyd Cyhoeddus yn genedlaethol yn dangos pryder ynghylch cyndynrwydd i gymryd brechlynnau. Roedd ystadegau brechiadau COVID a feirysau anadlol yn dangos ei bod yn ymddangos bod gostyngiad cyson yn y defnydd gan fod rhai aelodau o'r cyhoedd yn tybio'n anghywir nad yw COVID yn broblem iechyd fawr mwyach. Nodwyd bod ymdrech ar y cyd i annog pobl i gymryd y brechiadau pertwsis (y pas) gan fod y ffigurau'n dangos cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau a achosir gan bertwsis, o'i gymharu â'r gyfradd marwolaethau ddisgwyliedig. I fabanod ifanc, y peth gorau i'w atal yw brechu mamau beichiog. Nododd fod y pryderon hyn yn cael eu cydnabod ar draws y pedair gwlad a bod gwaith yn cael ei wneud ar y naratif gyda brechiadau i ddarpar famau a phobl hŷn – yn enwedig gan fod rhaglen frechu'r Feirws syncytiol anadlol (RSV) ar fin cael ei chyflwyno a bod hyn yn un o brif achosion morbidrwydd a marwoldeb ymysg plant ifanc iawn a phobl hŷn.

  Nodwyd bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion COVID sy'n dod drwy'r sefydliad, ond rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau bod staff yn arbennig o wyliadwrus o ran COVID a gafwyd yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roedd gan rai safleoedd nifer cyfyngedig o ystafelloedd ochr ac roedd cleifion â COVID yn gorfod cael eu trin mewn ardaloedd bae agored. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd y defnydd o bodiau'n cael ei ymchwilio.

  Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen i weithio gyda rheolwyr, staff a thimau i'w cymell i sicrhau eu bod yn gwerthfawrogi bod yr wybodaeth maent yn ei darparu ar gyfer yr

adroddiadau hyn yn cael ei chymryd o ddifri ar bob lefel – ar lefel Bwrdd, Pwyllgor a Llywodraeth. Mae angen i'r holl wybodaeth a ddarperir gael ei symleiddio a'i dangos yn greadigol i staff mewn ffordd sy'n helpu timau clinigol i adolygu eu hunain yn feirniadol a chymryd perchnogaeth; ac i staff, uwch adrannau a'r Gymuned Iechyd Integredig allu cymharu eu hunain er mwyn dysgu.

- **Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau**
  O ran recriwtio staff Cyfleusterau ychwanegol, disgrifiodd tîm y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth y problemau a wynebwyd. Fodd bynnag, roedd ei thîm yn gweithio i gynorthwyo'r adran Cyfleusterau i weithio gyda chymunedau lleol i helpu pobl leol i ddychwelyd i'r gweithlu; byddent hefyd yn cynnig cymorth a gofal cofleidiol, pe bai angen.

- **Adroddiad Gwasanaethau sy'n wynebu Heriau – Canser ac Oncoleg**
  Cafwyd trafodaeth ynghylch problemau recriwtio parhaus a dywedwyd bod y tîm Oncoleg wedi nodi staff presennol a oedd yn cael eu hyfforddi i fynd i'r afael â rhai o'r materion recriwtio.

  Gan fod mwy o driniaethau ar gael erbyn hyn, roedd y gallu i ddarparu yn mynd yn fwy anodd. Nodwyd bod hyn yn bryder i Gymru gyfan a bod ymdrechion i ganfod atebion i'r her hon.

- **Adroddiad Gwasanaethau sy'n wynebu Heriau - Wroleg**
  Nodwyd bod methiant wedi bod i recriwtio dirprwyon i gymryd lle'r ddau arweinydd clinigol, er gwaethaf ymdrechion helaeth, gan arwain at Ddirprwy Gyfarwyddwyr Meddygol Gweithredol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu arweiniad ac arweinyddiaeth glinigol i symud y Gwasanaeth yn ei flaen.

  Cadarnhawyd nad oedd penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto ynghylch y gwaith parhaus o ailgynllunio'r Gwasanaeth. Roedd swyddogion gweithredol wedi gwerthuso'r dewisiadau a, gyda chymorth y tîm Trawsnewid a Gwella a Rheoli Ansawdd, byddant yn helpu i bennu sut dylai model y gweithlu edrych, a fydd wedyn yn penderfynu a ydynt yn mynd am ad-drefnu gwasanaeth ar ddau neu dri safle. Nodwyd bod cleifion wedi cymryd rhan drwy gydol y broses, drwy'r Grŵp Gwella Strategol.

- **Ymateb y Bwrdd Iechyd i Adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion**
  Roedd yr adroddiad yn amlinellu ac yn egluro'r dull llywodraethu newydd sy'n cael ei ddefnyddio, drwy sefydlu'r Grŵp Cynghori Arbenigol, is-bwyllgor o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, i oruchwylio'r gwaith o greu argymhellion Adroddiad Gwasanaethau Adolygiadau a Wahoddwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, a thrywydd yr argymhellion hynny. Byddai'r Grŵp yn cael ei gadeirio'n annibynnol, gyda chynrychiolwyr teuluoedd a defnyddwyr, a Llais yn cael eu cynnwys fel aelodau.

  Nodwyd bod cyfarfodydd diweddar wedi cynnwys Cadeirydd, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, Cyfarwyddwr Dros Dro IMAD a chynrychiolwyr Llais a rhai aelodau o deuluoedd Tawel Fan, ac er bod y profiad yn heriol, ei fod hefyd wedi bod yn gynhyrchiol iawn. Nodwyd ei bod bellach yn cael ei hystyried yn hanfodol bod pobl a

oedd wedi cael gofal gwael yn y gorffennol yn gallu dylanwadu ar gyfeiriad y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.

- **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**
  Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at ddwy risg a oedd yn fwy na'r lefel goddefgarwch a bennwyd gan y Bwrdd – (1) Methiant i Ymgorffori Dysgu, a (2) Y Risg Gofal Sylfaenol.

  Nodwyd, er bod nifer o gamau gweithredu wedi cael eu datblygu, nad oedd yr un sgôr risg wedi cael ei leihau. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, o ran y 'Methu ymgorffori dysgu', fod llawer o dystiolaeth ar draws y Bwrdd Iechyd bod camau gweithredu'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, teimlwyd, nes bod tystiolaeth ddiamheuol bod gostyngiad mewn digwyddiadau oherwydd y dysgu, na ddylid lleihau'r sgôr risg.

  Nodwyd bod Gweithrediaeth y GIG yn dymuno i'r Storfa Ddysgu (a fydd, ar ôl ei chwblhau, y cyntaf o'i math i Gymru) a Chylch Gorchwyl y Fforwm Dysgu, gael ei rhaeadru ledled Cymru gan fod y ddau wedi eu nodi fel 'arfer gorau'.

- **Adroddiad Cadeiryddion Pwyllgorau Ansawdd y Cyd-bwyllgor Comisiynu.**
  Nodwyd yr adroddiad.

- **Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd**
  Nodwyd yr adroddiad.

- **Crynodeb o'r Busnes i'w Adrodd o Faterion Preifat**
  Nodwyd yr adroddiad.

- **Cylch Busnes y Pwyllgor a Chynllun Gwaith y Pwyllgor**
  Nodwyd yr adroddiad.

- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Rhoi Organau a Meinweoedd**
  Nododd yr aelodau y gwaith pwysig a wnaed gan y Pwyllgor ac anogodd y Bwrdd i gefnogi, lle bo hynny'n bosibl, gan awgrymu presenoldeb yn y gwasanaeth blynyddol a gynhelir yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Cydnabuwyd nad oedd gwaith y Pwyllgor yn cael ei drafod yn aml, ond roedd yn bwysig iawn i deuluoedd ei fod yn cael ei gydnabod

**Mewn Sesiwn Breifat rhoddwyd Adroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor ynglŷn ag:**

- **Adroddiad Ansawdd Cyfrinachol**
  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar.

- **Drafft Terfynol yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol**

| |
|---|
| Mae cofnodion a phapurau sydd wedi'u cymeradwyo ar gael ar ein gwefan BIPBC: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru) |
| **EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD** |
| Nid oedd eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd |
| **Y CYFARFOD NESAF** |
| Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael ei gynnal ddydd Iau, 24 Hydref 2024. |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Caroline Turner, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 6.6.24 |
| Paratowyd y papur gan: | Fiona Lewis, Swyddog Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024 yn Llys Carlton:

- **Stori Claf**
  Nododd y Pwyllgor stori gan glaf yn disgrifio pa mor hir y bu'n rhaid aros am driniaeth ar gyfer anaf i'r ffêr; effaith yr oedi hir ar ei iechyd corfforol a'i allu i weithio; y cyfathrebu gwael; y diffyg cefnogaeth a dim syniad o ble i fynd i gael help.

- **Adroddiad Ansawdd**
  Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan ddeall bod yr adroddiad yn rhoi naratif i'r Pwyllgor ar y digwyddiad ocsigen "dim llif" diweddar, cwympiadau, y Cynllun Gwella o ran Briwiau Pwyso, ffocws parhaus y Cymunedau Iechyd Integredig (IHC) a'r Uwch-adrannau i leihau nifer y Digwyddiadau NRI agored a hwyr, Diogelwch Cleifion, a gwybodaeth am Ddiogelu a Rheoli Heintiau.

  Darparwyd gwybodaeth hefyd am gwblhau'r gwaith yn ymwneud â'r achosion diweddar o'r frech goch y cafwyd adborth cadarnhaol iawn amdano gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru; archwiliad yr IPC o gartrefi gofal; llwybrau i bobl sy'n poeni am yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig, a'r cynnydd o safbwynt Cylchlythyrau Iechyd Cymru o ran Cael Gwared ar Hepatitis B ac C.

  Roedd adran Effeithiolrwydd Clinigol yr adroddiad yn nodi'r cynnydd ond hefyd y diffyg adnoddau staffio a sut mae hyn yn effeithio ar y gwasanaeth.

  Nododd yr adroddiad fod y sefydliad yn dal i aros am yr adroddiad a phenderfyniadau gan AGIC ynghylch Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd.

- **Adroddiad Pryder am Wasanaeth Clinigol - Fasgwlaidd**
  Nododd y Pwyllgor yr adolygiad ac roedd yn falch o nodi'r cynnydd. Cynhaliwyd trafodaethau ar y naratif, ynghyd â'r diffyg adnoddau a sut byddai hyn yn effeithio ar dargedau.

- **Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Ansawdd**
  Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn tynnu sylw at nifer o bwysau ar wasanaethau a phryderon.

- **Adolygiad Manwl o Ansawdd Gwasanaeth Rhanbarthol y Gymuned Iechyd Integredig – Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain**
  Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn darparu naratif ar y strwythur adrodd, yr hyn a gyflawnwyd, y gwelliant parhaus yn erbyn y dangosyddion Niwed, camau a gymerwyd i wella'n barhaus, meysydd sy'n dal i beri pryder, a chrynodeb o'r risgiau, y camau gweithredu a'r mesurau lliniaru. Roedd yr aelodau'n falch o nodi'r gwelliant mewn morâl staff a chyfraddau cadw staff.

  Nodwyd nad oeddent yn gwahaniaethu mwyach rhwng briwiau pwyso 'a gafwyd yn y gymuned' a briwiau pwyso 'a gafwyd yn yr ysbyty', oherwydd teimlwyd bod hyn yn

gwyrdroi'r ffigurau'n annheg; roedd y pryder hwn wedi'i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

- **Adroddiad ar Berfformiad Integredig**
  Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn datgan mai Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu'r Bwrdd Iechyd oedd yr ail wasanaeth gorau yng Nghymru ar 6.5%, yn ogystal â nodi effaith diffyg cofnodion meddygol electronig cleifion ar y sawl sy'n gwneud gwaith codio clinigol yn y sefydliad.

- **Cofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**
  Nododd a derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch rheoli'r chwe risg gorfforaethol yr oedd yn eu goruchwylio.

**Mewn Sesiwn Breifat rhoddwyd Adroddiadau Cynnydd i'r Pwyllgor ynglŷn ag:**

- **Adroddiad Ansawdd Cyfrinachol**
  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar.

- **Diweddariad am ddysgu o ymchwiliadau**
  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar.

- **Mewnoli**
  Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar.

Mae'r cofnodion a'r papurau sydd wedi'u cymeradwyo ar gael ar wefan BIPBC: Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)

| EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD |
|---|
| Nid oedd unrhyw eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd |
| **Y CYFARFOD NESAF** |
| Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau yn cael ei gynnal ddydd Iau, 15 Awst 2024. |

<table>
<tr><td>Teitl yr adroddiad:<br>Report title:</td><td colspan="4">Adroddiad Gwella Ansawdd – Medi 2024</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br>Report to:</td><td colspan="4">Y Bwrdd Iechyd</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">26 Medi 2024</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â materion ansawdd, a gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad hwn.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br>Executive Lead:</td><td colspan="4">• Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>• Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br>Report Author:</td><td colspan="4">• Diogelwch Cleifion: Chris Lynes, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio<br>• Profiad Cleifion a Gofalwyr: Mandy Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio<br>• Effeithiolrwydd Clinigol: Dr James Risley, Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol<br>• Diogelu: Michelle Denwood, Cyfarwyddwr Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd<br>• Atal a Rheoli Heintiau: Andrea Ledgerton, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Atal a Rheoli Heintiau<br>• Sicrhau Ansawdd: Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd<br>• Cyfraith Gofal Iechyd: Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I'w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No assurance' has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae hyder yn y data a ddarperir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae cyflymder y dysgu a'r gwella yn dal i fod yn faes sy'n peri pryder ac yn ganolbwynt allweddol i'r gwaith. Mae hyn yn cael sylw drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n cyd-fynd â Mesurau Arbennig a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Canlyniad 4 – Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion<br><br>Canlyniad 5 – Cydnabod bod PBC yn sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.<br><br>Mae'r ddyletswydd ansawdd statudol yn mynnu bod prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd yn ystyried gwella gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i bobl Cymru – mae'r ddyletswydd hefyd yn cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd.<br><br>Gall enghreifftiau o niwed i gleifion ddangos methiant i gydymffurfio â safonau GIG Cymru neu ddeddfwriaeth diogelwch. |
| **Yn unol ag WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Yn unol ag WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)**<br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF-SP18 a CRR-24-04 – Ansawdd, Arloesi a Gwella |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF-SP18 a CRR-24-04 – Ansawdd, Arloesi a Gwella |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |
| **Y Camau Nesaf: Gweithredu'r argymhellion**<br>***Next Steps: Implementation of recommendations***<br>Amherthnasol | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***List of Appendices:***<br>1. Adroddiad Gwella Ansawdd y Bwrdd | |

# Adroddiad Gwella Ansawdd y Bwrdd – Medi 2024

## CYFLWYNIAD

Ar gyfer y GIG yng Nghymru, ystyrir bod ansawdd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Wrth gyflawni hyn, o dan y Ddyletswydd Ansawdd statudol, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **ddiogel**, **yn amserol**, **yn effeithiol**, **yn effeithlon**, **yn deg** ac **yn canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae chwe galluogwr yn sail i'r meysydd hyn, sef **arweinyddiaeth, y gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu ac ymchwil** a **dull systemau cyfan.** Mae'r meysydd a'r galluogwyr hyn yn ffurfio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 drwy ganllawiau statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd ynghylch sicrwydd sy'n ymwneud ag ansawdd a gweithgareddau i wella materion allweddol.

Darperir gwybodaeth fanwl sy'n ymwneud â thueddiadau, themâu, dysgu a gwella i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) mewn adroddiadau penodol, a darperir data o safon uchel yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig i'r Bwrdd.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro, er hwylustod, o amgylch y tri maes lefel uchel sy'n ymwneud ag ansawdd: diogelwch cleifion, profiad cleifion ac effeithiolrwydd clinigol, gydag adrannau penodol ar ddiogelu, atal a rheoli heintiau, sicrhau ansawdd a chyfraith gofal iechyd.

## DIOGELWCH CLEIFION

Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol

Dyma brif themâu'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024:

- Briwiau pwyso a gafwyd drwy ofal iechyd (HAPU), Graddfa 3 neu uwch
- Marwolaeth annisgwyl claf sy'n hysbys i'r gwasanaethau iechyd meddwl
- Llithro, baglu neu syrthio

Mae pob digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn destun Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel, Panel Dysgu Cyflym o bosibl (dan arweiniad swyddog gweithredol clinigol neu ddirprwy), ac ymchwiliad pellach. Mae'r dysgu a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob un yn cael eu cofnodi ar fodiwl rheoli digwyddiadau Datix Cymru. Caiff ffurflenni dysgu eu drafftio ar gyfer pob ymchwiliad a'u cyflwyno'n genedlaethol i Weithrediaeth GIG Cymru i roi sicrwydd o ran dysgu a chamau gweithredu.

Roedd prif themâu dysgu o ddigwyddiadau caeedig yn ymwneud â gweithredu safonau diogelwch lleol ar gyfer gweithdrefnau mewnwthiol, oedi wrth gael mynediad at wasanaethau neu dderbyn cleifion, asesu a chydnabod dirywiad cleifion ar gyfer uwchgyfeirio ac ystyried statws DNACPR.

Ar hyn o bryd, mae 58 o ddigwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol ar agor, ac mae 25 ohonynt yn hwyr. Mae hyn yn welliant o'i gymharu â diwedd mis Mai, lle'r oedd 77 ar agor a 44 yn hwyr.

Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio yn parhau i arwain cyfarfodydd gwella wythnosol gyda'r gwasanaethau, ac mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn targedu cymorth i hwyluso'r dasg o'u cwblhau. Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn ymwneud â'r Cymunedau Iechyd Integredig/Uwch Adrannau, yn mynychu cyfarfodydd Gweithio i Wella, yn targedu meysydd penodol sy'n peri pryder ac yn cynnal clinigau cau. Mae'r ffocws hefyd wedi cynyddu ar y rheini nad ydynt yn hwyr er mwyn atal oedi yn y dyfodol.

O ran cyfanswm nifer a chyfran y digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol sydd ar agor am 90 diwrnod neu fwy, ar hyn o bryd, mae gan y Bwrdd Iechyd y ganran isaf ledled Cymru, sef 46.9%, gyda chanolrif o 84 diwrnod ar agor (Cymru gyfan – 133 diwrnod ar agor).

<u>Diogelwch silindrau ocsigen</u>

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â silindrau ocsigen a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff. Mae BOC (cwmni nwyon diwydiannol) wedi ymweld â'r Bwrdd Iechyd i ddangos prototeip silindr cludadwy un rheolydd. Ni yw'r sefydliad cyntaf i'w weld, sy'n dyst i'r cyswllt rydym wedi'i gael dros y blynyddoedd o ran y problemau yn nyluniad y silindr presennol. Croesawyd y prototeip, a fyddai'n lleihau'r risg o ddigwyddiadau 'dim llif', ond ni fyddant ar gael am oddeutu 12 mis. Mae gwaith gwella arall ar labelu yn y pwynt defnyddio a hyfforddi staff yn parhau.

<u>Cleifion mewnol yn cwympo</u>

Mae'r Cynllun Gwella sy'n dilyn Hysbysiad Tramgwyddo yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddatblygu a'i fonitro drwy'r Grŵp Strategol ar Gwympiadau. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi awgrymu bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Hysbysiad Tramgwyddo gyda'i dîm cyfreithiol, ond nid oedd wedi dod i law adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'r Grŵp Strategol ar Gwympiadau yn parhau i adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y cynllun gwella cyffredinol, sy'n cynnwys camau gweithredu yn dilyn hysbysiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a'r adolygiad Archwilio Mewnol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer yr Archwiliad Cenedlaethol o Gwympiadau Cleifion Mewnol. Mae ffocws penodol ar hyfforddiant, asesiadau risg a rheoli ar ôl cwympiadau, ac mae pob un o'r Cymunedau Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau yn cyflwyno eu cydymffurfiad gyda chamau gwella.

Mae'r cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant rhan 1a ac 1b yn cynyddu o fis i fis, ond mae'r lefelau'n dal yn is na'r disgwyl; mae hyn wedi cael ei uwchgyfeirio i gyfarwyddwyr yr Uwch Adrannau/Cymunedau Iechyd Integredig i ganolbwyntio ar wella cydymffurfiad.

Mae adolygiadau gan gymheiriaid wedi bod yn monitro ansawdd asesiadau risg ac mae'r tîm diogelwch cleifion yn cynnal archwiliadau dirybudd o'r Asesiadau Risg ar y wardiau acíwt. Mae ardaloedd hefyd yn cynnal archwiliadau dirybudd drwy'r Cyfarfodydd Niwed Wythnosol.

Mae canllawiau wedi cael eu rhoi i gydweithwyr Therapi i'w galluogi i lwytho manylion sy'n ymwneud â symudedd cleifion o'r System Rheoli Therapi i fyny i System Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, fel ffordd o gefnogi gwybodaeth gyfredol ar gyfer cleifion unigol a gweithio ar y cyd ar draws disgyblaethau.

Mae Ysbytai Cymunedol yn y Gorllewin yn treialu matiau lleoliad bwyd, gyda negeseuon allweddol am ddefnyddio'r gloch alw, paralysis PJ ac ati. Trafodwyd hyn yn y grŵp strategol ar gwympiadau, a bydd adborth ar gyfer y gwaith cyflwyno posibl yn cael ei rannu.

Briwiau pwyso a gafwyd yn sgil gofal iechyd (HAPU)

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cymeradwyo hyfforddiant gorfodol ar atal briwiau pwyso. Mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r gweithlu ac mae staff ar y Cofnod Staff Electronig wedi'u cytuno ar gyfer staff clinigol sy'n wynebu cleifion.

Mae dadansoddiad o'r data a gofnodwyd ar draws pob Cymuned Iechyd Integredig yn dangos cynnydd yn yr adroddiadau am ddigwyddiadau HAPU – mae'r themâu cyffredin yn dal i gynnwys:

- Oedi wrth symud cleifion i'r Adrannau Achosion Brys mewn cyfnodau o alw cynyddol.
- Cael gafael ar fatresi lleddfu pwysau.
- Sicrhau bod briwiau pwyso'n cael eu categoreiddio'n gywir – angen tynnu lluniau o glwyfau fel rhan o'r atgyfeiriad TVN.
- Cwblhau dogfennau 'Purpose T' gan gynnwys anghysondebau o ran archwilio croen yn rheolaidd a chadw dogfennau.

Mae gwelliannau wedi cael eu nodi ynghylch y ffordd gywir o adrodd am raddfa briwiau pwyso ac mae proses ar gyfer cael gafael ar fatresi lleddfu pwysau yn yr ysbyty wedi cael ei rhannu ar draws holl fannau acíwt y Gymuned Iechyd Integredig.

Roedd diweddariadau i gynllun gofal a chanllawiau adrodd Cymru ar gyfer rheoli/atal briwiau pwyso i fod i gael eu lansio ym mis Gorffennaf ond maent wedi cael eu gohirio yn dilyn adolygiad pellach.

Yn anffodus, nid oedd fforwm Nyrsys Hyfywedd Meinwe Cymru Gyfan yn cymeradwyo cynnwys anogwr ar gyfer atgyfeiriadau Nyrsys Hyfywedd Meinwe ar Datix.

Cynhaliwyd adolygiad dan arweiniad gweithredol HAPU ym mis Gorffennaf 2024 gan ddefnyddio'r un fethodoleg â'r adolygiad dan arweiniad gweithredol ar gyfer cwympiadau. Roedd y ffocws ar sicrhau ansawdd a chywirdeb asesiadau risg, unrhyw fylchau mewn hyfforddiant staffio dros dro a phrosesau datblygu ar ôl HAPU.

Metron Diogelwch Cleifion

Penodwyd Cathy Lloyd yn llwyddiannus i'r swydd newydd uchod a bydd yn dechrau ym mis Medi 2024. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gydag uwch gydweithwyr i drefnu a datblygu'r agenda dysgu a gwella wrth atal a rheoli'r niwed a'r risgiau clinigol mwyaf yr adroddir amdanynt i gleifion.

## PROFIAD CLEIFION

Cwynion

Rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024, derbyniwyd cyfanswm o 559 o Gwynion, 448 o'r rheini wedi'u rheoli o dan Gweithio i Wella, ac 84 ohonynt yn Ddatrysiadau Cynnar gyda 27 o gwynion wedi'u hailagor.

Yn ystod y cyfnod, cafodd 566 o gwynion eu cau, amrywiad cadarnhaol o 7 (cwynion a dderbyniwyd o'i gymharu â'r cwynion a gaewyd)

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 29ain Gorffennaf 2024, roedd y sefyllfa gyffredinol o ran cwynion fel a ganlyn:

- Cyfanswm o 483 o gwynion agored, i lawr o 660 o gwynion o 1af Ebrill 24 (Gostyngiad o 117 o gwynion agored)
- Mae 256 o'r 483 o gwynion yn hwyr (dros 30 diwrnod – 53%) i lawr o 421 o gwynion hwyr ar 1af Ebrill 24

O 29ain Gorffennaf 2024 ymlaen, dyma nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith/misoedd yr oedd cwyn ar agor, gyda'r amser cyfartalog yn 56.63 (36.63 diwrnod yn uwch na'r gyfradd darged ar gyfer cau, sef 30 diwrnod). Bu gwelliant bach ers 10fed Mehefin, y tro cyntaf i'r data hwn fod ar gael lle'r oedd yr amser cau cyfartalog yn 58.95 diwrnod gwaith.

**29ain Gorffennaf 2024**

| | |
|---|---|
| Dim cwyn ar agor | 483.00 |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith yr oedd cwyn ar agor | 56.63 |
| Nifer mwyaf y diwrnodau gwaith yr oedd cwyn ar agor | 401.00 |
| Nifer lleiaf y diwrnodau gwaith yr oedd cwyn ar agor | 6.00 |
| Misoedd ar gyfartaledd | 2.51 |
| Nifer mwyaf o fisoedd | 18.43 |
| Nifer lleiaf o fisoedd | 0.10 |

Roedd y gyfradd cau o fewn 30 diwrnod gwaith, o 29ain Gorffennaf ymlaen, yn 47% (28% yn is na'r targed o 75%) sydd wedi gwella o 37.52% ar 27ain Mai, o'r chwarter blaenorol ac o 30.52% ers i'r Tîm Gweithredol graffu mwy ar gwynion, o 5ed Chwefror 2024 ymlaen.

Cyfanswm nifer y cwynion sydd ar agor ers 29ain Gorffennaf 24 yw 483. Dyma'r rhaniad rhwng y Cymunedau Iechyd Integredig/Uwch Adrannau:

| Gwasanaeth/Cymuned Iechyd Integredig | Rheolir drwy Gweithio i Wella |
|---|---|
| Y Gymuned Iechyd Integredig Ganolog | 194 |
| Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain | 115 |
| Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin | 96 |
| Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | 27 |
| Gwasanaethau Bydwreigiaeth a Menywod | 15 |
| Diagnosteg a Gwasanaethau Cymorth Clinigol Arbenigol | 14 |
| Gwasanaeth Corfforaethol | 10 |
| Deintyddiaeth | 7 |
| Gwasanaethau Canser | 4 |
| Gwasanaethau Cymorth (Hen hierarchaeth) | 1 |
| Cyfanswm | 483 |

Mae 250 o gwynion o'r cyfanswm o 483 o gwynion (52%) yn ymwneud â'r tair prif thema, fel a ganlyn;

- Oedi/Diffyg triniaeth – 157
- Triniaeth anghywir/annigonol – 65
- Oedi/Diffyg Diagnosis – 28

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o gwynion, o 8 Gorffennaf 2024 ymlaen, a oedd yn amlygu bod cyfradd gostwng cyfanswm y cwynion yn "arafu" ac yn gwastatáu, gyda nifer cyfartalog y cwynion a gafwyd bob wythnos yn uwch na nifer y cwynion a gaewyd am y tro cyntaf, ac yn parhau i aros felly.

Mae'r Tîm Cwynion yn cefnogi Cymunedau Iechyd Integredig ac Uwch Adrannau i fonitro ac olrhain perfformiad o ran cwynion, gyda'r nod o leihau nifer y cwynion hwyr. Mae dadansoddiad thematig hefyd wedi cael ei gwblhau o berfformiad wrth ddelio â chwynion er mwyn gallu paratoi cynlluniau gwella cwynion ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda phrawf o newid yn cael ei roi ar waith yn ystod Ch3.

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyngor i Gleifion (PALS) yn parhau i weithio gyda'r Cymunedau Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau i ganfod a chefnogi meysydd lle mae cynnydd yn nifer yr ymholiadau PALS, gyda'r nod o hybu'r dasg o ddatrys pryderon neu ymholiadau yn lleol.

PALS

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024, hwylusodd PALS y gwaith o ddatrys 1,115 o ymholiadau, gan dderbyn 255 nodyn o ganmoliaeth yn ysgrifenedig a 75 o awgrymiadau ar gyfer gwella. Mae'r themâu allweddol a nodwyd o ymholiadau PALS yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Apwyntiadau
- Triniaeth neu asesiad clinigol
- Mynediad at wasanaethau.

Mae PALS yn parhau i weithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig ac Uwch Adrannau i ganfod a chefnogi meysydd lle mae cynnydd yn nifer yr ymholiadau PALS, gyda'r nod o hybu'r dasg o ddatrys pryderon neu ymholiadau yn lleol.

Ar 22ain Gorffennaf 2024, fe wnaeth yr Adran Profiadau Cleifion a Gofalwyr lansio system ffôn un pwynt cyswllt newydd ar gyfer PALS a'r Timau Cwynion. Mae'r system ffôn newydd wedi gwella'r broses o ddelio â galwadau a'r profiad o aros ar y ffôn ar gyfer cwsmeriaid, a bydd yn galluogi'r adran i fonitro a symbylu gwaith rheoli ansawdd. Mae'r llinell ffôn yn cynnig arolwg ar ddiwedd yr alwad, sy'n rhoi cyfle i alwyr roi adborth ar eu profiad wrth ffonio.

Mae PALS wedi newid oriau agor eu gwasanaeth er mwyn rhoi amser penodol i staff ymgymryd â gwaith ymgysylltu â chleifion. Mae'r gwasanaeth ar gau i'r cyhoedd bob prynhawn Mercher o 12:30pm ymlaen. Mae enghreifftiau o waith a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys; Cyfweliadau Darganfod *Care 2 Share* gyda chleifion ar draws ysbytai eilaidd a chymunedol. Yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain, ymwelodd Swyddogion PALS ag Ysbyty Cymuned yr Wyddgrug a Ward Erddig yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Yn y Gymuned Iechyd Integredig Ganolog, ymwelodd Swyddogion PALS â Ward 3 yn Ysbyty Glan Clwyd, yr Adran Achosion Brys, Uned Ddydd Heulwen ac Uned Ablett. Yng Nghymuned Iechyd Integredig y Gorllewin, ymwelodd Swyddogion PALS â Ward Aran a'r Adran Achosion Brys. Mae Swyddogion PALS yn gweithio gyda staff i ddysgu o adborth cleifion a gasglwyd yn y cyfweliadau Care 2 Share drwy'r fethodoleg 'dywedoch chi, fe wnaethom ni'.

Mae PALS wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth 3P – *Promote, Prevent and Prepare* – i helpu i ddatblygu'r Gwasanaeth Cymorth Rhestrau Aros. Mae PALS a'r Gwasanaeth 3P yn cael hyfforddiant ar y cyd, ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf priodol er mwyn gallu datrys eu hymholiad.

Adborth gan Gleifion

Rhwng 1af Mehefin 2024 a 31ain Gorffennaf 2024, derbyniwyd 9,464 o ymatebion fel rhan o Arolwg Adborth Cleifion a Gofalwyr Amser Real Cymru Gyfan drwy system adborth Civica (Sgôr o 85% ar gyfer 'Bob Amser' yw meincnod Cymru Gyfan). Dyma brif ganfyddiadau'r Arolwg:

- Roedd 82.25% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn dweud bod eu profiad cyffredinol o gael mynediad at wasanaethau BIPBC yn dda iawn
- Roedd 85.72% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw bob amser
- Roedd 82.35% o'r ymatebwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ofal bob amser
- Roedd 81.91% o'r ymatebwyr yn cael y wybodaeth angenrheidiol bob amser
- Roedd 81.84% o'r ymatebwyr yn teimlo bod staff wedi cymryd amser i ddeall beth oedd yn bwysig iddyn nhw.

Darparwyd cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth o system Civica i Reolwyr Wardiau, Metronau, Penaethiaid Nyrsio a Chyfarwyddwyr ar draws gwasanaethau Canser, gwasanaethau Menywod ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (IMAD), er mwyn helpu i rymuso gwasanaethau i ddefnyddio data o'u hadborth gan gleifion fel sail ar gyfer dysgu a gwella gwasanaethau.

Rhwng 1af Mehefin 2024 a 31ain Gorffennaf 2024, derbyniwyd 295 o ymatebion i Arolwg Adrannau Achosion Brys Cymru Gyfan drwy system adborth Civica. Bu gwelliant sylweddol yn nifer y ffurflenni adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn o'i gymharu ag Awst 2023 – Mai 2024, lle cafodd BIPBC gyfanswm o 288 o ymatebion. Mae'r rhan fwyaf o'r adborth yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn adlewyrchu profiadau'r rhai a ddefnyddiodd Adran Achosion Brys Maelor Wrecsam (237 o ymatebion). Dyma brif ganfyddiadau Arolwg Adborth Adrannau Achosion Brys Amser Real Cymru Gyfan:

- Roedd 62.89% o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw bob amser
- Roedd 61.54% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael gofal da bob amser
- Roedd 62.98% o'r ymatebwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am ofal bob amser
- Roedd 60% o'r ymatebwyr yn deall beth oedd yn digwydd gyda'u gofal bob amser
- Roedd 38.01% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi aros yn rhy hir o lawer.

Ar hyn o bryd, mae nod i roi proses ar waith lle defnyddir adborth SMS gan y rheini sy'n mynd i'r Adran Achosion Brys. Mae'r tîm digidol wrthi'n ymchwilio i hyn ac yn canfod atebion i gysylltu'r systemau.

Er mwyn helpu i wella'r cyfraddau ymateb i Arolygon Adrannau Achosion Brys, mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio gyda Phenaethiaid Nyrsio a staff y Cwadrant Achosion Brys, gan gynnwys:

- Ym mhob Adran Achosion Brys, gosod ciosg y gellir ei ddefnyddio i storio'r iPad yn ddiogel a sicrhau bod cleifion, perthnasau a gofalwyr yn gallu rhoi adborth ar unrhyw gam o'u taith drwy'r Adran Achosion Brys
- Dangos codau QR i ddarparu opsiynau digidol ar gyfer cleifion sy'n dymuno rhoi adborth sy'n gysylltiedig â Civica yn uniongyrchol
- Byrddau Profiad Cleifion a Gofalwyr i ddangos manylion PALS a dulliau cysylltu
- Yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam, mae gwaith yn cael ei wneud i wella nifer yr ymatebion i arolygon adborth; mae hyn yn cynnwys cynnal cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff dan arweiniad PALS.
- Yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd, mae staff yn defnyddio dull 'ar waith bob amser' mewn perthynas ag adborth, er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i gleifion/perthnasau roi adborth drwy amryw o ddulliau bob amser (ar bapur, codau QR ar gefn cadeiriau, ciosg adborth, posteri, a Gwirfoddolwyr y Groes Goch yn hyrwyddo'r dulliau hyn).

Prosiect Cyfathrebu â Chleifion y Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI)

Mae cynllun peilot SBRI, a ariennir gan Lywodraeth Cymru i wella'r cyfathrebu rhwng staff a pherthnasau pan fydd eu hanwyliaid yn yr ysbyty, bellach wedi dod i ben. Anfonwyd cyfanswm o 1121 o ddiweddariadau at berthnasau yn ystod y cynllun peilot. Mae i ba raddau y gwireddwyd buddion y prosiect yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd, a bydd gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal i gasglu adborth gan staff.

Mae canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod perthnasau wedi elwa o gael diweddariadau dyddiol.

Un thema gadarnhaol a ddaeth i'r amlwg oedd sut yr oedd y systemau digidol yn cefnogi perthnasau a oedd yn byw y tu allan i'r ardal leol neu dramor, a pherthnasau oedd yn gweithio'n llawn amser ac yn ei chael yn anodd ymweld/ffonio bob dydd.

Drwy gydol y cynllun peilot, roedd cyfleoedd i berthnasau a staff rannu adborth am eu profiad. Dyma enghreifftiau o adborth gan staff:

- "Wedi arbed amser gan fod mwy nag un perthynas yn ffonio i holi am glaf. Llwyddodd y prosiect i gynnwys sawl aelod o'r teulu ac roedd pawb yn cael yr un adborth".
- "Ar un achlysur, nid oeddem yn gallu cysylltu â theulu claf oedd yn nesáu at ddiwedd ei oes ar y ffôn. Fe wnaethon ni anfon nodyn llais drwy'r platfform ac o fewn 10 munud roedden nhw'n ffonio'r ward a threfnwyd iddyn nhw ddod i mewn."
- "I ddechrau, roedd hi ychydig yn anodd cynnwys hyn yn ein trefn foreol ond wrth i amser fynd yn ei flaen roedd yn amlwg ei fod yn adnodd gwych ac roedden ninnau'n mwynhau ei ddefnyddio".

Cyfathrebu a Gwybodaeth i Gleifion

Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwybodaeth o safon, a hynny gan lynu wrth ddeddfwriaeth statudol wrth baratoi unrhyw fath o wybodaeth i gleifion, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Mae gwaith yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Radioleg, sy'n adolygu ei holl ddogfennau gwybodaeth i gleifion, gan gynnwys llythyrau i gleifion a thaflenni gwybodaeth i gleifion, gyda'r nod o sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i gleifion ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Panel o Ddarllenwyr Gwybodaeth i Gleifion yn parhau i gyfarfod yn fisol i adolygu taflenni.

Gofal Iechyd Hygyrch

Mae'r safon cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch ar gyfer pobl sydd â nam ar eu synhwyrau (Llywodraeth Cymru 2013) yn nodi y dylai amrywiaeth o ddulliau cysylltu fod ar gael i unigolion sydd â nam ar eu synhwyrau er mwyn iddynt allu cael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Arwyddo Golwg Sain (COS) a phobl fyddar a BSL i wella mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd.

Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Sign Live, a fyddai'n caniatáu i bobl fyddar a thrwm eu clyw gyfathrebu â staff, ar unrhyw adeg, gan ddefnyddio ap sy'n eu cysylltu â Chyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain cymwys. Gall Sign Live helpu unigolyn byddar sy'n gwneud galwad ffôn i'r Bwrdd Iechyd fel y gall reoli ei ofal iechyd yn annibynnol.

## EFFEITHIOLRWYDD CLINIGOL

Archwilio Clinigol

O 1 Ebrill 2023 tan 31 Mawrth 2024, cynhyrchwyd adroddiadau chwarterol rheolaidd gan yr Adran Effeithiolrwydd Clinigol i roi trosolwg o'r gweithgarwch archwilio clinigol sy'n cael ei wneud ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafodd yr adroddiadau hyn eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Clinigol, sy'n nodi argymhellion ar gyfer meysydd ffocws y flwyddyn ganlynol.


Yn ystod 2023/2024, bu'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn 27 o'r 38 o brosiectau'r Rhaglen Adolygu Canlyniadau ac Archwilio Clinigol Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r sefydliad. Rhoddwyd gwybod am i'r Grwpiau Effeithlonrwydd Clinigol lleol am yr 11 sy'n weddill, er mwyn darparu cynlluniau lliniaru ac yna uwchgyfeirio argymhellion ar gyfer datrys y problemau hyn at y Grŵp Effeithlonrwydd Clinigol Strategol, ac yna'r Grŵp Datblygu Ansawdd. Mae'r holl wybodaeth i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol diweddar a gyflwynwyd i'r Grŵp Datblygu Ansawdd, ac fe'i nodir yn y crynodeb isod:


- 9 cyfranogiad rhannol – nodwyd bod problemau o ran diffyg adnoddau neu naill ai amser neu staff (clinigol a gweinyddol). Mae effaith y pwysau parhaus ar y system yn dal i'w theimlo yn y sefydliad ac mae timau clinigol wedi nodi yn sgil hyn bod diffyg adnoddau ac amser i gymryd rhan mewn archwiliadau ac ymateb i'w canfyddiadau.

- Mae 1 yn ymwneud â phroblem genedlaethol (roedd y sawl a oedd yn cynnal yr arolwg wedi dioddef ymosodiad seiber, felly doedd dim modd cyflwyno data)
- Ni chafwyd cyfranogiad o gwbl mewn 1. Mae hyn hefyd o ganlyniad i ddiffyg capasiti clinigol a gweinyddol i gymryd rhan.

**Perfformiad Allweddol yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol:**

Pan fydd adroddiad Archwiliad Cenedlaethol yn cynnwys data sy'n benodol i'r Bwrdd Iechyd, byddwn yn meincnodi PBC yn erbyn canlyniadau cenedlaethol ac yn erbyn data PBC mewn adroddiadau blaenorol. Yn ystod 2023/2024, roedd cyfanswm o 23 o gyhoeddiadau archwilio cenedlaethol, ac mae'r gymhariaeth ar gyfer y rhain i'w gweld isod. Sylwch nad yw'n cynnwys pedwar archwiliad, sef y Gofrestrfa Cymalau Genedlaethol, y Rhaglen Cymysgedd Newid, yr Archwiliad Trawma Mawr a Phobl Ifanc gyda Diabetes Math 2, a gyhoeddodd eu canfyddiadau, ond oherwydd maint, dull a natur yr adrodd ar ddata ni wnaed cais am ymateb sicrwydd.




| Key | *Comparison with National Benchmark:* | *Comparison with Last BCUHB Report:* |
|---|---|---|
| R | Where BCUHB reported performance is at or above the benchmark in fewer than 50% of KPIs | Where the previously reported BCUHB performance has deteriorated in more than 50% of Key performance indicators (KPIs) according to the latest National audit report |
| A | Where BCUHB reported performance is at or above the benchmark in 50% to 74% of KPIs. | Where the previously reported BCUHB performance has been maintained or improved in 50% to 74% of KPIs in the latest reporting period. |
| G | Where BCUHB reported performance is at or above the benchmark in 75% or more of KPIs. | Where BCUHB has maintained or improved in 75% or more of KPIs since the previous reporting period |
| | Unable to compare due to nature of data/reporting | Data not comparable with previous reported data |

Dysgu gan Brosiectau Cenedlaethol:

Bydd canlyniadau archwiliadau'n cael eu rhannu drwy amrywiaeth o gyfarfodydd gwasanaeth lleol, gan gynnwys cyfarfodydd Llywodraethu Clinigol a Grwpiau Gwella, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain chwaith. Mae'r canfyddiadau, yr argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod a'u defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae'r tîm Effeithiolrwydd Clinigol yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn.

Roedd crynodeb o'r cynlluniau gweithredu a gynhyrchwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau cenedlaethol yn tynnu sylw at y gwaith gwella sy'n cael ei wneud gan yr arbenigeddau lleol, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Datblygu a gweithredu strategaethau, llwybrau a gwasanaethau newydd
- Gwelyau pwrpasol wedi'u 'neilltuo' i wella canlyniadau i gleifion
- Recriwtio staff a hyfforddi staff
- Gwell dogfennau
- Gwell gwybodaeth a chymorth i helpu i gymryd rhan mewn archwiliadau cenedlaethol
- Archwiliadau manwl lleol i ganfod problemau lleol yn ymwneud â pherfformiad sy'n is na'r safon a argymhellir

Blaenoriaethau'r Tîm Effeithiolrwydd Clinigol presennol:

- Parhau i uwchgyfeirio bylchau mewn cyfranogiad ac ymatebion i Wasanaethau'r Gymuned Iechyd Integredig/Gogledd Cymru Gyfan er mwyn dylanwadu ar gyfranogiad a rhoi sylw i'r adnoddau lleol sydd eu hangen i fodloni gofynion archwiliadau cenedlaethol. Cryfhau'r broses o ddosbarthu a datblygu'r ffurflen 'Asesu Cydymffurfiaeth Gwasanaethau' (SAoC) i gynnwys Arweinwyr Clinigol a Chyfarwyddwyr Clinigol.
- Parhau i adolygu camau gweithredu CAMPUS a'r data clinigol yn gadarn.
- Cynnal adolygiad thematig o'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cenedlaethol.
- Parhau i gyflwyno'r feddalwedd Tracio a Monitro Archwiliadau (AMaT) i helpu gyda'r gwaith o fonitro ac adrodd yn ôl yn erbyn cynlluniau gweithredu Haen 1, gan ganolbwyntio ar ddeall canlyniadau ac effeithiau'r rhain ar ofal cleifion.

**Dewis archwiliadau Haen 1 a chofnodi manylion ynghylch Sicrwydd:**

Dyma enghraifft o berfformiad mewn perthynas â gwaith archwilio diweddar a gofnodwyd mewn adroddiadau chwarterol ac yn yr adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i'r Grŵp Datblygu Ansawdd. Sylwch fod cynlluniau gweithredu ar waith, bod risgiau wedi'u rhoi ar y gofrestr briodol, a bod mesurau lliniaru ar waith.

| Teitl yr Archwiliad Cenedlaethol/ Adolygiad o Ganlyniadau | Enw'r adroddiad | Dyddiad cyhoeddi | Perfformiad yn erbyn y Meincnod Cenedlaethol | Perfformiad yn erbyn y cyfnod adrodd blaenorol | Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser yr Ysgyfaint (NLCA) | Adroddiad Cyflwr y Genedl 2023 | 13/04/2023 | **Gwyrdd** | **Gwyrdd** | **ARWYDDOCAOL**<br>Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r meincnod cenedlaethol yn 75% a mwy o'r mesurau ac mae wedi dangos gwelliannau sylweddol yn y mesur sy'n ymwneud ag echdoriadau llawfeddygol, a fu'n destun pryder yn y gorffennol. |
| Yr Archwiliad Cenedlaethol o Reoli Rhythmau Cardiaidd (NACRM) | Adroddiad Cryno 2023 (data 2021/22) | 09/06/2023 | **Oren** | **Oren** | **Gorllewin: ARWYDDOCAOL**<br>**Canol: LLAWN**<br>Nododd data 21/22 fod problem gyda chyfraddau ail-ymyrraeth. Mae hyn bellach wedi'i ddatrys (gweler data'r Dwyrain ar gyfer camau gweithredu) ac mae'r broses wedi gwella.<br>**Dwyrain: CYFYNGEDIG** |

**Detholiad o archwiliadau Haen 1 a manylion Cynlluniau Gweithredu, yr Hyn a Ddysgwyd a'r Risg.**

Isod ceir enghraifft o rai o'r pethau a gyflawnwyd, y camau gweithredu a'r hyn a ddysgwyd drwy brosesau archwilio Haen 1:

| Teitl yr Archwiliad Cenedlaethol/ Adolygiad o Ganlyniadau | Crynodeb o'r Cyflawniadau Allweddol | Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu | Yr Hyn a Ddysgwyd | Risg |
|---|---|---|---|---|
| Yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser yr Ysgyfaint (NLCA) | Mae cyfran y cleifion sydd â Chanser yr Ysgyfaint o Fath Celloedd Mwy (NSCLC) sy'n cael llawdriniaeth echdorri wedi cynyddu o 11.1% i 20.3%, sydd bellach yn uwch na'r meincnod cenedlaethol o 17%. | Derbyniwyd cynllun gweithredu BIPBC yn amlinellu'r camau gweithredu canlynol:<br>* **Cyfran y cleifion gyda diagnosis patholegol** – canlyniadau (84.7%) sydd fymryn yn is na'r meincnod cenedlaethol (90%), data i'w ail-archwilio i weld ai mater o gywirdeb data yw hyn; fel arall, bydd y rhesymau'n cael eu hadolygu, a chytunir ar gynllun gweithredu yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori Clinigol ar Ganser yr Ysgyfaint (Chwarter 3).<br>* **Cyfran y cleifion sydd â Chanser yr Ysgyfaint o Fath Celloedd Bach (SCLC) sy'n cael cemotherapi** – canlyniadau (67.3%) sydd fymryn yn is na'r meincnod cenedlaethol (70%). Bydd data lleol yn cael ei ail-archwilio i weld ai mater o gywirdeb data yw hyn; fel arall, bydd y rhesymau'n cael eu hadolygu, a chytunir ar gynllun gweithredu yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori Clinigol ar Ganser yr Ysgyfaint (Chwarter 3). | Adolygu yn y Grŵp Cynghori Clinigol ar Ganser yr Ysgyfaint | **DIM**<br>Nid oes unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn erbyn y safonau archwilio |
| Yr Archwiliad Cenedlaethol o Reoli Rhythmau Cardiaidd (NACRM) | **GORLLEWIN:**<br>* Rheoli cyflymder siambr ddeuol mewn cyflyrau nod sinws heb floc AV – 88.9% o'r triniaethau'n bodloni'r safon a osodwyd gan NICE TA324.<br><br>**CANOL:**<br>* 81.6% o driniaethau rheoli cyflymder siambr ddeuol yn y bloc AV yn bodloni safon NICE TA88. Yn 2021/22, roedd 72% o ganolfannau mewnblannu wedi cyrraedd y targed hwnnw.<br>* 86.7% o driniaethau rheoli cyflymder siambr ddeuol mewn clefyd nod sinws heb floc AV yn cyrraedd Safon NICE TA324 – y targed cenedlaethol yw 80%.<br><br>**DWYRAIN:**<br>Roedd Ysbyty Maelor Wrecsam yn bodloni'r meini prawf canlynol:<br>* Mewnblanwyd 104 o reoliadurau hwyrguriad (80 yw Safon BHRS (2017)).<br>* Cynhaliwyd 77 o driniaethau gyda dyfeisiau cymhleth (ICD/CRT) (60 yw safon BHRS (2017)). | **GORLLEWIN:**<br>* Mae'r data yn yr adroddiad yn anghywir felly cynhaliwyd cyfrifiad arall a nodwyd bod anghysondeb – codwyd hyn gyda NICOR i'w gywiro, gan aros ymateb.<br>* Materion yn ymwneud â chyflawnder data: er bod y targed wedi'i gyrraedd, mae hyn yn fater sy'n codi dro ar ôl tro ac mae'n cael ei fonitro'n agos. I'w godi gyda'r ffisiolegwyr Cardiaidd a hyfforddiant gyda'r holl staff dibrofiad ynghylch mewnbynnu data.<br>* Mae angen gwella'r ganran ail-ymyrraeth ar gyfer pob-achos o fewn 12 mis i osod y ddyfais gyntaf, ar gyfer dyfeisiau syml (9.43%) – i'w drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r ddyfais yng Ngogledd Cymru i rannu'r hyn a ddysgwyd. Mae'r clinigwyr yn monitro hyn, a chredir mai'r achos sylfaenol yw cymhlethdod cleifion.<br><br>**CANOL:**<br>* Materion yn ymwneud â chyflawnder data: Wedi'i godi gyda'r ffisiolegwyr Cardiaidd yn y Canol a'r Dwyrain.<br>* Nid oedd CCW yn mapio'r gweithredwr a fewnbynnwyd, ond mae hyn bellach wedi'i ddatrys.<br>* Oherwydd materion staffio/ymddeoliadau, dim ond un gweithredwr rheoli cyflymder oedd gan YGC. Roedd y materion a nodwyd yn yr archwiliad yn ymwneud â chapasiti.<br><br>**DWYRAIN:**<br>* Materion yn ymwneud â chyflawnder data: Codwyd y mater gyda'r ffisiolegwyr Cardiaidd a hyfforddiant gyda'r holl staff newydd.<br>* Nid oedd CCW yn mapio'r gweithredwr a fewnbynnwyd, ond mae hyn bellach wedi'i | **BIPBC:**<br>Canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu rhannu yn y Grŵp Llywio. Mae cyfarfod Dyfeisiau Gogledd Cymru PBC yn trafod cynnydd a chymhlethdodau (canfyddiadau archwilio i'w rhannu yn y cyfarfod nesaf).<br><br>**GORLLEWIN:**<br>Rhannu canfyddiadau archwiliadau mewn Cyfarfod Busnes Cardioleg.<br><br>**CANOL:**<br>Roedd angen cyflwyno data'n well ac mae hynny wedi digwydd gyda hyfforddiant. Mae angen staff ychwanegol.<br><br>**DWYRAIN:**<br>Roedd angen hyfforddiant i ddiweddaru sgiliau ar gyfer clinigwyr ac ym maes cyflwyno data. | **GORLLEWIN: ISEL**<br><br>**CANOL: BACH**<br>Risg o oedi cyn cael ymyriad rheoli cyflymder oherwydd nad oes staff meddygol gyda'r sgiliau priodol i gefnogi'r driniaeth. Mae trefniadau lliniaru'n cael eu darparu gan y Dwyrain a'r Gorllewin yn awr ond maent yn fregus<br><br>**DWYRAIN: MAWR**<br>Hydref 2023 – mae cleifion yn aros 10 wythnos am ddyfeisiau. Lefel risg (ID Rhif 4208) ar 16 a'r gofrestr risg yn cael ei diweddaru, gyda phapur i Dîm Rheoli Ysbyty Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain – mae'r risg hon bellach wedi gostwng i lefel 8 ar 9/8/2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | * Roedd yr holl driniaethau rheoli cyflymder siambr ddeuol cymwys mewn achosion o glefyd nod sinws heb floc AV yn bodloni canllawiau NICE TA324. | ddatrys.<br>* Gweithgarwch gweithredwr: mae dau glinigwr bellach wedi rhoi'r gorau i fewnosod ac mae'r holl weithredwyr presennol yn cydymffurfio.<br>* Ail-ymyrraeth pob achos dros flwyddyn: mae gwaith ailhyfforddi rhwng clinigwyr wedi cymryd lle ar ddyfeisiau cymhleth (12.99%) er mwyn gwella safonau. Mae gwaith monitro parhaus a data cyfredol yn dangos gwelliannau mewn ffigurau ail-ymyrraeth. | | |

## Canllawiau NICE

Mae NICE yn cael ei ddosbarthu drwy'r gwasanaeth Tracio a Rheoli Archwiliadau (AMaT) ers ei gyflwyno ym mis Awst 2023. Mae'r Hwylusydd Effeithiolrwydd Clinigol ar gyfer NICE yn gweithio'n barhaus i gefnogi adrannau, gan roi arweiniad a hyfforddiant lle bo angen. Anfonir rhestr o ganllawiau hwyr at Grwpiau Effeithiolrwydd Clinigol Lleol drwy Adroddiad Sicrwydd. Bob chwarter, bydd y rhestr hon yn cael ei huwchgyfeirio i Grwpiau Effeithiolrwydd Clinigol Strategol drwy Adroddiad Cadeirydd NICE.

Mae'r statws cydymffurfio cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn gwella ers cyflwyno AMaT, ond mae problemau o hyd wrth gael sicrwydd o ambell le. Os nad yw gwasanaethau'n cyflawni un o ganllawiau NICE yn llawn, mae'n aros gyda nhw a rhaid iddynt lwytho Cynllun Gweithredu i fyny i AMaT. Nodwyd drwy Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol bod rhai o'r rhesymau dros gydymffurfiad isel yn ymwneud â'r ffordd y mae'r cais am ddiweddariadau yn cael ei gyfathrebu ar draws y Bwrdd Iechyd, ac y gall ceisiadau beidio â chael eu hateb oherwydd eu bod wedi cael eu hanfon at yr unigolyn anghywir. Mae'r broses hon wedi cael ei hadolygu a bydd yn cael ei diweddaru o fis Medi 2024 ymlaen.

Bydd statws y Bwrdd Iechyd yn aros ar 'hwyr' nes bydd pob gwasanaeth wedi ymateb i ganllaw. Mae'n bwysig nodi nad yw adolygiad hwyr yn golygu nad oes canllawiau ar waith o gwbl – mae'n golygu nad yw'r canllawiau wedi cael eu hadolygu i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn gyfredol.

Mae'r tabl isod yn dangos y gymhariaeth rhwng mis Ionawr 2024 a'r sefyllfa bresennol. Mae 'Wedi Cyflawni'n Llwyr' wedi codi o 38 ym mis Ionawr i 94 ym mis Awst, ac mae hyn yn cynyddu'n raddol wrth i ragor o hyfforddiant mewn arbenigeddau gael ei drefnu.

**Overall BCUHB Compliance Status**

| Period from: 05 January 2024 to: 01 August 2024 | | N value | Percentage | Current position - as of 01 August 2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fully Achieved | ↑ | up from 38 to 94 | up 18.9% | 94 | 50% | Fully Achieved |
| Partially Achieved - Acceptable | → | no change | no change | 0 | 0% | Partially Achieved - Acceptable |
| Partially Achieved - Improvement Needed | ↑ | up from 3 to 10 | up 2.9% | 10 | 5% | Partially Achieved - Improvement Needed |
| Not Achieved | ↑ | up from 1 to 2 | up 0.2% | 2 | 1% | Not Achieved |
| Not Applicable (N/A) | ↑ | up from 14 to 24 | up 1.3% | 24 | 13% | Not Applicable (N/A) |
| In Progress | ↓ | down from 20 to 9 | down 11.7% | 9 | 5% | In Progress |
| Overdue | ↑ | up from 45 to 48 | down 11.5% | 48 | 26% | Overdue |
| Total | ↑ | up from 121 to 187 | | 187 | | |

Gwelwyd newid cadarnhaol o ran ymatebion hwyr ers mis Ebrill 2024.

## Marwolaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru bob chwarter, gan ddarparu gwybodaeth am nifer o ddangosyddion allweddol fel:

- Marwolaethau crai
- Marwolaethau ar ôl llawdriniaethau dewisol ac fel arall
- Marwolaethau ar ôl derbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

- Marwolaethau sy'n benodol i gyflwr

Mae swydd y Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt ar gyfer Marwolaethau Corfforaethol wedi cael ei llenwi'n ddiweddar gyda dyddiad dechrau o 1af Medi 2024. Bydd hyn yn caniatáu i ni adolygu ein proses bresennol mewn perthynas â marwolaethau, i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â fframwaith Dysgu o Farwolaethau Cymru Gyfan, a bod ein prosesau ar gyfer dysgu o farwolaethau yn effeithiol.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys sicrhau cysondeb wrth adolygu marwolaethau cleifion, gan sicrhau bod mecanweithiau clir yn eu lle ar gyfer adrodd, a bod modd nodi ac uwchgyfeirio meysydd sy'n peri pryder. Bydd hyn hefyd yn cefnogi gwaith heriol parhaus y tîm drwy wella llif yr ôl-groniadau a pharhau i wella'r gwaith o brosesu adroddiadau 'drws ffrynt' gan y gwasanaeth ME yn brydlon mewn amser real ar Datix, gan roi data hygyrch i gydweithwyr ar unrhyw adeg yn ôl yr angen.

Oherwydd y ffordd mae data'n cael ei gasglu a'i brosesu'n genedlaethol, dim ond tan fis Hydref 2023 y mae'r Dangosyddion Marwolaethau wedi'u Haddasu i Risg (RAMI) a'r Bwrdd Iechyd yn mynd â ni. Felly, mae'n anodd asesu a fu newid mewn tuedd, ond nid oes tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn wahanol i neb arall yn hyn o beth.

**Dysgu**

Oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti, nid yw'r Panel Dysgu o Farwolaethau a'r Grŵp Lleihau Marwolaethau y Gellid eu Hosgoi wedi cyfarfod ers mis Mehefin 2024; fodd bynnag, gan fod Cyfarwyddwyr Cyswllt ar gyfer Marwolaethau wedi cael eu penodi, gall y cyfarfodydd hyn ailddechrau nawr. Er enghraifft, mae dysgu lleol wedi tynnu sylw at y canlynol:

- Pwysigrwydd cynllunio gofal ymlaen llaw.
- Effaith llif cleifion ar ofal cleifion, gyda phwysigrwydd cael y claf iawn yn y lle iawn.
- Gyda chymhlethdod cynyddol cleifion acíwt, mae'n bwysig nodi'n glir bod gwahanol arbenigeddau'n ysgwyddo perchnogaeth ar y cyd dros ofal cleifion.

Er y gellid dadlau nad yw'r rhain yn broblemau newydd, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith y gallwn ddal ati i barhau i wella pethau yn y meysydd hyn, gan y bydd hynny'n annog timau i barhau i ganolbwyntio ar y gwaith gwella parhaus yn y meysydd hyn.

**Cyfradd Marwolaethau Crai - BIPBC o'i gymharu â Chymheiriaid:**

Mae heriau staffio yn yr adran Codio Clinigol yn parhau. Mae codio clinigol yn adrodd ar hyn o bryd ar fesurau sy'n gofyn am ddata wedi'i godio hyd at fis Hydref 2023. Mae hyn wedi'i gofrestru fel risg yn y Ffrwd Waith Data, Cynllunio a Pherfformiad ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio. Mae elfennau allweddol o'n cynllun adfer codio bellach ar waith, fel y nodir isod:

- Dechreuodd 6 Codydd Clinigol dan Hyfforddiant Cyfwerth ag Amser Llawn gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2024, i gefnogi'r gwaith o hyfforddi rhagor o hyfforddeion. Hefyd, mae swydd Arweinydd Sicrhau Data wedi cael ei chreu, a dechreuodd yr aelod staff yn ei rôl yn ystod mis Awst 2024.
- Er mwyn helpu i gadw ein staff cymwys cyfredol, rydym yn cyflwyno cais am bremiwm recriwtio a chadw staff.
- Rydym wedi cael cymeradwyaeth i ddefnyddio codyddion asiantaeth, ac rydym yn y broses o gaffael y rhain, gyda'r gobaith y byddant yn cychwyn ym mis Medi 2024.

Mae'r isod yn dangos nad yw BIPBC yn wahanol i neb arall o ran marwolaethau crai o'i gymharu â'n cymheiriaid:




**Diffiniad o'r dangosydd**

**Rhifiadur** = Cyfnodau lle bu farw'r claf

**Dynodydd** = Cyfanswm y cyfnodau heb gynnwys babanod iach

**Math** = Canran

**Cyfeiriadaeth** = Gorau po isaf

## DIOGELU

Mae'r Tîm Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd sefydliadol mewn perthynas â dyletswydd statudol y Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys camau gweithredu a gweithgareddau allweddol i sicrhau bod yr agenda Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd yn parhau i fod yn hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau ar draws BIPBC. Adroddir ar ddiogelu'n ffurfiol ar draws y sefydliad yn unol â'r Fframwaith Adrodd ar Ddiogelu. Mae'r fframwaith hwn yn atgyfnerthu gwaith ymgysylltu sefydliadol, prosesau adrodd ac uwchgyfeirio gan y Grŵp Diogelu, Llywodraethu a Pherfformiad, a Fforymau a Phwyllgorau allweddol.

Mae ymarfer Sicrhau Ansawdd yn cael ei gynnal i roi sicrwydd i'r Bwrdd fod trefniadau llywodraethu'r Gymuned Iechyd Integredig/Fforymau Diogelu'r Uwch Adrannau yn dilyn y Fframwaith Diogelu ac Adrodd ac yn cyd-fynd â fframwaith llywodraethu sefydliadol y Bwrdd Iechyd.

<u>Rhoi gwybod am oedolion a phlant sydd mewn perygl</u>

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2024, roedd adroddiadau ar Oedolion mewn Perygl ychydig yn is na'r cyfartaledd, gyda 154 a 146 o adroddiadau wedi dod i law yn y drefn honno. Dengys gwaith dadansoddi fod adroddiadau yn ardal y Dwyrain yn gyson uwch na'r cyfartaledd dros y ddau fis diwethaf. Cynhelir adolygiad o adroddiadau bob mis. Ni nodwyd unrhyw bryderon, themâu na thueddiadau ychwanegol, ac roedd yr adroddiadau'n cyd-fynd â phrosesau deddfwriaethol i gynnal diogelwch cleifion.

Roedd pedwar cant a phymtheg (415) o Adroddiadau Plant mewn Perygl wedi'u cyflwyno gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 24, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd misol. Gwelwyd cynnydd pellach ym mis Gorffennaf 2024, gyda phedwar cant pum deg naw (459) o adroddiadau Plant mewn Perygl yn cael eu cyflwyno. Yr adroddiadau am Blant mewn Perygl ym mis Gorffennaf 2024 oedd yr uchaf a gofnodwyd mewn un mis. Y categori plant dan 5 oed oedd â'r cyfraddau adrodd uchaf, sy'n duedd gyson ac yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, roedd

Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain yn cyfrif am 50.1% o'r adroddiadau, a dyma'r sefyllfa'n gyson. I sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gefnogi, mae'r Tîm Diogelu yn defnyddio adnoddau o fewn y tîm i sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth ar gael yn gyflym.

Mae gweithgarwch diogelu yn cael ei rannu'n wythnosol ac yn fisol gyda gwasanaethau perthnasol y Bwrdd Iechyd. Bydd Fforymau Diogelu Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD) a Chymunedau Iechyd Integredig yn craffu ar weithgarwch yn fisol er mwyn cael sicrwydd a rheolaeth mewn perthynas â phryderon a godwyd a'r camau a gymerwyd. Mae'r Fforwm Diogelu yn cael ei gynnal yn fisol ar draws gwasanaethau'r Cymunedau Iechyd Integredig ac MHLD.

Mae'r Fforwm yn atebol i'r Grŵp Diogelu, Llywodraethu a Pherfformiad ac yn y pen draw i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, sy'n cynnig fframwaith adrodd cadarn. Mae cofnodi canlyniadau'r Awdurdodau Lleol wedi bod yn her, a chafodd hyn ei adrodd a'i gydnabod eto gan ein cydweithwyr yn yr Awdurdodau Lleol yng nghyfarfod Bwrdd Diogelu ar y cyd Gogledd Cymru. O ganlyniad, cytunwyd ar ddyddiad ym mis Medi 2024, gyda'r chwech (6) Awdurdod Lleol yn mynd i archwilio sut i wella hyn er mwyn sicrhau'r arferion gorau.

Diweddariad ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae mwy a mwy o achosion lle mae plant yn cam-drin rhiant yn cael eu riportio, sy'n arwain at sefyllfa heriol a'r ddadl ynghylch pwy yw'r dioddefwr/pwy sy'n dreisgar yn y teulu. Bydd y Tîm Diogelu yn mynychu Bwrdd Rhanbarthol VAWDASV, sy'n bartneriaeth rhwng gwahanol asiantaethau, a Grŵp Llywio MARAC, lle trafodir y themâu a'r tueddiadau hyn. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn cael eu trafod, a bydd y camau nesaf yn cael eu hystyried a'u hadrodd yn Ch3 a Ch4.

Cydymffurfio â Hyfforddiant VAWDASV BIPBC

| Economi Iechyd | Mehefin-24 | Gorffennaf-24 |
|---|---|---|
| Cymuned Iechyd – Canol (HCCX) | 78.7% | 78.6% |
| Cymuned Iechyd – Dwyrain (HCEX) | 82.2% | 81.1% |
| Cymuned Iechyd – Gorllewin (HCWX) | 78.3% | 78.7% |
| Darpariaeth Glinigol Integredig – Gofal Sylfaenol (ICDP) | 79.6% | 79.5% |
| Darpariaeth Glinigol Integredig – Gofal Rhanbarthol (ICDR) | 78.0% | 77.6% |
| Iechyd Meddwl ac LDS (MX00) | 86.9% | 86.2% |
| Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Merched (WXXX) | 78.7% | 79.2% |
| Gwasanaeth Corfforaethol | 65.4% | 65.4% |
| **Cyfanswm** | **74.6%** | **74.4%** |

Bydd y Gymuned Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau yn cael micro ddadansoddiad i ddangos sut maent yn cydymffurfio â hyfforddiant, ac mae dull gweithredu penodol yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Diogelu, gydag ymrwymiad llawn.

Strategaeth Ymateb i Drais Difrifol Gogledd Cymru 2024

Mae'r strategaeth a lansiwyd yn ddiweddar, 'Gogledd Cymru Heb Drais: Strategaeth Ymateb i Drais Difrifol Gogledd Cymru 2024', sef y strategaeth gyntaf erioed o'r fath, yn ddogfen bwysig sy'n drobwynt yn ein hymdrechion i fynd ati gyda'n gilydd i greu rhanbarth diogel a mwy cyfiawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn asiantaeth bartner allweddol ac mae wedi cymryd rhan mewn trafodaethau a chamau gweithredu drwy gydol y camau ymgynghori a gweithredu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a rhoddir diweddariadau i wasanaethau'r Bwrdd Iechyd drwy'r Grŵp Diogelu, Perfformiad a Llywodraethu. Mae cynllun cyfathrebu a gweithredu yn cael ei ddatblygu i lywio a chefnogi'r camau nesaf a bydd y Tîm Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Grŵp

Llywio yn Ch3 24/25. Bydd cyllid sy'n cyd-fynd â'r strategaeth yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc, a bydd yn cael ei ddyrannu yn 2024/25. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob blwyddyn. Bydd y diweddariadau blynyddol yn cynnwys dadansoddiad data o'r Asesiad diweddaraf o Anghenion Strategol. (Mawrth 2025)

Y Diweddaraf am Adolygiadau Ymarfer

Prif bwrpas adolygu ymarfer yw canfod unrhyw gamau y gall partneriaid Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru neu gyrff eraill eu cymryd i sicrhau gwelliannau mewn arferion amddiffyn a diogelu amlasiantaethol.

Adolygiad Ymarfer Plant

Ar hyn o bryd mae deuddeg (12) o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Ngogledd Cymru wedi'u comisiynu gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Bydd y themâu a'r risgiau a nodir yn yr adolygiadau yn cael eu defnyddio fel sail i'r argymhellion, a fydd wedyn yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu i sicrhau bod yr hyn sydd angen ei ddysgu yn cael ei ddysgu go iawn.

Dyma grynodeb o'r Themâu cyfredol; adolygiadau;

- Ymgais ar Hunanladdiad ac 'anffawd' drwy gwblhau hunanladdiad
- Plentyn ag anafiadau – 'babi wedi cael ei ysgwyd' yn arwain at drawma i'r pen
- Tri (3) plentyn oedd yn gysylltiedig â digwyddiad cam-drin domestig arwyddocaol, dau ohonynt wedi eu hanafu drwy drywanu
- Esgeulustod yn arwain at niwed a marwolaeth drwy foddi
- Achos yn ymwneud â nifer o blant sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol gan berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth

Mae proses gadarn ar waith i wneud yn siŵr bod yr adolygiadau'n cael eu rhaeadru drwy'r sefydliad i godi ymwybyddiaeth, ac i sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu gwreiddio mewn ymarfer rheng flaen. Mae'r broses hon yn cynnwys;

- Datblygu a rhaeadru briff 7 munud.
- Cyflwyniad PowerPoint i gofnodi'r prif ffeithiau, y canfyddiadau a'r argymhellion.
- Gweminarau Dysgu dros Ginio ac Ysbrydoli.
- Goruchwyliaethau Diogelu un i un a grwpiau.
- Rhifyn Arbennig a Bwletinau Dysgu.

Bydd gweithredu'r Model 12C, Model Cyfrifoldeb Diogelu Cyfunol (2023) yn hybu dull cydweithredol o ddatblygu gwell dealltwriaeth o themâu sy'n dod i'r amlwg dro ar ôl tro.

Adolygiad Ymarfer Oedolion

Ar hyn o bryd mae un (1) Adolygiad Ymarfer Oedolion gweithredol yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru hwn ar 25ain Gorffennaf 2024. Roedd yr hyn y dylai'r Bwrdd Iechyd ei ddysgu yn ymwneud yn benodol â chynnwys gwasanaethau meddygon teulu yn y broses Oedolion mewn Perygl, a'r angen i sicrhau bod meddygon teulu yn cael eu cefnogi i fod yn bresennol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r gweithgarwch hwn ar waith ac mae'n cael ei gefnogi drwy ddatblygu Papur Briffio 7 munud i helpu meddygon teulu gyda'r broses ddeddfwriaethol ar gyfer Oedolion mewn Perygl.

Adolygiad o Ddynladdiad Domestig

Ar hyn o bryd, mae Chwech (6) Adolygiad o Ddynladdiadau Domestig yn mynd rhagddynt ledled Gogledd Cymru. Mae pedwar (4) wedi'u cwblhau, a thri (3) adroddiad gyda'r Swyddfa Gartref yn aros i gael eu cymeradwyo. Mae un (1) adroddiad wedi'i ddychwelyd ac wedi cael ei gymeradwyo.

Bydd cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r hyn a ddysgwyd yn cael eu cychwyn cyn cael cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref er mwyn osgoi unrhyw oedi.

Y Themâu yw: hunanladdiad y dioddefwr mewn dau (2) o'r achosion, diffyg cydnabyddiaeth o'r berthynas rhwng iechyd meddwl a cham-drin domestig, colli golwg ar lais y plentyn a'i brofiad bywyd, a dim ymchwiliad yn cael ei gynnal fel mater o drefn ymysg y boblogaeth pobl hŷn.

Trafodir pob Adolygiad Ymarfer yn fisol yn y Grŵp Sicrhau Ansawdd Diogelu. Mae'r canfyddiadau'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu ar sail yr argymhellion sy'n cael eu monitro gan is-grwpiau adolygu ymarfer Byrddau Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer oedolion a phlant. Mae ansawdd y camau gweithredu'n cael eu sicrhau ac maent yn cael eu monitro yn unol â'r Fframwaith Adrodd ar Ddiogelu, sy'n cyd-fynd â strwythur llywodraethu'r sefydliad.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Gohiriodd Llywodraeth y DU y gwaith ar weithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) cyn yr Etholiad Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r Llywodraeth newydd wedi penodi Stephen Kinnock AS yn Weinidog Gofal, sy'n gyfrifol am y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r LPS. Fodd bynnag, cyhoeddwyd yn Araith y Brenin (Gorffennaf 2024) mai'r flaenoriaeth i'r Gweinidog fyddai diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl cyn gwneud unrhyw waith i fynd i'r afael â phroses bresennol y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r gwaith hwyr/arfaethedig o roi'r LPS ar waith.

Mae arian Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dasg o roi'r arferion gorau ar waith a darparu gwasanaethau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid drwy'r sefydliad i gyd. Caiff hyn ei fonitro a'i sicrhau o ran ansawdd gan drefniadau adrodd a'r Fframwaith Adrodd ar Ddiogelu.

Diweddariad ar Fodiwl Diogelu Datix

I gyflwyno Adroddiad Diogelu Cymru Gyfan y GIG, mae cynnig i'r holl Fyrddau Iechyd ar hyd a lled Cymru ddefnyddio Modiwl Diogelu Cymru Datix o 1 Hydref 2024 ymlaen. Mae'r Rhwydwaith Diogelu a'r tîm Unwaith i Gymru yn cefnogi trafodaethau gyda'r Bwrdd Diogelu a'n partneriaid yn yr Awdurdodau Lleol. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid GIG Cymru wedi cael ei sefydlu i lywio'r gwaith arfaethedig o drosglwyddo i Fodiwl Diogelu Datix rydym ni, y Tîm Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd, yn rhan ohono. Mae rhagor o drafodaethau yn cael eu cynnal i gael sicrwydd ar y system i wneud yn siŵr ei bod yn ddiogel ac yn effeithiol ac yn bodloni'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

## ATAL A RHEOLI HEINTIAU

Heintiau – Dangosyddion Allweddol

Wrth edrych ar ddata dangosyddion allweddol Atal Heintiau hyd at ddiwedd mis Gorffennaf a chymharu â Byrddau Iechyd eraill, mae BIPBC yn 1$^{af}$ ar gyfer rhywogaethau Klebsiella ac MSSA a Pseudomonas aeruginosa bacteraemia (h.y. y gyfradd heintio isaf), 3$^{ydd}$ ar gyfer MRSA a 4$^{ydd}$ ar gyfer Escherichia coli a *C.difficile*. Mae hyn yn dangos safle gwell ar gyfer MRSA, Escherichia coli a Pseudomonas aeruginosa ond dirywiad o ran rhywogaethau Klebsiella, MSSA a *C.difficile* ym mis Mehefin.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2024, mae BIPBC mewn sefyllfa well o ran MSSA, Klebsiella a Pseudomonas aeruginosa bacteraemia o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2023. Mae gwersi a ddysgwyd o adolygiadau ar ôl heintiau yn cael eu rhannu'n eang i dynnu sylw at ble mae angen gwneud

gwelliannau gyda'r holl brif heintiau, ond yn enwedig o amgylch *C.difficile*, MRSA ac E. coli, lle mae'r perfformiad wedi gostwng am yr un cyfnod yn 2023.

Achosion

Norofeirws – Roedd achosion yn y Dwyrain yn Ysbyty Maelor Wrecsam ym mis Mehefin ac ym mis Gorffennaf, gan arwain at gau 4 ward yn llwyr. Roedd Ysbyty Gwynedd wedi cael un achos yn unig ar ward ym mis Mehefin.

COVID-19 – Ni nodwyd unrhyw achosion ward llawn yn ystod mis Mehefin na mis Gorffennaf, ond roedd nifer o achosion mewn unedau yn y wardiau a chynnydd amlwg yn nifer yr achosion o COVID-19.

*C.difficile* – Roedd Ysbyty Glan Clwyd wedi cael achos ym mis Gorffennaf a arweiniodd at gau'r ward er mwyn gallu diheintio ward 12 yn llwyr i'r lefel uchaf.

CPE – Cofnodwyd dau achos yn ystod mis Gorffennaf; un yn Ysbyty Glan Clwyd ac un yn Ysbyty Gwynedd.

Y clefyd crafu (Scabies) – Cafodd achos ei gofnodi yn yr adran Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl yn ystod mis Gorffennaf, gan effeithio ar 4 claf.

Mae adolygiadau ar ôl heintiau ac adolygiadau dysgu o achosion wedi cael eu cychwyn/cyflawni, gyda gwersi'n cael eu rhannu.

Mae'r hyn a ddysgwyd hyd yma yn cynnwys:

- Namau sgrinio, oedi wrth samplu, samplu anghywir
- Oedi wrth ynysu, yn bennaf oherwydd nad oedd modd symud cleifion nad oedd angen eu hynysu rhagor i welyau eraill, oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti
- Llai o staff cyfleusterau gan olygu nad oes modd gwneud yr holl waith glanhau manwl y gofynnir amdano, na gwaith glanhau arferol ar adegau chwaith
- Diheintio lefel uchel ddim cystal ag y dylai fod oherwydd problemau parhaus gyda thechnoleg Hylifau Hypoclorus METIS a'r anallu i symud cleifion i rywle arall er mwyn gwneud gwaith diheintio lefel uchel drwy'r ward i gyd
- Presgripsiynu gwrthficrobaidd heb fod yn y canllawiau
- Methiant mewn ymarfer sy'n gysylltiedig â bwndeli gofal, hylendid dwylo a chydymffurfio â threfniadau glanhau comodau

## SICRHAU ANSAWDD

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn arolygiaeth annibynnol ac yn rheoleiddiwr i holl wasanaethau gofal iechyd Cymru.

Cynhaliodd AGIC archwiliad yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd rhwng 29ain Ebrill a 1af Mai 2024. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2024, Er bod yr arolygiad cyffredinol yn gadarnhaol ac y gallai AGIC weld tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pellach i wella rhai meysydd, roedd angen sicrwydd ar unwaith ynghylch yr isod:

- Sicrhau bod mesurau ar waith i sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch cleifion yn cael eu hasesu a'u lliniaru mewn modd amserol
- Sicrhau bod staff yn rhoi meddyginiaeth yn unol â phresgripsiynau

- Sicrhau bod staff yn cofnodi'n gywir faint o hylif mae cleifion yn ei yfed ac yn ei gynhyrchu
- Sicrhau bod staff yn llenwi cynllun gofal pan fydd gan glaf ganiwla
- Sicrhau bod offer dadebru'n cael ei wirio'n rheolaidd a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi
- Sicrhau bod arsylwadau gweledol a ffisiolegol yn cael eu monitro a'u cofnodi'n gyson.

Mae cynllun gweithredu ar waith a bydd yn cael ei dracio.

O ganlyniad i'r gwelliannau, penderfynodd AGIC ddad-uwchgyfeirio'r adran fel Gwasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol. Mae hyn yn golygu nad oes dim un o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn dal yn y categori 'Gwasanaeth sydd Angen Gwelliant Sylweddol'.

Ar 25ain a 26ain Mehefin 2024, cynhaliodd AGIC arolygiad a oedd wedi'i drefnu o'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IRMER) yn Ysbyty Gwynedd a'r Gwasanaeth Esgyrn yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno. Mae'r adborth llafar cychwynnol yn awgrymu bod yr archwiliad wedi bod yn gadarnhaol ac nad oes angen sicrwydd ar unwaith. Nododd yr arolygwyr nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ar draws meysydd profiad cleifion, gofal diogel ac effeithiol a llywodraethu ac arweinyddiaeth, gyda nifer fach o welliannau'n ofynnol mewn meysydd fel hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd. Rydym yn disgwyl adroddiad ysgrifenedig terfynol ar y canfyddiadau er mwyn gallu ymateb yn llawn ac yn briodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal Adolygiadau Ansawdd gan Gymheiriaid yn unol â'r broses fewnol. Cafodd Adolygiadau Ansawdd gan Gymheiriaid eu cyflwyno ddiwedd haf diwethaf gyda'r bwriad o helpu gwasanaethau i ddeall i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023, yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd yng Nghymru.

Mae'r adolygiad yn cynnwys proses fewnol o hunanasesu ac arolygiadau ffug yn erbyn meini prawf craidd a ddatblygwyd ar sail dulliau gweithredu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae'r broses yn dal i gael ei datblygu a chafodd ei rhoi ar waith gyda'r angen i helpu'r Bwrdd Iechyd i asesu ei gynnydd yn erbyn yr argymhellion a gyhoeddwyd gan AGIC. Roedd hynny'n dilyn arolygiadau a gynhaliwyd ganddynt o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd yn ôl yn 2022, pan gafodd y gwasanaeth ei uwchgyfeirio i Wasanaeth y mae Angen ei Wella'n Sylweddol (SRSI).

Ers yr Adolygiad Ansawdd gan Gymheiriaid o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd ar 21ain Gorffennaf 2023, mae adolygiadau pellach wedi cael eu cynnal, gan gynnwys Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd ar 18fed Rhagfyr 2023 a Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ar 17eg Gorffennaf 2024. Wrth symud ymlaen, bydd cynnydd – gan gynnwys dysgu allweddol, ac unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio – yn cael ei adrodd i'r Grŵp Rheoleiddio a Sicrwydd (RAG) dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae AGC yn rheoleiddio gwasanaethau oedolion fel cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Gan fod y Bwrdd Iechyd yn un endid cyfreithiol, mae'n ddarparwr cofrestredig ar gyfer nifer o wasanaethau sy'n cynnwys Gwasanaeth Preswyl Cymunedol Gwell (MHLD) a Tuag Adref (ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig).

Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Ffurflen Flynyddol i AGC erbyn y dyddiad cau, sef 26 Mai 2024. Mae hyn yn ofynnol o dan adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau am wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sy'n cael eu gweithredu gan y Bwrdd Iechyd (y darparwr gwasanaeth) ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2024. Ers cyflwyno'r ffurflen, ni dderbyniwyd unrhyw gais pellach am wybodaeth gan AGC.

Arolygiad diweddaraf AGC oedd yr arolygiad o'r Gwasanaethau Preswyl Cymunedol Gwell yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn ôl ym mis Mehefin 2023, ac ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella bryd hynny. Roedd canlyniad yr arolygiad yn gadarnhaol gyda'r casgliad bod

anghenion pobl yn cael eu diwallu, a bod arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn helpu i sicrhau ymarfer diogel.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal Adolygiadau Ansawdd Gofal yn unol â'r broses fewnol a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hynny sy'n darparu gofal cartref yn darparu gofal a chymorth o safon uchel, a bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

<u>Ombwdsmon</u>

Mae gan y Bwrdd Iechyd dri Adroddiad Budd y Cyhoedd diweddar. Mae dau wedi cael eu rhannu drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, ac maent yn cynnwys manylion y cynlluniau gwella a ddatblygwyd mewn ymateb i argymhellion yr Ombwdsmon. Nid oedd y trydydd adroddiad wedi'i gyhoeddi ar adeg y cyfarfod diwethaf, a bydd yn cael ei rannu yn y cyfarfod pwyllgor nesaf. Dyma fanylion yr achos hwn:

Mae'r ymchwiliad yn ymwneud â gofal gastroenteroleg a'r driniaeth a roddwyd i glaf yn 2021, marwolaeth y claf ym mis Ionawr 2022, a'r ymateb i'r gŵyn ddaeth i law yn 2023. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr adroddiad. Cadarnhawyd y rhan fwyaf o'r gŵyn gan yr Ombwdsmon ac mae wedi gwneud yr argymhellion dros dro hyn:

Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol cyn pen 1 mis i ddyddiad yr adroddiad terfynol:

- Darparu ymddiheuriad diffuant i'r achwynydd, gan y Prif Weithredwr, am y methiannau a nodir yn yr adroddiad. Dylai'r ymddiheuriad gyfeirio at y methiannau clinigol, effaith y rhain ar ganlyniad y claf, a'r effaith ar yr achwynydd a'i deulu.
- Cynnig iawndal o £4,000 i'r achwynydd i adlewyrchu'r methiannau difrifol y mae'r Ombwdsmon wedi'u canfod, a'r effaith barhaus ar y claf a'i deulu a ddeilliodd o hynny.

Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol cyn pen 4 mis i ddyddiad yr adroddiad terfynol:

- Adolygu'r achos, yn unol â'i ofynion cyfreithiol o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, i bennu sut cafodd symptomau'r claf ym mis Ionawr 2021 eu camddiagnosio o ganlyniad i ddiffyg asesu/delweddu. Yna, dylai'r Bwrdd Iechyd roi gwybod i'w Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion am ei ganfyddiadau, a chynnwys y canfyddiadau hynny yn ei Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.
- Rhannu'r adroddiad gyda'r Cyfarwyddwr Clinigol sy'n gyfrifol am yr Ymgynghorwyr perthnasol a oedd yn rhan o ofal y claf, er mwyn gallu pwyso a mesur ei ganfyddiadau a'u trafod â'r Ymgynghorwyr dan sylw fel rhan o'u goruchwyliaeth barhaus.
- Adolygu sut mae'n delio â'r gŵyn yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dylid ymgorffori unrhyw welliannau mae'n eu nodi yn ei broses delio â chwynion, a'u rhannu â'm swyddfa.

Mae'r Ombwdsmon yn defnyddio mesur o'r enw Cyfartaledd Amrywiant i Darged (AVT) i fesur ymatebolrwydd. Mae hyn yn cael ei rannu'n rheolaidd â phob bwrdd iechyd. AVT y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yw -4 (h.y. mae cyflwyniadau ar gyfartaledd 4 diwrnod cyn y dyddiad cau).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gwrdd ag Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon i sicrhau arferion gweithio da ac i hwyluso hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd.

## CYFRAITH GOFAL IECHYD

<u>Cwestau</u>

Bydd crwneriaid yn ymchwilio i bob marwolaeth lle nad yw'r achos yn hysbys, lle mae rheswm dros gredu nad achosion naturiol sy'n gyfrifol am y farwolaeth, neu lle mae angen ymchwiliad am ryw reswm arall. Ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan y Crwner i amgylchiadau marwolaeth yw cwest. Nid

yw'r cwest yn nodi pwy sy'n gyfrifol am farwolaeth. Nid rôl y Crwner yw penderfynu ar unrhyw atebolrwydd sifil neu droseddol, na rhoi bai.

Yn gyffredinol, mae gostyngiad yn nifer yr Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (Rheoliad 28) a gyhoeddwyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Cyhoeddwyd dau Hysbysiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol gan y Crwner ym mis Gorffennaf 2024. Mae gan y Bwrdd Iechyd 56 diwrnod i ymateb ac mae gwaith wedi dechrau i adolygu'r hysbysiadau hyn.

Mae'r un cyntaf yn ymwneud ag ymchwiliadau amserol/cynlluniau gweithredu ac yn delio â'r diffyg canlyniadau i bob golwg i aelodau staff sydd ddim yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd, a sut mae'r diffyg atebolrwydd hwn yn golygu bod y risg i gleifion yn parhau yn y dyfodol.

Mae'r ail yn ymwneud â phryderon bod ansawdd, effeithiolrwydd a phrydlondeb ymchwiliadau'r Bwrdd Iechyd yn golygu nad yw materion neu bryderon ynghylch gofal a thriniaeth yn cael eu canfod yn ddigon cyflym (neu o gwbl) i roi mesurau neu gamau dysgu ychwanegol ar waith er mwyn atal marwolaethau mewn amgylchiadau tebyg.

Sefydlwyd Panel Goruchwylio Cwestau (bob pythefnos yn ystod yr hydref) i ddarparu cymorth gweithredol i sicrhau bod terfynau amser yn cael eu cyflawni. Mae gwelliant yn cael ei weld ym mhrydlondeb cyflwyno adroddiadau ymchwilio i'r Crwner, sy'n gysylltiedig â'r gwaith sylweddol yn y maes diogelwch cleifion a gwella cwynion a nodir uchod.

Mae amryw o gwestau'n dal i gael eu rhestru, sy'n sawl blwyddyn ar ôl marwolaeth, ond mae'r rhain y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd ac maent yn adlewyrchu ffactorau allanol amrywiol fel effaith hirdymor y pandemig.

<u>Hawliadau</u>

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n rhoi'r modd i bob Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd yng Nghymru allu indemnio yn erbyn risg. Rôl Cronfa Risg Cymru yw sicrhau dull integredig o asesu risg, rheoli hawliadau, ad-dalu a dysgu er mwyn gwella. Mae'r tîm yn gweithio gyda chydweithwyr yn y GIG ledled Cymru i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddysgu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu gwelliannau i wella diogelwch a chanlyniadau cleifion.

Lle mae cyfiawnhad dros hawliadau, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gael setliad cynnar i ddarparu cymorth i'r rheini y mae niwed yn effeithio arnynt ac i leihau costau. Mae pob hawliad yn cael ei reoli i sicrhau setliad teg a chyfartal.

Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau hwyr sydd i fod i gael eu cyflwyno i Gronfa Risg Cymru. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, 42 oedd y nifer (gyda phob un yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer darparu tystiolaeth o ddysgu). Mae risg o gosb ariannol am ffurflenni hwyr. Fel gyda dogfennau hwyr eraill (er enghraifft gyda digwyddiadau a chwynion, sy'n dal yn annerbyniol o uchel) mae cymorth yn cael ei ddarparu i uwch adrannau i helpu i'w cwblhau ac mae prosesau adroddiadau ac uwchgyfeirio cyson ar waith.

## CASGLIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd ynghylch sicrwydd sy'n ymwneud ag ansawdd a gweithgareddau i wella materion allweddol.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Prif themâu Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol o hyd yw cwympiadau a briwiau pwyso a gafwyd mewn gofal iechyd. Mae gwaith gwella ar gyfer yr holl feysydd hyn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth uwch staff clinigol.
- Mae nifer y cwynion hwyr yn dal i fod yn uchel, sy'n cael effaith ar gleifion ac ar gydymffurfio â'r targed cwblhau. Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo ac mae gwelliannau'n cael eu gweld.
- Cafwyd 2 Hysbysiad Rheoliad 28 PFD gan y Crwner a daeth dau gwest i ben gydag atodiad o Esgeulustod.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'r gwelliannau sydd eu hangen, yn dilyn archwiliad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflwyno gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Gareth Williams, Is-gadeirydd |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 27.8.24 |
| Paratowyd y papur gan: | Diane Davies, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Awst 2024 yn Ystafell y Bwrdd Llys Carlton:

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol
**Nodi**

- Adroddiad Perfformiad
- Adroddiad Cyllid Mis 4 2024/25, gan gynnwys
- Adroddiad Cyllid a Pherfformiad Gweithredol Adrannol – Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD)
- Adroddiad sicrwydd perfformiad Partneriaeth Cydwasanaethau
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n ymwneud â'r Pwyllgor

**Cytuno ar y canlynol**

- IG1 Adolygiad o'r Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth – *yn amodol ar fân ddiwygiadau*

Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor dynnu sylw Aelodau'r Bwrdd at y pwyntiau canlynol:

- Cynhaliwyd trafodaeth drylwyr ar gyllid a pherfformiad yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
- Mynegwyd pryder am yr angen i ddatblygu strategaeth ystadau fwy effeithiol. Dylai hyn gynnwys cydlynu'n well gyda'r gwahanol Gymunedau Gofal Iechyd Integredig ac uwch adrannau gan fod ansawdd ac argaeledd llety yn effeithio ar allu'r Uwch Adran i ddarparu.
- Cydnabuwyd gwaith i leihau nifer y lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal, ond roedd angen cysylltu hyn hefyd â mynd i'r afael ag Oedi wrth Drosglwyddo Gofal
- Pwysleisiwyd yr angen i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn gallu cyflawni gwelliannau i gleifion gyda'i gilydd.
- Mynegwyd pryder sylweddol gan y Pwyllgor ynghylch y cynnydd o ran lleihau amseroedd aros hir mewn Gofal wedi'i Gynllunio. Er bod llawer o waith da yn cael ei wneud a oedd yn dechrau dangos canlyniadau cadarnhaol, byddai'n heriol iawn cyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer amseroedd aros o 104 wythnos erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Roedd angen i'r Pwyllgor ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gynllunio craffu ar y Cymunedau Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau yn y dyfodol i ganolbwyntio ar berfformiad cyffredinol gyda rheolwyr priodol sy'n bresennol a'u cefnogi mewn meysydd heriol, er mwyn sicrhau amser i gael trafodaeth effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr holl wybodaeth sydd i'w chynnwys.

Fe wnaeth y Pwyllgor **gyfeirio** at y pwyntiau canlynol at Bwyllgorau eraill i'w hystyried ymhellach o fewn cwmpas eu cylch gorchwyl a ddirprwyir gan y Bwrdd:
I'w hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant:

- Nifer gyffredinol yr hyfforddiant gorfodol y disgwylir i weithwyr ymgymryd ag ef
- Yr amrywiaeth yn y defnydd o staff asiantaethau ar draws y Gymuned Iechyd Integredig/Uwch Adrannau a beth allai fod yn sbarduno'r rhain, sydd o ganlyniad yn cynyddu costau

Mewn sesiwn breifat, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a gwneud y canlynol

- Cymeradwyo'r cyflwyniad i'r Bwrdd Iechyd o achos busnes Amlinellol Strategol Iechyd a Lles Caergybi i'w ystyried
- Cymeradwyo'r cyflwyniad i Achos Busnes Cyfalaf Seilwaith Trydanol y Bwrdd Iechyd a dyfarnu'r tendr i'r contractwyr (ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r cymorth)
- Cymeradwyo'r cais sydd wedi'i gymeradwyo i gyhoeddi tendr ar gyfer contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Cael y diweddaraf am les eiddo ac wedi cael ei gefnogi gan y prif opsiynau a nodwyd yn amodol ar ddarparu rhagor o wybodaeth

Mae'r papurau a'r cofnodion a gymeradwywyd ar gael ar wefan BIPBC: Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus am gyflawni targedau Gofal wedi'i Gynllunio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gynnal ar 29.10.24

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Diweddariad ynghylch Cyfraddau Ffioedd Blynyddol Gofal Iechyd Parhaus y GIG 2024/25 |
| **Adroddiad at sylw:**<br><br>***Adroddiad ar gyfer:*** | Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 26 Medi 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gytuno ar ffi Gofal Iechyd Parhaus 2024/25 yn ystod y cyfarfod ym mis Mai. Cafwyd diweddariad arall yn ystod y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Yn dilyn trafodaethau rhanbarthol gyda Fforwm Gofal Cymru a darparwyr, mae'r papur hwn yn cynnig argymhellion ynghylch cynnydd sydd wedi'i ail-gyfrifo a bwriad y Bwrdd Iechyd i gydweithio â Fforwm Gofal Cymru i ddatblygu dull strategol o bennu ffioedd. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br><br>1. **NODI**'r cyd-drafodaethau â Fforwm Gofal Cymru ers penderfyniad y Bwrdd ym Mai 2024<br>2. **CYMERADWYO** cyfradd y ffi Gofal Iechyd Parhaus sydd wedi'i hail-gyfrifo (sef 6%)<br>3. **CYMERADWYO** datblygu dull strategol o bennu ffioedd a datblygu modelau newydd at ddibenion comisiynu darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Dr. Chris Stockport - Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Jane Trowman – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cartrefi Gofal a Chomisiynu Gofal Iechyd Parhaus (Dros Dro) |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐ | Derbyniol<br>*Derbyniol:*<br>☒ | Rhannol<br>*Partial*<br>☐ | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| | |
|---|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Datblygu sefydliad effeithiol – Gwerth a chynaliadwyedd (Gofal Iechyd Parhaus)<br>Gofal Heb Ei Drefnu a Gofal Brys |
| **Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Cydymffurfio â Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG<br>Cydymffurfion â Chynllun Cadw a Dirprwyo'r Bwrdd Iechyd |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nid oes angen EqIA. |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nid oes angen SEIA. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae'r risgiau yn cynnwys:-<br>• Enw da<br>• Methodoleg pennu ffioedd<br>• Ystyriaethau Ariannol / Fforddiadwyedd<br>• Yr effaith ar lif cleifion, gan gynnwys Diogelwch ac Ansawdd |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Pwysau o ran costau gwerth 2.53 miliwn |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Gofynion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn achos pecynnau gofal a gomisiynir |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Mae Fforwm Gofal Cymru, darparwyr a theuluoedd wedi parhau i herio'r Bwrdd Iechyd ynghylch y cynnydd a gyhoeddwyd yn y ffi ers cyhoeddi hynny ym Mehefin 2024. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Ffioedd Cartrefi Gofal CRR23-40 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | |
| **Camau Nesaf:**<br>**Gweithredu argymhellion**<br>***Next Steps:***<br>***Implementation of recommendations*** | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***Rhestr o Atodiadau:*** | |

**Diweddariad ynghylch Cyfraddau Ffioedd Blynyddol Gofal Iechyd Parhaus y GIG 2024/25**

## Y Sefyllfa

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod cael rhagor o drafodaethau â darparwyr ynghylch Ffioedd Gofal Iechyd Parhaus 2024/25. Dywed darparwyr nad yw'r cynnydd a gymeradwywyd ym Mai 2024 yn adlewyrchu costau gwirioneddol darparu gofal a'r gofyniad i dalu'r cyflog byw gwirioneddol. Mewn rhai achosion, byddai'r cyllid wedi bod yn llai am ddarparu Gofal Iechyd Parhaus (GIP) na chyfradd yr Awdurdod Lleol ynghyd â Gofal Nyrsio a Ariennir, ac felly, ni fyddai'n cydnabod bod lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus yn fwy cymhleth ac y ceir gofynion nyrsio ychwanegol yn eu sgil.

Cynrychiolir rhai darparwyr yn y sector gan Fforwm Gofal Cymru sydd wedi awgrymu y byddai angen cyfradd gyfunol gwerth 9.2% i ateb y cynnydd cyfunol mewn chwyddiant a'r cyflog byw gwirioneddol.

## Cefndir

Yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2024, cymeradwywyd a nodwyd yr argymhellion dilynol o ran ffioedd Gofal Iechyd Parhaus 2024/2025:

- Cytuno i'r cynnydd ar sail chwyddiant (3.7%) a gafodd y Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru ar draws cyfraddau Gofal Iechyd Parhaus (yn costio £4.9m sydd wedi'i nodi yng nghynllun ariannol y Bwrdd Iechyd), ac wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2024.
- Nodi'r lefel uchel o risgiau anodd cael gwared arnynt a ddaw i ran y Bwrdd Iechyd yn sgil yr opsiwn hwn.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad arall ym mis Gorffennaf 2024 ac argymhellwyd y canlynol:

- Nodi'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt â Fforwm Gofal Cymru a darparwyr ers penderfyniad y Bwrdd ym Mai 2024
- Cefnogi rhagor o gyd-drafodaethau ar y lefel ranbarthol

Cytunwyd y dylid ymdrin mewn modd deublyg â'n gwaith o hynny ymlaen. Yn gyntaf, dylid trafod y cynnydd sylfaenol presennol mewn ffioedd craidd a ddyroddir, ac yn ail, dylid dyfnhau'r trafodaethau ynghylch y dyfodol, ac mae'n bosibl y bydd dull tymor hwy o bennu ffioedd yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio gan adlewyrchu'n well y costau gwirioneddol sy'n deillio o sicrhau y darperir y gofal priodol.

## Asesiad a Dadansoddiad

Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y Bwrdd Iechyd a Fforwm Gofal Cymru, ac mae'r trafodaethau hynny wedi cynnwys Cadeirydd ac Arweinydd Polisi Fforwm Gofal Cymru, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro a Chyfarwyddwr Gweithredol  Trawsnewid a

Chynllunio Strategol y Bwrdd. Trwy gydol y cyfarfodydd, roedd ymrwymiad cryf i barhau i gydweithio, gan fwriadu cynnig neges gyson ac eglur i'r sector i ddangos bod y Bwrdd Iechyd yn gweld gwerth yn eu cyfraniad at iechyd a lles. Mae'r cyfarfodydd hefyd wedi cydnabod yr amgylchedd anodd iawn o ran arian a'r gweithlu yr ydym oll yn gweithio ynddo.

**Trywydd 1: Ailgyfrifo ffi cyfradd sylfaenol Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer 2024/25**

Mae Fforwm Gofal Cymru yn dal i bryderu am y pwysau yn sgil costau staffio, effaith y cyflog byw gwirioneddol a phwysau presennol o ran effaith chwyddiant ar gostau. Yn sgil y trafodaethau y cyfeirir atynt uchod, cynigir y dylid cynyddu'r cynnydd gwreiddiol o 3.7% i 6.0%. Bydd cynnydd o 6% yn hytrach na'r gwreiddiol yn golygu pwysau ychwanegol o ran costau gwerth £2.53m i'r Bwrdd Iechyd. Bydd cyfanswm y cynnydd yn ffioedd Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer 2024/25 yn £7.47m.

Nid oes methodoleg genedlaethol i gytuno ar gyfradd ffioedd Gofal Iechyd Parhaus. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y gyfradd a bennir o ran y ffi wythnosol am Ofal Iechyd Parhaus, ac nid oes yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd bennu ei ffi gan gyfeirio at gyfradd ALl. Bydd y cynnydd sydd wedi'i ailgyfrifo yn darparu cyfradd Gofal Iechyd Parhaus uwch o gymharu â chyfradd yr ALl ynghyd â Gofal Nyrsio a Ariennir ym mhump o blith chwe sir Gogledd Cymru.

Yn achos nyrsio cyffredinol, bydd y cynnydd am Ofal Iechyd Parhaus yn amrywio o £50 i £107 yr wythnos, yn dibynnu ar yr ALl:

| **Cymharu cyfraddau wythnosol - Nyrsio Cyffredinol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfradd ALl £** | **Gofal Nyrsio a Ariennir[1, 2] £** | **Cyfradd sylfaenol ALl + Gofal Nyrsio a Ariennir £** | **Cyfradd Sylfaenol Gofal Iechyd Parhaus[1] £** |
| Ynys Môn | 851.81 | 213.18 | 1064.99 | 1163.26 |
| Gwynedd | 877.68 | 213.18 | 1090.86 | 1163.26 |
| Conwy | 1029.21 | 213.18 | 1242.39 | 1163.26 |
| Sir Ddinbych | 851.81 | 213.18 | 1064.99 | 1163.26 |
| Sir y Fflint | 899.42 | 213.18 | 1112.60 | 1163.26 |
| Wrecsam | 842.7 | 213.18 | 1055.88 | 1163.26 |

*[1] Sylwer: mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am dalu cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir a Gofal Iechyd Parhaus*
*[2] Y ffigwr a ddefnyddir yma yw'r gyfradd interim a gytunwyd gan y Bwrdd Iechyd ym Mai 2024. Caiff cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir eu pennu ar y lefel genedlaethol, ac nid ydym wedi cael gwybod beth yw cyfradd 2024/25 hyd yn hyn.*

Yn achos Gofal Nyrsio ar gyfer yr Henoed Eiddil eu Meddwl, bydd y cynnydd am Ofal Iechyd Parhaus yn amrywio o £65 i £159 yr wythnos:

| Cymharu cyfraddau wythnosol - Nyrsio'r Henoed Eiddil eu Meddwl | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfradd ALl<br>£ | Gofal Nyrsio a Ariennir[1, 2]<br>£ | Cyfradd sylfaenol ALl + Gofal Nyrsio a Ariennir<br>£ | Cyfradd Sylfaenol Gofal Iechyd Parhaus[1]<br>£ |
| Ynys Môn | 1005.03 | 213.18 | 1218.21 | 1282.94 |
| Gwynedd | 987.39 | 213.18 | 1200.57 | 1282.94 |
| Conwy | 1084.72 | 213.18 | 1297.90 | 1282.94 |
| Sir Ddinbych | 920.05 | 213.18 | 1133.23 | 1282.94 |
| Sir y Fflint | 968.17 | 213.18 | 1181.35 | 1282.94 |
| Wrecsam | 910.94 | 213.18 | 1124.12 | 1282.94 |

*[1] Sylwer: mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am dalu cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir a Gofal Iechyd Parhaus*
*[2] Y ffigwr a ddefnyddir yma yw'r gyfradd interim a gytunwyd gan y Bwrdd Iechyd ym Mai 2024. Caiff cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir eu pennu ar y lefel genedlaethol, ac nid ydym wedi cael gwybod beth yw cyfradd 2024/25 hyd yn hyn.*

**Trywydd 2: Datblygu dull tymor hwy o ymdrin â phennu ffioedd a fyddai'n ddull gwell o adlewyrchu'r costau gwirioneddol sy'n deillio o sicrhau gofal wedi'i deilwra**

Caiff ffioedd Gofal Iechyd Parhaus eu teilwra yn unol â gofynion cleifion unigol ac maent yn cynnwys ystod o elfennau sydd wedi bod yn destun pwysau cynyddol o ran chwyddiant yn ystod blynyddoedd diweddar, felly roedd hi'n bwysig sicrhau nad oedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y prif ystadegyn hwn yn unig. Er enghraifft, fe wnaeth cyfanswm y gwariant ar Ofal Iechyd Parhaus gynyddu'n anghymesur o gymharu â nifer y lleoliadau, yn rhannol yn sgil cynnydd yn yr angen i deilwra ychwanegiadau priodol i becynnau, er enghraifft, gofal un ac un neu elfennau ychwanegol eraill.

Oherwydd yr angen i fynd ati'n ddi-oed i gytuno ar newidiadau i gynnydd mewn ffioedd yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodaethau sydd wedi'u cynnal yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi blaenoriaethu ailgyfrifo ffi 2024/25. Fodd bynnag, trwy gydol y trafodaethau hynny, bu'n eglur fod y Bwrdd Iechyd yn ystyried bod hynny'n dibynnu ar fwrw ymlaen â thrywydd 2 a datblygu'r dull tymor hwy hwn o sicrhau gofal wedi'i deilwra. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn unol â gofynion y Cod Ymarfer statudol newydd ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal Chymorth yng Nghymru, sydd wedi dod i rym erbyn hyn (Medi 2024).

| Argymhellion |
|---|
| Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi:<br><br>1. **NODI**'r cyd-drafodaethau â Fforwm Gofal Cymru ers penderfyniad y Bwrdd ym Mai 2024<br>2. **CYMERADWYO** cyfradd y ffi Gofal Iechyd Parhaus sydd wedi'i hail-gyfrifo (sef 6%)<br>3. **CYMERADWYO** datblygu dull strategol o bennu ffioedd a datblygu modelau newydd at ddibenion comisiynu darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2023-2024 |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 26/9/2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau).<br><br>Daeth y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar 30 Mai 2019.<br><br>Mae Safon 120 sy'n delio â Materion Atodol yn datgan bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd lunio adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n disgrifio cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'r safonau.<br><br>Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth ganlynol:<br><br>• Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r safonau<br>• Sgiliau Cymraeg y gweithwyr<br>• Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a lefel y Gymraeg sydd ei hangen<br>• Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a data ansoddol a meintiol fel sy'n ofynnol gan y Comisiynydd. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r cyfeiriad strategol o ran y Gymraeg, wedi'i ategu gan wybodaeth feintiol ar y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd i brif ffrydio a datblygu prosiectau a mentrau Cymraeg ymhellach.<br><br>Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei gydnabod ar lefel genedlaethol gyda dwy wobr genedlaethol, ac mae wedi cael ei enwebu ar restr fer *Gwobrau GIG Cymru* 2024.<br><br>Roedd y wobr gyntaf ar gyfer *Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle* yng *Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru*, am ein gwaith yn ysbrydoli ac yn cymell pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u sgiliau dwyieithog, gan hefyd eu hysbysu ynghylch cyfleoedd cyflogaeth yn y sector iechyd yng ngogledd Cymru.<br><br>Roedd yr ail wobr yn wobr gydnabyddiaeth arbennig gan y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*, am ein cynllunio strategol a'n technegau arloesol a blaengar i sicrhau cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gweithlu ac effaith hynny ar gleifion yn ddiweddarach. |

| | |
|---|---|
| | Mae ein Cynllun Dewis Iaith ar y rhestr fer yng nghategori *Gwobr Gofal Teg GIG Cymru* yng *Ngwobrau GIG Cymru 2024*. Mae'r cynllun yn sicrhau fel sefydliad, ein bod yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn Gymraeg yn rhagweithiol trwy nodi dewis iaith.<br><br>Mae cyflawni Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith cynllunio. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwbl ymrwymedig i gyflawni Cynllun Pum Mlynedd *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru. Yn dilyn ymarfer mapio mewnol, roedd yn galonogol nodi, o blith 16 o'r camau gweithredu a aseiniwyd i Fyrddau Iechyd, ein bod ar lefel ffafriol, gan fod chwe cham gweithredu wedi'u cyflawni, ac mae wyth ar y gweill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad yn ymwneud â'r gwaith a wnaed eisoes i ddatblygu'r rhain. Rydym hefyd wedi nodi camau gweithredu y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd Iechyd, gan mai gweithgareddau yr ydym wedi'u mabwysiadu fel rhan o'n rhaglen waith ehangach yw'r rhain.<br><br>Fel rhan o agenda *Mwy na geiriau*, mae'r Bwrdd Iechyd yn cofleidio egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu darparu gwasanaeth Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano, trwy barhau i ymgorffori'r "Cynnig Rhagweithiol" wrth ddarparu gwasanaethau ynghyd â'r Cynllun Dewis Iaith, sydd ar waith ym mhob un o'n lleoliadau acíwt a chymunedol.<br><br>Mae blaenoriaethau ychwanegol wedi cael eu halinio â phrif themâu *Mwy na geiriau*, megis:<br><br>• ymgorffori gwaith cynllunio'r Gymraeg i arweiniad a pholisi<br>• rhoi strategaeth hyfforddiant Cymraeg a gweithlu wedi'i thargedu ar waith i gynorthwyo ein staff presennol<br>• gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision sgiliau iaith Gymraeg wrth ystyried y sector iechyd fel gyrfa, gan gynorthwyo creu Gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu polisïau ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i ategu cyflawni'r Safonau ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Mae cymorth gweithredol wedi cael ei roi i wasanaethau, ac mae adroddiadau manwl o'r uchafbwyntiau'n dangos meysydd cydymffurfiaeth a llwyddiannau. Mae Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain wedi bod yn rhagweithiol o ran mabwysiadu'r ymagwedd hon, ac mae'r prif lwyddiannau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn.<br><br>Mae gwybodaeth y manylir arni yn yr adroddiad hwn yn ymhelaethu ar sut rydym wedi datblygu ein gwasanaethau yn ystod 2023-24, gan osod sail ar gyfer esblygu pellach dros y flwyddyn adrodd nesaf.<br><br>Caiff adroddiad ychwanegol ei gyflwyno hefyd fel rhan o ofynion adrodd Pum Mlynedd *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru. Mae Adroddiad Diweddaru *Mwy na geiriau* 2023-2024 yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn adrodd i fynd i'r afael â'r amcanion yn y cynllun. |

<table>
<tr><td></td><td colspan="4">Gan fod Llywodraeth Cymru wedi alinio'r amcanion â Safonau'r Gymraeg i ryw raddau, mae cynllun blynyddol Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael ei ddiweddaru i ymgorffori'r amcanion hyn.<br><br>Felly, mae cynnwys y ddau adroddiad wedi cael ei alinio. Mae'r fformatau adrodd yn amrywio ychydig gan fod dulliau adrodd yn cael eu pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn eu trefn.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br><br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Gofynnir i'r Bwrdd hefyd gymeradwyo adroddiad Mwy na geiriau 2023 – 2024 i'w gyflwyno i i'r Uned Polisi Cymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Eleri Hughes-Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I'w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am Sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Pob un</td></tr>
<tr><td colspan="2">Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:<br><br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg, yng Nghymru, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Gwnaeth y Mesur hefyd:<br><br>• greu'r weithdrefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau'r Gymraeg ("y Safonau")<br>• sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i graffu ar gydymffurfiaeth<br>• rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiadau o ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Caiff posibilrwydd methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol (y Gymraeg) sydd wedi'u gosod ar y Bwrdd Iechyd ei gofnodi ar y gofrestr risg. Mae camau gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg wedi'u nodi i reoli a lliniaru unrhyw feysydd pryder posibl.<br><br>Mae'r mater hwn yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ac mae ar lefel risg gymedrol wedi'i thargedu gyda sgôr o chwech. Mae camau gweithredu wedi'u nodi i reoli a lliniaru unrhyw feysydd pryder posibl.<br><br>Caiff y Gofrestr Risg ei chraffu bob chwarter a chaiff unrhyw faterion arwyddocaol neu bryderon eu huwchgyfeirio at Fforwm Strategol y Gymraeg i gael eu hystyried. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyfer y gweithlu. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Amherthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

***Camau Nesaf:***
***Rhoi'r argymhellion ar waith***

- Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar wefan y Bwrdd Iechyd a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Cyflwyno Adroddiad Diweddaru *Mwy na Geiriau* i'r Uned Polisi Cymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Rhestr o Atodiadau:**
Atodiad 1 - Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2023-2024
Atodiad 2 - *Adroddiad Diweddaru 'Mwy na geiriau'* 2023-2024

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Gwasanaethau'r Gymraeg Adroddiad Monitro Blynyddol 2023-2024





# Cynnwys Tudalen


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol | 3 |
| Hunanreoleiddio a Llywodraethu | 4 |
| Safonau'r Gymraeg | 5 |
| Y "Cynnig Rhagweithiol" - Betsi ar ei Orau | 10 |
| Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg | 11 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu | 15 |
| Manteision sgiliau dwyieithog ar gyfer gweithlu'r dyfodol | 18 |
| Dathlu ein Diwylliant | 20 |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 21 |
| Edrych yn ôl a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol | 24 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau) yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys fel y'i nodir yn Safon 120 y Safonau:

- Cwynion
- Cynllunio'r Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi trosolwg o gynnydd gan gynnwys datblygiadau gwasanaeth a'r prif lwyddiannau o Ebrill 2023 hyd at Fawrth 2024.

Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei gydnabod ar lefel genedlaethol gyda dwy wobr genedlaethol, ac mae wedi cael ei enwebu ar y rhestr fer *Gwobrau GIG Cymru* 2024.

Roedd y wobr gyntaf ar gyfer *Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle* yng *Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru*, am ein gwaith yn ysbrydoli ac yn cymell pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u sgiliau dwyieithog, gan hefyd eu hysbysu ynghylch cyfleoedd cyflogaeth yn y sector iechyd yng ngogledd Cymru.

Roedd yr ail wobr yn wobr gydnabyddiaeth arbennig gan y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol*, am ein cynllunio strategol a'n technegau arloesol a blaengar i sicrhau cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gweithlu ac effaith hynny ar gleifion yn ddiweddarach.

Mae ein Cynllun Dewis Iaith ar y rhestr fer yng nghategori *Gwobr Gofal Teg GIG Cymru* yng *Ngwobrau GIG Cymru 2024*. Mae'r cynllun yn sicrhau fel sefydliad, ei bod yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn Gymraeg yn rhagweithiol trwy nodi dewis iaith.

Mae cyflawni Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith cynllunio. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwbl ymrwymedig i gyflawni Cynllun Pum Mlynedd *Mwy na geiriau* Llywodraeth Cymru. Yn dilyn ymarfer mapio mewnol, roedd yn galonogol nodi, o blith 16 o'r camau gweithredu a aseiniwyd i Fyrddau Iechyd, ein bod ar lefel ffafriol, gan fod chwe cham gweithredu wedi'u cyflawni, ac mae wyth ar y gweill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad yn ymwneud â'r gwaith a wnaed eisoes i ddatblygu'r rhain. Rydym hefyd wedi nodi camau gweithredu y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd Iechyd, gan mai gweithgareddau yr ydym wedi'u mabwysiadu fel rhan o'n rhaglen waith ehangach yw'r rhain.

Fel rhan o agenda *Mwy na Geiriau*, mae'r Bwrdd Iechyd yn cofleidio egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu darparu gwasanaeth Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano, trwy barhau i ymgorffori'r "Cynnig Rhagweithiol" wrth ddarparu gwasanaethau ynghyd â'r Cynllun Dewis Iaith, sydd ar waith ym mhob un o'n lleoliadau acíwt a chymunedol.

Mae blaenoriaethau ychwanegol wedi cael eu halinio â phrif themâu *Mwy na Geiriau*, megis:

- ymgorffori gwaith cynllunio'r Gymraeg i arweiniad a pholisi
- rhoi strategaeth hyfforddiant Cymraeg a gweithlu wedi'i thargedu ar waith i gynorthwyo ein staff presennol
- gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision sgiliau iaith Gymraeg wrth ystyried y sector iechyd fel gyrfa, gan gynorthwyo creu Gweithlu dwyieithog ar gyfer y dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu polisïau ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i ategu cyflawni'r Safonau ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Mae cymorth gweithredol wedi cael ei roi i wasanaethau, ac mae adroddiadau manwl o'r uchafbwyntiau'n dangos meysydd cydymffurfiaeth a llwyddiannau. Mae Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain wedi bod yn rhagweithiol o ran mabwysiadu'r ymagwedd hon, ac mae'r prif lwyddiannau wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn.

Mae gwybodaeth y manylir arni yn yr adroddiad hwn yn ymhelaethu o ran sut rydym wedi datblygu ein gwasanaethau yn ystod 2023-24, gan osod sail ar gyfer esblygu pellach dros y flwyddyn adrodd nesaf.

# Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

Mae'r adroddiad hwn nid yn unig yn adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran y gofynion a nodir yn Safon 120, mae hefyd yn dangos sut rydym yn cynllunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

## Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd

Mae Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael ei strwythuro i sicrhau bod ei ffrydiau gwaith yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu anghenion ieithyddol y boblogaeth. Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i'r sefydliad o ran gofynion deddfwriaeth ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

1. Cydymffurfio â Deddfwriaeth
   Sicrhau ein bod yn rhoi cymorth i'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
2. Hybu ac Ymgysylltu
   Yn unol â'r egwyddorion gweithredol sydd ynghlwm wrth gyflawni cynllun pum mlynedd *Mwy na Geiriau*, rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi

gwasanaethau ac i greu prosiectau a chynlluniau a fydd yn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'n diwylliant, a'r effaith ar ofal a boddhad cleifion.

3. Darparu Hyfforddiant
Mae ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg yn cael ei theilwra i fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau amrywiol, ynghyd â chymorth ychwanegol a ddarperir gan y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* trwy ein cytundeb Cymraeg Gwaith.

4. Gwasanaethau Cyfieithu:
Mae ein Tîm Cyfieithu'n sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer cleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn darparu cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

# Hunanreoleiddio a Llywodraethu

## Atebolrwydd Bwrdd Cyffredinol

Mae ein hatebolrwydd strwythurol wedi'i gynnal, ac mae ein Fforwm Strategol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio ein hymagwedd strategol ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sydd â'r gallu i symud gofynion yn eu blaen. Mae llwybr craffu ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion o bwys, yn ogystal ag adrodd bob blwyddyn i'r Bwrdd ar gydymffurfiaeth a llwyddiannau.

## Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r *risgiau posibl ar hyn o bryd yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" ar waith yn unol â Mwy na Geiriau,* a chyflawni Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog.

Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu yn ystod 2023-2024, ac mae pob un o'r tair sgôr risg wedi'u graddio fel rhai cymedrol neu ddibwys ar hyn o bryd. Wrth asesu ein sefyllfa bresennol, nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw risgiau.

Caiff Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ei monitro'n chwarterol, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

## Sicrwydd Perfformiad Mewnol

Er mwyn craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd ac argaeledd a safon gwasanaethau Cymraeg ar draws y sefydliad, gwnaeth Tîm y Gymraeg barhau i gynnal arolygon sicrwydd ansawdd bob chwarter yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Trwy gyfuniad o arolygon 'siopwr cudd' ac ymweliadau safle, mae Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog BIPBC yn mesur ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg mewn ysbytai a meddygfeydd sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd. Pan ailddechreuodd yr arolygon hyn yn dilyn pandemig COVID-19, daeth i'r amlwg bod safonau wedi llithro'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn neu ddwy flaenorol. O ganlyniad i hyn, aeth aelodau Tîm y Gymraeg ati i gydweithio'n uniongyrchol â rheolwyr a gweinyddwyr perthnasol ar draws Gogledd Cymru yn ystod haf 2023, er mwyn canfod gwendidau ac i roi camau gweithredu perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod modd gwneud gwelliannau. Fel cam cyntaf, cynhaliwyd cyfres o deithiau crwydr mewn ysbytai cymunedol ledled gogledd Cymru, er mwyn sicrhau bod yr holl arwyddion dros dro yn cael eu harddangos yn ddwyieithog a'u bod yn unol â gofynion y Safonau. Cafodd llwyddiant y teithiau crwydr hyn, a gynhaliwyd ochr yn ochr â staff rheoli / gweinyddu, ei ddangos yn glir yng nghanlyniadau'r arolygon 'siopwr cudd' dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2023-24, gan fod gwelliant nodedig o ran ansawdd yr arwyddion wedi'i gofnodi mewn nifer o'n hysbytai a'n safleoedd. Mae hyn yn dangos bod adolygiadau perfformiad mewnol yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r Safonau hyn wedi bod ar waith bellach ers y dyddiad gweithredu, sef 30 Mai 2019. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd, ac mae Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn rhoi cyfarwyddyd ar draws y sefydliad cyfan ar roi'r Safonau ar waith, yn ogystal â chefnogi a hwyluso darpariaeth ar lefel sylfaenol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi ymhellach yn Nhîm y Gymraeg, ac roedd hyn yn caniatáu penodi Swyddog Cefnogi Safonau'r Gymraeg. Roedd y penodiad hwn yn arwyddocaol gan ei fod wedi caniatáu i'r tîm barhau i ddatblygu dulliau monitro llymach er mwyn craffu ar gydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae cymorth wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda'r tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC) ar draws Gogledd Cymru (Dwyrain, Gorllewin a'r Canol) ar gwblhau holiadur hunanasesu ar eu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Gwnaeth IHC y Dwyrain gwblhau'r gwaith hwn ym mis Ionawr 2024, ac ers hynny, mae'r Swyddog Cefnogi Safonau'r Gymraeg wedi rhoi adborth ar lunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Mae adroddiad manylach ar ganlyniadau IHC y Dwyrain ar gael isod.


## Dadansoddi Data Safonau'r Gymraeg


Roedd yr ymarfer gwerthuso a gwblhawyd gan IHC y Dwyrain yn caniatáu dealltwriaeth ehangach am eu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Cafodd ffurflen hunanasesu ei chylchredeg i bob adran ei chwblhau er mwyn nodi eu cydymffurfiaeth bresennol â phob Safon yn ogystal â rhoi tystiolaeth i ategu eu hatebion. Dogfen dreigl yw hon a bydd angen i bob adran ei diweddaru bob blwyddyn.


Wrth adolygu'r canlyniadau, canfuwyd ychydig o dueddiadau cyson. Y meysydd lle gwelwyd y gydymffurfiaeth fwyaf oedd:


- Gohebiaeth (Safonau 1-7)
- cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a chyhoeddusrwydd (Safonau 26-34)
- dogfennau a ffurflenni (Safonau 36-28)
- gwefan ac adnoddau ar-lein (Safonau 39-43)
- arwyddion (Safonau 47-49)
- gofal sylfaenol (Safonau 65-68)
- defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safonau 79-82)
- cofnod o sgiliau iaith Gymraeg staff, cyfleoedd am hyfforddiant, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a darpariaeth adnoddau (Safonau 96-105)
- cynllunio'r gweithlu a recriwtio (Safonau 106-109)
- ymgynghoriadau clinigol (Safon 110)
- cadw cofnodion (Safonau 115-117)


Mae hyn yn gyfran sylweddol sy'n galonogol ac mae'n dangos effaith y gwaith a wnaed ers y dyddiad gweithredu.




































Gwnaeth y gweithgarwch hwn hefyd ganfod meysydd lle'r oedd angen cymorth pellach:

- Cyfarfodydd mewnol (Safonau 21-22)
- Teleffoni (Safonau 8-20)
- Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 50-53)

Un o'r tueddiadau cyson a welsom fel maes lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth oedd cyfarfodydd mewnol. O ganlyniad, mae Tîm y Gymraeg wedi datblygu Dull Gweithredu Safonol yn edrych ar y protocol ar gyfer cyfarfodydd mewnol i'w ddefnyddio fel arweiniad ac fel math o restr wirio.






Roedd teleffoni a gwasanaethau derbynfa yn  feysydd lle'r oedd cydymffurfiaeth gymysg.  Mae'r meysydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Tîm gan eu bod yn bwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer llawer o gleifion a'u teuluoedd. Mae ein Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog yn ategu'r gwaith hwn, gan ei fod yn amlygu swyddi ar y rheng flaen lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os na fydd gwasanaethau'n llwyddiannus o ran penodi siaradwyr Cymraeg, yn dilyn proses gymeradwyo gadarn, gellir hysbysebu swyddi gan nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol, ar yr amod bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg o fewn 12 mis o gael ei gyflogi. Mae rhaglen hyfforddiant wedi cael ei rhoi ar waith i ategu hyn.

## Sefydlu dull cyson o ran cyflawni'r Safonau

Mae gwaith wedi parhau hefyd i roi cyngor a chymorth i'r sefydliad o ran agweddau amrywiol ar gydymffurfio â'r Safonau, gan gynnwys datblygu Apiau, fideos hyfforddi, a dogfennau dwyieithog. Er mwyn darparu dull mwy cyson o ran cyflawni'r Safonau, mae'r Tîm wedi canolbwyntio ar greu Dulliau Gweithredu Safonol (SOPs) ar Safonau penodol, i ddarparu arweiniad manylach i staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth lawn. Mae SOPs wedi cael eu creu ar gyfer Safon 7 (datganiad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg), a Safonau 8, 9, 10 (Ateb y Ffôn). Mae fideo hyfforddi wedi'i greu hefyd er mwyn helpu staff ymhellach o ran cydymffurfio â Safonau 8, 9 a 10. Caiff rhagor o SOPs eu creu yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, gan ganolbwyntio ar unrhyw ddiffygion a nodwyd yn yr holiaduron hunanasesu.  Caiff yr holl SOPs eu cymeradwyo gan Fforwm Strategol y Gymraeg, a chânt eu cyhoeddi ar adran Iaith Gymraeg safle BetsiNet.

## Effaith datblygiadau gwasanaeth ar y Gymraeg

Yn dilyn atgyfnerthu dogfen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Offeryn Sgrinio Asesu Integredig ehangach y llynedd, daeth Grŵp Craffu at ei gilydd unwaith eto i edrych ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisïau a strategaethau allweddol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Tîm y Gymraeg wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol, er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu hymgorffori i unrhyw ddatblygiadau digidol newydd.

Mae cynrychiolydd o Dîm y Gymraeg yn aelod o grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis, ar gyfer pob un o'r tair IHC yn y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol. Mae'n gyfle i drafod unrhyw themâu sy'n deillio o gwynion ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle gwerthfawr i ddysgu ac i gyfrannu at ddatblygiadau amrywiol eraill ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae unrhyw gwynion neu sylwadau a dderbynnir drwy’r mecanweithiau adborth amrywiol yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd i wneud newidiadau cadarnhaol i arferion gwaith, ac i godi ymwybyddiaeth o effaith bositif darparu gofal i gleifion yn eu dewis iaith. Yn dilyn cwyn i'r Tîm Ymweliadau Iechyd yn ardal y Gorllewin (fel y manylir arno yn yr adran Cwynion ar ddiwedd yr adroddiad), gwnaed newidiadau cadarnhaol i'r gwasanaeth, gan gynnwys sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a drefnwyd fel rhan o'r cyfarfod tîm staff ehangach. Gwahoddwyd menter 'Cymraeg i Blant' i'r sesiwn hefyd, a rhoddwyd sgwrs addysgiadol ar eu gwaith, a sut mae'r gwaith yn cydblethu â rôl bwysig Ymwelwyr Iechyd o ran rhannu negeseuon am ddwyieithrwydd i gleifion.

Mae'r gydberthynas â Gofal Sylfaenol wedi parhau yn ystod y flwyddyn adrodd ac mae sesiynau ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth wedi cael eu cynnal gyda Thimau Contractio Gofal Sylfaenol ac mewn cyfarfodydd i Reolwyr Practis. Yn ddiweddarach, gwnaeth Tîm Contractio Gofal Sylfaenol y Dwyrain hysbysu'r holl Gontractwyr Gofal Sylfaenol ynghylch y chwe Dyletswydd Gofal Sylfaenol yn ymwneud â'r Gymraeg y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw. Bu effaith y gwaith hwn yn ffafriol, ac mae'r tîm yn rhoi rhagor o gymorth, adnoddau ac arweiniad yn uniongyrchol i ddarparwyr.

## Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Ym mis Ionawr 2023, cafodd pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a grewyd gan Dîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd, ei lansio'n genedlaethol ar ESR. Mae hyn yn rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Gorfodol y mae'n rhaid i'r holl staff ei chwblhau, gan ailadrodd hynny bob tair blynedd. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod 87.14 y cant o'r gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae hyn uwchlaw'r targed o 85 y cant ar gyfer unrhyw Hyfforddiant Gorfodol yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n gynnydd o bron i 20 y cant ers y llynedd. Mae Diwrnod Hyfforddiant Gorfodol wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddarparu'r hyfforddiant hwn wyneb yn wyneb ar gyfer y rhai sydd â sgôr cydymffurfio isel, neu'r rhai sydd â phroblemau mynediad.

Comp Matrix - Default

| Division | Compliant | Non-Compliant | Compliance % |
|---|---|---|---|
| Health Community Centre (HCCX) | 4330 | 789 | 84.59% |
| Health Community East (HCEX) | 4372 | 778 | 84.89% |
| Health Community West (HCWX) | 3706 | 430 | 89.60% |
| Integrated Clinical Delivery - Primary Care (ICDP) | 441 | 22 | 95.25% |
| Integrated Clinical Delivery - Regional Care (ICDR) | 1252 | 236 | 84.14% |
| Mental Health & LDS (MX00) | 1941 | 166 | 92.12% |
| Midwifery and Womens Services (WXXX) | 684 | 127 | 84.34% |
| Corporate Services | 1825 | 189 | 90.62% |
| **Total** | **18551** | **2737** | **87.14%** |

# Y "Cynnig Rhagweithiol" – Betsi ar ei Orau!

## Cyfraniad unigol at ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn Ysbytai Cymunedol

Trwy gyfuniad o arolygiadau 'siopwr cudd' ac ymweliadau safle, mae Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog BIPBC yn mesur safon ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg mewn ysbytai a meddygfeydd a reolir gan y Bwrdd Iechyd. Pan ailddechreuodd yr arolygiadau hyn yn dilyn pandemig COVID-19, daeth i'r amlwg bod safonau wedi llithro'n gyffredinol dros y ddwy flynedd diwethaf ac ar ôl hynny, gwnaeth aelodau Tîm Cymraeg BIPBC ddechrau cydweithio â rheolwyr a gweinyddwyr perthnasol ar draws gogledd Cymru yn ystod haf 2023, er mwyn canfod gwendidau ac i roi camau gweithredu perthnasol ar waith, er mwyn rhoi gwelliannau ar waith.

Un o'r rheolwyr a gytunodd i weithio'n agos gyda Thîm y Gymraeg yn hyn o beth oedd Maureen Roberts, Gweinyddwr Safle, sy'n gyfrifol am nifer o ysbytai cymunedol yn Ardal y Canol. Fel cam cyntaf, roedd y ffocws ar sicrhau bod arwyddion dwyieithog yn eu lle a bu Maureen yn arwain y broses o ddiweddaru a newid yr hysbysiadau hyn yn ysbytai cymunedol Bae Colwyn, Dinbych a Rhuthun ac Ysbyty Brenhinol Alexandra, yn Y Rhyl, fel eu bod yn cael eu harddangos yn ddwyieithog ac yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Yn dilyn y newidiadau cychwynnol hyn, mae Maureen wedi bod yn eithriadol o ragweithiol - ac mae hi wedi gweithio'n annibynnol oddi ar Dîm y Gymraeg - er mwyn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio ar y pedwar safle sy'n cael eu goruchwylio ganddi'n ymwybodol o'r gofynion mewn perthynas ag arddangos arwyddion a darparu gwasanaethau dwyieithog yn fwy cyffredinol.

Ar yr un pryd, mae hi hefyd wedi bod yn gweithio'n ddyfal - o'i phen a'i phastwn ei hun - i fonitro safon ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg ar y lleoliadau dan sylw, er mwyn sicrhau na fydd safonau'n llithro eto. Yn hyn o beth, mae Maureen wedi cadw mewn cysylltiad yn gyson â Thîm y Gymraeg a'r uned gyfieithu dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn sicrhau bod cymorth perthnasol ar gael i'r holl staff yn y pedwar ysbyty cymunedol, yn ôl yr angen a bod modd mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi o ran y Gymraeg yn gyflym ac yn effeithlon.

Yng ngoleuni gwaith diflino Maureen - a'i gallu a'i pharodrwydd i annog a chymell eraill - mae safon ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn ysbytai cymunedol Conwy a Sir Ddinbych wedi gwella i ragori ar lefelau cyn y pandemig. Mae'r gwelliant hwn wedi mynd y tu hwnt i arwyddion yn unig, gan fod ein harolygiadau 'siopwr cudd' diweddaraf yn dangos bod argaeledd a safon gwasanaethau derbynfa a theleffoni wedi cael eu datblygu'n eang ar safleoedd y Bwrdd Iechyd ym Mae Colwyn, Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Mae arweinid Maureen yn gyfrifol am hyn, yn ogystal â monitro arwyddion - mae hi hefyd wedi cydweithio ag aelodau eraill o staff, er mwyn rhoi gweithdrefnau penodol ar waith i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu ac i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Yn ddi-os, mae ei gwaith diflino - a'i brwdfrydedd heintus - wedi arwain at ddatblygiadau hynod bositif o ran y Gymraeg yn yr ysbytai y mae hi'n eu goruchwylio a chanlyniad hyn, yn y pen draw, yw gwella safon y gofal a roddir i'n cleifion.

Nid monitro ac annog gwellinnau o ran y Gymraeg yw unig ddyletswyddau Maureen, o bell ffordd, ac nid yw'n gallu siarad llawer o Gymraeg ei hun. Er hynny, mae ei hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf wedi profi bod holl staff y Bwrdd Iechyd yn gallu gwneud cyfraniad positif at ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog (waeth beth fo'u rolau a safon eu Cymraeg). Yn wir - fel y Maureen eisoes wedi'i ddangos - gall ymdrechion o'r fath arwain at newidiadau cadarnhaol a dwys yn gyffredinol, sy'n cael eu rhaeadru trwy ein gweithlu'n ddiweddarach.

# Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg

Mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg BIPBC wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall yn creu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i ddiwallu anghenion ein staff. Er bod y rhan fwyaf o'n haddysgu'n rhithiol, mae wedi bod yn galonogol cynnig rhywfaint o sesiynau wyneb yn wyneb ar draws gogledd Cymru gyda grwpiau staff amrywiol eleni.




Gan fod tiwtor newydd y Gymraeg wedi'i benodi ym mis Medi 2023, rydym wedi gallu cynnal ac ateb y galw ynghylch y nifer cynyddol o ddysgwyr y Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tiwtor Mewnol wedi cyflwyno'r canlynol:

- Cyrsiau safonol sydd ar agor i'r holl grwpiau staff ar lefelau amrywiol, o Lefel Mynediad hyd at Lefel Uwch
- Sesiynau teilwredig ar gyfer gwasanaethau penodol - er enghraifft, roedd staff yr Adran Anesthetig yn Ysbyty Gwynedd yn awyddus i ddatblygu sgiliau a gallu iaith Gymraeg y tîm, a gwnaethant ddarparu rhestr o eiriau ac ymadroddion cyffredin. Cyflwynwyd cwrs i'r tîm fel y byddent yn gallu trafod gweithredoedd anesthetig gyda chleifion.



- *Tystysgrif Sgiliau Iaith* - mae hwn *yn gymhwyster cydnabyddedig* ac achrededig gan *y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chyd-bwyllor Addysg Cymru* a ddatblygwyd i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif yn dangos eu sgiliau iaith Gymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ei nod hefyd yw gwella'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaeth.
- Learner of the Month / Dysgwr y Mis
- Tudalen Dysgwyr Facebook
- Enwebiadau a chymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd

## Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Fe wnaeth Tîm Hyfforddiant y Gymraeg BIPBC adnewyddu contract deuddeg mis â'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* mewn perthynas â chynllun *'Cymraeg Gwaith'* sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn fodd o barhau â chyfleoedd a chydweithio yn ogystal â chyflogi ein Swyddog Cymorth ein hunain.



Mae cwmpas y cytundeb yn cynnwys:

- Mynediad at gyrsiau ar-lein ar lefelau amrywiol
- Cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn
- Cwrs Dysgu Cymraeg 'Llwybr Carlam'
- Cinio Clebran
- Mecanweithiau i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn sesiynau anffurfiol

## Gwerthuso ac Effaith Cyrsiau

Caiff gwerthusiadau eu cynnal ar ddiwedd pob carfan, gan geisio adborth ar hygyrchedd cyrsiau, cynnwys, ymagwedd a dull cyflwyno. Datgelodd canfyddiadau o'r gwerthusiad fod 94 y cant o ddysgwyr yn 'hapus iawn' gyda'r ddarpariaeth ddysgu a bod 100 y cant o'r dysgwyr yn mwynhau dilyn y cyrsiau.

Datganodd 83 y cant o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd o ran eu Cymraeg, a'u bod yn fwy tebygol o ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg newydd gyda chleifion, cydweithwyr ac yn y gymuned. Mae hyn yn galonogol iawn gan fod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar unrhyw lefel yn dod â chysur i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.

Mae canran fawr o ddysgwyr sy'n cwblhau'r cyrsiau'n cofrestru â'r cwrs uwch nesaf er mwyn parhau â'u datblygiad. Mae hyn yn dangos boddhad ar y cwrs a'r ddarpariaeth, ac ymrwymiad staff i ddatblygu eu sgiliau.

## Dysgwr y Flwyddyn Award / Learner of the Year Award

Un o uchafbwyntiau'r Bwrdd Iechyd oedd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn, a chynhaliwyd y seremoni ar 7 Mawrth 2024.

Gwahoddwyd staff i enwebu eu cydweithwyr a oedd wedi gwneud argraff arnynt drwy ddysgu Cymraeg i safon uchel a defnyddio eu sgiliau newydd er mwyn darparu

gwasanaeth gwell ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith yng ngogledd Cymru.

Yn dilyn gwerthuso'r gystadleuaeth yn 2022, penderfynwyd y byddai'r enwebiadau'n cael eu rhannu'n nau gategori ar wahân:

- Categori Lefelau Mynediad / Sylfaen
- Lefelau Canolradd / Uwch

Roedd hyn yn fodd o sicrhau bod pob dysgwr ar bob lefel yn cael y cyfle i gael eu cynnwys yn y gystadleuaeth. Categori ychwanegol arall i'w groesawu oedd "Gwobr Dewis y Tiwtor", a gyflwynwyd er mwyn gwobrwyo dysgwr eithriadol sydd wedi gwneud argraff ar y tiwtoriaid am eu gwaith caled a'u hymroddiad i ddysgu Cymraeg trwy raglen hyfforddiant mewnol y Bwrdd Iechyd.

Cafwyd cyfanswm o 40 o enwebiadau, gyda'r tri beirniad, Teresa Owen, Arweinydd Gweithredol y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd, Helen Prosser, Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Manuela Niemetscheck, seicotherapydd celf ac enillydd Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC ar gyfer 2022, yn dewis a dethol yr ymgeiswyr i lunio rhestr fer o dri dysgwr ym mhob categori.

Ar y noson, gwnaeth 80 o westeion ymuno â ni dan arweiniad ein siaradwr gwadd, Aled Hughes, o Radio Cymru, a fu'n annerch y gynulleidfa mewn ffordd ysbrydolgar a chyffrous. Roedd y digwyddiad yn gyfle i atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, ac roedd nifer o stondinau ar gael gan gynnwys gwerthwyr llyfrau, Menter Iaith a Nant Gwrtheyrn.

Cafodd pob un o'r chwech ar y rhestr fer eu cyfweld a'u ffilmio cyn y seremoni a'r enillwyr oedd:

- Melanie Hayes – Lefel Mynediad / Sylfaen
- Leanne Parry – Lefel Canolradd / Uwch
- Ian Day – Gwobr Dewis y Tiwtor



Derbyniodd pob un o'r enwebeion a gyrhaeddodd y rhestr fer lawer o wobrau a roddwyd i ni drwy haelioni ein noddwyr.

Gwnaeth Radio Ysbyty Gwynedd ymuno â ni hefyd i ddarlledu'n fyw o'r digwyddiad. Gwnaeth Wynne Roberts a Sarah Wynne Griffiths gyfweld yr enillwyr a llawer un a fu'n bresennol ar gyfer eitem arbennig, gan gyhoeddi'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol y tu hwnt i dudalen y dysgwyr ar Facebook a BetsiNet.

## Cydnabyddiaeth Arbennig i'r Tîm Dysgu Cymraeg

Eleni, cynhaliodd y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* y digwyddiad 'Dathlu Dysgu Cymraeg' cyntaf. Nod y digwyddiad oedd cydnabod llwyddiannau'r sector, a'r dysgwyr yn benodol, ac i ddathlu a dangos y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni Strategaeth Llywodraeth Cymru sef 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: 2050'.




O blith cannoedd o gyflogwyr sy'n gysylltiedig â'r cynllun *Cymraeg Gwaith*, y Bwrdd Iechyd ddaeth i'r brig fel enillydd y wobr cydnabyddiaeth arbennig.

Enillwyd y wobr yn bennaf am ein cynlluniau strategol a'n technegau arloesol a blaengar i sicrhau cyfleoedd dysgu Cymraeg i'r gweithlu ac effaith hynny ar gleifion.

## Astudiaeth Achos Dysgwyr Cymraeg Betsi



*Rwy'n Seicolegydd Ymgynghorol Clinigol ac yn Bennaeth Seicoleg Plant yng Nghymuned Iechyd Integredig (IHC) y Gorllewin. Rwyf wedi gweithio i'r GIG yng ngogledd Cymru ers bron i 19 mlynedd, gan ddechrau fel Gweithiwr Cymorth Nyrsio ym Mryn y Neuadd cyn cwblhau fy hyfforddiant Doethurol gyda Phrifysgol Bangor. Yna, gweithiais yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu, CAMHS a Niwroddatblygiad Plant.*

*Cefais fy magu ar gyrion Llundain, ac ni wyddwn fawr am y lle prydferth hwn nes i mi gyfarfod â'm gŵr, sy'n dod o Dde Cymru, ym Mhrifysgol Llundain. Cefais gyfle i ddod i adnabod llawer o leoedd yn Ne Cymru, a byddwn yn ymweld â'i deulu yn y gogledd pan oeddwn yn gallu gwneud hynny. Syrthiais mewn cariad â gogledd Cymru ar unwaith. Roeddwn i'n*

*awyddus iawn i wybod sut i ynganu'r holl arwyddion dwyieithog a dysgu am ystyr yr enwau hynny.*

*Fe wnes i ddilyn cwrs Cymraeg gyda'r nos i ddechreuwyr (Wlpan) gyda Phrifysgol Bangor cyn symud ymlaen i gwrs canolradd (pellach). Ychydig flynyddoedd yn ôl, bues i'n ddigon ffodus i gael treulio wythnos yn Nant Gwrtheyrn gyda phobl ffantastig trwy'r cynllun "Cymraeg Gwaith". Roedd gallu ymdrwytho yn yr iaith yn help mawr. Rwyf mor ddiolchgar am y sylfaen hon mewn deall a siarad Cymraeg. Ers hynny, rwy'n ceisio defnyddio fy Nghymraeg yn gyson, gan ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg. Roedd hyn yn golygu rhoi'r teimladau lletchwith a'r rhwystredigaeth oedd gen i am nad oeddwn yn rhugl i'r naill ochr, a gwneud y penderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gen i. Daeth hyn yn rhwydd yn y gymuned o'r cychwyn cyntaf, ac o ganlyniad roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus i siarad Cymraeg yn y gwaith.*

*Rwyf wrth fy modd yn darllen straeon Cymraeg gyda fy mhlant. Rwy'n falch iawn o allu newid rhwng siarad Saesneg a Chymraeg gyda nhw, a'u helpu i feddwl am eu gwaith cartref, a hynny'n aml yn Gymraeg. Rwy'n ddiolchgar iawn i fy nghydweithwyr Cymraeg eu hiaith sydd wedi fy nghefnogi a'm hannog dros y blynyddoedd. Diolch iddynt am roi'r cyfle i mi siarad â nhw, yn araf bach, heb droi'n ôl at Saesneg. Mae'n fraint gallu siarad yn naturiol gyda fy mhlant, pobl yn y gymuned, fy nghydweithwyr a phobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Plant, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn unol â'u gofynion a'u dewis iaith. Mae hyn wedi agor y drws i fywydau, safbwyntiau a syniadau pobl eraill na fyddwn efallai wedi eu profi fel arall.*

*Rhai o'm hoff eiriau Cymraeg yw "bendigedig", "terfysg" a "pendramwnwgl"!*

*Byddwn yn annog pawb i ddysgu Cymraeg ac i ymfalchïo yn y Gymraeg sydd ganddynt.*

## Y Gwasanaeth Cyfieithu

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn darparu cymorth cyfieithu ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i staff a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Tîm yn parhau i ddarparu cymorth i bob adran ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd ac mae wedi gweld cynnydd yn y galw am ei wasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae'r galw am wasanaethau cyfieithu wedi parhau i dyfu. Ystyrir hyn yn ganlyniad cadarnhaol gan ei fod yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'i ofynion statudol.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio'r dull o asesu dogfennau i'w cyfieithu yn unol â Safon 37. Y dull hwn a ddefnyddir wrth asesu papurau'r Bwrdd, gyda nifer cynyddol o bapurau bellach ar gael yn ddwyieithog.

Ymhlith y ceisiadau brys am gyfieithiadau mae datganiadau i'r wasg, llythyrau cleifion, taflenni gwybodaeth a gwybodaeth iechyd cyhoeddus ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae gwasanaeth y tu allan i oriau hefyd ar gael ar gyfer cyfathrebu brys. Mae hyn yn fodd o sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei chyhoeddi mewn modd amserol.


Cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn adrodd oedd 3,721,696, o gymharu â 2,912,344 yn ystod 2022-2023. Mae hyn yn gynnydd o 28% yn 2023-2024.

Mae'r graff isod yn dangos y defnydd fesul maes gwasanaeth. Daw'r galw mwyaf gan wasanaethau'r Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, yn bennaf ar ffurf ceisiadau am ddisgrifiadau swyddi, yn unol â Safon 107 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob disgrifiad swydd fod ar gael yn ddwyieithog.

**Galw am y gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr 2023**




**Galw am y gwasanaeth rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024**



Mae'r galw am gyfieithu ar y pryd hefyd wedi cynyddu, gyda'r tîm yn cefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau, fforymau, cyfarfodydd a chynadleddau rhanddeiliaid. Mae cefnogaeth hefyd wedi'i darparu mewn cyfweliadau i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu cyfweliad yn Gymraeg.

Ymrwymodd y Gwasanaeth Cyfieithu i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Chwefror 2024, gan gefnogi'r sefydliad i gyfieithu llawer o'u dogfennau a'u gohebiaeth gyhoeddus.

Mae cymorth cyfieithu yn parhau i gael ei ddarparu i'r sector gofal sylfaenol, yn bractisau meddygon teulu a reolir yn breifat, a chontractwyr annibynnol.

Mae gan y Gwasanaeth Borth Cyfieithu ar-lein y gall defnyddwyr gael mynediad ato dros BetsiNet. Mae hyn yn gwella hygyrchedd a'i gwneud yn rhwydd i ddefnyddwyr uwchlwytho eu ceisiadau cyfieithu. Mae'r Tîm wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Wybodeg i archwilio gwelliannau posibl i swyddogaeth ddadansoddeg bresennol y Porth. Diben y gwaith yw cael data ystadegol manylach ynghylch y defnydd o'n gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu categorïau gwaith lle mae'r tîm yn gallu cofnodi natur y cais dan sylw (datganiadau i'r wasg, disgrifiadau swydd, taflenni gwybodaeth ac ati) i nodi'r meysydd sydd â'r angen mwyaf a'n galluogi i flaenoriaethu ceisiadau yn unol â hynny. Mae'r tîm wedi treialu'r system hon ac yn gweithio gyda'r Tîm Gwybodeg i'w rhoi ar waith ar ôl ei hadolygu.

Mae'r Tîm yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu yn eu gwaith dyddiol lle mae testun sy'n cael ei fwydo i'r system yn cael ei ddal a'i gofnodi mewn banciau terminoleg canolog. Mae hyn yn fodd o hybu perfformiad ac effeithlonrwydd, gan arwain at amseroedd gweithredu gwell tra'n sicrhau cysondeb yn y cyfieithiadau. Mae'r Tîm wedi bod yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfieithu â chymorth peirianyddol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y maes, fel modd o wella effeithlonrwydd gwasanaethau ac amseroedd gweithredu. Mae'r tîm wrthi'n archwilio cyfleoedd hyfforddi yn hyn o beth ac yn bwriadu rhoi fersiwn peilot o'r feddalwedd hon ar waith gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod terminoleg ac mae'r Tîm bellach yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau datblygiad rhestrau termau cynhwysfawr. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn briodol i'r gynulleidfa darged ac yn gyson â'r hyn a ddefnyddir gan eraill o fewn y maes gofal iechyd.

## Manteision sgiliau dwyieithog ar gyfer gweithlu'r dyfodol

Mae ein dull gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at gyflawniadau a llwyddiannau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Tîm wedi cefnogi nifer o ffeiriau swyddi a digwyddiadau gyrfaoedd. Mae buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol yn hollbwysig os ydym am feithrin talent ddwyieithog leol, gan gynyddu ein gallu fel sefydliad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ar yr un pryd. Ers nifer o flynyddoedd, mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn rhagweithiol o fewn y maes hwn, ac mae'r weledigaeth hon bellach wedi'i rhannu o fewn amcanion y cynllun Pum Mlynedd, *Mwy na Geiriau*.



### Sioe Deithiol Ysgolion Cymraeg yn arwain at wobr genedlaethol

Enwyd Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn *Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle* yng *Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru* eleni.

Cyflwynwyd y gwobrau cenedlaethol mewn seremoni yn Senedd Cymru ym mis Tachwedd 2023. Roedd yn gyfle i ddathlu ymdrechion cyflogwyr o bob rhan o'r wlad, sy'n gweithio mewn partneriaeth â *Gyrfa Cymru* i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer y byd gwaith.




Enwebwyd Tîm y Gymraeg am y gwaith y mae ei aelodau wedi'i wneud i ysbrydoli a chymell pobl ifanc i wneud y gorau o'u sgiliau dwyieithog, tra'n eu hysbysu am gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector iechyd yng ngogledd Cymru.

Ar ôl i'r tîm gyfrannu at nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyrfa Cymru mewn amrywiol ysgolion ar draws y gogledd yn gynharach eleni, arweiniodd cydweithio pellach at drefnu taith fawr o amgylch ysgolion uwchradd. Trefnwyd hyn i gyd-fynd ag Wythnos y Gymraeg y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2023.

Dros gyfnod o ddeg diwrnod, cynhaliwyd mwy nag ugain sesiwn mewn tair ar ddeg o ysgolion uwchradd (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ar draws gogledd Cymru.

Prif ddiben y digwyddiadau hyn oedd dysgu disgyblion am bwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth gofal iechyd yn Gymraeg a manteision dwyieithrwydd fel sgil cyflogadwyedd, yn fwy cyffredinol.

Ochr yn ochr â chyflwyniad gan aelod o Dîm y Gymraeg, roedd pob un o'r sesiynau a gynhaliwyd fel rhan o'r daith ddiweddar hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau o'r Tîm Iechyd Cyhoeddus a chyflwyniadau byr gan staff clinigol (gan gynnwys ffisiotherapyddion, deintydd a myfyriwr meddygol), a drafododd eu profiadau personol eu hunain o weithio'n ddwyieithog o fewn y Bwrdd Iechyd.

## Gweithio'n Ddwyieithog o fewn y Sector Iechyd: Arweinlyfr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Bobl Ifanc

Mewn partneriaeth ag aelodau o'r Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn y Bwrdd Iechyd a phartneriaid o Ysgol Feddygol Gogledd Cymru newydd Prifysgol Bangor, mae Tîm y Gymraeg wedi creu llyfryn newydd, sy'n rhoi gwybodaeth i ddisgyblion ysgol a phobl ifanc am y nifer cynyddol o gyfleoedd sydd ar gael i weithio'n ddwyieithog o fewn y sector iechyd.

Prif ddiben yr adnodd newydd yw rhoi gwybod i bobl ifanc am y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael o fewn y Bwrdd Iechyd ac am fanteision sgiliau dwyieithog i unigolion sy'n ystyried gyrfaoedd o fewn y sector iechyd yng Nghymru.

Mae'r llyfryn newydd yn cynnwys astudiaethau achos dau aelod ifanc o staff sy'n gweithio'n ddwyieithog yng ngogledd Cymru, yn ogystal â phrofiadau cadarnhaol y mae ein cleifion a'u teuluoedd wedi'u cael o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Bwrdd Iechyd.

Cynhaliwyd digwyddiad i lansio'r llyfryn yn swyddogol yn Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn ar 20 Mawrth. Rhoddwyd cyflwyniadau cryno ar bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd. Rhoddwyd cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 10 drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda chynrychiolwyr o nifer o bartneriaid allweddol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys *Gyrfa Cymru*, *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, *Ysgol Feddygol Gogledd Cymru* a *Phrifysgol Wrecsam.*

Mae'r llyfryn bellach wedi'i rannu â holl ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach gogledd Cymru.

## Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam

Cydweithiodd y Bwrdd Iechyd â *Phrifysgol Wrecsam* i gynnal Diwrnod Addysg Rhyngbroffesiynol ar "Gofal ac Iaith Law yn Llaw". Trefnwyd y digwyddiad hwn gan y Brifysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sector Gofal Iechyd. Mynychodd myfyrwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn o amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Nyrsio Oedolion a Phlant a Gwyddorau Parafeddygol y Diwrnod Addysg.

Croesawyd siaradwyr gwadd yn ystod y bore gan gynnwys rhai o Dîm y Gymraeg, Cydlynydd Rhaglen “Ffrindiau” CAMHS, Ffisiotherapydd o Ysbyty Cyffredinol Llandudno a Chyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. Trafodwyd straeon yn ymwneud â chleifion, gan ddangos sut mae’r “Cynnig Rhagweithiol” yn chwarae rhan allweddol yn llwybrau gofal cleifion.

Yn ystod y prynhawn, mynychodd myfyrwyr wersi blasu Cymraeg ar bob lefel a ddarparwyd gan aelodau o Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd panel trafod i roi cyfle i fyfyrwyr ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw feysydd o ddiddordeb.

Roedd yr adborth ar gyfer y digwyddiad yn wych, gyda nifer o fyfyrwyr yn tystio bod ganddynt well dealltwriaeth o pam fod iaith yn bwysig i gleifion. Gobeithiwn gynnal y berthynas rhyngom ni a Phrifysgol Wrecsam drwy gymryd rhan mewn diwrnodau rhyngbroffesiynol tebyg yn y dyfodol.

---

## Dathlu ein Diwylliant

Mae'r Bwrdd Iechyd yn achub ar bob cyfle a ddarperir gan ddiwrnodau dathlu cenedlaethol i amlygu diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad. Eleni fe wnaethom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ein holl safleoedd acíwt, ac i nodi Diwrnod Santes Dwynwen, rhoddwyd cyfle i staff ddweud pam eu bod yn caru gweithio i’r GIG.

### Wythnos y Gymraeg

Fodd bynnag, mae’r Bwrdd Iechyd yn mynd gam ymhellach drwy gynnal Wythnos y Gymraeg bob blwyddyn. Cynhaliwyd wythnos eleni rhwng 16 a 20 Hydref. Trefnwyd amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i hyrwyddo pwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd dwyieithog a dathlu’r gwaith gwych sy’n parhau i gael ei wneud gan ein staff, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’r Bwrdd Iechyd yn gallu cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.




Roedd digwyddiadau’r wythnos yn cynnwys:

- Lansio cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn BIPBC 2024
- Stondinau ymgysylltu â staff Tîm y Gymraeg BIPBC ar y tri safle acíwt, (yn cynnwys Glan Clwyd ar y dydd Gwener), yn cynnig cyngor ac adnoddau i staff

- Sioe Deithiol Ysgolion Gogledd Cymru (mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)
- Sesiynau Stori gan Cymraeg i Blant
- Ymweliadau Wardiau Plant gan DEWIN o'r Mudiad Meithrin
- Cyfweliadau ar Radio Ysbyty Gwynedd

## Yr Eisteddfod Genedlaethol

Arweiniwyd presenoldeb y Bwrdd Iechyd yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan eleni gan y Tîm Ymgysylltu. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth a chyngor iechyd, trwy weithio gyda phartneriaid a chydweithwyr amrywiol. Roedd hefyd yn gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd, a chynhaliwyd arolygon i gael cipolwg ar argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws gogledd Cymru.

Roedd y Tîm Dysgu Cymraeg wedi enwebu rhai o'n dysgwyr ar gyfer teitl Dysgwr y Flwyddyn a phleser o'r mwyaf oedd gweld Manuela Niemetscheck, Seicolegydd Celf ymhlith y pedwar enwebai buddugol, ynghyd ag Alison Roberts, Cynorthwyydd Gofal Iechyd, a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth hon. Roedd llawer o'n dysgwyr yn awyddus iawn i ddod i gefnogi eu cydweithwyr felly trefnwyd Trip Dysgwyr Betsi i'r seremoni.




Gwahoddwyd Tîm y Gymraeg i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau eraill, gan gynnwys panel gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn trafod sut yr arweiniodd cynllunio strategol at ddull arloesol o ddarparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cymerodd y Tîm ran mewn digwyddiad dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar *Mwy na Geiriau* a sut yr oeddem wedi gweithredu rhaglen hyfforddi i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r data a gynhwysir isod yn unol â Safon 120 o Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Cynllunio'r Gweithlu

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:***
  - ***y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu;***

| Nifer y Gweithwyr | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Hyfedredd Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 – No Skills / Dim Sgiliau | 8324 | 41.7% | 9101 | 46.9% | 9645 | 46.25% |
| 1 – Entry/ Mynediad | 2652 | 13.3% | 2914 | 15% | 2781 | 13.34% |
| 2 – Foundation / Sylfaen | 1298 | 6.5% | 1410 | 7.3% | 1371 | 6.57% |
| 3 – Intermediate / Canolradd | 1307 | 6.6% | 1456 | 7.5% | 1438 | 6.9% |
| 4 – Higher / Uwch | 1596 | 8% | 1700 | 8.7% | 1588 | 7.62% |
| 5 – Proficiency / Hyfedredd | 2573 | 12.0% | 2829 | 14.6% | 2743 | 13.15% |
| Cyfanswm | 17,750 | 89% | 19,410 | 91% | 19,566 | 93.8% |
| Cyfanswm staff | 19,955 | | 21,326 | | 20,852 | |

**Data 2023 / 2024:**

**Roedd 93.8 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

**Data 2022 / 2023**

**Roedd 91 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

## Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith yn y Gymraeg

- ***Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i lefel cymhwyster penodol***

**Data 2023 / 2024:**

**Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 771***

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 3.6 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd Iechyd**

***Sylwer bod y ffigur hwn yn ychwanegol at nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, fel y nodir isod.***

**Data 2022 / 2023:**

**Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol 1201 ***

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 5.6 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd Iechyd**

***Sylwer bod y ffigur hwn yn ychwanegol at nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, fel y nodir isod.***

## Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad bod:***

**Data 2023 / 2024:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 298 (5.5 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 5048 (93 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 66 (1.2 y cant)**
- **Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - 14 (0.2 y cant)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 5426**

**Data 2022 / 2023:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - - 474 (5.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 8177 (93.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - - 80 (0.9 y cant)**
- **Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - - 16 (0.18 per cent)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 8747**

## Cwynion

- ***Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithredu Safonau'r Gymraeg***

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd chwe chŵyn newydd yn ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd - tair drwy Gomisiynydd y Gymraeg, a thair wedi'u derbyn yn uniongyrchol gan Dîm y Gymraeg neu drwy'r Tîm Cwynion.

Ymdriniwyd yn llawn â phob cwyn yn unol ag amserlen cwynion Mesur y Gymraeg neu o dan Reoliadau Gweithio i Wella.

Cafodd un gŵyn ei huwchgyfeirio at statws ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac roedd yn ymwneud ag ymholiad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yr ymdriniwyd ag ef yn Saesneg yn unig. Ar ôl darparu tystiolaeth a chamau i ddatrys y mater, daeth yr ymchwiliad i ben.

Deliwyd â'r ddwy gŵyn arall drwy Gomisiynydd y Gymraeg yn llawn ar ôl y llythyr cychwynnol, ac ni chawsant eu huwchgyfeirio at statws ymchwiliad. Roedd un gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth uniaith Saesneg yn un o dderbynfeydd y Bwrdd Iechyd. Roedd yr ail yn ymwneud ag arwyddion uniaith Saesneg a gwasanaeth derbynfa mewn Adran arall.

Roedd y cyntaf o'r cwynion a anfonwyd yn uniongyrchol at y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â gwallau ar wefan y Bwrdd Iechyd. Roedd dolenni anghywir yn ogystal â sillafu anghywir a thudalen 'Staff Zone' nad oedd yn cael ei harddangos ar y dudalen Gymraeg. Cywirwyd y gwallau hyn ar unwaith.

Cwyn arall oedd gan aelod o'r cyhoedd a rannodd ei phrofiad o dderbyn gwasanaeth uniaith Saesneg gan y tîm Ymwelwyr Iechyd yn y Gorllewin. Arweiniodd hyn at drafodaethau cadarnhaol gyda'r Gwasanaeth a aeth ymlaen i wneud newidiadau i'r ffordd y maent yn dynodi iaith gyntaf cleifion yn ystod y cyswllt cyntaf. Trefnwyd sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer eu staff hefyd.

Roedd y gŵyn ddiwethaf yn ymwneud â gwallau a wnaed o fewn y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd lle nad oedd y targedau a osodwyd ar gyfer claf yn cyfateb i'r hyn a drafodwyd a'r targedau yn amrywio rhwng y fersiynau Cymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal, roedd y gwasanaeth a gafodd y teulu yn gyffredinol yn Saesneg yn bennaf. Roedd y gwasanaeth yn gallu datrys y materion a godwyd gan arwain at ganlyniad cadarnhaol.

Caewyd pum ymchwiliad arall o'r flwyddyn adrodd flaenorol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

## Edrych yn ôl a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod cynnydd wedi'i roi ar waith o ran:

- gwella ansawdd y gofal a ddarparwn drwy gyfrwng y dewis iaith
- gwella cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol
- canfod mentrau sydd wedi cael eu rhoi ar waith a'u cyflwyno er mwyn ymateb i angen iaith fel elfen annatod o ofal
- gwella datblygu sefydliadol o ran sut gallwn gefnogi'r gweithlu o ran gallu cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych ymlaen at weld y mentrau a'r cyfleoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf yn dwyn ffrwyth. Mae mwy o

raglenni 'ar y safle' wedi'u cynnwys yn ein cynllun gwaith blynyddol, yn ogystal â thrafod ymestyn ein cymorth i gydweithwyr gofal sylfaenol. Mae ein prif amcanion yn cyd-fynd â'n gweledigaeth i groesawu diwylliant ein sefydliad yn llawn, a gwella ein gallu i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog.

# Cyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Mwy na geiriau 2022-27: Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 hyd at Fawrth 2024

## Camau Gweithredu yn y Tymor Byr (erbyn 2023) a'r Tymor Canolig (erbyn 2025)

| **Sefydliad GIG** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** |
|---|---|

| **Cwblhawyd gan:** | **Eleri Hughes-Jones** | **Dyddiad: Mehefin 2024** |
|---|---|---|

| **Cyf.** | **Disgrifiad o'r Camau Gweithredu yn y Tymor Byr a'r Tymor Canolig** | **Prif Atebolrwydd** | **Adroddiad Cynnydd ar gyfer 2023/24 (cyfnod adrodd 1/4/23 – 31/3/24)** | **Blaenoriaethau 2024/25** | **Enghreifftiau o arfer gorau/ gwaith a wneir mewn partneriaeth.** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diwylliant ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 1 | Byddwn yn pennu amcanion perfformiad personol i sicrhau bod modd cyflawni Mwy na geiriau fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymgorffori i amcanion blynyddol arweinwyr sector, eu rhaeadru trwy sefydliadau a'u bod yn cael eu hystyried yn yr holl arfarniadau unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cadeiryddion byrddau'r GIG a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adrodd | Yr holl gyrff iechyd a gofal cymdeithasol<br><br>Llywodraeth Cymru i arwain ar amcanion ar gyfer Cadeiryddion. | Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol y Gymraeg yn amlinellu gofynion ar bob lefel yn y sefydliad.<br><br>Y Gymraeg wedi'i chynnwys yn Adolygiad Datblygu ac Arfarnu Perfformiad (PADR) staff - yn berthnasol i'r holl staff. | Gweithred wedi'i dyrannu i arweinwyr gwasanaeth trwy ddulliau monitro Safonau'r Gymraeg. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Blynyddol Cynghorau).<br>*(Tymor Byr)* | | | | |
| 2. | Dros amser, rydym yn disgwyl i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol ddeall y gwahaniaeth positif y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r profiad gofal. Yn y cyfamser, byddwn yn ategu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith gyda dull cyfathrebu ar sail gwyddor ymddygiad fel bod popeth rydym yn ei ddweud am y Gymraeg fel arweinwyr, a sefydliadau a phartneriaethau'n cyfrannu at y strategaeth hon. Bydd y dull hwn yn adeiladu ar yr hyfforddiant a'r naratif positif a amlinellir yn y cynllun.<br>(*Y tymor byr i'r tymor canolig*) | Llywodraeth Cymru/<br>AaGIC / GCC | Ddim yn berthnasol ar gyfer Byrddau Iechyd.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith i hysbysu'r darpar weithlu ynghylch manteision sgiliau Cymraeg wrth ddechrau gweithio yn y sector iechyd.<br><br>Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ymwybyddiaeth wedi cael ei chodi ymysg y darpar weithlu ynghylch pwysigrwydd rhoi gofal mewn iaith briodol i gleifion.<br><br>Mae ein dull gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at gyflawniadau a llwyddiannau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Tîm wedi cefnogi nifer o ffeiriau swyddi a digwyddiadau gyrfaoedd.  Mae buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol yn hollbwysig os ydym am feithrin talent ddwyieithog leol, gan gynyddu ein gallu fel sefydliad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ar yr un pryd. Ers nifer o flynyddoedd, mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn rhagweithiol o fewn y maes hwn, ac mae'r weledigaeth hon bellach wedi'i rhannu o fewn amcanion y cynllun Pum Mlynedd, *Mwy na geiriau*.<br><br>**Sioe Deithiol Ysgolion Cymraeg yn arwain at wobr genedlaethol**<br>Enwyd Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd yn *Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle* yng *Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru* eleni.<br><br>Cyflwynwyd y gwobrau cenedlaethol mewn seremoni yn Senedd Cymru ym mis Tachwedd 2023. Roedd yn gyfle i ddathlu ymdrechion cyflogwyr o bob rhan o'r wlad, sy'n gweithio | Gweithio gydag Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ar raglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth fel rhan o'r cwricwlwm addysgu. Gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr.<br><br>Gwaith gyda Gyrfa Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnig diwrnod profiad ar hyfforddiant mewn ysgol uwchradd, gan ganolbwyntio ar sgiliau Cymraeg yn y gweithle,  a chanlyniadau positif go iawn yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mewn partneriaeth â *Gyrfa Cymru* i helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer y byd gwaith.<br><br>Enwebwyd Tîm y Gymraeg am y gwaith y mae ei aelodau wedi'i wneud i ysbrydoli a chymell pobl ifanc i wneud y gorau o'u sgiliau dwyieithog, tra'n eu hysbysu am gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector iechyd yng Ngogledd Cymru.<br><br>Ar ôl i'r tîm gyfrannu at nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyrfa Cymru mewn amrywiol ysgolion ar draws y gogledd yn gynharach eleni, arweiniodd cydweithio pellach at drefnu taith fawr o amgylch ysgolion uwchradd. Trefnwyd hyn i gyd-fynd ag Wythnos y Gymraeg y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2023.<br><br>Dros gyfnod o ddeg diwrnod, cynhaliwyd mwy nag ugain sesiwn mewn tair ar ddeg o ysgolion uwchradd (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Prif ddiben y digwyddiadau hyn oedd dysgu disgyblion am bwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth gofal iechyd yn Gymraeg a manteision dwyieithrwydd fel sgil cyflogadwyedd, yn fwy cyffredinol.<br><br>Ochr yn ochr â chyflwyniad gan aelod o Dîm y Gymraeg, roedd pob un o'r sesiynau a gynhaliwyd fel rhan o'r daith ddiweddar hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau o'r Tîm Iechyd Cyhoeddus a chyflwyniadau byr gan staff clinigol (gan gynnwys ffisiotherapyddion, deintydd a myfyriwr meddygol), a drafododd eu profiadau personol eu hunain o weithio'n ddwyieithog o fewn y Bwrdd Iechyd. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ***Gweithio'n Ddwyieithog yn y Sector Iechyd - Llawlyfr BIPBC ar gyfer Pobl Ifanc***<br>Mewn partneriaeth ag aelodau o'r Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn y Bwrdd Iechyd a phartneriaid o Ysgol Feddygol Gogledd Cymru newydd Prifysgol Bangor, mae Tîm y Gymraeg wedi creu llyfryn newydd, sy'n rhoi gwybodaeth i ddisgyblion ysgol a phobl ifanc am y nifer cynyddol o gyfleoedd sydd ar gael i weithio'n ddwyieithog o fewn y sector iechyd.<br><br>Prif ddiben yr adnodd newydd yw rhoi gwybod i bobl ifanc am y gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael o fewn y Bwrdd Iechyd ac am fanteision sgiliau dwyieithog i unigolion sy'n ystyried gyrfaoedd o fewn y sector iechyd yng Nghymru.<br><br>Mae'r llyfryn newydd yn cynnwys astudiaethau achos dau aelod ifanc o staff sy'n gweithio'n ddwyieithog yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â phrofiadau cadarnhaol y mae ein cleifion a'u teuluoedd wedi'u cael o ganlyniad uniongyrchol i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan y Bwrdd Iechyd.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad i lansio'r llyfryn yn swyddogol yn Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn ar 20 Mawrth. Rhoddwyd cyflwyniadau cryno ar bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd. Rhoddwyd cyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 10 drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda chynrychiolwyr o nifer o bartneriaid allweddol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys *Gyrfa Cymru*, *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, *Ysgol Feddygol Gogledd Cymru* a *Phrifysgol Wrecsam.* | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r llyfryn bellach wedi'i rannu â holl ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach gogledd Cymru.<br><br>**Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam**<br>Cydweithiodd y Bwrdd Iechyd â *Phrifysgol Wrecsam* i gynnal Diwrnod Addysg Rhyngbroffesiynol ar "Gofal ac Iaith Law yn Llaw". Trefnwyd y digwyddiad hwn gan y Brifysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd o fewn y sector Gofal Iechyd. Mynychodd myfyrwyr blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn o amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Therapi Galwedigaethol, Nyrsio Oedolion a Phlant a Gwyddorau Parafeddygol y Diwrnod Addysg.<br><br>Croesawyd siaradwyr gwadd yn ystod y bore gan gynnwys rhai o Dîm y Gymraeg, Cydlynydd Rhaglen "Ffrindiau" CAMHS, Ffisiotherapydd o Ysbyty Cyffredinol Llandudno a Chyfarwyddwr Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. Trafodwyd straeon yn ymwneud â chleifion, gan ddangos sut mae'r "Cynnig Rhagweithiol" yn chwarae rhan allweddol yn llwybrau gofal cleifion.<br><br>Yn ystod y prynhawn, mynychodd myfyrwyr wersi blasu Cymraeg ar bob lefel a ddarparwyd gan aelodau o Dîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd panel trafod i roi cyfle i fyfyrwyr ofyn cwestiynau a thrafod unrhyw feysydd o ddiddordeb.<br><br>Roedd yr adborth ar gyfer y digwyddiad yn wych, gyda nifer o fyfyrwyr yn tystio bod ganddynt well dealltwriaeth o pam fod iaith yn bwysig i gleifion. Gobeithiwn gynnal y berthynas rhyngom ni a Phrifysgol Wrecsam | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | drwy gymryd rhan mewn diwrnodau rhyngbroffesiynol tebyg yn y dyfodol. | | |
| 3 | Byddwn yn disgwyl i'r rhai sy'n cyflawni rolau arwain i gymryd rhan yn ein rhaglen Arwain Gwlad Ddwyieithog. Mae'r rhaglen hon yn gweithio i ymgorffori ysbryd Cymraeg 2050 i ddiwylliant sefydliadol a llunio polisi. Yn rhy aml, ystyrir mai mater o gyfieithu neu fel 'blwch i'w dicio' wrth ddatblygu polisi yw'r Gymraeg yn unig. Mae'r rhaglen ar sail gwerthoedd hon yn mynd y tu hwnt i ddeall effaith bosibl iaith ar bob agwedd ar ein gwaith i ddefnyddio'r dulliau sydd gennym i gynyddu defnydd ohoni. *(Y tymor canolig)* | Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Roedd y cwrs cychwynnol yn llawn. Yn aros am gadarnhad ynghylch cwrs ychwanegol yn 2024 / 2025. | | |
| **Thema 1: Cynllunio a pholisïau Cymraeg yn cynnwys data** | | | | | |
| 8 | Caiff fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer casglu a choladu data ar sgiliau iaith yr holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ei ddatblygu a'i weithredu. Dylai hyn fod yn orfodol lle bo'n | AaGIC/GCC DHCW/ cyrff iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys contractwyr gofal sylfaenol annibynnol | Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i annog staff i gwblhau neu i ddiweddaru eu sgiliau iaith ar ESR. Yn ystod 2023-2024, ymgymerodd Tîm y Gymraeg ag ymgyrch ar-lein i roi gwybod i staff am y gofyniad i gwblhau hyn, a datblygodd ganllawiau i gynorthwyo staff.<br><br>Caiff yr holl staff sy'n cwblhau hyfforddiant y Gymraeg eu hatgoffa i ddiweddaru eu sgiliau ar | Caiff dadansoddiad ei roi i bob Cymuned Iechyd Integredig (IHC) a gwasanaethau Gogledd Cymru gyfan fel rhan o gylch monitro Safonau'r Gymraeg. Bydd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â bylchau yn y data ar lefel leol. | O 31 Mawrth, 2024, roedd canran y staff a oedd wedi cofnodi eu sgiliau iaith ar ESR ar 93.8 y cant. Mae hyn ymhell uwchlaw'r targed o 85 y cant. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | bosibl a byddai angen iddo alinio â systemau a dulliau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer casglu a choladu data ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg *(Y tymor canolig)* | | ESR, boed hynny ar-lein neu ar ffurf cyrsiau wyneb yn wyneb. | | Mae hefyd yn gynnydd o 2.8% o gymharu â 2022-2023. |
| 9 | Caiff adroddiad blynyddol ei baratoi gan y corff priodol er mwyn dod â'r data at ei gilydd yn ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r adroddiad hwn gael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Ystadegau Cymru. Dylai'r adroddiad cyhoeddedig fod ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys rhagor o fanylion gronynnog fel bo'n briodol i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am y gweithlu mewn cyd-destunau gwahanol e.e. AaGIC, GCC, Byrddau Iechyd (*Y tymor byr i'r tymor canolig*) | AaGIC/GCC, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Gweler uchod. | | |
| 10 | Bod cam gweithredu 30 y 'Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol' - datblygu arweiniad cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu | AaGIC/Gofal Cymdeithasol Cymru | **Cynllunio'r Gweithlu**<br>Mae Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae prif feysydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Bod ceisiadau am hyfforddiant Cymraeg yn cael yr un ystyriaeth â'r holl geisiadau eraill am hyfforddiant | Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Sgiliau Dwyieithog yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd er mwyn atgyfnerthu swyddi lle bo'r Gymraeg yn Hanfodol, yn ogystal â chynnig arweiniad ar ddefnyddio llwyfannau | Cafodd 298 o swyddi (5.5 y cant) eu hysbysebu lle'r oedd y gallu i siarad Cymraeg yn un o'r meini prawf hanfodol.<br><br>Mae 771 o aelodau o staff wedi manteisio ar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | iechyd a gofal cymdeithasol - yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Dylai'r arweiniad hwn ystyried y nifer gofynnol o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg a natur y sgiliau hynny mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol ac yn y meysydd angen blaenoriaeth a nodir. Caiff yr arweiniad ei ddefnyddio fel rhan o brosesau blynyddol cynllunio'r gweithlu gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr eraill fel bo'n briodol. Yn ogystal, dylai'r arweiniad fod yn sail i waith y rheoleiddwyr ac arolygiaethau perthnasol fel bo'n briodol (*Y tymor byr*) | | ym Mholisi Seibiant Astudio'r Bwrdd Iechyd<br>• Bod yn rhaid i holl swyddi'r rheng flaen gael eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg fel un o'r meini prawf hanfodol<br>• Ar ôl tri ymgais aflwyddiannus i recriwtio, os nad yw ymgeisydd Cymraeg ei iaith ar gael ar gyfer y rôl, caiff y swydd ei ail-hysbysebu fel rôl lle bo'r Gymraeg yn ddymunol ar yr amod y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg hyd at Lefel 1 o fewn blwyddyn o gael ei benodi. Mae gan Dîm Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd raglen ar waith i gefnogi hyn<br>• Defnyddio siart llif i bennu p'un a ddylai'r holl swyddi eraill gael eu hysbysebu fel rhai lle bo'r Gymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol gyda fformiwla wedi'i seilio ar y cymysgedd sgiliau presennol yn y tîm ac anghenion y boblogaeth<br>• Cyfleoedd hyfforddiant wedi'u cynnwys yn yr amcanion PADR<br><br>**Datblygu'r Gweithlu - Hyfforddiant y Gymraeg**<br>Mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg BIPBC wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall yn creu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i ddiwallu anghenion ein staff. Er bod y rhan fwyaf o'n haddysgu'n rhithiol, mae wedi bod yn galonogol cynnig rhywfaint o sesiynau wyneb yn wyneb ar draws gogledd Cymru gyda grwpiau staff amrywiol eleni.<br><br>Gan fod tiwtor newydd y Gymraeg wedi'i benodi ym mis Medi 2023, rydym wedi gallu | hysbysebu trwy gyfrwng y Gymraeg. | hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2023/2024. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynnal ac ateb y galw ynghylch y nifer cynyddol o ddysgwyr y Gymraeg.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tiwtor Mewnol wedi cyflwyno'r canlynol:<br>• Cyrsiau safonol sydd ar agor i'r holl grwpiau staff ar lefelau amrywiol, o Lefel Mynediad hyd at Lefel Uwch<br>• Sesiynau teilwredig ar gyfer gwasanaethau penodol - er enghraifft, roedd staff yr Adran Anesthetig yn Ysbyty Gwynedd yn awyddus i ddatblygu sgiliau a gallu iaith Gymraeg y tîm, a gwnaethant ddarparu rhestr o eiriau ac ymadroddion cyffredin. Cyflwynwyd cwrs i'r tîm fel y byddent yn gallu trafod gweithredoedd anesthetig gyda chleifion.<br>• *Tystysgrif Sgiliau Iaith* - mae hwn *yn gymhwyster cydnabyddedig* ac achrededig gan *y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chyd-bwyllor Addysg Cymru* a ddatblygwyd i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif yn dangos eu sgiliau iaith Gymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ei nod hefyd yw gwella'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Learner of the Month / Dysgwr y Mis<br>• Tudalen Dysgwyr Facebook<br>• Enwebiadau a chymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd<br><br>Gwerthuso ac Effaith Cyrsiau | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Caiff gwerthusiadau eu cynnal ar ddiwedd pob carfan, gan geisio adborth ar hygyrchedd cyrsiau, cynnwys, ymagwedd a dull cyflwyno. Datgelodd canfyddiadau o'r gwerthusiad fod 94 y cant o ddysgwyr yn 'hapus iawn' gyda'r ddarpariaeth ddysgu a bod 100 y cant o'r dysgwyr yn mwynhau dilyn y cyrsiau.<br><br>Datganodd 83 y cant o ddysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd o ran eu Cymraeg, a'u bod yn fwy tebygol o ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg newydd gyda chleifion, cydweithwyr ac yn y gymuned. Mae hyn yn galonogol iawn gan fod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar unrhyw lefel yn dod â chysur i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.<br><br>Mae canran fawr o ddysgwyr sy'n cwblhau'r cyrsiau'n cofrestru â'r cwrs pellach nesaf er mwyn parhau â'u datblygiad. Mae hyn yn dangos boddhad ar y cwrs a'r ddarpariaeth, ac ymrwymiad staff i ddatblygu eu sgiliau.<br><br>**Gwobr Dysgwr y Flwyddyn**<br>Un o uchafbwyntiau'r Bwrdd Iechyd oedd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn, a chynhaliwyd y seremoni ar 7 Mawrth 2024.<br><br>Gwahoddwyd staff i enwebu eu cydweithwyr a oedd wedi gwneud argraff arnynt drwy ddysgu Cymraeg i safon uchel a defnyddio eu sgiliau newydd er mwyn darparu gwasanaeth gwell ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith yng ngogledd Cymru.<br><br>Yn dilyn gwerthuso'r gystadleuaeth yn 2022, penderfynwyd y byddai'r enwebiadau'n cael eu rhannu'n nau gategori ar wahân:<br><br>• Categori Lefelau Mynediad / Sylfaen | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Lefelau Canolradd / Uwch<br><br>Roedd hyn yn fodd o sicrhau bod pob dysgwr ar bob lefel yn cael y cyfle i gael eu cynnwys yn y gystadleuaeth. Categori ychwanegol arall i'w groesawu oedd "Gwobr Dewis y Tiwtor", a gyflwynwyd er mwyn gwobrwyo dysgwr eithriadol sydd wedi gwneud argraff ar y tiwtoriaid am eu gwaith caled a'u hymroddiad i ddysgu Cymraeg trwy raglen hyfforddiant mewnol y Bwrdd Iechyd.<br><br>Cafwyd cyfanswm o 40 o enwebiadau, gyda'r tri beirniad, Teresa Owen, Arweinydd Gweithredol y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd, Helen Prosser, Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a Manuela Niemetscheck, seicotherapydd celf ac enillydd Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC ar gyfer 2022, yn dewis a dethol yr ymgeiswyr i lunio rhestr fer o dri dysgwr ym mhob categori.<br><br>Ar y noson, gwnaeth 80 o westeion ymuno â ni dan arweiniad ein siaradwr gwadd, Aled Hughes, o Radio Cymru, a fu'n annerch y gynulleidfa mewn ffordd ysbrydolgar a chyffrous. Roedd y digwyddiad yn gyfle i atgyfnerthu gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, ac roedd nifer o stondinau ar gael gan gynnwys gwerthwyr llyfrau, Menter Iaith a Nant Gwrtheyrn.<br>Derbyniodd pob un o'r enwebeion a gyrhaeddodd y rhestr fer lawer o wobrau a roddwyd i ni drwy haelioni ein noddwyr.<br><br>Gwnaeth Radio Ysbyty Gwynedd ymuno â ni hefyd i ddarlledu'n fyw o'r digwyddiad. Gwnaeth Wynne Roberts a Sarah Wynne Griffiths gyfweld yr enillwyr a llawer un a fu'n bresennol ar gyfer eitem arbennig, gan | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyhoeddi'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol y tu hwnt i dudalen y dysgwyr ar Facebook a BetsiNet. | | |
| **Thema 2: Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol** | | | | | |
| 13 | Bydd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi bylchau o ran sgiliau'r gweithlu mewn meysydd allweddol ac yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw. Caiff hyn ei ymgorffori i gynlluniau gweithlu a sgiliau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn sefydliadau unigol a bydd yn cynnwys gweithio'n agos gydag AaGIC a GCC. *(Y tymor canolig)* | Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, AaGIC a GCC | Caiff cyrsiau hyfforddiant mewnol eu teilwra i fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau unigol e.e. cwrs ar gyfer yr Adran Anestheteg.<br><br>Gweler uchod (Cam Gweithredu 10) am ragor o wybodaeth. | Mae rhaglen hyfforddiant mewnol ar gyfer 2024-2025 ar y gweill. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyrsiau ar bob lefel (Lefel 1-5), yn ogystal â sesiynau 1:1, a chyrsiau cnoi cil ychwanegol wedi'u teilwra ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. | Gweler uchod (Cam Gweithredu 10) am wybodaeth fanylach. |
| 14 | Byddwn yn disgwyl i holl gydweithwyr GIG a gofal cymdeithasol ddilyn 'cwrs ymwybyddiaeth o iaith' a fydd yn esbonio pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac fel rhan o anghenion cleifion. Yn dilyn cyflwyno'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer yr holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, byddwn yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu ar draws yr holl ddisgyblaethau ar gyfer hyfforddeion ac i gael ei | Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Ym mis Ionawr 2023, cafodd pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a grëwyd gan Dîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd, ei lansio'n genedlaethol ar ESR. Mae hyn yn rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Gorfodol y mae'n rhaid i'r holl staff ei chwblhau, gan ailadrodd hynny bob tair blynedd. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod 87.14 y cant o'r gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae hyn uwchlaw'r targed o 85 y cant ar gyfer unrhyw Hyfforddiant Gorfodol yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n gynnydd o bron i 20 y cant ers y llynedd.<br><br>Mae ymwybyddiaeth iaith eisoes yn rhan o raglen ymgyfarwyddo'r Bwrdd Iechyd. | Cynigir sesiynau wyneb yn wyneb i'r holl staff er mwyn sicrhau bod modd i'r rhai sydd â mynediad cyfyngedig i fodiwlau hyfforddiant ar-lein gymryd rhan mewn sesiwn. Caiff y rhain eu cyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd. | Mae 87.14 y cant o'r gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Mae hyn uwchlaw'r targed o 85 y cant ar gyfer unrhyw Hyfforddiant Gorfodol yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n gynnydd o bron i 20 y cant ers y llynedd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyflwyno fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer gweithwyr newydd yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant eisoes. *(Y tymor canolig)* | | | | |
| 15 | Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gwella ei chynlluniau ymhellach i gynnig hyfforddiant Cymraeg i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac i ddarparu amgylchedd sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Dylai hyn ategu dysgu iaith anffurfiol trwy offer ar-lein ac apiau a fydd ar gael ar draws y sector. Gellid ei fodelu ar ddatblygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gweithlu addysg. Dylai hyn gynnwys darpariaeth wedi'i theilwra i gynorthwyo arfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac i ganfod cyfleoedd (ynghyd â chyflogwyr perthnasol) i gynnal hyder staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg fwyfwy (ar ba lefel bynnag) yn y gweithle. Yn | Llywodraeth Cymru/Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Fe wnaeth Tîm Hyfforddiant y Gymraeg BIPBC adnewyddu contract deuddeg mis â'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* mewn perthynas â chynllun *'Cymraeg Gwaith'* sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn sicrhau bod modd parhau â chyfleoedd a chydweithio yn ogystal ag ariannu swydd Swyddog Cefnogi. Mae cwmpas y cytundeb yn cynnwys:<br><br>• Mynediad at gyrsiau ar-lein ar lefelau amrywiol<br>• Cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn<br>• Cwrs Dysgu Cymraeg 'Llwybr Carlam'<br>• Cinio Clebran<br>• Mecanweithiau i gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn sesiynau anffurfiol | Mae cytundeb newydd ar gyfer 2024-2025 ar waith bellach.<br><br>Caiff Rhaglen Magu Hyder ychwanegol ei rhoi ar waith gyda Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd.<br><br>Bydd y gydberthynas waith ychwanegol yn cynnwys darparu cyrsiau mewnol, sesiynau 1:1, a chwrs wedi'i deilwra ar gyfer staff y rheng flaen mewn partneriaeth â gwasanaeth 111.<br><br>Mae gwaith yn parhau gyda Therapi Iaith a Lleferydd i fagu hyder a gwella sgiliau i gynnig gwasanaethau'n ddwyieithog yn y maes hwn. | Eleni, cynhaliodd y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* y digwyddiad 'Dathlu Dysgu Cymraeg' cyntaf. Nod y digwyddiad oedd cydnabod llwyddiannau'r sector, a'r dysgwyr yn benodol, ac i ddathlu a dangos y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni Strategaeth Llywodraeth Cymru sef 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: 2050.<br><br>O blith cannoedd o gyflogwyr sy'n gysylltiedig â'r cynllun *Cymraeg Gwaith*, y Bwrdd Iechyd ddaeth i'r brig fel enillydd y wobr cydnabyddiaeth arbennig.<br><br>Enillwyd y wobr yn bennaf am ein cynlluniau strategol a'n technegau arloesol a blaengar i sicrhau cyfleoedd dysgu Cymraeg i'r gweithlu ac effaith hynny ar gleifion. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ogystal, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa adnoddau sydd eu hangen<br>i gynnig cymorth digonol ar gyfer cynllun o'r fath gan gynnwys cefnogi cyflogwyr o ran rhyddhau staff allweddol i ymgymryd â dysgu Cymraeg yn barhaus. (*Y tymor canolig*) | | | | Gweler yr adroddiad manwl sydd ynghlwm, sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed, data a thystiolaeth fonitro'n ymwneud yn benodol â'n gwaith gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br>PDF<br>Adroddiad Mwy Cymraeg Gwaith 202 |
| 16 | Sefydliadau i ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn yr holl hysbysebion swyddi yn unol ag arfer gorau<br>mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol *(Y tymor canolig - caiff arweiniad ei ddatblygu a'i rannu yn y tymor byr)* | Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Mae Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae prif feysydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Bod ceisiadau am hyfforddiant Cymraeg yn cael yr un ystyriaeth â'r holl geisiadau eraill am hyfforddiant ym Mholisi Seibiant Astudio'r Bwrdd Iechyd<br>• Bod yn rhaid i holl swyddi'r rheng flaen gael eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg fel un o'r meini prawf hanfodol<br>• Ar ôl tri ymgais aflwyddiannus i recriwtio, os nad yw ymgeisydd Cymraeg ei iaith ar gael ar gyfer y rôl, caiff y swydd ei ail-hysbysebu fel rôl lle bo'r Gymraeg yn ddymunol ar yr amod y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg hyd at Lefel 1 o fewn blwyddyn o gael ei benodi. Mae gan Dîm Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd raglen ar waith i gefnogi hyn | Mae fframwaith Sgiliau Iaith yn cael ei ddatblygu er mwyn ymestyn y gofyniad lle bo'r Gymraeg yn Hanfodol / lle bo angen dysgu'r Gymraeg at yr holl uwch swyddi sy'n cael eu hysbysebu yn y Bwrdd Iechyd. Mae rhaglen gymorth ar waith i gyflwyno hyn (a chaiff cyfleoedd hyfforddiant eu cynnig trwy gyrsiau ar-lein, sesiynau tiwtora, neu wersi ffurfiol). | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Defnyddio siart llif i bennu p'un a ddylai'r holl swyddi eraill gael eu hysbysebu fel rhai lle bo'r Gymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol gyda fformiwla wedi'i seilio ar y cymysgedd sgiliau presennol yn y tîm ac anghenion y boblogaeth<br>• Cyfleoedd hyfforddiant wedi'u cynnwys yn yr amcanion PADR | | |
| 17 | Cyflwyno lefel ofynnol o sgiliau Cymraeg "cwrteisi" yn raddol gan sicrhau bod staff yn fwy ymwybodol o'r effaith bositif y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n cyrchu ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn diwedd oes y cynllun hwn, dylai'r **holl staff** sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol feddu ar lefel gwrteisi o'r Gymraeg. *(Y tymor byr - cyflwyno)* | Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Yn aros am gwrs. | | |
| 18 | Bydd sefydliadau'n datblygu ac yn gweithredu strategaeth hyfforddiant a gweithlu Cymraeg wedi'i thargedu - gyda'r ffocws cychwynnol ar fynd i'r afael â bylchau o ran meysydd blaenoriaeth allweddol Mwy na geiriau a'r rhai nad ydynt yn hyderus (angen ystyried y posibilrwydd o | Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Mae Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd Iechyd wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae prif feysydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:<br>• Bod ceisiadau am hyfforddiant Cymraeg yn cael yr un ystyriaeth â'r holl geisiadau eraill am hyfforddiant ym Mholisi Seibiant Astudio'r Bwrdd Iechyd<br>• Bod yn rhaid i holl swyddi'r rheng flaen gael eu hysbysebu gyda'r gallu i siarad Cymraeg fel un o'r meini prawf hanfodol | Nodwyd Therapi Iaith a Lleferydd fel grŵp blaenoriaeth.<br><br>Mae gwaith yn parhau gyda Therapi Iaith a Lleferydd i fagu hyder a gwella sgiliau i gynnig gwasanaethau'n ddwyieithog yn y maes hwn. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | weithio gydag arweinwyr timau / rheolwyr / cyflogwyr hefyd i greu'r amodau i unigolion ddefnyddio eu Cymraeg) *(Y tymor canolig)* | | • Ar ôl tri ymgais aflwyddiannus i recriwtio, os nad yw ymgeisydd Cymraeg ei iaith ar gael ar gyfer y rôl, caiff y swydd ei ail-hysbysebu fel rôl lle bo'r Gymraeg yn ddymunol ar yr amod y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg hyd at Lefel 1 o fewn blwyddyn o gael ei benodi. Mae gan Dîm Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd raglen ar waith i gefnogi hyn<br>• Defnyddio siart llif i bennu p'un a ddylai'r holl swyddi eraill gael eu hysbysebu fel rhai lle bo'r Gymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol gyda fformiwla wedi'i seilio ar y cymysgedd sgiliau presennol yn y tîm ac anghenion y boblogaeth<br>• Cyfleoedd hyfforddiant wedi'u cynnwys yn yr amcanion PADR | | |
| 26 | Bydd pob darparwr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn paratoi cynllun yn y tymor canolig ar ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog eu myfyrwyr a byddant yn cyflwyno'r cynllun o fewn 12 mis i'r corff comisiynu / achredu / rheoleiddio perthnasol. Dylai hyn gynnwys manylion am y capasiti addysgu sydd ei angen i gynnig rhaglenni dwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd Llywodraeth Cymru yn | Darparwyr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol | Amherthnasol | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ystyried y rôl y gallai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei chyflawni o ran adolygu a rhoi adborth a chyngor i'r cyrff perthnasol ar y cynlluniau tymor canolig. *(y Tymor byr)* | | | | |
| **Thema 3: Rhannu arfer gorau ac ymagwedd sy'n galluogi** | | | | | |
| 29 | Byddwn yn coladu ac yn rhannu enghreifftiau o arfer da arloesol sydd ar gael yn hwylus ar draws y sector gan ddefnyddio pyrth a hybiau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys yr Hybiau Ymchwil ac Arloesi. *(Tymor byr)* | Llywodraeth Cymru/Swyddogion y Gymraeg | Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu arfer da ar draws Cymru yn gyson. | Rhowch enghreifftiau o arfer da i gael eu cynnwys yn Hwb y Gymraeg. | |
| 30 | Byddwn yn defnyddio ein Pecyn Offer Technoleg Ddwyieithog i sicrhau pan fyddwn yn caffael a/neu'n datblygu gwasanaethau digidol newydd, eu bod yn cynnwys rhyngwyneb dwyieithog ar gyfer defnyddwyr lle bynnag y bo modd. Yn achos gwefannau gwybodaeth a chyngor, byddwn yn sicrhau bod gan gyfieithwyr gysylltiad agosach â'r broses o'u creu, gan lunio fersiynau drafft Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr â'i gilydd, | DHCW/Sefydliadau GIG Cymru | Yn dilyn atgyfnerthu dogfen Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Offeryn Sgrinio Asesu Integredig ehangach y llynedd, daeth Grŵp Craffu at ei gilydd unwaith eto i edrych ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisïau a strategaethau allweddol. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Tîm y Gymraeg wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol, er mwyn sicrhau bod y Safonau'n cael eu hymgorffori i unrhyw ddatblygiadau digidol newydd.<br><br>Mae cynrychiolydd o Dîm y Gymraeg yn aelod o grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis, ar gyfer pob un o'r tair IHC yn y Dwyrain, y Gorllewin a'r Canol. Mae'n gyfle i drafod unrhyw themâu sy'n deillio o gwynion ynghylch diffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle gwerthfawr i ddysgu ac i gyfrannu at ddatblygiadau amrywiol eraill ar draws y Bwrdd Iechyd. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | fel ein bod yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith. *(Y tymor byr)* | | | | |
| 31 | Byddwn yn darparu'r cymorth strwythuredig ac angenrheidiol ar gyfer fforymau rhanbarthol a rhwydweithiau proffesiynol Mwy na geiriau fel bod modd galluogi dysgu a rhannu arfer gorau o ran cysondeb gofal ar draws cymunedau gan roi sylw arbennig i Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol *(Y tymor canolig)* | Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion Fforymau Rhanbarthol, rhwydweithiau clinigol, Colegau Brenhinol, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain | Mae Fforwm Mwy na geiriau Gogledd Cymru wedi cydweithio i ddatblygu adnoddau a fydd yn ategu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Cardiau ateb y ffôn yn ddwyieithog<br>• Ymadroddion wedi'u teilwra ar gyfer staff mewn sectorau amrywiol<br>• Rhagor o fagnetau logo oren ar gyfer siaradwyr Cymraeg | | |
| 32 | Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol y Gymraeg a'n Swyddogion y Gymraeg a'n hyrwyddwyr yn cyfarfod yn genedlaethol er mwyn rhannu arfer gorau i sicrhau ymagwedd gyson tuag at faterion allweddol ac yn datblygu mentrau i ddathlu llwyddiant gan gynnwys hyrwyddo Mwy na geiriau o fewn y gwobrau a'r cynlluniau acolâd presennol. *(Y tymor byr)* | Llywodraeth Cymru, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Dan arweiniad Llywodraeth Cymru. | | |
| 33 | Byddwn yn ymgymryd ag arolwg gyda darparwyr gofal sylfaenol i ddeall yr effaith y mae dyletswyddau'r | Byrddau Iechyd a Chlystyrau Gofal Sylfaenol | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynnwys ar gyfer Hwb Gofal Sylfaenol Cymraeg a gaiff ei lansio yn ystod 2023-2024. | Lansio Hwb Gofal Sylfaenol yn cynnwys Rhaglen Waith Gofal Sylfaenol bwrpasol i fynd i'r afael â gofynion Mwy na geiriau. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg wedi'i chael ar gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol. Bydd hyn yn canfod arfer gorau ac yn rhoi cyngor<br>i Gyfarwyddwyr Gweithredol Gofal Sylfaenol er mwyn datblygu a gwella gwasanaethau yn Gymraeg ymhellach, gan weithio'n agos<br>gyda'r clystyrau *(y Tymor Canolig)* | | Yn y cyfamser, mae'r gydberthynas â Gofal Sylfaenol wedi parhau yn ystod y flwyddyn adrodd ac mae sesiynau ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth wedi cael eu cynnal gyda Thimau Contractio Gofal Sylfaenol ac mewn cyfarfodydd i Reolwyr Practis. Yn ddiweddarach, gwnaeth Tîm Contractio Gofal Sylfaenol y Dwyrain hysbysu'r holl Gontractwyr Gofal Sylfaenol ynghylch y chwe Dyletswydd Gofal Sylfaenol yn ymwneud â'r Gymraeg y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â nhw. Bu effaith y gwaith hwn yn ffafriol, ac mae'r tîm yn rhoi rhagor o gymorth, adnoddau ac arweiniad yn uniongyrchol i ddarparwyr. | | |
| 35 | Mae marcwyr gweledol nid yn unig yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth adnabod staff Cymraeg eu hiaith ond maent hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan 'arferol' o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd ac mae'n ategu ymdeimlad o berthyn.<br>Byddwn yn ymestyn prosiect Iaith Gwaith ar draws Cymru er mwyn caniatáu i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu sy'n gallu gwneud hynny'n rhannol, i dynnu sylw at eu gallu yn y Gymraeg trwy wisgo bathodynnau neu gortynnau gwddf Iaith | Llywodraeth Cymru/<br>DHCW/ cyrff iechyd a<br>gofal cymdeithasol | Mae'r Cynllun Dewis Iaith wedi bod ar waith yn y Bwrdd Iechyd ers 2017 bellach.<br><br>Rydym wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau GIG Cymru<br>Mae ein Cynllun Dewis Iaith ar y rhestr fer yng nghategori *Gwobr Gofal Teg GIG Cymru* yng *Ngwobrau GIG Cymru 2024*. Mae'r cynllun yn sicrhau fel sefydliad, ein bod yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn Gymraeg yn rhagweithiol trwy nodi dewis iaith. | Ffurfioli'r cynllun trwy ei ymgorffori i'r cynllun pum mlynedd ar gynnig ymgynghoriadau clinigol yn ddwyieithog (fel rhan o Safon 110).<br><br>Digwyddiadau a Gweithgareddau hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, yn cynnwys ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y claf.<br><br>Ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth i wella dealltwriaeth am brofiadau cleifion, pennu lefel bresennol y | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaith. O ran ein systemau TGCh, byddwn hefyd yn cofnodi, yn arddangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni ba unigolion a staff sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddant yn eu cynnig yn Gymraeg, fel y gallwn ddefnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Byddai angen ystyried cyllid / adnoddau ychwanegol er mwyn caniatáu cyflawni hyn). (*Y tymor byr*) | | | boddhad a bylchau o ran darpariaeth | |
| 37 | Byddwn yn datblygu geiriaduron, corpws terminoleg o safon uchel, systemau cof cyfieithu ac offer ymarferol ymhellach er mwyn cynorthwyo staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft, Gair i Glaf. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys Swyddogion y Gymraeg a'r cyfieithwyr yn cydweithio i goladu termau a chapasiti a galluoedd y tîm cyfieithu. *(Y tymor byr - cydweithio ar ddatblygu termau safonol)* | Llywodraeth Cymru / cyrff iechyd a gofal cymdeithasol | Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd yn darparu cymorth cyfieithu ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i staff a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Mae'r Tîm yn parhau i ddarparu cymorth i bob adran ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd ac mae wedi gweld cynnydd yn y galw am ei wasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn gyffredinol, mae'r galw am wasanaethau cyfieithu wedi parhau i dyfu. Ystyrir bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol gan ei fod yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'i ofynion statudol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio'r dull o asesu dogfennau i'w cyfieithu yn unol â | Defnyddio cyfieithu peirianyddol er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth ac amseroedd cwblhau gwaith.<br><br>Adolygu'r posibilrwydd o greu cronfeydd terminoleg ar gyfer gwasanaethau penodol er mwyn hybu defnydd o dermau Cymraeg mewn meysydd lle y gallai termau Cymraeg fod yn fwy aneglur i ddefnyddwyr gwasanaeth a lle y gallai fod angen datblygiadau (Therapi Iaith a Lleferydd, Cydraddoldeb ac ati) | Gweler y golofn ar y chwith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Safon 37. Y dull hwn a ddefnyddir wrth asesu papurau'r Bwrdd, gyda nifer cynyddol o bapurau bellach ar gael yn ddwyieithog.<br><br>Ymhlith y ceisiadau brys am gyfieithiadau mae datganiadau i'r wasg, llythyrau cleifion, taflenni gwybodaeth a gwybodaeth iechyd cyhoeddus ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae gwasanaeth y tu allan i oriau hefyd ar gael ar gyfer cyfathrebu brys. Mae hyn yn fodd o sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei chyhoeddi mewn modd amserol.<br><br>Cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn adrodd oedd 3,721,696, o gymharu â 2,912,344 yn ystod 2022-2023. Mae hyn yn gynnydd o 28% yn 2023-2024.<br><br>Mae'r galw am gyfieithu ar y pryd hefyd wedi cynyddu, gyda'r tîm yn cefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau, fforymau, cyfarfodydd a chynadleddau rhanddeiliaid. Mae cefnogaeth hefyd wedi'i darparu mewn cyfweliadau i ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu cyfweliad yn Gymraeg.<br><br>Ymrwymodd y Gwasanaeth Cyfieithu i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Chwefror 2024, gan gefnogi'r sefydliad i gyfieithu llawer o'u dogfennau a'u gohebiaeth cyhoeddus.<br><br>Mae cymorth cyfieithu yn parhau i gael ei ddarparu i'r sector gofal sylfaenol, yn bractisau meddygon teulu a reolir yn breifat, a chontractwyr annibynnol.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth Borth Cyfieithu ar-lein y gall defnyddwyr gael mynediad ato dros | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | BetsiNet. Mae hyn yn gwella hygyrchedd a'i gwneud yn rhwydd i ddefnyddwyr uwchlwytho eu ceisiadau cyfieithu. Mae'r Tîm wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Wybodeg i archwilio gwelliannau posibl i swyddogaeth ddadansoddeg bresennol y Porth. Diben y gwaith yw cael data ystadegol manylach ynghylch y defnydd o'n gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu categorïau gwaith lle mae'r tîm yn gallu cofnodi natur y cais dan sylw (datganiadau i'r wasg, disgrifiadau swydd, taflenni gwybodaeth ac ati) i nodi'r meysydd sydd â'r angen mwyaf a'n galluogi i flaenoriaethu ceisiadau yn unol â hynny. Mae'r tîm wedi treialu'r system hon ac yn gweithio gyda'r Tîm Gwybodeg i'w rhoi ar waith ar ôl ei hadolygu.<br><br>Mae'r Tîm yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu yn eu gwaith dyddiol lle mae testun sy'n cael ei fwydo i'r system yn cael ei ddal a'i gofnodi mewn banciau terminoleg canolog. Mae hyn yn fodd o hybu perfformiad ac effeithlonrwydd, gan arwain at amseroedd gweithredu gwell tra'n sicrhau cysondeb yn y cyfieithiadau. Mae’r Tîm wedi bod yn archwilio’r posibilrwydd o ddefnyddio cyfieithu â chymorth peirianyddol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio’n gynyddol yn y maes, fel modd o wella effeithlonrwydd gwasanaethau ac amseroedd gweithredu. Mae'r tîm wrthi'n archwilio cyfleoedd hyfforddi yn hyn o beth ac yn bwriadu rhoi fersiwn peilot o'r feddalwedd hon ar waith gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod terminoleg ac mae’r Tîm bellach yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau datblygiad rhestrau termau cynhwysfawr. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | y derminoleg a ddefnyddir yn briodol i'r gynulleidfa darged ac yn gyson â'r hyn a ddefnyddir gan eraill o fewn y maes gofal iechyd. | | |

**Sylwadau ychwanegol/cyffredinol (lledwch y blwch yn ôl yr angen)**

**Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd**
Mae Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael ei strwythuro i sicrhau bod ei ffrydiau gwaith yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu anghenion ieithyddol y boblogaeth. Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n rhoi cymorth i'r sefydliad o ran gofynion deddfwriaeth ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

1. Cydymffurfio â Deddfwriaeth
   Sicrhau ein bod yn rhoi cymorth i'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

2. Hybu ac Ymgysylltu
   Yn unol â'r egwyddorion gweithredol sydd ynghlwm wrth gyflawni cynllun pum mlynedd *Mwy na geiriau*, rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi gwasanaethau ac i greu prosiectau a chynlluniau a fydd yn gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'n diwylliant, a'r effaith ar ofal a boddhad cleifion.

3. Darparu Hyfforddiant
   Mae ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg yn cael ei theilwra i fynd i'r afael â gofynion gwasanaethau amrywiol, ynghyd â chymorth ychwanegol a ddarperir gan y *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* trwy ein cytundeb Cymraeg Gwaith.

4. Gwasanaethau Cyfieithu:
   Mae ein Tîm Cyfieithu'n sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer cleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn darparu cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

**Hunanreoleiddio a Llywodraethu**
Mae ein hatebolrwydd strwythurol wedi'i gynnal, ac mae ein Fforwm Strategol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio ein hymagwedd strategol ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sydd â'r gallu i symud gofynion yn eu blaen. Mae llwybr craffu ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion o bwys, yn ogystal ag adrodd bob blwyddyn i'r Bwrdd ar gydymffurfiaeth a llwyddiannau.

**Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg**
Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau posibl ar hyn o bryd yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol" ar waith yn unol â *Mwy na geiriau*, a chyflawni *Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog*.

Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu yn ystod 2023-2024, ac mae pob un o'r tair sgôr risg wedi'u graddio fel rhai cymedrol neu ddibwys ar hyn o bryd. Wrth asesu ein sefyllfa bresennol, nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw risgiau.

Caiff Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ei monitro'n chwarterol, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

**Sicrwydd Perfformiad Mewnol**
Er mwyn craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd ac argaeledd a safon gwasanaethau Cymraeg ar draws y sefydliad, gwnaeth Tîm y Gymraeg barhau i gynnal arolygon sicrwydd ansawdd bob chwarter yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Trwy gyfuniad o arolygon 'siopwr cudd' ac ymweliadau safle, mae Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog BIPBC yn mesur ansawdd ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg mewn ysbytai a meddygfeydd sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd. Pan ailddechreuodd yr arolygon hyn yn dilyn pandemig COVID-19, daeth i'r amlwg bod safonau wedi llithro'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn neu ddwy flaenorol. O ganlyniad i hyn, aeth aelodau Tîm y Gymraeg ati i gydweithio'n uniongyrchol â rheolwyr a gweinyddwyr perthnasol ar draws Gogledd Cymru yn ystod haf 2023, er mwyn canfod gwendidau ac i roi camau gweithredu perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod modd gwneud gwelliannau. Fel cam cyntaf, cynhaliwyd cyfres o deithiau crwydr mewn ysbytai cymunedol ledled gogledd Cymru, er mwyn sicrhau bod yr holl arwyddion dros dro yn cael eu harddangos yn ddwyieithog a'u bod yn unol â gofynion y Safonau. Cafodd llwyddiant y teithiau crwydr hyn, a gynhaliwyd ochr yn ochr â staff rheoli / gweinyddu, ei ddangos yn glir yng nghanlyniadau'r arolygon 'siopwr cudd' dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2023-24, gan fod gwelliant nodedig o ran ansawdd yr arwyddion wedi'i gofnodi mewn nifer o'n hysbytai a'n safleoedd. Mae hyn yn dangos bod adolygiadau perfformiad mewnol yn rhoi sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydymffurfiaeth.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r Safonau hyn wedi bod ar waith bellach ers y dyddiad gweithredu, sef 30 Mai 2019. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd, ac mae Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn rhoi cyfarwyddyd ar draws y sefydliad cyfan ar roi'r Safonau ar waith, yn ogystal â chefnogi a hwyluso darpariaeth ar lefel sylfaenol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi ymhellach yn Nhîm y Gymraeg, ac roedd hyn yn caniatáu penodi Swyddog Cefnogi Safonau'r Gymraeg. Roedd y penodiad hwn yn arwyddocaol gan ei fod wedi caniatáu i'r tîm barhau i ddatblygu dulliau monitro llymach er mwyn craffu ar gydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae cymorth wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda'r tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC) ar draws Gogledd Cymru (Dwyrain, Gorllewin a'r Canol) ar gwblhau holiadur hunanasesu ar eu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Gwnaeth IHC y Dwyrain gwblhau'r gwaith hwn ym mis Ionawr 2024, ac ers hynny, mae'r Swyddog Cefnogi Safonau'r Gymraeg wedi rhoi adborth ar lunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

**Dadansoddi Data Safonau'r Gymraeg**
Roedd yr ymarfer gwerthuso a gwblhawyd gan IHC y Dwyrain yn caniatáu dealltwriaeth ehangach am eu cydymffurfiaeth â'r Safonau. Cafodd ffurflen hunanasesu ei chylchredeg i bob adran ei chwblhau er mwyn nodi eu cydymffurfiaeth bresennol â phob Safon yn ogystal â rhoi tystiolaeth i ategu eu hatebion. Dogfen dreigl yw hon a bydd angen i bob adran ei diweddaru bob blwyddyn.

Wrth adolygu'r canlyniadau, canfuwyd ychydig o dueddiadau cyson. Y meysydd lle gwelwyd y gydymffurfiaeth fwyaf oedd:

- Gohebiaeth (Safonau 1-7)
- cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a chyhoeddusrwydd (Safonau 26-34)
- dogfennau a ffurflenni (Safonau 36-28)
- gwefan ac adnoddau ar-lein (Safonau 39-43)
- arwyddion (Safonau 47-49)
- gofal sylfaenol (Safonau 65-68)

- defnyddio'r Gymraeg yn fewnol (Safonau 79-82)
- cofnod o sgiliau iaith Gymraeg staff, cyfleoedd am hyfforddiant, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a darpariaeth adnoddau (Safonau 96-105)
- cynllunio'r gweithlu a recriwtio (Safonau 106-109)
- ymgynghoriadau clinigol (Safon 110)
- cadw cofnodion (Safonau 115-117)

Mae hyn yn gyfran sylweddol sy'n galonogol ac mae'n dangos effaith y gwaith a wnaed ers y dyddiad gweithredu.

Gwnaeth y gweithgarwch hwn hefyd ganfod meysydd lle'r oedd angen cymorth pellach:

- Cyfarfodydd mewnol (Safonau 21-22)
- Teleffoni (Safonau 8-20)
- Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 50-53)

Un o'r tueddiadau cyson a welsom fel maes lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth oedd cyfarfodydd mewnol. O ganlyniad, mae Tîm y Gymraeg wedi datblygu Dull Gweithredu Safonol yn edrych ar y protocol ar gyfer cyfarfodydd mewnol i'w ddefnyddio fel arweiniad ac fel math o restr wirio.

Roedd teleffoni a gwasanaethau derbynfa yn feysydd lle'r oedd cydymffurfiaeth gymysg. Mae'r meysydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Tîm gan eu bod yn bwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer llawer o gleifion a'u teuluoedd. Mae ein Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog yn ategu'r gwaith hwn, gan ei fod yn amlygu swyddi ar y rheng flaen lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os na fydd gwasanaethau'n llwyddiannus o ran penodi siaradwyr Cymraeg, yn dilyn proses gymeradwyo gadarn, gellir hysbysebu swyddi gan nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol, ar yr amod bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn dysgu Cymraeg o fewn 12 mis o gael ei gyflogi. Mae rhaglen hyfforddiant wedi cael ei rhoi ar waith i ategu hyn.

**Sefydlu dull cyson o ran cyflawni'r Safonau**
Mae gwaith wedi parhau hefyd i roi cyngor a chymorth i'r sefydliad o ran agweddau amrywiol ar gydymffurfio â'r Safonau, gan gynnwys datblygu Apiau, fideos hyfforddi, a dogfennau dwyieithog. Er mwyn darparu dull mwy cyson o ran cyflawni'r Safonau, mae'r Tîm wedi canolbwyntio ar greu Dulliau Gweithredu Safonol (SOPs) ar Safonau penodol, i ddarparu arweiniad manylach i staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth lawn. Mae SOPs wedi cael eu creu ar gyfer Safon 7 (datganiad yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg), a Safonau 8, 9, 10 (Ateb y Ffôn). Mae fideo hyfforddi wedi'i greu hefyd er mwyn helpu staff ymhellach o ran cydymffurfio â Safonau 8, 9 a 10. Caiff rhagor o SOPs eu creu yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf, gan ganolbwyntio ar unrhyw ddiffygion a nodwyd yn yr holiaduron hunanasesu. Caiff yr holl SOPs eu cymeradwyo gan Fforwm Strategol y Gymraeg, a chânt eu cyhoeddi ar adran Iaith Gymraeg safle BetsiNet.

**Dathlu ein Diwylliant**
Mae'r Bwrdd Iechyd yn achub ar bob cyfle a ddarperir gan ddiwrnodau dathlu cenedlaethol i amlygu diwylliant a chodi ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad. Eleni fe wnaethom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar ein holl safleoedd acíwt, ac i nodi Diwrnod Santes Dwynwen, rhoddwyd cyfle i staff ddweud pam eu bod yn caru gweithio i'r GIG.

**Wythnos y Gymraeg**
Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd gam ymhellach drwy gynnal Wythnos y Gymraeg bob blwyddyn. Cynhaliwyd wythnos eleni rhwng 16 a 20 Hydref. Trefnwyd amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i hyrwyddo pwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd dwyieithog a dathlu'r gwaith gwych sy'n parhau i gael ei wneud gan ein staff, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn gallu cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| | Roedd digwyddiadau'r wythnos yn cynnwys:<br><br>• Lansio cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn BIPBC 2024<br>• Stondinau ymgysylltu â staff Tîm y Gymraeg BIPBC ar y tri safle acíwt, (yn cynnwys Glan Clwyd ar y dydd Gwener), yn cynnig cyngor ac adnoddau i staff<br>• Sioe Deithiol Ysgolion Gogledd Cymru (mewn cydweithrediad â Gyrfa Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br>• Sesiynau Stori gan Cymraeg i Blant<br>• Ymweliadau Wardiau Plant gan DEWIN o'r Mudiad Meithrin<br>• Cyfweliadau ar Radio Ysbyty Gwynedd<br><br>**Yr Eisteddfod Genedlaethol**<br>Arweiniwyd presenoldeb y Bwrdd Iechyd yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan eleni gan y Tîm Ymgysylltu. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth a chyngor iechyd, trwy weithio gyda phartneriaid a chydweithwyr amrywiol. Roedd hefyd yn gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd, a chynhaliwyd arolygon i gael cipolwg ar argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Roedd y Tîm Dysgu Cymraeg wedi enwebu rhai o'n dysgwyr ar gyfer teitl Dysgwr y Flwyddyn a phleser o'r mwyaf oedd gweld Manuela Niemetscheck, Seicolegydd Celf ymhlith y pedwar enwebai buddugol, ynghyd ag Alison Roberts, Cynorthwyydd Gofal Iechyd, a enillodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth hon. Roedd llawer o'n dysgwyr yn awyddus iawn i ddod i gefnogi eu cydweithwyr felly trefnwyd Trip Dysgwyr Betsi i'r seremoni.<br><br>Gwahoddwyd Tîm y Gymraeg i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau eraill, gan gynnwys panel gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn trafod sut yr arweiniodd cynllunio strategol at ddull arloesol o ddarparu gwasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd. Hefyd, cymerodd y Tîm ran mewn digwyddiad dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar *Mwy na geiriau* a sut yr oeddem wedi gweithredu rhaglen hyfforddi i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. |

| | |
|---|---|
| **Teitl adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Yr Adroddiad Sicrwydd Bob Tair Blynedd ar Gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ar gyfer Llywodraeth Cymru |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Bwrdd BIPBC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 26 Medi |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r papur hwn yn cyflwyno adroddiad sicrwydd bob tair blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2023 – 5 Ebrill 2024.<br><br>Yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd gyflwyno adroddiad bob tair blynedd i Weinidogion Cymru yn manylu ar y canlynol:<br><br>a) i ba raddau y mae lefelau staff nyrsio wedi eu cynnal;<br>b) yr effaith mae peidio â chynnal lefelau staff nyrsio wedi'i chael, ym marn y Bwrdd neu'r Ymddiriedolaeth, ar ofal a ddarparwyd i gleifion gan nyrsys, er enghraifft drwy gyfeirio at gwynion am ofal a ddarparwyd i gleifion gan nyrsys a wnaed yn unol â'r Rheoliadau Cwynion neu drwy gyfeirio at gynnydd yn nifer y digwyddiadau o niwed a achoswyd gan y canlynol:<br>i. gwallau wrth roi meddyginiaeth i gleifion;<br>ii. cleifion yn syrthio;<br>iii. cleifion yn datblygu briwiau pwyso yn yr ysbyty;<br>c) unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i beidio â chynnal lefelau staff nyrsio.<br><br>Oherwydd yr amserlen adrodd, ac yn unol â chanllawiau cenedlaethol, cyflwynwyd adroddiad bob tair blynedd, gyda chafeatau, i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y digwyddiadau adroddadwy o niwed i gleifion a'r digwyddiadau o ran staff nyrsio hyd at 31 Ionawr 2024.<br><br>Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau adroddadwy o niwed i gleifion rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2024 a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024.<br><br>Mae Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan wedi cynhyrchu'r templed safonol y mae'n rhaid ei ddefnyddio i lunio'r adroddiad sicrwydd bob tair blynedd i sicrhau cysondeb yn yr wybodaeth gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r cyfarfod dderbyn yr adroddiad hwn er mwyn cael sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol: |

<table>
<tr><td></td><td colspan="4">

1. Bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflawni ei “ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio” ymhob ward sy’n dod o dan feini prawf cynhwysiant Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.
2. Mae BIPBC yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu Adroddiad Sicrwydd Bob Tair Blynedd ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i Weinidogion Cymru

</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Mrs Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Mrs Alison Griffiths, Cyfarwyddwr y Gweithlu Nyrsio, Staffio a Safonau Proffesiynol<br>Miss Joanna Brown, Arweinydd y Rhaglen Staff Nyrsio</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod.  Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu well, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating.  Where ‘Partial’ or ‘No assurance’ has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016<br><br>Mae adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn berthnasol i wardiau meddygol acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion; wardiau llawfeddygol acíwt i gleifion mewnol sy’n oedolion; a wardiau cleifion mewnol pediatrig.<br><br>Mae <u>Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol</u> yn nodi gofyniad i “ysgogi’r newidiadau sydd eu hangen i’n system iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn medru diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol yng Nghymru”</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Mae recriwtio a chadw staff yn themâu allweddol yn y cynlluniau hyn, ac mae'n nodi er bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu denu'r doniau gorau yn y byd, mae tystiolaeth o fregusrwydd mewn gwasanaethau penodol sydd wedi effeithio ar ddarparu gofal o safon i gleifion.<br><br>Mae *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yn dwyn cysylltiad uniongyrchol rhwng cyfraddau swyddi gwag a gwariant uchel ar asiantaethau.<br><br>Mae *blaenoriaethau'r Prif Swyddog Nyrsio* yn cynnwys uchelgais i *ddenu, recriwtio, hyfforddi, addysgu a chadw'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth fel bod nifer y swyddi gwag ym maes nyrsio a bydwreigiaeth yn lleihau, gan weithio tuag at ddim swyddi gwag dros 3-5 mlynedd* |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Roedd y gofynion adrodd statudol yn cyd-fynd â'r *"ddyletswydd i gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staff nyrsio"* yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ac i ddarparu Adroddiad Sicrwydd Bob Tair Blynedd ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i Weinidogion Cymru |
| **Yn unol ag WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amherthnasol |
| **Yn unol ag WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | CRR2113 - Staff Nyrsio (Efallai y bydd parhad y gwasanaeth yn y fantol oherwydd bod llai o weithlu nyrsio). Oherwydd nifer y swyddi gwag ym maes nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd, mae risg i'r ddarpariaeth gofal nyrsio diogel ac effeithiol o safon.<br><br>Gall methu â darparu lefelau staff nyrsio priodol i sicrhau amser i ofalu am gleifion mewn modd sensitif beryglu gallu'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal iechyd yn effeithiol, a rhoi enw da gwasanaethau nyrsio'r Bwrdd Iechyd yn y fantol.<br><br>Gallai'r effaith ar gydnerthedd y gweithlu yn sgil y canlynol waethygu hyn ymhellach;<br>1) effaith barhaus Covid 19<br>2) y proffil oedran uwch o fewn y gweithlu<br>3) cyfradd cadw staff nyrsio ar draws y Bwrdd Iechyd.<br><br>CRR15 - Recriwtio a Chadw Staff (mae hyn yn berthnasol i'r holl staff ar draws y Bwrdd Iechyd ond mae'r gweithlu nyrsio yn elfen sylweddol o'r risg).<br><br>Mae risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff o safon mewn meysydd penodol. Gallai hyn fod oherwydd prinder grwpiau staff penodol yn y DU a natur wledig rhai ardaloedd o'r bwrdd iechyd. Gallai hyn arwain at brofiad a chanlyniadau gwael i gleifion, morâl a lles isel a phresenoldeb gwael gan staff |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Bydd asesiad ariannol sy'n deillio o ddyletswydd statudol y sefydliad i gyfrifo lefelau staff nyrsio yn cael ei ystyried yn y cylch cynllunio ariannol ar gyfer 2024/25. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae goblygiadau i'r gweithlu yn ymwneud â'r gallu i ariannu a recriwtio gweithlu digonol o nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Fel y nodir uchod - ID Risg 1976 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | *Amherthnasol* |

**Y Camau Nesaf:**

***Next Steps:***

Gweithredu'r argymhellion

**Rhestr o Atodiadau:**

***List of Appendices:***

Atodiad 1:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2021 – 5 Ebrill 2022)

Atodiad 2:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol, Crynodeb o'r Lefelau Staffio Gofynnol (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2021 – 5 Ebrill 2022)

Atodiad 3:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2022 – 5 Ebrill 2023)

Atodiad 4:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol, Crynodeb o'r Lefelau Staffio Gofynnol (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2022 – 5 Ebrill 2023)

Atodiad 5:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2023 - 5 Ebrill 2024)

Atodiad 6:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol, Crynodeb o Sefydlu Gofynnol (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2023 - 5 Ebrill 2024)

Atodiad 7:
Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfiaeth â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (cyfnod adrodd 6 Ebrill 2023 - 5 Ebrill 2024, diweddarwyd Awst 2024)

| | **Yr Adroddiad Sicrwydd Bob Tair Blynedd ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru):**<br><br>**Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth / Bwrdd Iechyd** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Dyddiad cyflwyno'r adroddiad sicrwydd tair blynedd i'r Bwrdd** | Cyfarfod Gweithredol 28 Awst 2024<br>Cyfarfod y Bwrdd 26 Medi 2024<br><br>Y cyfnod adrodd yw 6 Ebrill 2021 – 5 Ebrill 2024.<br><br>Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016[1] yn dilyn pob cylch adrodd tair blynedd, rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn ar lefelau staff nyrsio i Weinidogion Cymru o fewn 30 diwrnod fan bellaf i ddiwrnod olaf y cyfnod adrodd. Oherwydd yr amserlen adrodd, cyflwynwyd adroddiad bob tair blynedd gyda chafeatau i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024 a oedd yn cynnwys gwybodaeth hyd at 31 Ionawr 2024 yn unig.<br><br>Mae'r adroddiad terfynol hwn, sydd wedi'i ddiweddaru ac yn cynnwys yr holl adroddiadau o ddigwyddiadau difrifol rhwng 6 Ebrill 2021 a 5 Ebrill 2024, yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2024. Ar ôl hynny, ac yn unol â gofynion y Ddeddf, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024.<br><br>Mae diwygiadau i'r papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2024 wedi'u cynnwys yn yr adrannau canlynol yn unig:<br><br>• I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion<br>• I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar wardiau cleifion mewnol pediatrig<br>• Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion<br>• Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol pediatrig |

[1] Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (legislation.gov.uk)

| | 2021/2022 | 2022/2023 | 2023/2024 |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Blynyddol ar gydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i'r Bwrdd** | 13 Mehefin 2022<br><br>Yn ystod 2021/2022 y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion oedd yn gyfrifol am dderbyn yr adroddiad sicrwydd blynyddol a ddaeth i law ar 13 Mehefin 2022.<br><br>Mae'r adroddiad ynghlwm fel atodiadau 1 a 2. | 25 Mai 2023<br><br>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad sicrwydd blynyddol ar 25 Mai 2023. Dyma'r ddolen i bapurau'r Bwrdd:<br><br>Cyfarfod Bwrdd Iechyd BIPBC 25 Mai 2023<br><br>Mae'r adroddiad ynghlwm fel atodiadau 3 a 4. | Mai 2024<br><br>Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad sicrwydd blynyddol ar 30 Mai 2024. Dyma'r ddolen i bapurau'r Bwrdd:<br><br>Cyfarfod Bwrdd Iechyd BIPBC 30 Mai 2024<br><br>Mae'r adroddiad ynghlwm fel atodiadau 5 a 6. |
| **Nifer y wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion lle mae adran 25B yn berthnasol** | Nifer leiaf o wardiau meddygol: 24<br><br>Ysbyty Gwynedd 7<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 8<br><br>Nifer fwyaf o wardiau meddygol: 25<br><br>Ysbyty Gwynedd 8<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 8 | Nifer leiaf o wardiau meddygol: 24<br><br>Ysbyty Gwynedd 7<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 8<br><br>Nifer fwyaf o wardiau meddygol: 25<br><br>Ysbyty Gwynedd 7<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 9 | Nifer leiaf o wardiau meddygol: 25<br><br>Ysbyty Gwynedd 7<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 9<br><br>Nifer fwyaf o wardiau meddygol: 26<br><br>Ysbyty Gwynedd 8<br>Ysbyty Glan Clwyd 9<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 9 |
| **Nifer y wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion lle mae adran 25B yn berthnasol** | Nifer leiaf o wardiau llawfeddygol: 14<br><br>Ysbyty Gwynedd 4<br>Ysbyty Glan Clwyd 5<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 5<br><br>Nifer fwyaf o wardiau llawfeddygol: 19<br><br>Ysbyty Gwynedd 6 | Nifer leiaf o wardiau llawfeddygol: 15<br><br>Ysbyty Gwynedd 4<br>Ysbyty Glan Clwyd 5<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 6<br><br>Nifer fwyaf o wardiau llawfeddygol: 17<br><br>Ysbyty Gwynedd 5 | Roedd wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion wedi aros yr un fath/yn sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Wardiau llawfeddygol: 17<br><br>Ysbyty Gwynedd 5<br>Ysbyty Glan Clwyd 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ysbyty Glan Clwyd 6<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 7 | Ysbyty Glan Clwyd 6<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 6 | Ysbyty Maelor Wrecsam 6 |
| **Nifer y wardiau cleifion mewnol pediatrig lle mae adran 25B yn berthnasol** | Roedd y wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi aros yr un fath/sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Ysbyty Gwynedd 1<br>Ysbyty Glan Clwyd 1<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 1 | Roedd y wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi aros yr un fath/sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Ysbyty Gwynedd 1<br>Ysbyty Glan Clwyd 1<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 1 | Roedd y wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi aros yr un fath/sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd:<br><br>Ysbyty Gwynedd 1<br>Ysbyty Glan Clwyd 1<br>Ysbyty Maelor Wrecsam 1 |
| **Nifer yr achlysuron pan ailgyfrifwyd y lefel staff nyrsio yn ychwanegol at y cyfrifiad chwemisol ar gyfer pob ward sy'n ddarostyngedig i Adran 25B** | Wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion 2<br>• Aran Ysbyty Gwynedd<br>• Bromfield Ysbyty Maelor Wrecsam | Wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion 1<br>• Tywysog Cymru (ENT gynt) | Wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt i oedolion 2<br>• Aran YG<br>• Tryfan YG |
| | Wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion 1<br>• SAU Glyndŵr Ysbyty Maelor Wrecsam | Wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion 3<br>• ENT (Tywysog Cymru bellach)<br>• Bromfield<br>• Ffrancon | Wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt i oedolion 0 |
| | Wardiau cleifion mewnol pediatrig 0 | Wardiau cleifion mewnol pediatrig 0 | Wardiau cleifion mewnol pediatrig 0 |
| **Newid pwrpas wardiau adran 25b i gefnogi'r gwaith o reoli COVID neu agor wardiau COVID newydd.** | Yn unol â llythyr y Prif Swyddogion Nyrsio dyddiedig 15 Hydref 2020, cafodd wardiau oedd â'r prif ddiben o "drin cleifion ar gyfer cyflyrau meddygol a llawfeddygol" eu cydnabod fel rhai sy'n ymwneud ag Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, gyda llawer o'r wardiau hyn yn gofalu am gleifion oedd â haint COVID-19 neu'n gwella ohoni.<br><br>Yn unol â Chanllawiau Statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016[2], cydnabyddir y gallai fod angen i'r rhestrau dyletswyddau a gynlluniwyd gael eu newid mewn modd priodol ar achlysuron prin ac yng ngoleuni cymhlethdodau amgylcheddau clinigol. Cafodd yr egwyddor hon ei defnyddio drwy gydol y pandemig a dibynnwyd yn sylweddol ar farn broffesiynol arweinwyr nyrsio ar draws y bwrdd iechyd, i gyfrifo a chynnal yn weithredol lefelau staff nyrsio, yn y sefyllfaoedd gweithredol a oedd yn esblygu'n gyson yn ystod y cyfnod hwn. Cydnabyddir nad yw'r newidiadau i'r lefelau staffio a ystyriwyd yn rhai dros dro ac a oedd yn sgil natur ddeinamig y pandemig (ee cyfyngu ar lawdriniaethau a gynlluniwyd/lleihau gofal yn raddol; gwasanaethau'n uno dros dro i ôl-troed/meysydd clinigol eraill; newid llwybrau cleifion dros dro, neu ad-drefnu'r safle) o bosibl | | |

[2] Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: canllawiau statudol (fersiwn 2) [HTML] - LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| | wedi cael eu cyfleu i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi cael gwybod am y cyfrifiadau staff nyrsio y tybir eu bod yn barhaol gan gynnwys unrhyw newidiadau gofynnol i'r lefelau staffio cysylltiedig a ariennir.<br><br>Yn sgil dadgomisiynu'r ysbytai maes yn ystod cyfnod adrodd 2021/2022, dychwelodd staff, a oedd wedi cael eu hadleoli dros dro, i'w swyddi parhaol er mwyn gweithio yn ôl yr arfer ac ailgychwyn y gwasanaeth. Lle bynnag y bo modd, gofynnwyd i staff a oedd wedi dychwelyd i gyflogaeth dros dro i gefnogi'r ymateb i COVID-19, ystyried cyflogaeth barhaus gyda BIPBC drwy gynnig cyflogaeth barhaol arall (yn y lle cyntaf), neu gontract banc/dros dro; trefniadau gweithio hyblyg; a threfniadau cyfnod penodol mewn lleoliadau gofal iechyd eraill.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r graddau y mae wardiau Adran 25B wedi addasu yn ystod y cyfnod adrodd hwn mewn ymateb i COVID-19 yn llai na'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod adrodd tair blynedd blaenorol. Fodd bynnag, mae aciwtedd cleifion wedi parhau'n uwch na'r cyfnodau cyn Covid ar draws yr holl feysydd cleifion mewnol. Yn unol â gweddill Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos tuedd tuag at lai o gleifion Lefel 1 a Lefel 2, a chynnydd o ran cleifion Lefel 3 a Lefel 4 ar ein wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion. |
| **Rhoi Gwybodaeth i Gleifion** | Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, mae hysbysfyrddau wrth y fynedfa i bob un o'r wardiau sy'n dangos y lefelau staff nyrsio sydd wedi'u cynllunio ar y wardiau a'r dyddiad y cafodd y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd. Defnyddir templedi dwyieithog "Unwaith i Gymru" y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i ddangos y lefelau staffio sydd wedi'u cynllunio, ac mae gwybodaeth atodol ar gael drwy boster sy'n egluro pwrpas y Ddeddf a thaflen Cwestiynau Cyffredin (sydd ar gael yn ddwyieithog mewn fersiynau safonol a hawdd eu darllen) i ateb unrhyw gwestiynau manylach sydd gan glaf neu ymwelydd am y Ddeddf. Mae staff y ward yn ymwybodol o Safonau'r Gymraeg a gwasanaethau cyfieithu, ac yn ymdrechu i'w cynnal, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y cyfle i gyfathrebu yn eu dewis iaith.<br><br>Yn ystod pandemig COVID-19, gan fod yr hysbysfyrddau hyn yn cael eu harddangos mewn ardaloedd sydd fel arfer yn cael eu defnyddio gan ymwelwyr, cydnabyddir y gallai'r protocolau rheoli heintiau llym oedd ar waith fod wedi arwain at anghysondebau yn y dull o arddangos yr wybodaeth ofynnol i gleifion.<br><br>Mae wedi bod yn ofynnol ystyried ymhellach y modd y caiff cleifion eu hysbysu am lefelau staff nyrsio ac o ran sicrhau dull cynhwysfawr o ymdrin â'r elfen benodol hon o'r Ddeddf. Anogir cleifion i ofyn cwestiynau ar y ward ac mae staff yn cefnogi dull agored a gonest o ymdrin â lefelau staff nyrsio. Mae staff y ward yn ymdrechu i gefnogi'r defnydd o dabledi a ffonau symudol er mwyn annog cyfathrebu rheolaidd rhwng cleifion a'u ffrindiau a'u teuluoedd.<br><br>Mae Rheolwyr Wardiau ac Uwch Reolwyr Nyrsio wedi cael canllawiau newydd ynghylch eu dyletswyddau i roi gwybodaeth i gleifion dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a gofynnir am sicrwydd yn rheolaidd drwy'r cyfarfodydd Gweithlu, Staffio a Nyrsio bod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni. Yn ystod 2024, bydd archwiliadau'n cael eu cynnal ar draws y wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B i fesur cydymffurfiad â'r gofynion rhoi gwybodaeth i gleifion, a bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu â |

| | |
|---|---|
| | Chyfarwyddwyr Nyrsio'r Gymuned Iechyd Integredig a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Cyswllt a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. |

**Adran 25E (2a) I ba raddau y caiff lefel y staff nyrsio ei chynnal**

Gan fod lefel y staff nyrsio yn cael ei diffinio dan Ddeddf 2016 fel un sy'n cynnwys y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd *a'r* lefelau staffio gofynnol, dylai'r adran hon roi sicrwydd ynghylch i ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal *a* sut mae'r lefelau staffio gofynnol ar gyfer wardiau Adran 25B wedi'u cyflawni/cynnal dros y cyfnod adrodd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion ar ddiwedd y cyfnod adrodd diwethaf (5 Ebrill 2021)** | **Nifer y wardiau: 35** | | | |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE): 736.73 WTE** | | | |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE): 574.04 WTE** | | | |
| **I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion** | | | **2021/2022** | **2022/2023** | **2023/2024** |
| | **Nifer y staff gofynnol (WTE) ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a gyfrifwyd yn ystod y cylch cyntaf (Mai)** | **Nifer y wardiau:** | **37** | **39** | **42** |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | **756.76** | **803.58** | **813.94** |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | **554.04** | **687.81** | **730.47** |
| | **Nifer y staff gofynnol WTE ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a ariannwyd yn dilyn y cylch cyfrifo cyntaf (Mai)** | **Nifer y wardiau:** | **35** | **39** | **42** |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | **721.43** | **750.62** | **792.73** |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | **514.05** | **522.55** | **541.43** |
| | **Nifer y staff gofynnol (WTE) ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a gyfrifwyd yn ystod yr ail gylch (Tach)** | **Nifer y wardiau:** | **39** | **40** | **43** |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | **811.80** | **790.83** | **839.40** |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | **670.92** | **706.13** | **759.51** |
| | **Nifer y staff gofynnol WTE ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a ariannwyd yn dilyn yr ail gylch cyfrifo (Tach)** | **Nifer y wardiau:** | **39** | **40** | **43** |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | **736.50** | **768.81** | **836.98** |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | **520.44** | **527.20** | **741.30** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prif nyrsys Band 7 Ychwanegol WTE (wedi'u hariannu ond wedi'u heithrio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd)** | **WTE:** | **39** | **40** | **43** |

**Naratif cysylltiedig:**

Mae nifer y wardiau Adran 25B wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd ac ar rai o'r wardiau hyn mae'r lefelau staffio gofynnol cysylltiedig hefyd wedi newid. I gael rhagor o fanylion am wardiau unigol a'u lefelau staffio gofynnol, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r rhain, cymerwch gip ar yr adroddiadau sicrwydd blynyddol.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw lefel y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn.

Yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol, roedd pwysau Covid-19 yn ei gwneud yn anodd ar adegau i wahaniaethu rhwng y sylfaen o welyau a fyddai fel arfer yn rhan o ofynion Adran 25B, a'r rheini a fyddai'n cael eu heithrio. Wrth i'r sefydliad ailddechrau 'busnes fel arfer', mae gwasanaethau wedi cael cyfle i adolygu ac ailystyried eu hamgylcheddau clinigol yn ogystal â newidiadau hysbys eraill, fel ailddechrau gweithgareddau gofal dewisol a gofal wedi'i gynllunio. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae cynnydd mewn aciwtedd cleifion, dibyniaeth a niwed a gofnodwyd wedi effeithio ar ofynion staffio ar draws y gwasanaethau, yn bennaf gan fod angen mwy o weithwyr cymorth gofal iechyd.

Mae goblygiadau ariannol y cyfrifiadau staff nyrsio chwemisol yn cael eu hystyried yng nghylch cynllunio ariannol blynyddol y byrddau iechyd. Fodd bynnag, os bydd y cyfrifiadau staff nyrsio yn pennu bod angen newid y lefelau staffio ar wardiau hy cynnydd neu ostyngiad yn nifer y nyrsys sydd eu hangen, gellir bwrw ymlaen â hyn gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio i sicrhau bod gofal nyrsio sensitif ac amserol yn cael ei ddarparu i gleifion. Mae pob ward sy'n ymwneud ag Adran 25B yn gallu recriwtio a staffio i'r lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd, gan ddefnyddio staff dros dro yn ôl yr angen er mwyn cyflawni'r lefelau hyn. Yn ystod cyfnod adrodd 2023/2024 buddsoddwyd yn sylweddol yn y lefelau staffio a ariennir ar draws wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B fel y dangosir yn y tabl uchod.

<u>Datblygiadau a phrosesau ar gyfer cyflawni'r lefelau staffio gofynnol ar draws pob ward Adran 25B (oedolion a phediatrig):</u>

Fel bwrdd iechyd, mae gwaith sylfaenol wedi cael ei gyflawni i sicrhau cynlluniau ar gyfer cynnal lefelau staff nyrsio a chydymffurfiad â Deddf 2016 hyd yma, ac mae'n parhau. Mae datblygiad parhaus wrth i fwy o wybodaeth, dadansoddi a dealltwriaeth gael eu meithrin yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r bwrdd iechyd yn cymryd amrywiaeth o gamau tymor byr a thymor hir i wella i ba raddau y mae gweithlu digonol ar gael i gyflawni'r lefelau staffio gofynnol o nyrsys cofrestredig (RN) a gweithwyr cymorth gofal iechyd (HCSW) ar draws pob lleoliad iechyd. Mae Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio'n agos gydag uwch gydweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth i recriwtio a chadw cynifer o fentrau staff nyrsio a bydwreigiaeth â phosibl sydd wedi cynnwys:

| | |
|---|---|
| | • Creu swyddi allweddol ym maes Nyrsio Corfforaethol gan ganolbwyntio ar staffio a'r gweithlu nyrsio<br>• Mentrau sy'n cael eu harwain gan y timau Gwasanaethau Pobl a Nyrsio Corfforaethol i ddatblygu a gweithredu dulliau arloesol o recriwtio nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd<br>• Mentrau recriwtio llwyddiannus sydd wedi arwain at benodi i swyddi staffio parhaol a dros dro<br>• Parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Cymru Gyfan ar gyfer Recriwtio Nyrsys Rhyngwladol gyda 230 o Nyrsys a Addysgwyd yn Rhyngwladol FTE wedi'u recriwtio ers mis Hydref 2022. Cyn Rhaglen Cymru Gyfan ar gyfer Recriwtio Nyrsys Rhyngwladol, ond o fewn y cyfnod adrodd o hyd, croesawodd BIPBC 178 o nyrsys rhyngwladol FTE ychwanegol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2022.<br>• Sefydlu swyddogion cymorth bugeiliol i sicrhau bod Nyrsys Rhyngwladol yn setlo'n dda a bod ganddynt yrfa foddhaus a gwerth chweil yn BIPBC<br>• Parhau i ymgysylltu â'r broses o benodi nyrsys sydd newydd raddio drwy'r broses symleiddio<br>• Cynllunio'r gweithlu'n flynyddol sy'n sail i gomisiynu addysg nyrsio<br>• Datblygu gyrfaoedd gweithwyr cymorth gofal iechyd drwy gwblhau Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Lefel 2 a Lefel 3 sy'n eu galluogi i symud ymlaen i Dystysgrif Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd.<br>• Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygu gweithwyr cymorth gofal iechyd drwy gymhwyster Tystysgrif Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd llwybr carlam ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogir gan y sefydliad sy'n arwain at hyfforddiant nyrsio cyn cofrestru, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu meithrin ein staff ein hunain. Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cynnwys llwybrau'r Brifysgol Agored a Baglor mewn Nyrsio Rhan-amser<br>• Cefnogi datblygiad gyrfa gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflogir gan y bwrdd iechyd sydd â chofrestriad nyrsio rhyngwladol i symud ymlaen i fod yn nyrs gofrestredig Band 5 ar ôl cwblhau Archwiliad Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig yn llwyddiannus.<br>• Diweddaru a gweithredu proses llwybr carlam ar gyfer myfyrwyr nyrsio sy'n dymuno ymuno â'r banc fel gweithwyr cymorth gofal iechyd<br>• Cyflwyno rolau ychwanegol i gefnogi staff nyrsio fel Ymarferwyr Cynorthwyol, Gweithwyr Cymorth Dementia, Swyddogion Olrhain Cynnydd, Swyddogion Cadw Tŷ ac ati.<br>• Roedd Ymarferwyr Cynorthwyol (Band 4) wedi integreiddio'n dda o fewn y lefelau staffio, ac maen nhw'n ymgymryd â dyletswyddau estynedig ar sail asesu cymhwysedd yn unol â Fframwaith Cymru Gyfan. Gwaith parhaus yn genedlaethol i geisio rheoleiddio/cofrestru'r gweithwyr gofal hyn yn broffesiynol.<br>• Adolygu a gwella fframwaith gyrfaoedd BIPBC yn barhaus<br>• Gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion lleol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i recriwtio a chadw staff, gan gynnwys cyfleoedd arloesol ar gyfer datblygu myfyrwyr ôl-raddedig<br>• Buddsoddiad parhaus mewn addysg a datblygiad staff gan gynnwys tanysgrifiad i Sefydliad Florence Nightingale, Modiwlau Sgiliau Clinigol a rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gaiff ei hwyluso'n fewnol i sicrhau bod ystod eang o gyfleoedd ar gael i staff<br>• Adolygiadau blynyddol o lefelau staffio ar gyfer meysydd sydd wedi'u heithrio o Adran 25B o'r Ddeddf i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu digon o nyrsys i'w galluogi i ofalu am gleifion mewn modd sensitif lle bynnag y bydd gwasanaethau nyrsio'n cael eu darparu neu eu comisiynu. |

| | |
|---|---|
| | • Datblygu Dangosfyrddau Gweithlu i sicrhau bod gwybodaeth am staff nyrsio ar gael yn rhwydd i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol.<br>• Datblygu Protocol Gweithredu Safonol Optimeiddio Gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth a chyflwyno Adolygiadau optimeiddio gweithlu nyrsio gweithredol bob chwarter gan ganolbwyntio ar fesurau perfformiad allweddol y gweithlu fel lefelau staffio, swyddi gwag, recriwtio, cydymffurfiad â'r rhestr ddyletswyddau a defnyddio staff dros dro.<br>• Cyflwyno SafeCare RL Datix i'r holl wardiau cleifion mewnol mewn ysbytai cymunedol, wardiau cleifion mewnol pediatrig acíwt, a wardiau cleifion mewnol Iechyd Meddwl acíwt.<br>• Cyflwyno Wagestream i sicrhau lles a hyblygrwydd ariannol i'r holl staff<br>• Mae'r cymorth Iechyd a Lles Seicolegol / Emosiynol i staff wedi cael ei gryfhau ac mae'n parhau i gael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod pecyn cadarn ar waith ar gyfer staff.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod ffocws cryf ar gadw staff gyda rhaglenni preseptoriaeth ar gyfer graddedigion newydd, ethos o gefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu staff, a'r gallu i ddarparu cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith a chanolbwyntio ar foddhad staff o ran gwaith. Mae'r sefydliad wedi croesawu cefnogaeth gan arweinydd cadw staff penodedig AaGIC am gyfnod penodol o 2 flynedd i gefnogi'r sefydliad i gyflawni amcanion sy'n cyd-fynd â'r cynllun cadw staff cenedlaethol. Mae Strategaeth a Chynllun Pobl BIPBC yn gyfrwng hanfodol ar gyfer galluogi gweithlu nyrsio cynaliadwy i gael ei ddarparu, sy'n cael ei gefnogi ymhellach gan Gynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Cymru Gyfan a'r Cynllun Cadw Nyrsys dilynol, sy'n canolbwyntio ar gadw staff ac arloesi.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r lefelau staffio a ariennir ar draws wardiau Adran 25B[3] ar gyfer swyddi nyrsio cofrestredig wedi cynyddu o 901.5 (WTE) ym mis Ebrill 2021 i 973.3 (WTE) ym mis Ionawr 2024, cynnydd cyffredinol a ariennir o 71.8 (WTE). Mae nifer y staff nyrsio cofrestredig mewn swyddi wedi cynyddu hefyd ar draws y cyfnod o 725.9 (WTE) ym mis Ebrill 2021 i 816.1 (WTE) ym mis Ionawr 2024, cynnydd o 90.2 (WTE). Mae recriwtio'n llwyddiannus i wardiau Adran 25B wedi golygu bod y cyfraddau swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yn y meysydd hyn wedi gostwng o 19.5% (Ebrill 2021) i 16.1% (Ionawr 2024).<br><br>Ar draws y lefelau staffio a ariennir ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd ar wardiau Adran 25B[3], mae'r swyddi wedi cynyddu o 602.3 (WTE) ym mis Ebrill 2021 i 825.1 (WTE) ym mis Ionawr 2024, cynnydd cyffredinol a ariennir o 222.8 (WTE). Mae nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd mewn swyddi hefyd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod o 622.5 (WTE) ym mis Ebrill 2021 i 733.5 (WTE) ym mis Ionawr 2024, cynnydd o 111 (WTE). Yn dilyn y buddsoddiad sylweddol yn y lefelau staffio a ariennir o ran gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ystod 2023/2024, cododd y gyfradd swyddi gwag ar gyfer y grŵp staff hwn i ddechrau i 16.8% yn ystod mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, mae recriwtio llwyddiannus wedi arwain at ostyngiad o fis i fis i'w lefel bresennol o 11.1% (Ionawr 2024). |

[3] Yn berthnasol i'r wardiau hynny sy'n ymwneud ag Adran 25B ar 31 Ionawr 2024. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd nifer y wardiau sy'n ymwneud ag Adran 25B wedi amrywio drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol pediatrig cyn ymestyn ail ddyletswydd y Ddeddf (Hydref 2021)** | **Nifer y wardiau: 3** | | | |
| | | **Nyrsys Cofrestredig: 83.46** | | | |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd: 31.27** | | | |
| **I ba raddau y mae'r lefelau staffio gofynnol wedi'u cynnal ar wardiau cleifion mewnol pediatrig**<br><br>Sylwer: Cyflwynwyd y cyfrifiad cyntaf ym maes pediatreg i'r Bwrdd ym mis Medi 2021 cyn ymestyn yr ail ddyletswydd i'r Ddeddf ar 1 Hydref 2021. | | | **2021/2022** | **2022/2023** | **2023/2024** |
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol pediatrig a gyfrifwyd yn ystod y cylch cyntaf (Mai)** | **Nifer y wardiau:** | | 3 | 3 |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | | 83.46 | 83.46 |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | | 31.27 | 31.27 |
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol pediatrig a ariannwyd yn dilyn y cylch cyfrifo cyntaf (Mai)** | **Nifer y wardiau:** | | 3 | 3 |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | | 79.45 | 79.45 |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | | 31.27 | 31.27 |
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol pediatrig a gyfrifwyd yn ystod yr ail gylch (Tach)** | **Nifer y wardiau:** | 3 | 3 | 3 |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | 83.46 | 83.46 | 83.46 |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | 31.27 | 31.27 | 31.27 |
| | **Lefelau staffio gofynnol (WTE) wardiau cleifion mewnol pediatrig a ariannwyd yn dilyn yr ail gylch cyfrifo (Tach)** | **Nifer y wardiau:** | 3 | 3 | 3 |
| | | **Nyrsys Cofrestredig (WTE):** | 65.5 | 79.45 | 80.98 |
| | | **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (WTE):** | 15.01 | 31.27 | 28.95 |
| | **Prif nyrsys Band 7 Ychwanegol WTE (wedi'u hariannu ond wedi'u heithrio o'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd)** | **WTE:** | 3 | 3 | 3 |

**Naratif cysylltiedig:**

I gael rhagor o fanylion am wardiau unigol a'u lefelau staffio gofynnol, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r rhain, cymerwch gip ar yr adroddiadau sicrwydd blynyddol.

Yn unol â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i Chanllawiau Statudol cysylltiedig, y 'lefel staff nyrsio' yw lefel y nyrsys cofrestredig – a staff eraill y mae dyletswyddau nyrsio wedi'u dirprwyo iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n ofynnol i gyflawni'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd. Cydnabyddir bod amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ychwanegol sy'n cyfrannu at ddarparu a chydlynu gofal a thriniaeth cleifion. Fodd bynnag, nid yw'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer yr adroddiad hwn.

<table>
<tr><td></td><td>Cyn ymestyn y Ddeddf i gynnwys unedau cleifion mewnol pediatrig, cafodd y lefelau staffio diwygiedig a gyfrifwyd ar gyfer wardiau pediatrig, gan ddefnyddio'r dull trionglog, eu cyflwyno a'u cydnabod gan y Tîm Gweithredol a'u nodi gan y bwrdd iechyd ym mis Medi 2021.<br><br>Nid yw nifer y wardiau Adran 25B ym maes pediatreg wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd ac ni wnaed unrhyw newidiadau i'r lefelau staffio gofynnol. Mae manylion wardiau unigol a lefelau staff nyrsio a gyfrifwyd ar gael yn atodiadau'r adroddiad sicrwydd blynyddol.<br><br>Cafodd goblygiadau ariannol yr adolygiadau eu hystyried yn ystod cylchoedd cynllunio ariannol y bwrdd iechyd, ond er mwyn sicrhau bod gofal nyrsio sensitif ac amserol yn cael ei ddarparu i gleifion, roedd pob ward sy'n ymwneud ag Adran 25B yn gallu recriwtio a staffio i'r lefel staffio ofynnol gan ddefnyddio staff dros dro yn ôl yr angen er mwyn cyflawni'r rhain.</td></tr>
<tr><td>I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar <u>wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion</u></td><td>
<table>
<tr><th></th><th>Cyfanswm y shifftiau</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Cyflawnrwydd data</th></tr>
<tr><td>2021/2022</td><td>43591</td><td>4311 (9.89%)</td><td>1578 (3.62%)</td><td>5632 (12.92%)</td><td>4985 (11.44%)</td><td>37.87%</td></tr>
<tr><td>2022/2023</td><td>44829</td><td>9286 (20.71%)</td><td>3315 (7.39%)</td><td>11980 (26.72%)</td><td>13974 (31.17%)</td><td>86.00%</td></tr>
<tr><td>2023/2024</td><td>38385</td><td>14451 (31.03%)</td><td>4216 (9.05%)</td><td>12150 (26.09%)</td><td>10862 (23.32%)</td><td>89.49%</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>I ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi'i chynnal ar <u>wardiau cleifion mewnol pediatrig</u></td><td>
<table>
<tr><th></th><th>Cyfanswm y shifftiau</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle cyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd a oedd yn briodol</th><th>Shifftiau lle na chyflawnwyd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd nad oedd yn briodol</th><th>Cyflawnrwydd data</th></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021/2022**[4] | 906 | 453 (50%) | 21 (2%) | 215 (24%) | 198 (22%) | 98.70% |
| **2022/2023** | 2264 | 1165 (51.46%) | 71 (3.14%) | 601 (26.55%) | 394 (17.39%) | 98.54% |
| **2023/2024** | 3142 | 2066 (65.75%) | 145 (4.61%) | 578 (18.40%) | 151 (4.81%) | 93.57% |

**Naratif cysylltiedig:**

Mae GIG Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio system wybodeg genedlaethol y gellir ei defnyddio fel storfa ganolog ar gyfer casglu data i ddangos i ba raddau y mae'r lefelau staff nyrsio wedi'u cynnal ac i roi sicrwydd bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i gynnal y lefelau staff nyrsio sy'n ofynnol. Mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud ar draws GIG Cymru i roi system wybodeg genedlaethol ar waith i alluogi ymddiriedolaethau/byrddau iechyd i fodloni gofynion adrodd y Ddeddf a dilyn dull Unwaith i Gymru er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae pob bwrdd iechyd wedi gweithredu system SafeCare RL Datix (Allocate gynt) ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod adrodd o 3 blynedd ac wedi dibynnu ar ddefnyddio'r System Monitro Gofal Iechyd, sydd wedi cael ei haddasu i sicrhau cysondeb o ran casglu a dadansoddi data er mwyn helpu i adrodd yn ystod rhan gyntaf y cyfnod adrodd.

Cyn yr arweiniad cenedlaethol, roedd BIPBC wedi rhoi SafeCare ar waith ar draws pob un o'i wardiau llawfeddygol a meddygol acíwt i oedolion dan Adran 25B, ac roedd y system ar waith ar y wardiau cleifion mewnol pediatrig ym mis Mehefin 2023. Er bod SafeCare wedi cael ei rhoi ar waith, mae ymddiriedolaethau/byrddau iechyd hefyd wedi defnyddio'r System Monitro Gofal Iechyd (HCMS) sydd wedi cael ei haddasu i sicrhau cysondeb wrth gasglu a dadansoddi data er mwyn helpu i adrodd.

Oherwydd y trefniadau pontio lle mae ymddiriedolaethau/byrddau iechyd yn rhoi system SafeCare RL Datix ar waith ochr yn ochr â'r HCMS i gasglu'r data sydd ei angen i lywio'r gwaith o gyfrifo ac adrodd ar lefel y staff nyrsio, bydd y data a gyflwynir yn y tablau uchod yn gyfuniad o wybodaeth a gynhyrchir gan SafeCare a HCMS. O fewn BIPBC, mae'r holl ddata a gyflwynir ar gyfer y wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion yn cael ei gynhyrchu gan SafeCare tra bod data'r wardiau cleifion mewnol pediatrig wedi'i gynhyrchu gan SafeCare a HCMS ar gyfer y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r wybodaeth a adroddwyd ar gyfer i ba raddau y mae'r rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd gan SafeCare yn seiliedig ar y shifftiau Cynnar, Hwyr a Nos yn unig, yn cynnwys staff parhaol a staff dros dro fel y'u cofnodwyd ar y rhestrau, a'r ymateb a ddarparwyd gan y nyrs â gofal ynghylch priodoldeb y lefelau staffio i ddiwallu anghenion gofal cleifion ar bob un o'r sifftiau hyn.

[4] Gan na chafodd y Ddeddf ei hymestyn i Bediatreg tan 1 Hydref 2021, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth o 1 Hydref 2021 ymlaen

| | |
|---|---|
| | 2021/2022 oedd y flwyddyn gyntaf o adrodd yn y ffordd hon ac wrth ddadansoddi'r data daeth yn amlwg bod dilysrwydd a chywirdeb data ar hyn o bryd yn annibynadwy ac yn anghyflawn. Er enghraifft, roedd y set ddata a oedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch priodoldeb staffio ar bob shifft wedi arwain at lefel cydymffurfio isel o 37.87% ar draws y cyfnod adrodd. Mae gwelliannau cadarnhaol yn y system SafeCare a'r trefniadau monitro sydd ar waith ar draws y bwrdd iechyd wedi arwain at gynnydd mewn cydymffurfiad data yn ystod y cyfnodau adrodd diweddarach.<br><br>Mae BIPBC wedi gweithio'n agos gyda Grŵp Gweithredu SafeCare Cymru Gyfan i gefnogi a sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru. Mae Gweithdrefn Gweithredu Safonol SafeCare Cymru Gyfan wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei defnyddio ar draws BIPBC. Mae gwelliannau'n dal i gael eu gwneud i'r system SafeCare i sicrhau bod modd bodloni gofynion adrodd y Ddeddf. |
| **Proses ar gyfer cynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer wardiau Adran 25B** | Mae canllawiau statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn mynnu bod y bwrdd iechyd yn cymryd 'pob cam rhesymol' i gynnal ei lefelau staffio. Fel bwrdd iechyd, mae gwaith sylfaenol wedi cael ei gyflawni i sicrhau cynlluniau ar gyfer cynnal lefelau staff nyrsio a chydymffurfiad â Deddf 2016 hyd yma, ac mae'n parhau. Mae datblygiad parhaus wrth i fwy o wybodaeth, dadansoddi a dealltwriaeth gael eu meithrin yn lleol ac yn genedlaethol.<br><br>Mae effaith barhaus Covid 19, cyfraddau swyddi gwag ac amrywioldeb yn y cymysgedd sgiliau yn parhau i fod yn her na ellir ei thanbrisio. Mae cymhwysedd, sgiliau a phrofiad y nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion yn elfen hanfodol sydd wedi dylanwadu ar y gofynion staff nyrsio yn y cyfrifiad chwemisol.<br><br>Mae timau gweithredol yn defnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau bod y lefelau staffio yn cael eu cynnal lle bynnag y bo modd – a, lle nad yw'n bosibl, yn cael eu lliniaru, gan roi sylw hefyd i ddyletswydd gyffredinol y bwrdd iechyd o ddarparu digon o nyrsys i roi amser iddynt ofalu am gleifion mewn modd sensitif. Mae prosesau sefydledig ar waith o fewn strwythurau nyrsio'r Cymunedau Iechyd Integredig sy'n caniatáu ar gyfer adolygu lefelau staff nyrsio yn weithredol bob dydd, ac yn cefnogi penderfyniadau gweithredol sy'n seiliedig ar risg ynghylch lleoli staff.<br><br>Mae'r broses ar gyfer cynnal lefelau staff nyrsio yn un barhaus sy'n cynnwys cynllunio tymor hir a thymor byr. Nodir isod enghreifftiau penodol o gamau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd ar lefelau strategol/corfforaethol a gweithredol, gan ddangos bod "pob cam rhesymol" wedi cael eu harchwilio a/neu eu cymryd er mwyn cynnal lefelau staffio, nid yn unig o fewn wardiau Adran 25B ond ar draws holl wasanaethau'r bwrdd iechyd:<br><br>• Mae system SafeCare RL Datix yn darparu data amser real mewn perthynas â staffio, cymysgedd sgiliau ac aciwtedd cleifion. Mae'r system yn cael ei hadolygu fesul shifft (o leiaf) gan yr Uwch Dimau Nyrsio. Mae'r system, yn ogystal â barn broffesiynol, yn galluogi adnoddau i gael eu hadleoli dros dro i gefnogi gofal amserol a sensitif i gleifion.<br>• Cyfarfodydd gweithredol dyddiol ar y safle sy'n cynnwys trafodaethau sy'n ymwneud â chapasiti, staffio a risgiau'r system i lywio penderfyniadau ynghylch agor/cau capasiti ychwanegol, gofal wedi'i gynllunio ac adleoli'r staff sydd ar gael.<br>• Tîm rheoli safleoedd clinigol a threfniadau ar alwad ar waith sy'n darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth 24/7 i'r holl wasanaethau |

| | |
|---|---|
| | • Mae prosesau uwchgyfeirio staff nyrsio wedi'u hamlinellu ym Mholisi Lefelau Staff Nyrsio BIPBC a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig BIPBC<br>• Mae Rheolwyr Ward Band 7 yn ychwanegol fel arfer, ond byddant wedi cael eu cynnwys yn y nifer sy'n darparu gofal ar adegau pan fydd capasiti ar ei uchaf ac yn y nifer sy'n cyflenwi ar ran staff sy'n absennol/sâl.<br>• Lle bo'n briodol, mae absenoldeb astudio a chyfarfodydd nad ydynt yn hanfodol yn cael eu gohirio<br>• Cynnig i staff weithio oriau ychwanegol neu oramser i gefnogi eu meysydd<br>• Defnyddio gweithlu dros dro – mae unrhyw fylchau na ellir eu llenwi gan staff parhaol yn cael eu tendro ymlaen llaw i dîm y gweithlu dros dro er mwyn optimeiddio'r gyfradd lenwi. Lle bo'n briodol, cefnogir archebu bloc i sicrhau sefydlogrwydd, a gweithwyr rheolaidd i gynorthwyo parhad<br>• Rheolwyr nyrsio a thimau nyrsio corfforaethol/nad ydynt yn wynebu cleifion yn cael eu defnyddio i gefnogi eu meysydd clinigol er mwyn cynnal lefelau staff nyrsio, ac iechyd a lles staff drwy sicrhau seibiannau priodol<br>• Cynnydd yn y lefelau staffio Band 6 ar draws wardiau penodol sy'n ymwneud ag Adran 25B gyda'r prif bwrpas o gryfhau cefnogaeth uwch y tu allan i oriau, ar yr un pryd â gwella datblygiad ac arweinyddiaeth broffesiynol.<br>• Perthynas waith agos â gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a chydweithwyr nad ydynt yn nyrsio er mwyn defnyddio cymorth ychwanegol pan nad yw staff nyrsio ar gael, er enghraifft, staff cymorth therapi/staff theatr/fferylliaeth a swyddogion olrhain cynnydd gweinyddol<br>• Adrodd am achosion posibl o staff nyrsio yn rhoi gofal a/neu brofiad cleifion yn y fantol drwy system ac adolygiad Datix.<br>• Optimeiddio rhestrau dyletswyddau – sicrhau bod yr holl restri'n cael eu cwblhau yn unol â Pholisi Rhestru Dyletswyddau WP28a. Mae'r rhestrau'n amodol ar broses gymeradwyo ddwbl sy'n cael ei monitro gan yr uwch dîm nyrsio i sicrhau rhestrau diogel ac effeithiol |

## Adran 25E(2b) Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion

| Digwyddiadau o niwed i gleifion gan gyfeirio at ddangosyddion ansawdd a chwynion am ofal nyrsio | Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio) | Codymau sy'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth (hy Digwyddiadau 4 a 5). | Digwyddiadau byth o ran gwallau gyda meddyginiaethau | Unrhyw gwynion a ddaeth i law am ofal nyrsio (NODER: Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella)) |
|---|---|---|---|---|
| | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r rhai a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.** | **Blwyddyn 1** | 147 | 41 | 3 | 3 |
| | **Blwyddyn 2** | 185 | 40 | 0 | 3 |
| | **Blwyddyn 3** | 46 | 12 | 0 | 3 |
| **Cyfanswm nifer y digwyddiadau/cwynion heb eu cau ac i'w hadrodd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf** | **CYFANSWM** | 20 | 1 | 0 | 3 |
| **Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal** | **Blwyddyn 1** | 0 | 1 | 0 | 0 |
| | **Blwyddyn 2** | 24 | 2 | 0 | 0 |
| | **Blwyddyn 3** | 8 | 1 | 0 | 0 |
| **Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol** | **Blwyddyn 1** | 0 | 1 | 0 | 0 |
| | **Blwyddyn 2** | 13 | 0 | 0 | 0 |
| | **Blwyddyn 3** | 3 | 0 | 0 | 0 |

Yn seiliedig ar adolygiad o adroddiadau 3 blynedd cyntaf yr ymddiriedolaethau/byrddau iechyd ac adborth gan arweinwyr gweithredol ar eu profiad o gwblhau'r adroddiadau, cyflwynwyd adroddiad i Gyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru yn 2021 yn gofyn am adolygiad o'r broses adrodd bresennol. Sefydlwyd is-grŵp o Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i wella a mireinio'r broses adrodd, safoni adrodd yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd[5] a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[6] ac ehangu cwmpas adrodd digwyddiadau o niwed er mwyn darparu data mwy ystyrlon.

Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion yr Is-grŵp Adrodd i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol ym mis Awst 2023 a gymeradwyodd yr argymhellion i ddod i rym o'r cyfnod adrodd nesaf hy 6 Ebrill 2024 – 5 Ebrill 2025. Bydd y dangosyddion ansawdd y cytunwyd arnynt ar gyfer y wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion o 6 Ebrill 2024 ymlaen fel a ganlyn:

- Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hosgoi (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio).

[5] Dyletswydd Gonestrwydd y GIG|LLYW.CYMRU
[6] Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb | LLYW.CYMRU

- Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (hy digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5).
- Gwallau o ran meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (hy digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth).
- Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella))

Y data i'w adrodd ar gyfer pob un o'r uchod fydd:

- Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r rhai a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.
- Cyfanswm nifer y digwyddiadau/cwynion heb eu cau ac i'w hadrodd yn ystod y flwyddyn nesaf
- Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal

- Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol
- Nifer y digwyddiadau/cwynion pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal
- Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny pan ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.

Ar ôl i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol gytuno ar yr argymhellion ym mis Awst 2023, daeth yn amlwg y byddai'r Ddyletswydd Gonestrwydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, yn effeithio ar y metrigau adrodd yn yr adroddiadau sicrwydd blynyddol gan fod adroddiadau blaenorol wedi adrodd ar y niwed gwirioneddol a gafwyd heb ei ddilysu, yn hytrach na nifer y digwyddiadau y canfuwyd eu bod yn deillio o weithred neu hepgoriad wrth dderbyn Gofal y GIG. Felly, i gyd-fynd â'r gwaith o adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion i Lywodraeth Cymru o 6 Ebrill 2023 ymlaen, bydd yr adroddiad hwn, a'r holl adroddiadau yn y dyfodol, yn adrodd am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a gaewyd sydd wedi cael eu dilysu gyda lefel o niwed adroddadwy (yn unol â'r diffiniad o ddigwyddiad diogelwch cleifion) ac yn nodi a oedd y lefelau staff nyrsio wedi cyfrannu at y digwyddiad. O ganlyniad, gall nifer y digwyddiadau a adroddwyd yn yr adroddiad hwn, a'r adroddiadau sicrwydd blynyddol dilynol, fod yn is na'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn flaenorol, mae BIPBC wedi adrodd am friwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty yn ei gyfanrwydd ar gyfer digwyddiadau y gellid bod wedi eu hosgoi a digwyddiadau nad oedd modd eu hosgoi. Mae'r gwaith a wnaed ar sail Cymru gyfan wedi tynnu sylw at y ffaith bod hyn yn anghyson ag ymddiriedolaethau/byrddau iechyd eraill sydd ond adrodd am ddigwyddiadau y gellid bod wedi eu hosgoi. Yn unol â'r metrigau adrodd y cytunwyd arnynt ac i sicrhau cysondeb ledled Cymru o 6 Ebrill 2023 ymlaen, bydd BIPBC ddim ond yn adrodd am friwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty y gellid bod wedi eu hosgoi. Er mwyn bod yn dryloyw, mae nifer y digwyddiadau o friwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty na ellid bod wedi eu hosgoi (gradd 3, gradd 4 a heb eu graddio) a gofnodwyd yn ystod cyfnod adrodd 2023/2024 wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad sicrwydd blynyddol.

Gan fod ymchwiliadau i ddigwyddiadau o niwed yn aml yn gallu cymryd amser i ddod i gasgliad, roedd digwyddiadau o chwarter olaf adroddiad sicrwydd blynyddol Mai 2024 (atodiad 5) a oedd yn dal ar agor adeg cyflwyno'r adroddiad. Mae'r digwyddiadau yr adroddwyd eu bod ar agor i ddechrau, ac sydd wedi cau ers hynny, bellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad[7]. Er mwyn bod yn gyflawn, mae adroddiad sicrwydd blynyddol Mai 2024 a gyflwynwyd i'r

[7] Adran 25E Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion ac ar wardiau cleifion mewnol pediatrig

Bwrdd wedi'i gynnwys yn atodiad 7 gyda newidiadau wedi'u nodi i adlewyrchu'r sefyllfa adrodd bresennol. Bydd y digwyddiadau hynny sy'n dal ar agor (fel ym mis Awst 2024) yn cael eu cynnwys yn y cylch adrodd nesaf.

**Adran 25E(2b) Effaith ar ofal yn sgil peidio â chynnal y lefelau staff nyrsio ar wardiau cleifion mewnol pediatrig**

| Digwyddiadau o niwed i gleifion gan gyfeirio at ddangosyddion ansawdd a chwynion am ofal nyrsio | | Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio) | Codymau sy'n arwain at niwed difrifol neu farwolaeth (hy Digwyddiadau 4 a 5). | Digwyddiadau byth o ran gwallau gyda meddyginiaethau | Anafiadau treiddio ac elifiad | Unrhyw gwynion a ddaeth i law am ofal nyrsio (NODER: Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella)) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM | CYFANSWM |
| Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y cyfnod adrodd presennol. | Blwyddyn 1[8] | 0 | 0 | 0 | 2 | 11 |
| | Blwyddyn 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| | Blwyddyn 3 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0[9] |
| Cyfanswm nifer y digwyddiadau/cwynion heb eu cau ac i'w hadrodd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf | CYFANSWM | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal | Blwyddyn 1[8] | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| | Blwyddyn 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | Blwyddyn 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |

[8] Mae adroddiadau Blwyddyn 1 ar gyfer y wardiau cleifion mewnol pediatrig yn cynnwys digwyddiadau a chwynion a adroddwyd o 1 Hydref 2021 ymlaen yn unig, pan gafodd ail ddyletswydd y Ddeddf ei hymestyn i'r meysydd hyn

[9] Adroddwyd bod 2 yn wreiddiol mewn papur â chafeatau ym mis Mawrth 2024. Fodd bynnag, wrth adolygu ymhellach, nodwyd bod y rhain wedi cael eu hadrodd yn anghywir a'u dileu wedyn

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y digwyddiadau/cwynion pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal** | **Blwyddyn 1[8]** | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| | **Blwyddyn 2** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Blwyddyn 3** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Roedd gwaith yr Is-grŵp Adrodd, y soniwyd amdano'n flaenorol, yn cynnwys y mesurau ar gyfer y wardiau cleifion mewnol pediatrig ac fe gyflwynwyd y rhain i'r Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol ym mis Awst 2023, ynghyd â'r mesurau diwygiedig ar gyfer y wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion. Cytunwyd ar y newidiadau i'r mesurau pediatrig, gyda'r bwriad y bydd y mesurau diwygiedig yn dod i rym ar ddechrau'r cyfnod adrodd nesaf hy Ebrill 2024.

Bydd y dangosyddion ansawdd ar gyfer y wardiau cleifion mewnol pediatrig o 6 Ebrill 2024 fel a ganlyn:

- Briwiau pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ond y gellid bod wedi'u hosgoi (gradd 3, gradd 4 ac na ellir eu graddio).
- Codymau sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol neu farwolaeth (hy digwyddiadau lefel 3, lefel 4 a lefel 5).
- Gwallau o ran meddyginiaeth sy'n arwain at niwed cymedrol, niwed difrifol, marwolaeth a digwyddiadau byth (hy digwyddiadau lefel 3, lefel 4, lefel 5 a byth).
- Anafiadau treiddio ac elifiad
- Unrhyw gwynion am ofal nyrsio (Mae cwynion yn cyfeirio at y cwynion hynny a reolir o dan reoliadau cwynion GIG Cymru (Gweithio i Wella))

Y data i'w adrodd ar gyfer pob un o'r uchod o 6 Ebrill 2024 fydd:

- Nifer y digwyddiadau/cwynion a gaewyd yn ystod y flwyddyn gyfredol a'r rhai a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol.
- Cyfanswm nifer y digwyddiadau/cwynion heb eu cau ac i'w hadrodd yn ystod y flwyddyn nesaf
- Nifer y digwyddiadau/cwynion pan na chafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal
- Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny lle ystyriwyd bod methu â chynnal lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) wedi bod yn ffactor allweddol
- Nifer y digwyddiadau/cwynion pan gafodd lefel y staff nyrsio (rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd) ei chynnal
- Nifer y digwyddiadau/cwynion hynny pan ystyriwyd bod lefel y staff nyrsio wedi bod yn ffactor allweddol, hyd yn oed pan oedd y rhestr ddyletswyddau a gynlluniwyd wedi cael ei chynnal.

**Adran 25E (2c) Camau a gymerir os na chaiff lefel y staff nyrsio ei chynnal neu os nad yw'n briodol**

| | |
|---|---|
| **Camau a gymerwyd pan <u>na chafodd</u> lefel y staff nyrsio ei** | Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r broses ar gyfer cynnal lefelau staff nyrsio yn un barhaus sy'n cynnwys cynllunio tymor hir a thymor byr gyda chamau gweithredu'n cael eu cymryd ar lefelau strategol/corfforaethol a gweithredol, sy'n dangos bod "pob cam rhesymol" wedi cael eu harchwilio a/neu eu cymryd er mwyn cynnal lefelau staffio, nid yn unig o fewn wardiau Adran 25B ond ar draws holl wasanaethau'r bwrdd iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl gamau rhesymol a gafodd eu rhoi ar waith i leihau'r risg |

| | |
|---|---|
| **chynnal yn wardiau adran 25B** | pan na chafodd y lefel staff nyrsio ei chynnal gyda chamau gweithredu, lliniaru ac uwchgyfeirio priodol yn unol â Pholisi Lefelau Staff Nyrsio BIPBC a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig BIPBC<br><br>Mae'r effaith ar ansawdd gofal pan nad yw lefelau staff nyrsio wedi cael eu cynnal yn cael ei monitro'n weithredol gyda'r uwch dimau nyrsio yn defnyddio eu barn broffesiynol i sicrhau bod y lefelau staffio yn cael eu cynnal lle bo'n bosibl – a, lle nad yw'n bosibl, yn cael eu lliniaru. Yn ogystal â'r camau gweithredu a nodwyd uchod, mae'r isod hefyd yn cael eu cyflawni:<br><br>• Rhoi cymorth lles i staff lle bu diffygion staffio sylweddol yn barhaus a darparu sesiynau cymorth pwrpasol drwy'r Gwasanaeth Lles Staff<br>• Dysgu ar y cyd drwy gyfarfodydd misol y Rheolwyr Wardiau a'r Metronau<br>• Mwy o amlygrwydd i'r uwch dîm nyrsio (Metronau/ Penaethiaid Nyrsio / Cyfarwyddwyr Nyrsio) a thîm y Gwasanaeth Cymorth Cyswllt a Chyngor i Gleifion (PALS) (lle bo'n briodol) drwy deithiau cerdded/archwiliadau/arolygon adborth cleifion<br>• Mae adolygiadau dyddiol o ddigwyddiadau yn y Gymuned Iechyd Integredig a'r Uwch Adrannau gyda Phenaethiaid Nyrsio a Metronau yn rhoi cipolwg ar y digwyddiadau o Godymau a Briwiau Pwyso a Gafwyd yn yr Ysbyty (HAPU) a adroddwyd, gan alluogi adolygiad cychwynnol o fewn yr amserlen darged, sef o fewn 24 awr i adrodd ac adolygiad penodol o fewn 72 awr gyda digwyddiadau mawr a thrychinebus yn cael eu huwchgyfeirio<br>• Mae cyfarfodydd wythnosol ar waith i graffu ar niwed a chaiff y rhain eu cefnogi gan arweinwyr perthnasol ee nyrsys datblygu ymarfer, hyrwyddwyr codymau, nyrsys arweiniol HAPU.<br>• Mwy o weithgarwch archwilio mewn meysydd sy'n peri pryder i gefnogi gwaith gwella<br>• Fframwaith Sicrhau Ansawdd Nyrsio - i sicrhau bod archwiliadau trylwyr yn cael eu cynnal ym mhob maes clinigol i gefnogi Achredu Wardiau |
| **Casgliad ac Argymhellion** | Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod y bwrdd iechyd, yn unol â chanllawiau statudol, yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.<br><br>Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae lefelau staff nyrsio ar gyfer pob lleoliad gofal iechyd ar draws BIPBC wedi cael eu cyfrifo ar lefel sy'n dangos yr ymrwymiad i ystyried pwysigrwydd darparu digon o nyrsys i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion mewn modd sensitif. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi sicrhau bod y lefelau staffio ar gyfer pob ward a maes ar draws BIPBC sy'n gofalu am gleifion mewnol wedi'u pennu a, lle bo'n bosibl, eu cynnal. Pan nad yw wedi bod yn bosibl cynnal lefelau staffio, mae'r camau gweithredu a'r mesurau lliniaru ac uwchgyfeirio priodol wedi bod yn unol â Pholisi Lefelau Staff Nyrsio BIPBC a Pholisi Uwchgyfeirio Pediatrig BIPBC<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd 3 blynedd hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflawni'r canlynol:<br><br>• Buddsoddiadau sylweddol yn y lefelau staff nyrsio a ariennir sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau lefelau staff nyrsio priodol<br>• Llwyddo i recriwtio nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd gyda chynnydd amlwg ar draws y ddau grŵp staff |

| | |
|---|---|
| | • Dull strwythuredig ffurfiol o adolygu lefelau staff nyrsio sy'n ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y maes nyrsio, gwasanaethau pobl a chyllid i lywio a chefnogi'r broses<br>• Ymgysylltu ar lefel genedlaethol â Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan sydd wedi gweld BIPBC yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gefnogi a phrofi'r gwaith o wella'r system SafeCare i gefnogi gofynion adrodd<br>• Datblygu dangosfyrddau mewnol i gefnogi'r broses strategol a gweithredol o oruchwylio lefelau staff nyrsio<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ymdrechu i gynnal ac adeiladu ar y cyflawniadau hyn, a gofynnir i'r Bwrdd nodi a chefnogi'r camau nesaf canlynol:<br><br>1. Parhau â'r strategaethau recriwtio a chadw gweithlu nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd niferus ac amrywiol i sicrhau 'cyflenwad' o weithlu nyrsio i gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw lefelau'r staff nyrsio. Bydd Strategaeth a Chynllun Pobl BIPBC yn gyfrwng hanfodol ar gyfer galluogi'r flaenoriaeth allweddol hon i gael ei chyflawni, a bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach gan Gynllun Gweithredu Gweithlu Cenedlaethol Cymru Gyfan a'r Cynllun Cadw Nyrsys dilynol, sy'n canolbwyntio ar gadw staff ac arloesi.<br>2. Datblygu a gwerthuso cyfleoedd rôl amgen ymhellach wrth adolygu lefelau staff nyrsio<br>3. Parhad prosiectau cydweithio sy'n seiliedig ar wella ansawdd i helpu i leihau amrywiaeth a lleihau niwed, gydag agwedd dim goddefgarwch<br>4. Sicrhau bod y gwelliannau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i systemau adrodd/ymchwilio i ddigwyddiadau a chwynion Datix 'Unwaith i Gymru' yn cael eu gwreiddio yn y bwrdd iechyd i gryfhau elfen 'dangosydd ansawdd' y dull trionglog o gyfrifo lefelau staff nyrsio.<br>5. Parhau i ddatblygu a gwella dangosfyrddau adrodd, er mwyn gallu dadansoddi data'r gweithlu a chleifion i gefnogi a llywio penderfyniadau'r gweithlu nyrsio<br>6. Parhau i ymgysylltu â Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig, gan gynnwys grwpiau gweithlu amlbroffesiynol ac adrodd. |
| **Atodiadau** | PDF Appendix 1 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 2 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 3 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 4 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 5 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 6 - Annual Assurance R<br>PDF Appendix 7 - Annual Assurance R |

<table>
<tr><td colspan="1">Teitl yr adroddiad:<br><br>Report title:</td><td colspan="4">Diweddariad ar argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU i gefnogi trafodaethau ar y camau nesaf</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br><br>Report to:</td><td colspan="4">Bwrdd Iechyd – sesiwn gyhoeddus</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br><br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">Thursday, 26 September 2024</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br><br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi’r canlynol i’r Bwrdd:<br><br>• diweddariad ar y gwersi a ddysgwyd a nodwyd yn yr adroddiad cyntaf ac argymhellion Modiwl 1 yr Ymchwiliad<br>• diweddariad ar y trefniadau sydd i’w datblygu gan y Bwrdd Iechyd i fynd i’r afael â chamau gweithredu Ymchwiliad Covid-19 y DU ac ymchwiliadau cyhoeddus, adolygiadau neu ddigwyddiadau mawr eraill<br>• diweddariad ar y cynnydd a’r datblygiadau yn Ymchwiliad Covid-19 y DU.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br><br>Recommendations:</td><td colspan="4">Mae gofyn i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br><br>• NODI y gwersi a ddysgwyd o adroddiad cyntaf ac argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU<br>• NODI creu Grŵp Llywio’r Bwrdd Iechyd i fynd i’r afael â chamau gweithredu Ymchwiliad Covid-19 y DU ac ymchwiliadau cyhoeddus, adolygiadau neu ddigwyddiadau mawr eraill<br>• NODI y diweddariad diweddaraf ar Ymchwiliad Covid-19 y DU.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol<br>Dr Jane Moore, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd y Cyhoedd</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Glesni Driver, Pennaeth Ymchwiliad Covid-19 ac Ymchwiliad Thirlwall<br>Sharon Scott, Pennaeth Parodrwydd am Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☒</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
</table>

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu well, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>**Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No assurance' has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:** |
| Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg i'r Bwrdd o'r gwersi a ddysgwyd ac argymhellion o Fodiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, a'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y gwersi a'r argymhellion hyn yn cael eu cofnodi a'u gweithredu lle bo angen, ar gyfer yr Ymchwiliad hwn, ei fodiwlau eraill, yn ogystal ag unrhyw ymchwiliad cyhoeddus, adolygiad neu ddigwyddiad mawr arall fel bod y Bwrdd Iechyd yn dysgu o ymchwiliadau o'r fath.<br><br>Nod yr adroddiad hwn yw cyflawni ymrwymiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol i ystyried unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o wrandawiadau tystiolaeth ymchwiliad Covid-19 y DU a allai wella ein paratoadau ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl drwy fynd i'r afael â nhw cyn yr argymhellion ffurfiol. |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | • Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad<br>• Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Cydymffurfio â gofynion statudol yr ymchwiliad cenedlaethol |
| **Yn unol ag WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nid yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb yn berthnasol. Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig). |
| **Yn unol ag WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nid yw'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn berthnasol. Mae'r adroddiad hwn yn weinyddol ei natur ac fe'i cyflwynir er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r dyletswyddau sector cyhoeddus cysylltiedig yn berthnasol (nid yw'r adroddiad yn ymwneud â phenderfyniad, strategol na fel arall). |
| **Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae'r risgiau sy'n ymwneud ag Ymchwiliad Covid-19 yn cael eu trin yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol gan mai dim ond rhoi diweddariad er gwybodaeth mae'r papur hwn. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amherthnasol gan mai dim ond rhoi diweddariad er gwybodaeth mae'r papur hwn. |

| | |
|---|---|
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Mae'r papur hwn wedi cael ei gynhyrchu yn dilyn diweddariadau gan Ymchwiliad Covid-19 y DU a thîm Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar Ymchwiliad Covid-19 y DU, a chyhoeddi argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU.<br><br>Mae'r adroddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol fel Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Ymchwiliad Covid-19 y DU, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fel yr arweinydd Gweithredol ar gyfer Parodrwydd i Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb.<br><br>Rhoddwyd diweddariad i'r Tîm Gweithredol ar 11 Medi 2024, gyda'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo bryd hynny. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Amherthnasol. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu'r argymhellion**

***Next Steps:***
***Gweithredu'r argymhellion***

Bydd unrhyw adborth a dderbynnir gan y Bwrdd sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn yn cael ei weithredu yn ôl yr angen.

**Rhestr o Atodiadau:**

***List of Appendices:***

Atodiad 1 – Modiwlau Covid-19 Gweithredol ac yn y Dyfodol

# DIWEDDARIAD AR ARGYMHELLION MODIWL 1 YMCHWILIAD COVID-19 Y DU I GEFNOGI TRAFODAETHAU AR Y CAMAU NESAF

## 1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno crynodeb o'r canfyddiadau a'r argymhellion ar ôl i Ymchwiliad Covid-19 y DU gyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion cyntaf yn dilyn ei ymchwiliad i 'Modiwl 1 – Cydnerthedd a Pharodrwydd' ar 18 Gorffennaf 2024.

Ar ben hynny, mae crynodeb cryno o raglen waith ddrafft Parodrwydd am Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb y Bwrdd Iechyd (EPRR) a chysylltiadau i'r argymhellion, yn ogystal â'r cynnig camau nesaf i'w trafod.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ynghylch y cynnydd a'r datblygiadau sy'n digwydd yng ngweddill Modiwlau Ymchwiliad Covid-19 y DU, a rhestr o acronymau i helpu'r darllenydd.

## 2. CEFNDIR

Ers 1889 a 2019, mae 11 pandemig ac epidemig mawr wedi bod. Mae'r risg o bandemig ffliw wedi cael ei gyfrifo fel risg uchel iawn ers nifer o flynyddoedd. Mae parodrwydd wedi bod yn canolbwyntio ar bandemig ffliw yn hytrach na rhoi'r un ystyriaeth i achosion posibl eraill o bathogenau ac argyfwng sifil o ganlyniad i hynny, ac felly bod yn barod am bandemig byd-eang.

Mae Ymchwiliad Covid-19 y DU wedi cael ei sefydlu i archwilio'n annibynnol parodrwydd ac ymateb y DU i bandemig Covid-19, ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd yr Ymchwiliad dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, ac felly mae gan Gadeirydd yr Ymchwiliad hawl i orfodi cyflwyno dogfennau a galw tystion i roi tystiolaeth ar lw.

Dechreuodd Ymchwiliad Covid-19 y DU ar 28 Mehefin 202 ac mae'n cael ei gynnal ar ffurf Panel yn hytrach nag un Cadeirydd i sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu defnyddio'r ystod lawn o arbenigedd i gwblhau'r gwaith pwysig hwn. Mae'r Ymchwiliad yn cael ei arwain gan y Gwir Anrhydeddus Farwnes Heather Hallett DBE. Cyhoeddwyd mai hi fyddai'n Gadeirydd ar 15 Rhagfyr 2021.

Mae ei ymchwiliadau'n cael eu trefnu yn Fodiwlau, a drwy pob un o'r Modiwlau hyn, bydd yr Ymchwiliad yn clywed tystiolaeth gan dystion, arbenigwyr a Chyfranogwyr Craidd drwy gyfres o wrandawiadau cyfatebol.

Agorwyd Modiwl 1 ar 21 Gorffennaf 2022 ac ymchwiliodd i gydnerthedd a pharodrwydd y DU am y pandemig. Roedd yn ystyried a gynlluniwyd yn briodol am y pandemig ac a oedd y DU yn barod am y digwyddiad hwnnw. Roedd y modiwl hwn yn edrych ar y system gyfan o argyfyngau sifil gan gynnwys adnoddau, rheoli risg a pharodrwydd am bandemig. Roedd yn craffu ar benderfyniadau'r llywodraeth am gynllunio a chynhyrchodd gyfres o argymhellion.

## 3. **CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU**

Thema gyffredinol yr adroddiad a gyhoeddwyd *'Ymchwiliad Covid-19 y DU – Modiwl 1: Cydnerthedd a pharodrwydd y Deyrnas Unedig',* adroddiad gan y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett DBE, Cadeirydd Ymchwiliad Covid-19 y DU yw gwell parodrwydd, a nodwyd diffygion mawr a effeithiodd ar gostau ariannol, economaidd a dynol yn ystod pandemig Covid-19, a bod y "*system o baratoi ar gyfer y pandemig, i ddelio ag ef, wedi dioddef diffygion sylweddol"*. Mae'r adroddiad yn argymell lleihau cymhlethdodau, mwy o ymarferion cenedlaethol, asesiad risg cadarn a newid go iawn o ran Parodrwydd am Argyfyngau, Ymateb a Chydnerthedd y DU.

Mae crynodeb isod o'r canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad a gyhoeddwyd ar Fodiwl 1 Covid-19, ac mae crynodeb o'r argymhellion yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

a) Er gwaethaf cynllunio am achosion o'r ffliw, nid oedd ein parodrwydd na'n cydnerthedd yn ddigonol ar gyfer y pandemig byd-eang a ddigwyddodd
b) Roedd nifer y sefydliadau a strwythurau dan sylw wedi cymhlethu'r cynllunio ar gyfer argyfyngau
c) Roedd y dull o asesu risg yn ddiffygiol, gan arwain at gynllunio annigonol i reoli ac i atal risgiau, ac ymateb iddynt yn effeithiol
d) Nid oedd hen strategaeth pandemig Llywodraeth y DU, a ddatblygwyd yn 2011, yn ddigon hyblyg i addasu wrth wynebu'r pandemig yn 2020
e) Roedd cynllunio ar gyfer argyfyngau wedi methu ystyried anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol a oedd eisoes yn bodoli ac ni ymgysylltwyd yn ddigonol ag awdurdodau lleol na gwirfoddolwyr
f) Roedd methiant i ddysgu o ymarferion argyfyngau sifil yn y gorffennol ac achosion o glefydau
g) Ni roddwyd digon o sylw i'r systemau a fyddai'n helpu i brofi, olrhain ac ynysu. Roedd dogfennau polisi yn rhy hen, yn cynnwys rheolau a gweithdrefnau cymhleth sy'n gallu arwain at oedi hir, roedden nhw'n llawn jargon ac yn rhy gymhleth
h) Nid oedd Gweinidogion, sydd yn aml heb gael hyfforddiant arbenigol mewn argyfyngau sifil posibl, wedi cael ystod digon eang o gyngor gwyddonol ac yn aml nid oeddent yn herio'r cyngor a gawsant
i) Nid oedd gan gynghorwyr ryddid nac ymreolaeth i fynegi safbwyntiau gwahanol, a arweiniodd at ddiffyg safbwyntiau amrywiol. Roedd eu cyngor yn aml yn cael ei danseilio gan "feddwl grŵp" - ffenomen lle mae pobl mewn grŵp yn tueddu i feddwl am yr un pethau yn yr un ffordd.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad *"Pe byddem wedi cael ein paratoi'n well, gallem fod wedi osgoi rhywfaint o gost ariannol, economaidd a dynol enfawr pandemig Covid-19".*

## 4. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

a) Symleiddio'r systemau cydnerthedd a pharodrwydd am argyfyngau sifil mewn modd radical. Mae hyn yn cynnwys rhesymoli a symleiddio'r fiwrocratiaeth bresennol a darparu strwythurau ac arweinyddiaeth well a symlach i Weinidogion a swyddogion
b) Dull newydd o asesu risg sy'n darparu ar gyfer gwerthusiad gwell a mwy cynhwysfawr o ystod ehangach o risgiau gwirioneddol
c) Dull newydd ar draws y DU o ddatblygu strategaeth, sy'n dysgu gwersi o'r gorffennol ac o ymarferion argyfwng sifil rheolaidd, ac sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r anghydraddoldebau a'r gwendidau presennol
d) Systemau gwell o gasglu a rhannu data cyn pandemigau yn y dyfodol, a chomisiynu ystod ehangach o brosiectau ymchwil
e) Cynnal ymarfer ymateb i bandemig ledled y DU o leiaf bob tair blynedd a chyhoeddi'r canlyniad
f) Defnyddio arbenigedd allanol o'r tu allan i'r llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil i herio ac i warchod rhag y broblem hysbys o feddwl grŵp
g) Cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar y system parodrwydd am argyfyngau a chydnerthedd sifil
h) Yn olaf ac yn bwysicach na dim, creu un corff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am barodrwydd ac ymateb y system gyfan. Bydd yn ymgynghori'n eang, er enghraifft ag arbenigwyr ym maes parodrwydd a chydnerthedd, a'r sector gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, ac yn darparu cyngor strategol i'r llywodraeth ac yn gwneud argymhellion.

Yr argymhelliad cyffredinol yw bod angen *"newid mawr i'r ffordd y mae llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn paratoi ar gyfer argyfyngau sifil system gyfan"* gyda'r bwriad o greu newid go iawn yn y ffordd mae'r DU yn paratoi am argyfyngau. Disgwylir i'r holl argymhellion gael eu gweithredu yn unol â'r amserlenni a nodir yn yr argymhellion

Mae Tabl 1 isod yn nodi statws presennol trefniadau Parodrwydd am Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb y Bwrdd Iechyd a pharodrwydd sy'n cyd-fynd ag argymhellion allweddol Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU, gyda gofynion posibl yn y dyfodol ar draws y Bwrdd Iechyd a'r Weithrediaeth Genedlaethol.

***Tabl 1* – Parodrwydd am Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb y Bwrdd Iechyd sy'n cyd-fynd ag argymhellion adroddiad Modiwl 1 Covid-19 – pwyntiau allweddol:**

Dyma restr o argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU ynghyd â statws presennol y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion, a'r gofynion posibl yn y dyfodol i'r Bwrdd Iechyd ac yn genedlaethol.

| Modiwl 1 Crynodeb o'r Argymhelliad | Cyflwr presennol y Bwrdd Iechyd | Gofynion posibl i'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol | Gofynion cenedlaethol posibl yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| ***1. Symleiddio'r systemau cydnerthedd a pharodrwydd am argyfyngau sifil mewn modd radical. Mae hyn yn cynnwys rhesymoli a symleiddio'r fiwrocratiaeth bresennol a darparu strwythurau ac arweinyddiaeth well a symlach i Weinidogion a swyddogion*** | • Strwythurau Llywodraethu EPRR<br>• Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl<br>• Grŵp ac is-grwpiau ategol<br>• Uwch arweinyddiaeth a chynrychiolaeth briodol y Bwrdd Iechyd yng nghyfarfodydd/fforymau Cymru gyfan | • Mae strwythurau llywodraethu yn cael eu hadolygu i gryfhau a chysoni trefniadau arwain, aelodaeth ac adrodd | • Fframwaith Cymru Gydnerth yn cael ei ddatblygu, yn aros i gael ei gyhoeddi, grŵp ffocws ar waith.<br>• Sefydlu Gweithrediaeth EPRR y GIG<br>• Cyfarfod cychwynnol (Medi 2024) o Uwch Swyddogion Cyfrifol EPRR y sefydliad (Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd y Cyhoedd gan fod yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn aelod)<br>• Adolygiadau llywodraethu ar waith ar lefel leol a chenedlaethol – efallai y bydd strwythurau cydnerthedd Cymru a rhai rhanbarthol yn newid |
| ***2. Dull newydd o asesu risg sy'n darparu ar gyfer gwerthusiad gwell a mwy cynhwysfawr o ystod ehangach o risgiau gwirioneddol*** | • Risgiau EPRR yn cyd-fynd â'r Asesiad Risg a Diogelwch Gwladol diwygiedig (NRSA) | • Adolygu risgiau a phrosesau llywodraethu a gaiff eu monitro drwy Datix/Dashfwrdd – sicrhau bod risgiau'n cael eu hadolygu yn erbyn yr NRSA<br>• Rhaglen waith EPRR 2024/25 a chynllun strategol EPRR i adlewyrchu'r adolygiad risg i sicrhau mesurau lliniaru priodol.<br>• Adolygu llwybr Clefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol (HCID) y Bwrdd Iechyd, Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), prosesau caffael a hyfforddi | • Aros am adolygiad o weithdrefn dactegol aml-asiantaeth ar gyfer pandemig cyn cyhoeddi canllawiau diweddaraf y DU<br>• Aros am gyhoeddiad Fframwaith Pandemig y DU a Chanllawiau ar Glefydau Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol |

| Modiwl 1 Crynodeb o'r Argymhelliad | • Cyflwr presennol y Bwrdd Iechyd | • Gofynion posibl i'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol | • Gofynion cenedlaethol posibl yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| ***3. Dull newydd ar draws y DU o ddatblygu strategaeth, sy'n dysgu gwersi o'r gorffennol ac o ymarferion argyfwng sifil rheolaidd, ac sy'n rhoi ystyriaeth briodol i'r anghydraddoldebau a'r gwendidau presennol*** | • Dysgu o ddigwyddiadau sy'n cyd-fynd â'r prosesau ôl-drafodaeth presennol. | • Datblygu cofrestr gwersi a nodwyd y Bwrdd Iechyd gyda phrosesau monitro perfformiad priodol, a hynny'n unol â phroses GIG Cymru ar gyfer cofnodi dysgu a chamau gweithredu. | • Casglu gwersi a nodwyd o ymarferion Cymru gyfan mewn dull mwy systematig |
| ***4. Systemau gwell o gasglu a rhannu data cyn pandemigau yn y dyfodol, a chomisiynu ystod ehangach o brosiectau ymchwil*** | • Dysgu allweddol a nodwyd o ymateb i bandemig Modiwl 1 Covid-19 y Bwrdd Iechyd | • Cysylltiadau'r Bwrdd Iechyd ar lefel genedlaethol i wella'r gwaith hwn ymhellach, gan gyfeirio arbenigedd y Bwrdd Iechyd yn briodol. | • Canllawiau pellach yn deillio o gyhoeddi Fframwaith Pandemig y DU |
| ***5. Cynnal ymarfer ymateb i bandemig ledled y DU o leiaf bob tair blynedd a chyhoeddi'r canlyniad*** | • Mae cyfranogiad y Bwrdd Iechyd mewn ymarferion aml-asiantaeth, cenedlaethol a rhanbarthol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. | • Proses EPRR i fapio'r gwersi a nodwyd i lywio ymwybyddiaeth, hyfforddiant, ymarfer a diweddaru gweithdrefnau<br>• Hyfforddiant EPRR ac ymarfer strategaeth ac amserlen, wedi'u mapio i safonau a chymwyseddau cydnerth<br>• Bydd hyfforddiant ac ymarfer yn cael eu llywio ymhellach gan lansiad Cofrestr Risg a Pharodrwydd Cymru Gydnerth, a'r bylchau a nodwyd. | • Cyfarwyddo ymarferion trawslywodraethol Haen 1 drwy Lywodraeth y DU a Gweinyddiaeth Ddatganoledig. |
| ***6. Defnyddio arbenigedd allanol o'r tu allan i'r llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil i herio ac i warchod rhag y broblem hysbys o feddwl grŵp*** | • Mae strwythurau ymateb y Bwrdd Iechyd ac EPRR yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid aml-asiantaeth ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau meysydd arbenigedd cysylltiedig gan amrywiaeth o ddisgyblaethau wrth gynllunio ac ymateb. | • Y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn strwythurau Fforwm Cymru Gydnerth a Fforymau Lleol i sicrhau bod ymgysylltu a phrosesau herio annibynnol yn digwydd yn ôl yr angen. | |

| Modiwl 1 Crynodeb o’r Argymhelliad | • Cyflwr presennol y Bwrdd Iechyd | • Gofynion posibl i’r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol | Gofynion cenedlaethol posibl yn y dyfodol |
|---|---|---|---|
| ***7. Cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar y system parodrwydd a chydnerthedd argyfyngau sifil*** | • Sicrwydd system y GIG Cenedlaethol drwy gyflwyno adroddiad EPRR blynyddol<br>• Adrodd yn ôl a rhannu adroddiadau, y tu mewn a’r tu allan i’r Bwrdd Iechyd. | • Mae strwythurau llywodraethu yn cael eu hadolygu i gryfhau a chysoni trefniadau arwain, aelodaeth ac adrodd<br>• Trafod adroddiadau cenedlaethol mewn fforymau aml-asiantaeth a thynnu sylw at adroddiadau sy’n cael eu casglu a'u rhannu’n fewnol fel y bo’n briodol. | |
| ***8. Creu un corff statudol annibynnol sy’n gyfrifol am barodrwydd ac ymateb y system gyfan. Bydd yn ymgynghori’n eang, er enghraifft ag arbenigwyr ym maes parodrwydd a chydnerthedd, a’r sector gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, ac yn darparu cyngor strategol i’r llywodraeth ac yn gwneud argymhellion*** | • Mae EPRR yn cymryd rhan weithredol mewn strwythurau cenedlaethol, a bydd hyn yn parhau i fod ar waith yn ystod adolygiadau yn y dyfodol. | • Fframwaith Argyfyngau Sifil Posibl Llywodraeth Cymru ac adolygiadau dilynol ar waith. | • Gofyniad statudol ac anstatudol wedi’u nodi yn y canllawiau cysylltiedig i’r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl |
| ***9. Cyffredinol*** | • Bydd ffocws allweddol rhaglen waith a chynllun strategol EPRR 24-25 yn cynnwys parodrwydd, atal a chydnerthedd ynghyd â’r strategaeth hyfforddi ac ymarfer cysylltiedig | • Gweithio’n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â rheoli parhad busnes; nid oes cydymffurfiaeth lawn ym mhob maes | |

5. **Y CAMAU NESAF**

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU, deellir y bydd strwythur cenedlaethol wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r rhaglen waith.

Tra bydd hyn yn caei ei roi ar waith, mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi ystyried yr argymhellion, a hefyd y gofyniad dilynol i fod yn barod i fwrw ymlaen yn gyflym â'r camau gweithredu sy'n dilyn, a fydd yn gofyn am ffocws aml-arbenigedd a gweithredol.

Ar ben hynny, mae Penaethiaid EPRR y Byrddau Iechyd perthnasol yn cwrdd i ystyried yr argymhellion a chytuno ar rai egwyddorion safonol i roi cyngor ar y camau nesaf.

Cyflwynwyd cynnig i'r Tîm Gweithredol ar 11 Medi 2024 i sefydlu Grŵp Llywio a seilwaith yn y Bwrdd Iechyd i drafod canlyniad adroddiad Modiwl 1 yn rhagweithiol, yn ogystal â chanlyniadau modiwlau Covid-19 dilynol y DU, ymchwiliadau cyhoeddus eraill, adolygiadau a digwyddiadau mawr. Cymeradwywyd y cynnig hwn gan y Tîm Gweithredol, ac felly gofynnir i'r Bwrdd nodi sefydlu'r Grŵp Llywio hwn, gydag aelodaeth gorfforaethol briodol o nifer o arbenigeddau, er mwyn sicrhau ffocws penodol ond hefyd caniatáu hyblygrwydd, a bod yn barod ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig a fydd yn dilyn. Bydd hyn yn cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, sef 'Sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol, a 'Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad'.

Bydd y Grŵp Llywio hwn yn derbyn argymhellion a gwersi gan bob ymchwiliad cyhoeddus lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys o adolygiadau a digwyddiadau mawr, ac yn ymateb yn briodol gyda'r aelodaeth a'r ffocws priodol. Bydd ffocws pob ymchwiliad cyhoeddus yn amrywio, ond bydd pob argymhelliad a gwers yn cael eu hystyried yn llawn a'u gweithredu yn ôl yr angen. Er bod argymhellion Ymchwiliad Covid-19 y DU Modiwl 1 yn canolbwyntio fwy neu lai ar EPRR, mae ymchwiliadau eraill fel gwersi ac argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintus, yn canolbwyntio mwy ar ofal cleifion.

Bydd y Grŵp Llywio hwn hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r strwythur hwn, ac yn cael cyfarwyddyd a chamau gweithred ganddo, neu unrhyw strwythur arall sydd wedi'i ffurfio'n genedlaethol sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, yr adolygiad neu'r digwyddiad mawr perthnasol.

Ar ben hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu llwybrau clefyd heintus â chanlyniadau pellgyrhaeddol (HCID) a strwythurau cymorth rheoli cysylltiedig fel hyfforddiant ac offer at ddibenion rheoli'r Grŵp Llywio hwn yn ddyddiol. Ar ôl ei gwblhau, cyfeirir y gwaith hwn yn nhrefniadau Ymateb i'r Pandemig y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r broses o ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr.

Bydd y Grŵp Llywio yn darparu adroddiadau monitro i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

## 6. GOBLYGIADAU RHEOLI RISG

Bydd prosesau trafod ac adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn parhau i sicrhau bod yr holl themâu risg iawn mewn perthynas ag Argyfwng Sifil Posibl yn cael eu cofnodi'n briodol. Mae'r ddwy thema risg Argyfwng Sifil Posibl gyffredinol isod:

a) Risg Digwyddiad Mawr
b) Risg o Ddigwyddiad Parhad Busnes

O dan ymbarél y ddwy thema uchod mae nifer o risgiau sy'n gysylltiedig ag EPRR sy'n cyd-fynd â'r Asesiad Risg a Diogelwch Cenedlaethol a Chofrestr Risg y Fforwm Cydnerthedd Lleol.

Rhoddir ystyriaeth i'r gwendidau a'r heriau, risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn argyfwng, a rhai o'r newidiadau trawsgenedlaethol sy'n digwydd mewn argyfyngau. Mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy'r system Datix, a byddant yn cael eu trafod a'u monitro'n rhagweithiol drwy Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl EPRR, gan gryfhau ein cydnerthedd cyffredinol. Y risg o bandemig yw'r risg uchaf yn y DU o hyd.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL/CYLLIDEBOL

Nid yw'r goblygiadau ariannol i fwrw ymlaen ag argymhellion Ymchwiliad Covid-19 y DU yn hysbys ar hyn o bryd, ond gellir gosod rhagor o ddisgwyliadau ar EPRR ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol wrth graffu a chwilio am ragor o sicrwydd.

Hefyd, nid yw'r gofynion ariannol a chyllidebol sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Llywio yn hysbys ar hyn o bryd, ond gellir gosod rhagor o ddisgwyliadau ar nifer o feysydd gwahanol o ran argymhellion a dysgu o ymchwiliadau cyhoeddus eraill, adolygiadau neu ddigwyddiadau mawr – ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

## 8. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Nid yw'r ddyletswydd Cydraddoldeb yn berthnasol i gynnwys yr adroddiad hwn gan ei fod yn weinyddol ei natur yn unig ac wedi'i gyflwyno er gwybodaeth yn unig.

Fodd bynnag, bydd cydymffurfiaeth â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei ystyried ym mhob agwedd ar waith y Grŵp Llywio, gan gynnwys os yw'n gweithredu newidiadau i brosesau a gweithdrefnau yn unol â gofynion y gwersi a'r argymhellion.

## 9. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- **NODI y** gwersi a ddysgwyd o adroddiad cyntaf ac argymhellion Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU
- **NODI yr** wybodaeth ddiweddaraf am Ymchwiliad Covid-19 y DU, a chyfraniad y Bwrdd Iechyd hyd yma
- **NODI** creu Grŵp Llywio'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â chamau gweithredu Ymchwiliad Covid-19 y DU, yn ogystal ag ymchwiliadau cyhoeddus, adolygiadau neu ddigwyddiadau mawr eraill.

# ATODIAD 1 – MODIWLAU COVID-19 GWEITHREDOL AC YN Y DYFODOL

## 1. MODIWLAU GWEITHREDOL

Ar ddyddiad y papur hwn, mae'r canlynol yn fodiwlau gweithredol yn yr Ymchwiliad:

### 1.1 Modiwl 2 - Gwneud penderfyniadau a llywodraethu gwleidyddol craidd y DU

Bu Modiwl 2 agor ar 31 Awst 2022 ac mae wedi'i gyflwyno mewn rhannau. Yn gyntaf, bydd yn ymchwilio i lywodraethu gwleidyddol a gweinyddol craidd a gwneud penderfyniadau ar gyfer y DU. Bydd yn cynnwys yr ymateb cychwynnol, y llywodraeth ganol a'r broses gwneud penderfyniadau, perfformiad y gwasanaeth sifil a gwleidyddol. Bydd hefyd yn trafod effeithiolrwydd y berthynas â llywodraethau yn y gweinyddiaethau datganoledig a'r sectorau lleol a gwirfoddol. Bydd Modiwl 2 hefyd yn asesu'r broses o wneud penderfyniadau am fesurau anfferyllol a'r ffactorau a gyfrannodd at eu gweithredu.

Bydd Modiwlau 2A, B a C yn mynd i'r afael â'r materion strategol a chyffredinol o safbwynt Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y rhain yn cael eu trin fel modiwlau unigol ar wahân a bydd gwrandawiadau cyhoeddus ar eu cyfer yn cael eu cynnal yn y gwledydd dan sylw.

Cynhaliodd Modiwl 2 ei Wrandawiad Rhagarweiniol cyntaf ar 31 Hydref 2022 a chynhaliodd Wrandawiadau Rhagarweiniol pellach yn 2023, gyda gwrandawiadau ar gyfer tystiolaeth lafar wedi'u cwblhau ar 23 Mai 2024.

#### 1.1.1 Modiwl 2A - Gwneud penderfyniadau a llywodraethu gwleidyddol craidd y DU – Yr Alban

Cynhaliodd Modiwl 2A ei Wrandawiad Rhagarweiniol cyntaf ar 1 Tachwedd 2022 a chynhaliodd Wrandawiadau Rhagarweiniol pellach yn 2023, gyda gwrandawiadau tystiolaeth lafar wedi'u cwblhau ar 1 Chwefror 2024.

#### 1.1.2 Modiwl 2B - Gwneud penderfyniadau a llywodraethu gwleidyddol craidd y DU – Cymru

Cynhaliodd Modiwl 2B ei Wrandawiad Rhagarweiniol cyntaf ar 1 Tachwedd 2022 a chynhaliodd Wrandawiadau Rhagarweiniol pellach yn 2023, gyda gwrandawiadau ar gyfer tystiolaeth lafar wedi'u cwblhau ar 14 Mawrth 2024.

#### 1.1.3 Modiwl 2C - Gwneud penderfyniadau a llywodraethu gwleidyddol craidd y DU – Gogledd Iwerddon

Cynhaliodd Modiwl 2C ei Wrandawiad Rhagarweiniol cyntaf ar 2 Tachwedd 2022 a chynhaliodd Wrandawiadau Rhagarweiniol pellach yn 2023, gyda gwrandawiadau tystiolaeth lafar wedi'u cwblhau ar 16 Mai 2024.

## 1.2 Modiwl 3 – Effaith pandemig covid-19 ar systemau gofal iechyd ym 4 gwlad y DU

Bu Modiwl 3 agor ar 8 Tachwedd 2022. Bydd yn ymchwilio i'r ymateb llywodraethol a chymdeithasol i Covid-19 yn ogystal â dadansoddi'r effaith a gafodd y pandemig ar systemau gofal iechyd, cleifion a gweithwyr gofal iechyd. Bydd hyn yn cynnwys llywodraethiant gofal iechyd, gofal sylfaenol, ôl-groniadau'r GIG, yr effeithiau ar ddarpariaeth gofal iechyd drwy raglenni brechu yn ogystal â diagnosis a chymorth covid hir.

Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer Modiwl 3 yn para am 10 wythnos yn Llundain, wedi'u rhannu gan doriad o bythefnos rhwng 9 Medi a 28 Tachwedd 2024 (toriad rhwng 14 a 25 Hydref 2024).

Mae'r Ymchwiliad wedi nodi pedwar maes y mae'n cynnig eu harchwilio'n fanylach ym Modiwl 3 er mwyn asesu effaith y pandemig ar y rheini sydd angen gofal iechyd am resymau ar wahân i Covid-19. Dyma'r meysydd:

a) Canser y colon a'r rhefr, yr ail achos mwyaf cyffredin o farwolaeth o ganlyniad i ganser yn y DU;
b) Clefyd isgemia'r galon (clefyd coronaidd y galon) fel enghraifft o gyflwr cronig difrifol a allai fod angen ymyrraeth feddygol acíwt;
c) Gosod clun newydd, fel enghraifft o lawdriniaeth ddewisol gyffredin; a
d) Gwasanaethau Iechyd Meddwl Mewnol i Blant a'r Glasoed (a elwir hefyd bellach yn Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc) fel gwasanaeth penodol ym maes iechyd meddwl.

Yn ogystal â'r pedwar cyflwr hyn nad ydynt yn ymwneud â Covid, bydd yr Ymchwiliad yn edrych ar ofal mamolaeth a chynenedigol, gan gynnwys materion fel:

a) y gallu i gynnal gofal cynenedigol fel sgrinio, sganiau ac apwyntiadau eraill
b) defnyddio technoleg i gael gafael ar wasanaethau a gofal mamolaeth;
c) argaeledd y staff a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal mamolaeth;
d) arweiniad neu gyngor i fenywod beichiog; ac e.e. cyfyngiadau ar ymwelwyr.

## 1.3 Modiwl 4 – Brechlynnau a Therapiwteg

Bydd y modiwl hwn yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â datblygu brechlynnau Covid-19 a gweithredu'r rhaglen cyflwyno brechlyn yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd materion sy'n ymwneud â thrin achosion o Covid-19 drwy feddyginiaethau presennol a rhai newydd yn cael eu harchwilio ar yr un pryd. Bydd ffocws ar y gwersi a ddysgwyd a pharodrwydd ar gyfer y pandemig nesaf.

Bydd materion thematig sy'n ymwneud â niferoedd anghyfartal yn cael y brechlyn yn cael eu harchwilio, gan gynnwys nodi'r grwpiau lle bu'r niferoedd anghyfartal hyn, yr achosion posibl ac ymateb y Llywodraeth.

Bydd y modiwl yn mynd i'r afael â materion o bryder cyhoeddus diweddar sy'n ymwneud â diogelwch brechlynnau a'r system bresennol ar gyfer iawndal ariannol o dan Gynllun Taliad Niwed Trwy Frechiad y DU.

Mae'r Ymchwiliad yn bwriadu clywed tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn Llundain dros gyfnod o dair wythnos, rhwng 14 Ionawr a 30 Ionawr 2025.

1.4 **Modiwl 5 – Caffael**

Bu Modiwl 5 agor ar 24 Hydref 2023. Bydd y modiwl hwn yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ynghylch caffael a dosbarthu cyfarpar a chyflenwadau allweddol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i ddefnyddwyr ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol, peiriannau anadlu ac ocsigen.

Bydd y modiwl yn asesu cadernid ac effeithiolrwydd prosesau caffael, pa mor ddigonol oedd yr eitemau a gafwyd (gan gynnwys eu manyleb, eu hansawdd a'u niferoedd) ac effeithiolrwydd eu dosbarthu i'r defnyddiwr. Bydd hefyd yn ystyried caffael profion llif unffordd a phrofion PCR ledled y DU.

Bydd Modiwl 5 yn archwilio caffael pandemig ledled y DU ar draws pedair wythnos o wrandawiadau cyhoeddus, rhwng 3 Mawrth a 3 Ebrill 2025.

1.5 **Modiwl 6 – Y Sector Gofal**

Bu Modiwl 6 agor ar 12 Rhagfyr 2023. Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i effaith y pandemig ar y sector gofal cymdeithasol i oedolion, a ariennir yn gyhoeddus ac yn breifat yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn ystyried canlyniadau penderfyniadau'r llywodraeth – gan gynnwys y cyfyngiadau a osodwyd – ar y rheini sy'n byw ac yn gweithio yn y sector gofal, yn ogystal â phenderfyniadau sy'n ymwneud â chapasiti mewn ysbytai a phreswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion a chartrefi preswyl.

Bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r camau a gafodd eu cymryd mewn cartrefi gofal i oedolion a chartrefi preswyl i atal Covid-19 rhag lledaenu, yn ogystal ag archwilio capasiti'r sector gofal i oedolion o ran ymateb i'r pandemig.

Nod yr Ymchwiliad yw cynnal gwrandawiadau rhagarweiniol ar gyfer Modiwl 6 yn 2025, gyda gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal rhwng 30 Mehefin a 31 Gorffennaf 2025.

1.6 **Modiwl 7 - Profi, Olrhain ac Ynysu**

Bydd Modiwl 7 yn edrych ar y dull o brofi, olrhain ac ynysu a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig ac yn gwneud argymhellion arno.

Bu Modiwl 7 agor ar 19 Mawrth 2024. Bydd y modiwl hwn yn edrych ar y dull o brofi, olrhain ac ynysu a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, ac yn gwneud argymhellion arno.

Bydd y modiwl yn ystyried y polisïau a'r strategaethau a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd i gefnogi'r system profi, olrhain ac ynysu gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Bydd yn ystyried y penderfyniadau a wnaed gan gyrff allweddol, opsiynau neu dechnolegau eraill a oedd ar gael a ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar gydymffurfiaeth y cyhoedd.

Cynhelir gwrandawiadau Modiwl 7 rhwng 12 Mai a 30 Mai 2025

## 2 MODIWLAU A GYHOEDDWYD

### 2.1 Modiwl 8 - Plant a Phobl Ifanc

Bu Modiwl 8 agor ar 21 Mai 2024, a bydd yn edrych ar effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd y modiwl yn ystyried effaith y pandemig ar blant ar draws cymdeithas, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau, ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig ac economaidd-gymdeithasol.

### 2.2 Modiwl 9 – Ymateb economaidd

Bydd Modiwl 9 yn archwilio'r ymyriadau economaidd a gymerwyd gan Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig mewn ymateb i bandemig Covid-19, a bu agor ar 9 Gorffennaf 2024. Bydd y modiwl hwn yn edrych ar y cymorth economaidd i fusnesau, swyddi, pobl hunangyflogedig, pobl agored i niwed a'r rheini sydd ar fudd-daliadau, yn ogystal ag effaith ymyriadau economaidd allweddol. Bydd yn gwneud argymhellion ynghylch y materion hyn.

Bydd y modiwl hefyd yn ystyried y cyllid ychwanegol a roddwyd i wasanaethau cyhoeddus perthnasol a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Mae rhagor o fanylion am y meysydd ymchwilio wedi'u cynnwys yn y cwmpas dros dro ar gyfer Modiwl 9.

Cynhelir y gwrandawiad Rhagarweiniol cyntaf ar gyfer Modiwl 9 ar 23 Hydref 2024

## 3 MODIWLAU YN Y DYFODOL

Cyhoeddir rhagor o fodiwlau dros y misoedd nesaf:

## ACRONYMAU

EPRR Parodrwydd am Argyfwng, Cynllunio ac Ymateb

HCID Clefyd Heintus â Chanlyniadau Pellgyrhaeddol

NRSA Asesiad Risg a Diogelwch Gwladol

PPE Cyfarpar Diogelu Personol

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 26 Medi 2024 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Amcan yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion Llywodraethu Corfforaethol allweddol a rhoi sicrwydd yn y meysydd canlynol:<br><br>• Camau Gweithredu'r Cadeirydd<br>• Y Cyd-bwyllgor Comisiynu (Fframwaith Llywodraethu)<br>• Clinigwyr cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Mae gofyn i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>• **NODI** cynnwys yr adroddiad;<br>• **CADARNHAU** Cam Gweithredu'r Cadeirydd dyddiedig 13 Medi 2024;<br>• **NODI'R** materion a ystyriwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024;<br>• **DERBYN** Cofnodion Cyd-bwyllgorau'r Bwrdd (Atodiad 1);<br>• **CADARNHAU** Dogfennau Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i'w cynnwys yn Fframwaith Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu;<br>• **CADARNHAU'R** Clinigwyr cymeradwy a'r Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Pam Wenger – Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Authors:*** | Philippa Peake-Jones - Pennaeth Materion Corfforaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/ tystiolaeth o ran darparu'r | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/ tystiolaeth o | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/ tystiolaeth o ran darparu'r | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | *No confidence / evidence in delivery* |

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Pan fydd sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu well, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No assurance' has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â holl amcanion strategol y Bwrdd Iechyd gan fod Llywodraethu Corfforaethol yn alluogwr allweddol iddynt. |
| **Goblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'i Reolau Sefydlog. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth i ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â hyn.<br><br>Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. Os na fydd ganddo drefniadau o'r fath, gallai arwain at oblygiadau cyfreithiol i'r Bwrdd Iechyd. |
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd un ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. |
| **Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)** | |

| | |
|---|---|
| ***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks (cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Gallai rheoli materion Llywodraethu'n effeithiol sicrhau budd ariannol cadarnhaol i'r Bwrdd Iechyd drwy integreiddio rheoli risg yn well wrth gynllunio busnes, gwneud penderfyniadau a siapio'r modd y mae gofal yn cael ei ddarparu i'n cleifion, gan arwain at ansawdd gwell a llai o wastraff |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Os na fydd trefniadau Llywodraethu Corfforaethol effeithiol ar waith, gall hyn gael effaith niweidiol ar y gweithlu. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | CRR-16 – Arweinyddiaeth/Mesurau Arbennig |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol |

***Y Camau Nesaf:***

- Parhau i wella ac adrodd ar Lywodraethu Corfforaethol

***Rhestr o Atodiadau:***

Atodiad A – Cylch Busnes y Bwrdd

**Pecyn Ategol**
Atodiad 1 – Papurau Briffio'r Cyd-bwyllgor Comisiynu Gorffennaf 2024
Atodiad 2 – Dogfennau Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu
Atodiad 3 – Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2)
Atodiad 4 – Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### 1. CYFLWYNIAD
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion llywodraethu corfforaethol allweddol.

### 2. CYLCH BUSNES BLYNYDDOL
Mae Cylch Busnes y Bwrdd wedi'i atodi er gwybodaeth (Atodiad A).

### 3. GWEITHREDU BRYS
Mae Rheol Sefydlog 2.1 y Bwrdd Iechyd yn caniatáu i gamau brys gael eu cymryd lle na fyddai'n ymarferol galw cyfarfod brys y Bwrdd.

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Cadeirydd wedi cymryd un Cam Gweithredu fel a ganlyn:

| Dyddiad | Pwnc | Gwybodaeth Ychwanegol | Cefnogir gan |
|---|---|---|---|
| 13 Awst 2024 | **Y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS)** | Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y protocol cyn gweithredu mewn perthynas â phenderfyniad Cyd-bwyllgor Comisiynu'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys a drafodwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf.<br><br>Yn unol â'r Rhestr o Faterion sydd wedi'u Cadw i'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo camau ar ymgyfreitha yn erbyn y Bwrdd Iechyd, felly cytunwyd gyda'r Cadeirydd y dylid cymryd camau brys, drwy gyfrwng Camau Gweithredu'r Cadeirydd.<br><br>Gofynnwyd i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>• **Cymeradwyo** ymateb i'r Hawliad drwy'r Llys a chychwyn ymgyfreitha ar y mater hwn;<br>• **Cytuno** y bydd y ffurflen Hawlio yn cael ei chymeradwyo gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol fel rhan o'r broses;<br>• **Cydnabod** mai BIP Cwm Taf Morgannwg yw'r Diffynnydd cywir yn y mater hwn fel y sefydliad lletya ar gyfer y Cyd-bwyllgor Comisiynu.<br><br>Mae'r cais yn awr gyda'r llysoedd i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i fwrw ymlaen, ochr yn ochr â chais ar y cyd y diffynyddion a chais ar wahân yr elusen annibynnol. Os rhoddir caniatâd, bydd y mater yn mynd ymlaen i wrandawiad llys. | Cadeirydd<br>Prif Weithredwr<br>8 Aelod Annibynnol |

## 4. CRYNODEB O'R MATERION A DRAFODWYD YN SESIWN BREIFAT Y BWRDD IECHYD AR 25 GORFFENNAF 2024

Yn unol â Rheolau Sefydlog 7.5.3 mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd adrodd unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat i gyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod cyfarfod preifat y Bwrdd a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2024:

- **Cronfa Gofal wedi'i Gynllunio – defnydd ohoni yn 2024/25 - Cyflenwi Mewnol**
  Nododd y Bwrdd y llwybrau diwygiedig ar gyfer perfformiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, a'r defnydd parhaus o Gronfeydd Gofal wedi'i Gynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni drwy gomisiynu Mentrau Rhestrau Aros (WLI) a chymeradwyo'r lleoliadau ar gyfer contractau cyflenwi mewnol ac allanol ym meysydd Endosgopi, Diagnosteg a Dermatoleg.
- **Ymlediadau Aortaidd yn yr Abdomen**
  Nododd y Bwrdd heriau o ran darparu llawdriniaethau aortaidd yng Ngogledd Cymru a chefnogodd y dull a ffefrir yn yr adroddiad i fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau bod craffu parhaus ar waith ar gyfer llawdriniaethau aortaidd.
- **Materion Ansawdd Sensitif**
  Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y prif faterion ansawdd sensitif.
- **Hawliad Gwerth Uchel**
  Cymeradwyodd y Bwrdd ddau hawliad gwerth uchel
- **Contract dadwenwyno preswyl ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (Hafan Wen) – cymeradwyo telerau ymestyn hyd at 31 Mai 2025**
  Cymeradwyodd y Bwrdd estyniad i'r brydles, y costau cysylltiedig a'r gostyngiad mewn gwelyau.
- **Costau a thaliadau Gwelyau Acíwt y Tu Allan i'r Ardal ym maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**
  Cymeradwywyd y cyllid ar gyfer 'Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal' gyda phob un o'r darparwyr a chymeradwywyd eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.
- **Caffael deintyddol**
  Nododd y Bwrdd y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer gwella deintyddol a chymeradwyodd y tendr arfaethedig a'r gofynion llywodraethu cysylltiedig.
- **Gofal Iechyd Parhaus 2024/25**
  Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y drafodaeth barhaus a chefnogodd ragor o drafodaethau rhanbarthol
- **Prosiect Parhad Busnes Maelor Wrecsam a Phrosiect Cyfalaf Mawr Adnewyddu Imiwnoleg Ysbyty Gwynedd**
  Trafododd y Bwrdd y ddau fater a chytunodd i gefnogi symud i'r cam nesaf.
- **Buddsoddiad mewn meddalwedd Seiberddiogelwch Paolo Alto**
  Cymeradwyodd y Bwrdd y dylid adnewyddu'r contract.
- **Y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS)**
  Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am debygolrwydd Adolygiad Barnwrol ar ôl derbyn llythyr cyn gweithredu a gyfeiriwyd at bob un o'r saith bwrdd iechyd.

## 5. FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD

Cafodd pum risg strategol eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024 fel rhan o'r gwaith ail-alinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r risgiau'n llawn yn dilyn unrhyw adborth gan y Pwyllgor a'r Bwrdd. Rhoddwyd yr

wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi a chytunwyd y bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried ail-alinio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2024.

## 6. Y CYD-BWYLLGOR COMISIYNU

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, bydd Cofnodion Cyd-bwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu rhannu cyn gynted ag y byddant ar gael ac yn cael eu hatodi i'r adroddiad hwn fel atodiad. Mae papurau briffio cyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2024 wedi'u hatodi yn y **pecyn ategol** yn **Atodiad 1**.

Cymeradwyodd y 7 Bwrdd Iechyd Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Mawrth 2024, a mabwysiadodd y Cyd-bwyllgor Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn ei gyfarfod cyntaf ar 8 Ebrill 2024. Cawsant eu cynnwys fel atodlen i bob un o Reolau Sefydlog y Byrddau Iechyd eu hunain ac maent yn gweithredu fel pe baent wedi'u hymgorffori ynddynt.

Cafodd y Cyd-bwyllgor wybod bod gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod pontio i gwblhau elfennau eraill o'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y Cytundeb Lletya, y Memorandwm Cytundeb a'r Cynllun Dirprwyo.

Roedd y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn ei gyfarfod ar 17 Medi yn argymell cymeradwyo'r dogfennau canlynol i'r Byrddau Iechyd.  Mae'r dogfennau hyn ar gael yn y **pecyn ategol** yn **Atodiad 2**.

- Memorandwm Cytundeb
- Cytundeb Lletya
- Cylch Gorchwyl ar gyfer Is-bwyllgorau newydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu

## 7. CLINIGWYR CYMERADWY A MEDDYGON ADRAN 12(2) – GORFFENNAF 2024

Gofynnir i'r Bwrdd **nodi** a **chadarnhau'r** cymeradwyaethau yn unol â gofynion Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru, "Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy", Cyfarwyddydau Deddf Iechyd Meddwl GIG Cymru 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a dogfen "Meini Prawf a Phrosesau Adran 12(2) Cymru Gyfan ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2)".

Mae'r atodiadau canlynol wedi'u cynnwys yn y **pecyn ategol.**

- **Atodiad 3:** Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)
- **Atodiad 4:** Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).

## 8. ARGYMHELLION

Mae gofyn i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad;
- **CADARNHAU** Cam Gweithredu'r Cadeirydd dyddiedig 13 Medi 2024;
- **NODI'R** materion a ystyriwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2024;
- **DERBYN** Cofnodion Cyd-bwyllgorau'r Bwrdd (Atodiad 1);

- **CADARNHAU** Dogfennau Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i'w chynnwys yn Fframwaith Llywodraethu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu;
- **CADARNHAU'R** Clinigwyr cymeradwy a'r Meddygon Adran 12(2) ledled Cymru

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Adrodd: | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Karen Balmer, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 18 Gorffennaf 2024 |
| Papur wedi'i baratoi gan: | Jody Evans, Swyddog Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU / MATERION ALLWEDDOL A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi; Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2024.

Ystyriodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol;

**Nododd y Pwyllgor yr eitemau a ystyriwyd yn y Pwyllgor Archwilio Preifat, a gynhaliwyd 7 Mai 2024**

- Manylion am dorri'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI), Cynllun Dirprwyo a Rheolau Sefydlog.
- Ymateb Rheolaeth Adolygiad Annibynnol (Adolygiad Caffael y Contract)
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

**AC24.94 Llywodraethu Effeithiol – Cymuned Iechyd Integredig (IHC), Ardal y Canol - Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gymuned Iechyd Integredig (ardal y Canol) yr Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig i'r Pwyllgor, ynghyd â chrynodeb o'r argymhellion statws Cyfyngedig. Cofnodwyd bod nifer o gamau gweithredu wedi'u cwblhau hyd yn hyn a bod gwaith yn mynd rhagddo i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a argymhellwyd. ***Nododd*** y Pwyllgor y diweddariad a gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch effaith y camau sy'n cael eu cymryd o ran lleihau nifer yr ymatebion i gwynion sydd heb eu datrys.

**AC24.95 Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Adroddiad Sicrwydd Blynyddol (Caffael) 2023/24**

***Nododd*** y Pwyllgor yr Adroddiad Sicrwydd Blynyddol (Caffael) cychwynnol ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau allweddol ar fentrau Caffael Cenedlaethol a chanlyniadau a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Bwrdd Iechyd. Ar ben hynny, roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gweithgareddau caffael a aethpwyd i'r afael â nhw.

**AC24.96 Rheoli Risg**

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adroddiad Archwilio Mewnol Cyfyngedig, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, trefniadau Rheoli Risg, a'r cynnig ar gyfer rôl y Grŵp Rheoli Risgiau.

***Cytunodd*** y Pwyllgor ***i gefnogi***;

- Ymateb y rheolwyr i'r adroddiad Archwilio Mewnol
- Argymhellion i ddiweddaru'r Grŵp Rheoli Risgiau (Fforwm Risgiau 3 gwaith y flwyddyn a Grŵp Craffu ar Risgiau fesul mis)
- Diweddariadau a newidiadau allweddol i'r Fframwaith Rheoli Risg a'r Gweithdrefnau
- Diweddariadau y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

**AC24.98 Safonau Cynnal Busnes** – Safonau Cynnal Busnes, Datganiadau o Ddiddordeb, Rhoddion a Lletygarwch

Cyflwynwyd yr Adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig i'r Pwyllgor, ynghyd â chynllun i fynd i'r afael â'r argymhellion a godwyd yn yr adroddiad. Felly, ***nododd*** y Pwyllgor Archwilio yr Archwiliad Mewnol a'r camau gweithredu awgrymedig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan ofyn am ddiweddariad pellach yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

**AC24.99 Adroddiad Blynyddol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar Wirio ar ôl Gwneud Taliadau 2023/2024**

Cyflwynodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru'r Gwiriad ar ôl Gwneud Taliadau manwl (Adroddiad Sicrwydd Blynyddol PPV, ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Archwilio). Roedd yr adroddiad yn ymwneud â gwaith a wnaed ar ran y Bwrdd Iechyd i ddilysu hawliadau gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol a Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol. ***Adolygodd a nododd*** y Pwyllgor hyn a rhoddwyd ***sicrwydd*** iddynt fod y cylch Gwirio ar ôl Gwneud Taliadau (PPV) yn cael ei reoli'n briodol, ond gofynnwyd am ddata cymharol y flwyddyn flaenorol/cyfnod blaenorol wrth fwrw ymlaen.

**AC24.100 Adroddiad Cydymffurfiaeth SFI – Chwarter 1 24/25 ac AC24.97 Torri Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) a'r Cynllun Dirprwyo**

Roedd yr adroddiad cydymffurfio ar gyfer Ebrill i Fehefin 2024 yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o gydymffurfiaeth reoleiddiol, sicrwydd, a disgwyliadau o arferion da. Nododd a thrafododd y Pwyllgor Archwilio yr elfennau perfformiad a chymeradwywyd yr adroddiad.

**AC24.101 Derbyn yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**

***Derbyniodd*** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, a ***chymeradwywyd*** y newidiadau i'r cynllun mewn perthynas â Rheoli Cwynion ac Achosion Busnes, ynghyd ag adolygiadau Cyfalaf a Refeniw. Roedd yr adroddiad cynnydd yn crynhoi deg adolygiad sicrwydd a gwblhawyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr adroddiadau a gyhoeddwyd fel drafft, a'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen. Nododd y pwyllgor ychydig o ddirywiad yn amseroedd ymateb y rheolwyr ond fe'i sicrhawyd bod hyn yn ddiffyg, a bod y cyfraddau ymateb cyffredinol yn parhau yn gadarnhaol.

**AC24.102 Adroddiad Cynnydd Olrhain Mewnol / Allanol - Adroddiad**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaru ar statws presennol yr argymhellion, gan gynnwys newidiadau awgrymedig i'r broses a chwblhau argymhellion archwilio. Roedd y papur briffio hefyd yn cynnwys diweddariadau ar argymhellion gyda 'dim' sicrwydd neu sicrwydd 'cyfyngedig'.

***Cymeradwyodd y pwyllgor;***

- Newidiadau i'r broses arfaethedig ynghylch cyflwyno Adroddiadau Archwilio Mewnol newydd.
- Newidiadau i'r broses newydd o gau argymhellion archwilio.

***Nododd y Pwyllgor;***

- Yr argymhellion 'dim' sicrwydd neu sicrwydd 'cyfyngedig'.
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr holl argymhellion agored, a oedd yn aros am gymeradwyaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cymeradwyaeth derfynol ar gyfer cau.
- Roedd sefyllfa ac adolygiad o'r holl Adroddiadau Archwilio sydd wedi'u cynnwys ar yr Olrheinydd Archwilio a'r camau nesaf a'r angen i ddarparu mwy o fanylion i roi'r sicrwydd perthnasol i'r Pwyllgor Archwilio heb fod angen darparu olrheinwyr manwl iawn yn aml yn anodd i Aelodau eu hadolygu.

- Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol yn cyfarfod i ystyried adrodd ar fwy o fanylion yn y dyfodol.

**AC24.103 Diweddariad am y Pwyllgor Archwilio a Risg – Archwiliad Allanol**
Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith archwilio presennol a bwriedig o fewn y Bwrdd Iechyd (sef - Archwiliadau Perfformiad a Chyfrifon), ynghyd â ffocws manwl a statws pob adolygiad.
Tynnwyd sylw at gyhoeddiadau diweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol;

- Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol | Archwilio Cymru
- O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i baratoi ar gyfer y dyfodol –yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Archwilio Cymru
- Adroddiad Dilynol ar Effeithiolrwydd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Archwilio Cymru

**AC24.104 Adroddiadau Archwilio Cenedlaethol – er gwybodaeth – Archwiliad Allanol**
***Derbyniodd*** a thrafododd y Pwyllgor yr Adroddiadau Archwilio canlynol;

- Cynnydd Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion (Diweddariad) BIPBC
- Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng ~:gadael yr ysbyty (rhanbarth Gogledd Cymru)

Mae cofnodion a phapurau a gymeradwywyd ar gael ar ein gwefan BIPBC : Pwyllgor Archwilio – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (nhs.wales)

| **EITEMAU I'W UWCHGYFEIRIO AT Y BWRDD** |
|---|
| N/A |
| **CYFARFOD NESAF** |
| Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar 2 Medi 2024. |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Clare Budden, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 20 Awst 2024 |
| Paratowyd y papur gan: | Laura Jones, Rheolwr Cymorth Prosiectau (Llywodraethiant Corfforaethol) |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2024 yn Ystafell y Bwrdd, Llys Carlton.

**Datblygu ein Partneriaethau (Safbwynt gan ein Gwasanaethau Gwirfoddol)**
Ymunodd Tom Barham, Prif Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych y cyfarfod fel rhan o'r cyfle i glywed safbwynt un o'r partneriaid a chael trafodaeth am adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at adroddiad Comisiwn Bevan ar werthoedd a gwerth y trydydd sector gan ganolbwyntio ar gydweithio â'r sector statudol i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ceir oddeutu 12,000 o fudiadau trydydd sector ar draws Cymru sy'n darparu iechyd a lles ar ryw ffurf ac felly maent yn bartner pwysig. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen am weithio'n uniongyrchol mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd i roi sylw i feysydd gan gynnwys y pwysau sydd ar wasanaethau, materion ariannol, ac ymyrryd yn gynnar. Tynnwyd sylw at Sioe Dinbych a Fflint fel digwyddiad diweddar lle daeth Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trydydd sector ynghyd gan ddarparu gwaith ymgysylltu a fu'n llwyddiannus iawn. Cyfeiriwyd hefyd at y cyfleoedd ar gyfer cydweithio mewn perthynas â datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra. Cytunwyd mai dyma'r amser i'r sefydliad wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael yn y cymunedau lleol gan dynnu sylw at yr angen i fod yn glir ynghylch pa sianeli sy'n bodoli ar lefel strategol i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynnwys grwpiau cymunedol trydydd sector fel rhan o'r broses gynllunio. Mae angen inni ymgysylltu'n fuan i sicrhau bod y trydydd sector yn rhan ganolog o'n gwaith cynllunio strategol a hefyd fod yn glir ynghylch cyllido a chyflawni canlyniadau. Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch pwysigrwydd deialog gynnar, cyllid ac ymgysylltu â chymunedau y mae'n anodd eu cyrraedd. Cytunwyd bod angen i hyn dreiddio i fyny i'r Bwrdd a bod hefyd angen cynnwys partneriaid yn ein gwaith cynllunio tymor hwy.

**Dod yn Sefydliad sy'n cael ei Arwain gan Ddeallusrwydd**
Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Fod yn Sefydliad sy'n cael ei Arwain gan Ddeallusrwydd, cyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio data yn fwy effeithiol i lywio penderfyniadau. Nod y gwaith a gwblhawyd hyd yma oedd cynhyrchu data sy'n bodloni anghenion y sefydliad er mwyn iddo allu cael ei ddefnyddio yn y ffordd iawn i gael yr effaith orau. Mae angen sicrhau mai'r data sy'n cael ei adolygu'n fewnol yw'r data sy'n cael ei rannu'n allanol hefyd ac felly mae angen i'r data fwydo drwy'r sefydliad yn y ffordd iawn i gynnal un ffynhonnell wirionedd. Awgrymwyd bod angen i'r Bwrdd arwain ar hyn a sicrhau bod y wybodaeth sy'n cael ei rhannu â'r Bwrdd yn cynnwys cyfeiriad at y data ategol fel un o'r gofynion safonol. Awgrymwyd bod angen i'r gwaith hwn hefyd gysylltu â'r Rhaglen Newid Diwylliant o ran ei fod yn casglu data iechyd cyhoeddus perthnasol er mwyn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd adnabod materion mewn cymunedau sy'n gofyn am drawsnewid gwasanaethau er mwyn rhoi'r manteision gorau posibl i gleifion.

**Y Diweddaraf am Ffrydiau Gwaith Strategol Digidol, Data a Thechnoleg**
Cafodd y Pwyllgor bapur a oedd yn cyfeirio at y berthynas rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Roedd y Pwyllgor yn deall y materion a drafodwyd gan awgrymu, i'r dyfodol, y gellid rheoli hyn fesul prosiect gan sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw faterion sy'n codi. Y flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd yw iechyd a lles y boblogaeth a chytunwyd y bydd y Bwrdd Iechyd yn dal i weithio'n gadarnhaol gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru gan gofio y gellid bod adegau pan fydd angen i'r Bwrdd adolygu materion sy'n hanfodol i'r busnes. Rhoddwyd diweddariad yn erbyn y ffrydiau gwaith presennol yn cadarnhau bod cyllid wedi cael ei sicrhau i ddatblygu'r achos busnes ymhellach ar gyfer system cofnodion gofal iechyd electronig ac y bydd y Bwrdd Iechyd yn awr yn bwrw ymlaen gydag achos unigol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at un o'r risgiau mawr mewn perthynas ag ymosodiadau seiber, mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â threfniadau parhad busnes ac mae hyn hefyd i fod i gael ei gynnwys fel rhan o sesiynau Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref. Cyfeiriwyd at yr heriau gydag adnoddau a'r risgiau o beidio â mynd i'r afael â'r mater hwn gan ddweud y bydd buddsoddi yn y maes hwn yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hwy yn ogystal ag yn gwella gwasanaethau a pherfformiad.

**Dull Newydd o Adnewyddu'r Strategaeth**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynnydd hyd yma gan gynnwys trafodaeth yn un o sesiynau Datblygu'r Bwrdd a Gweithdy i'r Weithrediaeth. Mae gwaith wedi dechrau i ganfod y bylchau, mae'r dulliau cysylltu presennol wedi'u sefydlu ac mae angen gwneud rhagor o waith i benderfynu pa ddulliau cysylltu ychwanegol sy'n ofynnol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y gwaith hwn ynghyd â'r angen i ganolbwyntio ar y siwrnai i greu'r strategaeth yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chwblhau ar y cyd.

**Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio a Phapur Cynnydd y Rhaglen**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynllun gweithredu ar ddatgarboneiddio sydd â'r nod o fod yn sero net erbyn 2030. Mae'r cynlluniau'n cynnwys cerbydau a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i fodloni safonau allyriadau isel iawn ac mae'r fflyd bresennol wrthi'n symud i gerbydau trydan. Ceir cynllun i newid yr holl oleuadau i LED erbyn 2025 a hefyd i symud rhai adeiladau i systemau gwresogi carbon isel. O safbwynt defnyddio trydan, mae opsiynau'n cael eu hystyried gan gynnwys trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor ar ddefnyddio fferm solar bosibl.

| EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD |
|---|
| • Ni chodwyd unrhyw eitemau |
| **Y CYFARFOD NESAF** |
| Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 22 Hydref 2024 |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Gareth Williams |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 01 Awst 2024 |
| Paratowyd y papur gan: | Gareth Williams, Is-gadeirydd |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Awst 2024 yn Llys Carlton:

- **Adroddiad Sicrwydd Iechyd Meddwl**
  Fe wnaeth y Pwyllgor drafod a nodi'r adroddiad a'r atodiadau, gan nodi'r angen am ystyriaeth bellach o'r amserlen ar gyfer rhoi gwybod i gleifion mewnol am eu hawliau.

- **Adroddiad Sicrwydd Galluedd Meddyliol**
  Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad DoLS ac MCA a'r Cynllun Gweithredu DoLS ac MCA. Nodwyd y cynnydd o ran lleihau'r ôl-groniad gan gydnabod bod y system bresennol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn anhylaw.

- **Adroddiad Sicrwydd AGIC**
  Nododd y Pwyllgor nad oedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynnal unrhyw Arolygiadau.

- **Adroddiad Diweddaru Rheolwyr Ysbytai Cyswllt**
  Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru'r Rheolwyr Cyswllt Ysbyty a mynegwyd gwerthfawrogiad o waith pwysig y Rheolwyr Cyswllt hyn.

- **Adroddiad gan y Grŵp Pŵer Rhyddhau (Rheolwyr Cyswllt)**
  Fe wnaeth y Pwyllgor dderbyn a nodi'r adroddiad Pŵer Rhyddhau.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Nid oedd unrhyw eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd

**Y CYFARFOD NESAF**

Dydd Iau 7 Tachwedd 2024

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Y Pwyllgor Taliadau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Dyfed Edwards, Cadeirydd BIPBC |
| Dyddiad cyfarfodydd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd: | 24 Gorffennaf 2024, 19 Awst 2024 a 11 Medi 2024 |
| Paratowyd y papur gan: | Llinos Roberts, Rheolwr Busnes Gweithredol (Swyddfa'r Cadeirydd) |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd mewn sesiynau preifat ar 24 Gorffennaf 2024,19 Awst 2024 a 11 Medi 2024:

- Yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i'r Bwrdd llawn gadarnhau penodiad aelodau sy'n swyddogion. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Taliadau ar 19 Awst 2024, cymeradwywyd y penodiadau canlynol i'w cyflwyno i'r Bwrdd:
  - Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
  - Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
- Diweddariadau gan swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr, a chymeradwyo camau gweithredu i symud ymlaen lle bo angen
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am benodiadau ac estyniadau asiantaeth uwch a dros dro,
- Cymeradwyo protocol y Lwfans Gweithio Hybrid
- Adroddiad ar Benderfyniad Panel y Pwyllgor Ymgynghorol ar Benodiadau (AAC) yn cadarnhau penodiadau staff Ymgynghorol
- Adroddiad chwarterol ar derfynu contractau cyfnod penodol

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Dim

**Y CYFARFOD NESAF**

28 Hydref 2024

F2.0

| Pwyllgor Adrodd: | **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** |
|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Dyfed Jones, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 13/08/24 |
| Paratowyd y papur gan: | Kirsty Thomson, Tîm Cymorth Elusennol |

**PRIF BENDERFYNIADAU / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (CFC) ar 13/08/24:
Derbyniwyd yr adroddiadau ar Fuddsoddiadau a Chyllid Chwarter 1 a Diweddariad ar y Tîm Cymorth Elusennol. Y prif bwyntiau a godwyd:

- Cyfanswm incwm (rhoddion, codi arian, cymynroddion ac incwm buddsoddiadau) ar gyfer y chwarter sy'n dod i ben 30 Mehefin 2024 yw £407,000, sef gostyngiad o £10,000 yn ystod yr un chwarter y llynedd oherwydd lleihad o ran rhoddion ac incwm codi arian.
- Cyfanswm y gwariant yn ystod y chwarter oedd £644,000 o gymharu â £446,000 yn ystod chwarter 1 y llynedd.
- Gall gwariant a ariennir trwy grantiau amrywio cryn dipyn gan ddibynnu ar y prosiectau sy'n cael eu cymeradwyo yn ystod unrhyw gyfnod. Gwariant yn ystod chwarter 1 oedd £124,000 o gymharu â £217,000 yn ystod chwarter 1 2023/24.
- Cafodd buddsoddiadau hirdymor eu prisio ar £11,133,000 ar 30 Mehefin 2024 o gymharu â £11,032,000 ar 31 Mawrth 2024.
- Cyfanswm gwariant ar gyfer credydwyr a grantiau neilltuedig oedd £1,190,000 ar 30 Mehefin 2024 ac felly, roedd digon o arian ar gael i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Cymeradwywyd Gweithdrefnau Elusennol diwygiedig, Cylch Busnes 2024/25 a Chylch Gorchwyl newydd ar gyfer y Panel Penderfynu ar Grantiau Cronfeydd Elusennol. Y prif bwyntiau a godwyd:

- Mae'r Gweithdrefnau Elusennol diwygiedig bellach yn cynnwys adrannau ychwanegol i roi eglurder ac arweiniad ar ddefnyddio cyllid elusennol ar gyfer talebau, cynadleddau a seremonïau gwobrau a cheisiadau am gyllid ymchwil a datblygiad.
- Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi sefydlu'r Panel Penderfynu ar Grantiau Cronfeydd Elusennol (CFGDP) i gyfarfod y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn rheolaidd er mwyn craffu a gwneud penderfyniadau prydlon ar yr holl geisiadau am grantiau sy'n uwch na £5,000 a'r holl geisiadau eraill am gyllid elusennol sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Mae'r trefniadau gweithredu manwl mewn perthynas â'r grŵp hwn wedi'u hamlinellu yng Nghylch Gorchwyl newydd y CFGDP.

**EITEMAU I’W HUWCHGYFEIRIO AT Y BWRDD**

**Dim eitemau i’w huwchgyfeirio.**

**Y CYFARFOD NESAF**

Caiff cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ei gynnal ddydd Mawrth, 12 Tachwedd.

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Fforwm Partneriaeth Lleol** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Carol Shillabeer, Prif Weithredwr |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 10fed Medi 2024 |
| Paratowyd y papur gan: | Fiona Lewis (Swyddog Busnes Corfforaethol) |
| **PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR** | |

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfod y Fforwm Partneriaeth Lleol ar 10fed Medi 2024:

- **Stori'r Claf – Gwasanaeth Llais Traws**
  Dywedwyd bod mesurau canlyniad y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r amseroedd aros yn llai a mwy o amseroedd clinigol i gleifion; bod mynediad i glinigau rhithiol yn gysylltiedig â'r amcan strategol (Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiad) a bod y Tîm Cyfathrebu yn gwneud llawer iawn o waith ar y cyfryngau cymdeithasol i hybu adborth.
- **Diweddariad ar Fesurau Arbennig, Medi 2024**
  Roedd ymateb da i'r adroddiad. Nodwyd y byddid yn ailedrych ar yr Adolygiad Annibynnol i Adnoddau Dynol ac y byddai'n cael ei ystyried ar agenda yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad wedi cynnwys cynllunio'r gweithlu, cydraddoldeb a llesiant staff.
- **Adroddiad Cyllid – Mis 4**
- Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol a nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau beth bynnag y cytunwyd arno yn y dyfarniad cyflog, y byddai'n rhoi dyraniad ychwanegol i gefnogi hyn, fodd bynnag, roedd peryg na fyddai'r dyraniad yn ddigon ar gyfer cyfanswm y dyfarniad cyflog. Trafodwyd y pryderon parhaus am recriwtio a chadw staff a'r pwysau mae hyn yn ei roi ar y Bwrdd Iechyd. Nododd yr aelodau fod gwaith yn parhau, gyda'r nod o ddarparu model gweithlu sylweddol, a bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd barhau i gael rheolaeth ariannol gadarn ar adnoddau a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg.

- **Diweddariad ar Gynllunio Corfforaethol, Medi 2024**
  Roedd ymateb da i'r diweddariad. Cynhaliwyd trafodaethau ymysg rhai Aelodau a oedd yn teimlo mai pur anaml, os o gwbl, yr oedd cyfeiriad at y strategaethau corfforaethol sydd yn y Cynllun Blynyddol wrth greu eu strategaethau adrannol eu hunain, er bod y Cynllun Blynyddol wedi cael ei rannu â nhw. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella fod ei dîm eisoes yn gwybod am y sefyllfa ac mai un o'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf oedd meddwl am y ffordd orau o raeadru gwybodaeth i oresgyn y broblem hon.
- **Diweddariad ar y Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth, Medi 2024**
  Diolchodd yr aelodau i'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol a'i thîm am gyflawni'r gwaith pwysig iawn hwn.
- **Diweddariad ar yr Adolygiad o'r Model Gweithredu, Medi 2024**
  Gofynnwyd i Aelodau Undebau Llafur drafod â chydweithwyr beth, yn eu barn nhw, fyddai'r ffordd orau o ymgysylltu â staff yn y Cyfnod Dylunio sydd ar y gweill.
- **Protocol GIG Cymru i Gydnabod Gwasanaeth Parhaus**
  Roedd yr Aelodau'n croesawu'r Protocol ac yn falch bod y broses wedi cael ei ffurfioli.
- **Materion a Godwyd gan Gydweithwyr Undebau Llafur**

| |
|---|
| Codwyd eitemau amrywiol, gan gynnwys hawliadau milltiroedd a'r polisi Treuliau. Cytunwyd i drafod y tu allan i'r cyfarfod.<br>• **Adroddiad Gweithlu, Medi 2024**<br>Roedd ymateb da i'r adroddiad, fodd bynnag, gyda golwg ar Grŵp Partneriaeth y Gweithlu, nodwyd bod angen annog rhagor ar Reolwyr iddynt ei gefnogi.<br>• **Diweddariad y Tîm Cydraddoldeb, Medi 2024**<br>Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gadarnhaol iawn, ond roedd cydnabyddiaeth hefyd ei fod yn codi rhai cwestiynau anodd iawn yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw ac y byddai angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn.<br>• **Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol (Materion o Bwys)**<br>Cafodd yr Aelodau wybod y bydd y Polisi ac Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Medi. Cafodd yr Aelodau hefyd wybod nad oedd proses caffael i brynu system feddalwedd newydd ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n cael ei defnyddio gan y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, wedi symud ymlaen yn ôl y bwriad, a oedd yn golygu nad oedd y gwasanaeth yn gallu cael gafael ar wybodaeth benodol. Roedd hyn wedi golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi ymuno â fforwm ar draws y DU ar gyfer Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd eraill y GIG a oedd mewn sefyllfa debyg. Gobeithio bydd hyn yn arwain at ddatrysiad yn ystod yr wythnosau nesaf. |
| **ADBORTH / CYNGOR ALLWEDDOL I'R BWRDD** |
| Roedd yr Aelodau'n gadarnhaol iawn, gyda phawb a oedd yn bresennol yn gwerthfawrogi'r newidiadau calonogol sy'n digwydd yn y Bwrdd Iechyd – gan staff a rheolwyr fel ei gilydd. Roedd cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad hefyd o'r gwaith caled parhaus sydd ei angen i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu trin yn y ffordd maent ei hangen ac yn ei haeddu. |
| **EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD** |
| Cytunwyd bod angen adnewyddu'r Cylch Gorchwyl er mwyn i'r Fforwm Partneriaeth Lleol allu symud ymlaen yn fwy rhagweithiol. Carol Shillabeer, Pam Wenger a Jan Tomlinson i drafod hyn. |
| **Y CYFARFOD NESAF** |
| Bydd cyfarfod nesaf y Fforwm Partneriaeth Lleol yn cael ei gynnal ar 6ed Tachwedd 2024. |